# Asesiad Llesiant

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

## 2017

One Powys Yn Un











Brecon Beacons National Park · PAVO · Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner · Heddlu Dyfed-Powys Police · Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru Mid and West Wales Fire and Rescue Service · Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales · GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Powys Teaching Health Board · Powys · Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | | Rsb_jcl |
| 1. | Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys | 3 |
| 2. | Priodweddau Allweddol Powys | 4 |
| 3. | Canfyddiadau allweddol o'n hasesiad | 6 |
| | Cymdeithasol | 7 |
| | Diwylliant a Chymuned | 10 |
| | Yr Economi | 11 |
| | Yr Amgylchedd | 12 |
| 4. | Beth yw'r heriau i Bowys a sut mae hyn yn effeithio ar y nodau llesiant? | 14 |
| 5. | Gwahaniaethau yn ein hardaloedd cymunedol | 17 |
| | Gogledd-ddwyrain Powys | 18 |
| | Gogledd-orllewin Powys | 19 |
| | Gogledd Canol Powys | 20 |
| | Canol Dwyrain Powys | 22 |
| | Canol Gorllewin Powys | 23 |
| | De Canol Powys | 24 |
| | De-orllewin Powys | 25 |
| 6. | Sut rydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau ni? | 26 |
| 7. | Cael gwybod mwy a pharhau i gymryd rhan | 27 |
| 8. | Canfyddiadau Allweddol Canfyddiadau | 28 |
| 9. | Canfyddiadau Allweddol Diwylliant a Chymuned | 89 |
| 10. | Canfyddiadau Allweddol Yr Economi | 114 |
| 11. | Canfyddiadau Allweddol Yr Amgylchedd | 138 |
| 12. | Dolenni ac ymatebion posibl | 169 |
| 13. | Llunio ein hasesiad Llesiant | 174 |
| 14. | Ymgysylltu | 182 |
| 15. | Canfyddiadau'r asesiad a'r effaith ar y saith nod llesiant | 197 |
| 16. | Setiau o ddata wedi'u dadansoddi nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad | 206 |
| 17. | Bylchau yn ein tystiolaeth | 208 |
| 18. | Ffynonellau gwybodaeth allweddol | 212 |
| 19. | Mesurau Cenedlaethol Llesiant | 216 |

# 1. Cyflwyniad gan Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys



Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, pleser o'r mwyaf yw cyflwyno ein Hasesiad Llesiant ar gyfer 2016.

Partneriaeth sefydliadau sector cyhoeddus y sir yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys (BGC) sydd wedi cydweithio i gyhoeddi'r asesiad hwn fel y cam cyntaf wrth ddatblygu cynllun i greu rhagolwg cadarnhaol i genedlaethau'r dyfodol. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 mae'n ofynnol i ni baratoi Cynllun Llesiant Lleol sy'n nodi sut byddwn yn gwella llesiant ein cymunedau, yn erbyn saith nod cenedlaethol (gweler adran 7 am fwy o fanylion).

Mae'r sector cyhoeddus yn parhau i wynebu pwysau ariannol na welwyd mo'i debyg o'r blaen, a mwy nag erioed, mae angen dealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen ei gyflawni dros y blynyddoedd nesaf.
Eleni, torrwyd 0.5 y cant oddi ar gyllid y cyngor gan Lywodraeth Cymru – sy'n gyfanswm o dros 70 y cant o'n cyllid. Roedd y cwtogiad hwn yn ogystal â chyfres o gyllidebau siomedig dros y blynyddoedd diweddar.
O ganlyniad i'r amgylchedd ariannol ac er mwyn rheoli'r pwysau cynyddol ar wasanaethau, mae'r cyngor wedi gorfod torri bron i £68m oddi ar ei wariant cyffredinol, a bydd angen torri £26m yn rhagor dros y tair blynedd ariannol nesaf.

Cyn i ni baratoi cynllun, rhaid i ni ddeall y pwysau y mae ein cymunedau'n eu hwynebu ar hyn o bryd a sut gallent ddylanwadu ar y dyfodol. Mae'r asesiad hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddata, tystiolaeth ac ymchwil, gan ddarparu darlun cynhwysfawr o lesiant pobl a chymunedau lleol ar hyn o bryd a sut gallent ddylanwadu ar y dyfodol. Mae'n edrych ar ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau beunyddiol pobl, materion fel iechyd, mynediad i gyflogaeth a chyfleoedd addysg/hyfforddiant, cyflwr tai a mynediad i drafnidiaeth.

Rydym wedi ymgysylltu â phreswylwyr, hen ac ifanc, busnesau a rhanddeiliaid drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys arolwg agweddau preswylwyr y cyngor sir, dros y 18 mis diwethaf er mwyn cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

Bu'r wybodaeth yn helpu i adnabod 32 o faterion gan eu dadansoddi'n fanwl – gweler adran 3. Rydym wedi canolbwyntio ar y materion pwysicaf; ffactor allweddol yw natur wledig Powys ond mae angen i ni wneud mwy i ddeall sut mae hyn yn effeithio ar lesiant.

Canfu dadansoddi gan randdeiliaid mai'r tri maes sy'n effeithio'n fwyaf negyddol ar y nodau llesiant cenedlaethol yw gallu pobl i deithio o gwmpas y sir, dewisiadau llety addas i bobl hŷn, tlodi ac amddifadedd. Ymhlith y ffactorau y cafwyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar y nodau yw darpariaeth gofal plant ddigonol, atal afiechyd, twristiaeth ac amgylchedd y sir.

Esbonia ein hasesiad (gweler adran 5) y canlyniadau hyn gan gynnwys asesiad o'r effaith hirdymor os na fydd dim byd yn newid. Rydym wedi adnabod y materion sydd bwysicaf yn lleol ac wedi edrych ar sut gellir mynd i'r afael â nhw. Yn adran 8, amlinellir syniadau cychwynnol o ran ymateb i'r blaenoriaethau sy'n dod i'r fei. Ystyrir y syniadau hyn yn fanylach wrth i ni ddatblygu ein cynllun llesiant.

Rydym yn defnyddio ein canfyddiadau i osod amcanion llesiant a bydd y rhain yn darparu'r fframwaith ar gyfer ein Cynllun Llesiant sydd i'w gyhoeddi ym mis Mai 2018. Bydd y Cynllun Llesiant yn disodli ein 'Cynllun Powys yn Un' presennol a byddwn yn adrodd yn flynyddol am sut mae'n mynd rhagddo.
Wrth i ni baratoi ein cynllun, rydym yn croesawu'ch barn gan eich annog i gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgynghori arfaethedig – bydd y manylion ar gael ar wefan Powys - **http://www.powys.gov.uk/cy/corfforaethol/dod-i-wybod-am-ymgynghoriadau-ym-mhowys/**

Dogfen fyw fydd ein hasesiad a fydd yn esblygu wrth i ni gasglu ac asesu data i ddatblygu ein cynllun at wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.






**Y Cynghorydd Barry Thomas**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys**

# 2. Priodweddau Allweddol Powys

Yn 2015, poblogaeth Powys oedd **132,642**, gyda dim ond 26 o bobl i bob cilometr sgwâr, sy'n golygu mai Powys yw'r sir deneuaf ei phoblogaeth a mwyaf gwledig yng Nghymru ac ymhlith y rhai teneuaf eu poblogaeth yn y DU.

Cyrhaeddodd poblogaeth Powys ei hanterth yn 2011 ac mae wedi bod yn disgyn ers hynny ac mae'r amcanestyniadau diweddaraf i Bowys yn rhagweld y bydd ei phoblogaeth yn gostwng 8% erbyn 2039, y cwymp mwyaf ymysg awdurdodau Cymru.

yn 2015, roedd **15%** o boblogaeth Powys yn 15 oed neu'n iau (Y DU 18%)
roedd **59%** yn oedran gweithio (Y DU 64%),
roedd **26%** yn 65 oed neu drosodd (Y DU 18%)
Mae**98.4%** o boblogaeth Powys yn wyn (Cymru: 95.6%)


Yn ôl Cyfrifiad 2011, ganed y rhan fwyaf o bobl ym Mhowys yn y DU, gyda **400** wedi'u geni yn Iwerddon, **1100** o 'hen' wledydd yr UE a **1200** o aelodau o'r UE oedd wedi ymuno ar ôl mis Ebrill 2001. Deuai 200 o weddill Ewrop, **600** o Affrica, **1300** o Asia, **500** o'r Americas a **300** o Awstralasia. (Er ein bod wedi defnyddio'r data cyhoeddedig diweddaraf, mae'r rhain yn 5 mlwydd oed erbyn hyn a byddem yn disgwyl rhai newidiadau yn y ffigurau hyn).

- Yn 2015, ymfudodd **5900** o bobl i Bowys a **5500** allan o Bowys, gydag oddeutu **400** o bob un o'r ddau lif yma'n ymfudwyr rhyngwladol.

- Mae ymfudwyr sy'n llifo allan o Bowys fel arfer rhwng 15 a 29 oed, ond mae'r llif mwyaf o bobl sy'n symud i mewn i Bowys hefyd rhwng 15 a 29 oed. Ymfudodd tua 2000 o bobl yn y grwpiau oedran hyn allan o Bowys gyda 1500 yn symud i mewn.

- "Chwalu'r myth": mae ymfudo ymysg pobl sydd wedi ymddeol ar lefel is o lawer na'r llifau hyn; dim ond 12% o'r llif i mewn i Bowys sydd ymhlith y grŵp oedran yma ac ymadawodd mwy o bobl oedd wedi ymddeol â'r sir nag y daeth i mewn. Pobl rhwng 15 a 29 oed yn bennaf yw'r rhai sy'n ymfudo i Bowys ac nid pobl sydd wedi ymddeol. Ymfudodd 1.6% o bobl 65 oed a throsodd ym Mhowys yn 2015 allan o'r sir. Mae hyn yn cymharu ag amcangyfrif o 12% o'r rhai rhwng 20 a 24 oed. Ymfudodd 3.5% o'r rhai rhwng 25 a 64 oed allan o'r sir.

Mae'r ddelwedd isod yn amlygu rhai o'r agweddau cadarnhaol ar lesiant a nodwyd gan ddinasyddion.



# 3. Canfyddiadau allweddol o’n hasesiad

Dechreuon ni’r broses o asesu llesiant ym Mhowys drwy goladu bron 300 o setiau data o amrywiaeth o ffynonellau. Mae nifer o adolygiadau ac asesiadau statudol hefyd wedi’u hystyried fel rhan o baratoi’r asesiad hwn.

Crynhowyd y data’n bum ystorfa i adeiladu set ddata gyffredin a chronfa dystiolaeth ar gyfer yr asesiad. Er mwyn dadansoddi’r setiau data’n fanylach, sefydlwyd pum gweithgor:

- Cymdeithasol (Bywyd Cynnar ac Oedolion Ifainc)
- Cymdeithasol (Bywyd Oedolion a Phobl Hŷn)
- Diwylliant a chymuned (gan gynnwys Cymunedol a Lleol)
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd

Roedd pob gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o bob partner BGC statudol a rhai sefydliadau partner anstatudol. Cytunodd BGC Powys i rannu Powys yn saith ardal gymunedol er mwyn deall yn well sut mae llesiant ar lefel leol.

Mae’r holl ddata a gasglwyd ar gyfer asesiad llesiant Powys wedi’u coladu, eu hadolygu a’u grwpio’n 33 o ganfyddiadau allweddol. Mae pob canfyddiad allweddol yn disgrifio cyflwr a phrofiad presennol llesiant pobl, gan gynnwys cryfderau ac asedau yn ogystal â heriau a phroblemau.

Penodwyd swyddog arweiniol i bob un o’r canfyddiadau allweddol i’w asesu o ran ei effaith ar y saith nod Llesiant cenedlaethol.

Am fwy o wybodaeth am sut cynhyrchwyd yr asesiad hwn gennym, dilynwch y ddolen hon:
Gweler isod am grynodeb o bob un o’r 33 canfyddiad allweddol.

## Gofalwyr:

Mae cyfanswm o 16,154 o ofalwyr digyflog ym Mhowys; mae 65% o'r rhain dros 50 oed a 39% wedi ymddeol. Yn nodweddiadol, mae eu hiechyd islaw'r cyfartaledd ac mae rhai gofalwyr bellach yn darparu dros 50 awr o ofal bob wythnos. Mae gofalwyr digyflog yn fwy cyffredin yn ne Powys, yn enwedig o gwmpas Ystradgynlais. Disgwylir i nifer y gofalwyr digyflog gynyddu dros y blynyddoedd nesaf oherwydd y boblogaeth sy'n heneiddio.

## Anghydraddoldebau Iechyd:

Mae disgwyliad oes ym Mhowys uwchben y cyfartaledd i Gymru ac yn parhau i wella. Fodd bynnag, mae bwlch anghydraddoldeb cynyddol wedi ymddangos rhwng y ddau ryw, gyda merched yn tueddu i fyw'n hirach na dynion, yn ogystal â rhwng y rhai tlotaf a'r rhai cyfoethocaf (nid eto at lefelau sy'n ystadegol arwyddocaol). Disgwylir i'r bwlch hwn ymledu dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae disgwyliad oes iach hefyd wedi'i ddosbarthu'n anghyfartal. Mae 58% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew (Cymru: 59%) ac eto mae dinasyddion Powys at ei gilydd yn iachach na gweddill Cymru. Mae 20% o oedolion yn ysmygu (Cymru: 20%) ac mae 24% o oedolion ym Mhowys yn gor-yfed o leiaf unwaith yr wythnos (Cymru: 24%). Bydd hyn yn rhoi pwysau ar wasanaethau iechyd yn y sir.

## Atal:

Mae mwy o bobl yn egnïol yn rheolaidd ym Mhowys nag yng ngweddill Cymru; mae bron 58% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew a rhagwelir y bydd hyn yn parhau i godi. Mae oedolion ym Mhowys yn sôn am lefelau llesiant emosiynol sylweddol uwch nag yng ngweddill Cymru ac ymddengys fod yr asedau angenrheidiol ar gyfer cymunedau iach yn fwy cyffredin ym Mhowys nag mewn mannau eraill. Yn ôl Age UK, mae 6-13% o bobl hŷn yn aml neu bob amser yn unig, ac mae ynysu cymdeithasol yn gysylltiedig â chynnydd yn y perygl o farw o unrhyw achos (Llywodraeth Cymru, 2014).

## Trais yn erbyn Merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

Yn 2016 mae Powys wedi gweld cynnydd o 10% yn nifer yr achosion o drais domestig sy'n cael eu riportio, o'i gymharu â 2015. Mae trais domestig i'w weld yn fwy cyffredin yng ngogledd Powys, lle mae grwpiau BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig) a LGBT (Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol) hefyd yn fwy tebygol o gael eu heffeithio arnynt. O hyd, mae llawer o droseddau'n mynd heb eu riportio a disgwylir i nifer yr achosion godi dros y blynyddoedd a ddaw. Mae'r codiad hwn yn parhau'r duedd bresennol gyda chynnydd o 75% yn gyffredinol er 2010.

## Iechyd Meddwl:

Mae gwella iechyd meddwl yn fater pwysig iawn i bobl o bob oed ac mae ei effaith yn drawsbynciol gan effeithio ar gyfleoedd bywyd, dysgu, bywyd cartref, cyflogaeth, diogelwch, iechyd corfforol, annibyniaeth a disgwyliad oes. Bydd un person ym mhob pedwar yn y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn ac mae 25% o sesiynau ymgynghori meddygon teulu yn cael eu defnyddio ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ar gyfartaledd, 11 o flynyddoedd yw'r amser a gollir gan ddynion sydd â phroblemau iechyd meddwl, tra bydd merched sydd â phroblemau cyffelyb yn colli chwe blynedd. Mae 8% o boblogaeth Powys yn sôn eu bod yn cael eu trin ar gyfer iselder neu bryder a dyma un o'r tri phrif achos o anabledd.

## Dementia:

Mae nifer yr achosion o ddementia'n cynyddu gydag oedran, gan ddyblu'n fras bob pum mlynedd i bobl sydd dros 65 oed. Mae dementia'n effeithio ar 20% o bobl dros 80 mlwydd oed yn y DU ac ar un ym mhob 14 o bobl dros 65. Ym Mhowys, tybir mai dim ond 39.6% o'r nifer amcanestynedig o bobl â dementia sydd â diagnosis. Amcangyfrifir bod 4,256 o bobl ym Mhowys dros 65 oed â dementia.

## Lleihad yn y Boblogaeth Blant:

Disgwylir i nifer y plant ym Mhowys ostwng dros y 10 mlynedd nesaf. Ceir gostyngiad mewn cyfraddau geni er 1991; amcangyfrifir erbyn 2035 y bydd 20% yn llai o blant 0-2 oed ym Mhowys. Ar ben hynny, mae llawer o bobl ifainc yn dewis gadael Powys i ddilyn cyrsiau addysg neu chwilio am waith. Disgwylir i'r newid hwn yn y boblogaeth gael nifer o effeithiau negyddol ar wasanaethau fel ysgolion, oherwydd niferoedd disgyblion gostyngol amcanestynedig, cost gynyddol gwasanaethau a'n heconomi'n gwanhau.

## Plant ag anableddau:

Anhwylder ar y sbectrwm awtistig yw'r math mwyaf cyffredin o anabledd mewn plant ym Mhowys. Yn 2016, atgyfeiriwyd 155 o achosion agored i'r tîm (gostyngiad o 13% er 2012). O'n llwyth achosion, mae 52% o blant sydd ag anableddau'n byw yng ngogledd Powys.

## Llesiant Meddwl Pobl Ifainc:

Mae pobl yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl fwyfwy ym Mhowys, yn enwedig pobl ifainc. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth. Priodolir y cynnydd hwn yn rhannol i well mynediad i wasanaethau cwnsela a gwybodaeth.

## Digonolrwydd Gofal Plant:

Mae digon o leoedd gofal plant ar hyn o bryd i ateb y gofyn.  Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u dosbarthu'n gyfartal o gwmpas y sir, gan adael rhai ardaloedd gyda gormodedd o leoedd ac eraill gyda diffyg. Bydd y galw am leoedd gofal plant yn cynyddu o fis Medi 2017 yn dilyn newidiadau i'r oed derbyn i blant ddechrau yn yr ysgol. Erbyn hyn, ni fydd ysgolion ond yn derbyn disgyblion unwaith ar ddechrau'r flwyddyn ysgol (mis Medi) ar ôl pen blwydd plentyn yn bedair oed. Mae Llywodraeth Cymru'n rhedeg ac yn ariannu cynllun addysg i blant tair oed sy'n darparu 10 awr o ofal plant yr wythnos am ddim mewn lleoliad cyn ysgol.  Ym Mhowys, bydd hwn yn codi i 12.5 awr ym mis Medi 2017.

## Gofalwyr Ifainc:

Mae nifer y gofalwyr ifainc yn cynyddu, gyda'r rhan fwyaf yn darparu hyd at 19 awr o ofal. Mae rhai gofalwyr ifainc, oherwydd eu cyfrifoldebau, yn colli amser yn yr ysgol. Gall hyn gael effaith ar eu haddysg a'u rhagolygon i'r dyfodol. Oherwydd y boblogaeth hŷn gynyddol, mae mwy o bobl ifainc yn eu cael eu hunain â chyfrifoldebau gofalu.

## Gwaharddiadau a Phrydau Ysgol Am Ddim:

Gan Bowys y mae'r ganran isaf yng Nghymru o blant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Dengys data cyfredol fwlch cyrhaeddiad rhwng myfyrwyr sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rheini sydd ddim. Mae nifer y gwaharddiadau wedi aros yn gyson, gyda rhai amrywiadau rhwng ysgolion.

## Plant sy'n Agored i Niwed:

Grŵp oedran mwyaf cyffredin plant sy'n agored i niwed yw 10-15 oed. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cael hyd i rieni maeth addas oherwydd bod eu hanghenion yn fwy. Mae mwy o blant yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, gydag esgeulustod yn cael ei nodi fel y rheswm mwyaf cyffredin. Mae nifer yr achosion a gyfeirir at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi syrthio er 2010, ynghyd â nifer y plant mewn angen. Mae profiadau andwyol yn ystod plentyndod yn straenllyd. Gall atal profiadau andwyol yn ystod plentyndod fod yn fuddiol nid yn unig i'r plant dan sylw ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol.

## Gordewdra ymysg Plant:

Mae pwysau'r rhan fwyaf o blant pedair i bump oed ym Mhowys yn iach. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi'i ddosbarthu'n gyfartal; mae 28.4% o'r pumed mwyaf difreintiedig o blant 4-5 oed ym Mhowys dros eu pwysau neu'n ordew o'u cymharu â 20.9% o'r pumed lleiaf difreintiedig. Mae cyfradd gyffredinol plant pedair i bump oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew wedi parhau ychydig o dan 25% yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

## Cyrhaeddiad addysgol:

Mae ysgolion Powys wedi dangos gwelliant o ran cyrhaeddiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae rhai ysgolion yn dal i achosi problemau o ran perfformiad yn 2016. Mae chweched dosbarthiadau hefyd yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr eraill, gyda niferoedd cynyddol o fyfyrwyr yn dewis astudio y tu allan i'r sir neu yn Lloegr.







## Cyfraddau troseddu ac amddiffyn y cyhoedd:

Powys sydd â'r nifer isaf o droseddau'n gyffredinol a'r gyfradd droseddu isaf i bob 1000 o'r boblogaeth (Heddlu Dyfed Powys). Mae troseddu i'w weld wedi codi ym Mhowys dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; sy'n deillio o'r ffordd y mae troseddau'n cael eu cofnodi. Bu cynnydd mewn rhai troseddau ym Mhowys, fel troseddau rhywiol, trosedd ar garreg y drws a throseddau seiber. Mae gan y Drenewydd y gyfradd droseddu uchaf (21.5%) o'i chymharu ag ardaloedd eraill ym Mhowys (Aberhonddu sy'n dod yn ail: 15.7% a Llanfair Caereinion yw'r isaf gyda 2.19%).

## Llety Addas i Bobl Hŷn / Byw'n Annibynnol:

Erbyn hyn mae mwy o bobl dros 65 oed yn byw ar eu pennau eu hunain ym Mhowys, gyda 19,000 o gartrefi un person allan o gyfanswm o 59,100 o gartrefi (2015). Mae nifer yn ei gweld yn fwy fwy anodd gwneud tasgau domestig sylfaenol. Mae cyfanswm o 859 o gleientiaid yn derbyn gofal cartref ym Mhowys. Mae diffyg seilwaith a thechnoleg gynorthwyol wedi golygu nad yw byw'n annibynnol mor ymarferol. Er hyn, gwelwyd cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n derbyn cymorth yn y sir. Wrth i'n poblogaeth hŷn gynyddu, bydd mwy o alw am ddewisiadau llety addas. Erbyn 2035, disgwylir y bydd mwy o bobl yn byw ar eu pennau hunain a bydd nifer y bobl sydd â dementia hefyd yn cynyddu. Bydd angen i ni sicrhau llety i ddinasyddion o fewn eu cymunedau lleol, boed yn eu cartref eu hunain, mewn llety cysgodol neu ofal ychwanegol neu gartref nyrsio.

## Diwylliant:

Rheolir llawer o wasanaethau'r celfyddydau a diwylliant gan grwpiau gwirfoddol. Nododd 19% o ddinasyddion y gallant siarad y Gymraeg (cyfrifiad 2011). Mae'r prif fröydd Cymraeg i'w cael yng ngogledd-orllewin a de-orllewin y sir. Mae'r Gymraeg wedi parhau i gael ei hyrwyddo, gyda chynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg ifanc er 1991.

## Gwasanaethau Cymunedol:

Cyflogir 12,900 o bobl yn y sector cyhoeddus (2016). Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan y sector cyhoeddus megis 98 o ysgolion, 17 o lyfrgelloedd cangen a 2 lyfrgell deithiol, 16 o ganolfannau hamdden, 10 ysbyty, 18 gorsaf dân ac 14 o orsafoedd heddlu. Mae'r sector gwirfoddol yn cynnwys dros 4,000 o grwpiau ac amcangyfrifir eu bod yn cyfrannu £174 miliwn i'r economi. Mae gan Bowys lawer iawn o gymunedau bychain ac iddynt ysbryd cymunedol cryf. Mae 81% o ymatebwyr yn cytuno mai lle diogel i blant chwarae y tu allan yw Powys. Cynghorau eraill yng Nghymru sydd â'r sgôr uchaf yw Ynys Môn a Gwynedd.

## Seilwaith:

Er bod band eang cyflym iawn wedi'i alluogi mewn llawer o ardaloedd ym Mhowys, mae hyd a lled gwasanaethau ffonau symudol a chyflymderau'r rhyngrwyd yn dal i fod yn wael mewn llawer o ardaloedd gwledig yn y sir. Erbyn mis Mehefin 2017, dylai 96% o Bowys fod â mynediad i fand eang cyflym iawn oherwydd prosiect Cyflymu Cymru. Mae fforddiadwyedd tai (pris tai ar gyfartaledd yn erbyn cyflog ar gyfartaledd) yn atal pobl rhag aros ym Mhowys ac mae cysylltiadau gwael o ran ffyrdd a rheilffyrdd hefyd yn lleihau mynediad i gyflogaeth o ran amserau teithio cyfleus a chysylltiadau addas.

## Twf Busnes:

Mae gan Bowys ganran uchel o ficrofusnesau.  Er ein bod wedi gweld twf o 3% yn y sir mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (8%). Mae hunangyflogaeth yn uchel ac mae cyfran helaeth o'r boblogaeth yn gweithio mewn swyddi rhan-amser ar gyflog islaw'r cyfartaledd. Ceir hefyd ddibyniaeth uchel ar y sector cyhoeddus fel ffynhonnell gwaith.

## Twristiaeth:

Mae twristiaeth wedi parhau i dyfu a darparu buddsoddiad £720 miliwn i'r economi leol. Mae Sir Drefaldwyn yn denu'r nifer mwyaf o ymwelwyr sy'n aros dros nos ac mae lleoliadau yn y de tuag Aberhonddu yn denu mwy o ymwelwyr undydd. Mae twristiaeth ar ei hamlycaf yn yr ardaloedd gwledig, gyda bwyd a diod yn cynrychioli adran fwyaf y diwydiant o ran incwm. Roedd twf o 6% bron mewn twristiaeth yn ystod 2014-15 a gall hyn barhau yn y tymor byr; fodd bynnag, mae perygl y bydd niferoedd yr ymwelwyr yn gostwng yn y dyfodol os nad yw gwasanaethau hyrwyddo'n parhau.

## Cyflogaeth a Sgiliau:

Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd yn uchel ym Mhowys ac mae gennym gyfradd isel iawn o bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra. Mae niferoedd isel o bobl sy'n chwilio am waith ac mae cynhyrchiant ym Mhowys yn isel o'i gymharu â'r DU, o bosib o ganlyniad i'r nifer mawr o bobl sy'n gweithio mewn swyddi rhan-amser. Ar hyn o bryd, mae adfywio'n cyfeirio busnesau at ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chyllid posibl gan chwarae rôl weithredol wrth helpu i gael hyd i adeiladau a swyddfeydd. Rydym hefyd yn helpu i ddarparu cymorth busnes i unigolion a chwmnïau newydd.

## Tlodi ac Amddifadedd:

Mae rhai ardaloedd ym Mhowys yn hynod ddifreintiedig oherwydd bod llawer o bobl mewn gwaith rhan-amser (mae 46% o ferched yn gweithio'n rhan amser) neu ar gyflog isel iawn. Yn 2016, y cyflog wythnosol cyfartalog ym Mhowys oedd £366 (Cymru: £407, Y DU: £439). Dyma ostyngiad o £15 yr wythnos ym Mhowys er 2015, tra bu codiad o £19 yng Nghymru a £14 yn y DU. Y gyfradd ddiweithdra yw 1% (1.3% yn ddynion, 0.8% yn ferched) ac mae nifer isel o aelwydydd diwaith ym Mhowys (15.3%, Cymru: 19.4%).

Mae tlodi tanwydd yn digwydd yn aml oherwydd diffyg mynediad i danwyddau rhatach na'i gilydd fel nwy. Mae cyfraddau perchentyaeth yn gostwng ymhlith y genhedlaeth iau ac mae pobl yn aros yn y sector rhentu. Mae amserau teithio i feddygfeydd teulu a gwasanaethau cyhoeddus eraill yn eithriadol o wael; mae Ystradgynlais yn enwedig yn y 10% gwaethaf o holl ardaloedd Cymru.

## Ynni adnewyddadwy:

Mae Powys yn arbed y meintiau mwyaf o garbon deuocsid a hefyd, y sir hon yw'r cynhyrchydd carbon isel mwyaf yng Nghymru yn y sectorau biomas, gwynt ar y tir a solar thermol. Mae celloedd solar ffotofoltaig yn ffurfio cyfanswm o 60% o'r holl brosiectau ynni adnewyddadwy ym Mhowys.

## Ynni mewn tai:

Mae llawer o'n cartrefi heb fod yn ynni-effeithlon nac wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy. Mae'r rhan fwyaf o'r cartrefi hyn yn dibynnu ar ffurfiau eraill ar systemau gwresogi sy'n fwy carbon-ddwys, megis olew, nwy petrolewm hylifedig a glo, sydd at ei gilydd yn llai economaidd i'w rhedeg. Mae'r defnydd trydan yn uchel o'i gymharu â gweddill Cymru. Wrth i brisiau ynni gynyddu, mae pobl yn ei chael yn fwyfwy anodd gwresogi eu cartrefi.

## Eich Amgylchedd Lleol

Mae cyfraddau ailgylchu'n cynyddu ym Mhowys, o 50.9% (2012/13) i 59.1% (2015/16). Cynyddodd cyfraddau Cymru 7.9% yn ystod yr un cyfnod.
Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn aros islaw gweddill Cymru. Rydym yn gweld mwy o achosion o faeddu gan gŵn, glendid gwael ar y priffyrdd a graffiti. Mae ailgylchu'n parhau'n amlwg fel rhywbeth y mae'r cyhoedd yn teimlo'n gryf yn ei gylch.

## Newid yn yr Hinsawdd:

Mae'r hinsawdd fyd-eang yn newid gan arwain at godiad yn lefelau'r môr, allyriadau carbon deuocsid cynyddol a thymereddau cyfartalog uwch. Gallai hyn esgor ar achosion cynyddol o lifogydd mewn rhai ardaloedd, difrod i ecosystemau a mwy o blâu a chlefydau.

## Amgylchedd Cydnerth:

Mae amgylchedd iach a chydnerth yn creu'r amodau ar gyfer cymdeithas ffyniannus a chynaliadwy. Mae gennym ardaloedd helaeth o goetir (15%), gwarchodfeydd natur ac 80 safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SODdGA). Mae ychydig dros 70% o dir Powys yn cael ei ffermio. Dynodir 85% o Bowys fel Ardal Lai Ffafriol; ardaloedd yw'r rhain lle ystyrir bod gweithgarwch amaethyddol yn anodd. Mae ansawdd yr aer ym Mhowys yn dda ac mae ei hallyriadau CO2 yn is na gweddill Cymru (6.7 tunnell y person o'u cymharu ag 8.7 tunnell yng ngweddill Cymru). Dengys tystiolaeth fod ein hamgylchedd naturiol yn parhau i gael ei roi o dan bwysau, er enghraifft, mae sawl ffynhonnell ddŵr ym Mhowys wedi'i halogi â llygryddion ac mae 6,650 o adeiladau mewn perygl o lifogydd.

## Mwynhau'r Amgylchedd:

Mae tirwedd Powys – ein mynyddoedd, afonydd, llynnoedd a'n tirweddau lawr gwlad – yn rhoi i ni amgylchedd rhyfeddol i fyw a gweithio ynddo a'i fwynhau. Mae'n darparu cefnlen i'r diwydiant twristiaeth ac yn ein helpu i arwain bywydau iachach a gwell. Fodd bynnag, o'r 9,250km o lwybrau tramwy ym Mhowys, dim ond 40% sy'n agored ac yn hawdd eu defnyddio ac nid yw cysylltiadau trafnidiaeth yn hwyluso mwynhau'r amgylchedd chwaith.

## Teithio o gwmpas Powys:

Mae gan Bowys un o'r rhwydweithiau ffyrdd sy'n cael ei gynnal a'i gadw waethaf yng Nghymru, gyda 5,500km o ffyrdd, 1.49 biliwn o gilometrau o draffig ffordd (2015) a fawr o dagfeydd traffig. Wrth i'r boblogaeth hŷn gynyddu, gall hyn gael effaith ar ofal iechyd a gwasanaethau statudol. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar gyfer teithio rheolaidd, dim ond 1% o'r boblogaeth sy'n defnyddio bysiau cyhoeddus ac mae pobl yn anfodlon ar y gwasanaeth bysiau. Mae 2 lein reilffordd ym Mhowys, Lein y Cambrian sy'n rhedeg drwy'r Trallwng a'r Drenewydd tuag Aberystwyth a lein Calon Cymru sy'n rhedeg o Craven Arms i Lanelli, gan gludo 110,000 o deithwyr y flwyddyn. Nid yw gwasanaethau trafnidiaeth ar draws Powys wedi'u hintegreiddio â darparwyr eraill yn y sir ac felly nid ydynt yn gwneud y gorau o'n hadnoddau.





## 4. Beth yw'r heriau i Bowys a sut mae hyn yn effeithio ar y nodau llesiant?

IEr mwyn cymharu ac asesu lefel yr effaith ac a yw'r canfyddiad allweddol dan sylw yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant, datblygwyd a chytunwyd ar fethodoleg sgorio. Mae'r templed isod yn dangos y fethodoleg sgorio. Gofynnwyd i'r gweithgorau yn y digwyddiadau herio ystyried a oedd y canfyddiad allweddol yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol, neu hyd yn oed heb gael effaith,  ar bob un o'r saith nod llesiant ac yna ystyried difrifoldeb/pwysigrwydd yr effaith.

| Nod Llesiant | Pwysig iawn (effaith negyddol uniongyrchol) | Sylweddol (Effaith negyddol anuniongyrchol) | Cymedrol (effaith negyddol bosibl) | Dim effaith | Cymedrol (effaith gadarnhaol bosibl) | Sylweddol (effaith gadarnhaol anuniongyrchol) | Pwysig (Effaith gadarnhaol uniongyrchol) | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Lewyrchus (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru Gydnerth (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru Gydnerth (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru sy'n Fwy Cyfartal (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru o Gymunedau Cydlynus (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru  â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (Powys) | | | | | | | | |
| Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel fyd-eang (Powys) | | | | | | | | |

Mae'r sgoriau a roddwyd gan bob un o'r gwahanol grwpiau wedi cael eu triongli a'u cymedroli i gyrraedd sgôr gyffredinol i bob un o'r 31 o ganfyddiadau allweddol. Mae'r canfyddiadau wedi gadael i ni adnabod y canfyddiadau allweddol sydd yn nhyb y rhanddeiliaid yn cael yr effaith fwyaf andwyol a mwyaf ffafriol ar y 7 nod llesiant.

Mae ein canfyddiadau wedi dangos i ni mai'r tri chanfyddiad allweddol uchaf sy'n cael effaith negyddol uniongyrchol ar lesiant ym Mhowys yw:

- Teithio o gwmpas Powys
- Llety addas i bobl hŷn
- Tlodi ac amddifadedd.

Ni chafodd y rhan fwyaf o'r canfyddiadau allweddol effaith ond ar un neu ddau nod llesiant. Mae 'Teithio o gwmpas Powys' yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar bedwar nod llesiant. Digonolrwydd gofal plant yw'r unig ganfyddiad allweddol sy'n cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar lesiant ym Mhowys.

Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau sgorio ar gyfer y 31 o ganfyddiadau allweddol, gan gynnwys y rheini a ddynodwyd fel rhai oedd yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol uniongyrchol pwysig ar lesiant Powys ar hyn o bryd.

Mae'r asesiad hwn yn dadansoddi'r llesiant a geir ym Mhowys ar hyn o bryd. Mewn asesiadau blaenorol, nid ydym wedi edrych ymlaen i'r dyfodol. Fodd bynnag, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 wedi ysgogi sefydliadau cyhoeddus i feddwl am y goblygiadau hirdymor a gall wir fod yn hollbwysig wrth benderfynu ansawdd bywyd i genedlaethau'r dyfodol. Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru bob pum mlynedd wedi ein helpu i feddwl am dueddiadau tebygol yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yng Nghymru.

Yn dilyn hyn, rydym wedi rhagweld yr effaith tebygol os nad ydym yn ymyrryd mewn cysylltiad â phryderon cyfredol. Mae ein casgliadau'n dangos mai materion cymdeithasol neu amgylcheddol yw'r rhan fwyaf o ganfyddiadau allweddol.


Y pedwar canfyddiad allweddol yn yr hirdymor a all hefyd effeithio ar lesiant ym Mhowys yw:

- Lleihad yn y boblogaeth blant yn effeithio ar fusnesau a gwasanaethau ym Mhowys;
- Digonolrwydd gofal plant;
- Ynni ac
- Ein hamgylchedd

| **Key** | |
|---|---|
| (dark red) | Negative - Critical |
| (red) | Negative - Substantial |
| (light red) | Negative - Moderate |
| (grey) | No current impact on well-being |
| (light green) | Positive - Moderate |
| (green) | Positive - Substantial |
| (dark green) | Positive - Critical |
| ★ | Negative - Critical (if no intervention) |
| | No Score Given |


| **Canfyddiadau allweddol pwysig** | **Powys Lewyrchus** | **Powys Gydnerth** | **Powys Iachach** | **Powys Gyfartal** | **Powys Gydlynus** | **Powys Fywiog** | **Powys sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Teithio o gwmpas Powys | | | ★ | ★ | | | |
| Tlodi ac Amddifadedd | | | | ★ | | | |
| Llety addas i bobl hŷn/byw'n an-nibynnol | | | | | | | |
| Ynni Mewn Tai | | ★ | | ★ | | | ★ |
| Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | ★ | | |
| Seilwaith | | | | | ★ | | |
| Anghydraddoldebau Iechyd | | | | ★ | | | |
| Gwaharddiadau a phrydau ysgol am ddim | | | | ★ | | | |
| Gordewdra Plant | | | | | | | |
| Llesiant meddwl pobl ifainc | | | | | | | |
| Trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | | | | | | | |
| Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | ★ | |
| Twf Busnes | | | | | | | |
| Gofalwyr Ifainc | | | | ★ | ★ | | |
| Plant sy'n Agored i Niwed | | | | | | | |
| Lleihad yn y boblogaeth blant | ★ | | | | ★ | | |
| Gofalwyr | | | | | | | |
| Mwynhau'r Amgylchedd | | | | | | | |
| Amddiffyn y Cyhoedd | ★ | | | | | | |
| Plant ag Anableddau | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd | | ★ | | | | | ★ |
| Atal | | | ★ | | | | |
| Gwasanaethau Cymunedol | | | | | | | |
| Amgylchedd cydnerth | | ★ | | | | | ★ |
| Cynhyrchu Adnewyddadwy | | | | | | | |
| Eich Amgylchedd Lleol | | | | | | | |
| Twristiaeth | | | | | | | |
| Digonolrwydd Gofal Plant | ★ | | | | | | |
| Iechyd Meddwl | | | | | | | |
| Dementia | | | | | | | |
| Diwylliant | | | | | | | |

# 5. Gwahaniaethau yn ein hardaloedd cymunedol




Mae'r adran hon yn edrych ar y gwahaniaethau presennol o ran llesiant ar draws y saith ardal gymunedol. Mae'r map o Bowys isod yn dangos y ffiniau ar gyfer y saith ardal gymunedol a'r 13 o ardaloedd sy'n gorwedd y tu mewn iddynt.

## Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd y Trallwng a Threfaldwyn a Llanfyllin




### Poblogaeth - 27,676

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 19% (5,199) |
| 18-64 oed | 56% (15,394) |
| 65-84 oed | 22% (6,093) |
| 85+ oed | 4% (990) |

Cymraeg

### Siaradwyr Cymraeg - 5,013 (18.1%)

### Mewn gwaith - 13,834

### Arwynebedd - 818.4km2

Un o brif ganolfannau gwaith y sir yw'r Trallwng sydd hefyd yn ganolfan ddiwydiannol allweddol. Mae canran fawr o'r boblogaeth yn gweithio yma gan gael eu cyflogi gan y sector cyhoeddus.

O fewn yr ardal gymunedol yma, yn ardal Nant Cegidfa y ceir y nifer isaf o leoedd gofal plant ym Mhowys, gyda dim ond 13 o leoedd i bob 100 o blant. Ar ben hynny, mae gan y Trallwng y nifer uchaf o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn y sir. Dangosydd amddifadedd cryf yw hwn a atgyfnerthir ymhellach gan y sgôr isel a briodolir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc).

Mae'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yn yr ardal gymunedol hon yn cynnwys rhai o'r gwahaniaethau mwyaf o ran disgwyliad oes ar gyfer y ddau ryw. Mae'r lefelau disgwyliad oes isaf wedi'u crynhoi fwyaf yn ardal y Trallwng. Mae gan Ogledd-ddwyrain Powys lefelau cyfranogi is o ran gweithgarwch corfforol o'u cymharu â mannau eraill ym Mhowys, er nad gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol mo hwn. Ar yr un pryd, mae ganddi'r ganran uchaf o'r boblogaeth sy'n sôn eu bod yn bwyta'r pum nogn o ffrwythau a llysiau bob dydd a argymhellir - eto, nid gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol mo hwn.

Mae gan yr ardal gymunedol yma y nifer uchaf o adeiladau ynni-aneffeithlon ym Mhowys. Gellir priodoli hyn i'r nifer mawr o adeiladau hŷn sydd heb inswleiddio modern. Mae'r defnydd trydan yn y gymuned hon hefyd yn uchel, gyda'r gyfradd ddefnyddio uchaf ar gyfartaledd yn Nhrefaldwyn.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned

### 5 ymgysylltu Pethau Positif

- Mae'r Trallwng yn gwneud yn dda gyda mannau a thoiledau glân.
- Mae cael llety addas wedi golygu mod i'n fwy actif ac mae hyn wedi gwella fy lles.

### Meysydd blaenoriaeth:

- Tlodi cudd – defnyddio banciau bwyd.
- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Mae ffermydd gwynt yn cael effaith andwyol ar y dirwedd.
- Twf Busnes. Angen mwy o gynlluniau adnewyddadwy bach.
- Nid gwirfoddolwyr yw'r ateb o ran cadernid cymunedau. Dim ond rhywfaint y gallan nhw ei wneud.

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardal Machynlleth**




**Poblogaeth - 6,154**

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 18% (1,094) |
| 18-64 oed | 57% (3,505) |
| 65-84 oed | 22% (1,337) |
| 85+ oed | 4% (218) |

Cymraeg

**Siaradwyr Cymraeg - 3,249**

**Mewn gwaith - 3,071**

**Arwynebedd - 507.9 km2**

Ynghyd ag ardal gymunedol De-orllewin Powys, mae gan Ogledd-orllewin Powys un o'r canrannau mwyaf o blant pedair a phump oed sydd naill ai dros eu pwysau neu sy'n ordew. Mae hyn yn gysylltiedig yn agos â'r lefelau uwch o amddifadedd yn yr ardaloedd hyn (mae arwyddocâd y gwahaniaeth hwn heb ei brofi). Mae cyfradd gordewdra mewn oedolion ychydig o dan 20%. Ar ben hynny, mae gan yr ardal gymunedol yma y gyfradd ysmygu uchaf ym Mhowys, er nad yw'r gwahaniaeth yn y gyfradd yn cyrraedd arwyddocâd ystadegol. Mae gan y rhanbarth hwn, yn enwedig ardal Machynlleth, y ganran uchaf o bobl y tybir eu bod yn byw mewn tlodi tanwydd oherwydd y math o dai a'r diffyg mynediad i danwyddau rhatach. Mae gan yr ardal hon y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned

**Cynhaliwyd 3 digwyddiad**

- Mae Machynlleth yn le braf i fyw gydag amgylchedd glân.
- Gwasanaeth bws da i Aberystwyth ond mae'n gorffen am 6 pm

**Meysydd blaenoriaeth:**

- Iechyd Meddwl
- Gwaith a sgiliau
- Llai o arian cyhoeddus
- Newid yn yr hinsawdd
- Llety addas i bobl hŷn
- Addysg
- Amgylchedd lleol – cymunedau glân a gwyrdd.

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd y Drenewydd, Llanfair Caereinion a Llanidloes**




**Poblogaeth - 29,758**

| | |
|---|---|
| Age 0-17 | 20% (6,070) |
| Age 18-64 | 57% (16,832) |
| Age 65-84 | 20% (5,984) |
| Age 85+ | 3% (872) |

**Siaradwyr Cymraeg - 5,029**

**Mewn gwaith - 14,814**

**Arwynebedd - 848.1 km2**

Y Drenewydd yw prif dref yr ardal gymunedol yma, yn ogystal â bod yn un o brif drefi'r sir. Un o'r prif ganolfannau gwaith yw hi yn ogystal â bod yn ardal ddiwydiannol bwysig. Mae gan yr ardal gymunedol y ganran uchaf o'r boblogaeth weithio sydd rhwng 20 a 39 oed. Ar yr un pryd, mae ganddi'r ganran isaf o bobl 60 oed a throsodd. Fel gyda'r Trallwng a Gogledd-ddwyrain Powys, mae nifer o fusnesau mawr â'u cartref yn y Drenewydd, yn ogystal â chanran fawr o fusnesau maint canolig y sir. Mae hyn yn awgrymu bod y Drenewydd, yn ogystal â'r Trallwng, yn sbardun canolog i'r economi leol ym Mhowys.

Yn yr ardal gymunedol hon, yn y Drenewydd y ceir y nifer uchaf o leoedd gofal plant, gydag 86 o leoedd i bob 100 o blant. Ar ben hynny, yn seiliedig ar y nifer o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, yr ardal gymunedol yma yw un o'r rhai mwyaf difreintiedig yn y sir. Gan ychwanegu ymhellach at y dystiolaeth hon, mae gan Ogledd Canol Powys y nifer uchaf o blant sydd wedi'u rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant.

Mae gan rai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol yng Ngogledd Canol Powys gyfraddau disgwyliad oes cymharol isel ar gyfer dynion o'u cymharu â Phowys yn ei chrynswth. Mae rhai o'r ardaloedd hyn hefyd yn dangos cyfraddau ysmygu cymharol uchel. Fodd bynnag, gwelir cyfraddau gordewdra cymharol isel mewn oedolion yn yr ardal. Mae gan yr ardal y nifer isaf o ofalwyr digyflog.

Yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae rhai rhannau bach o'r ardal hon yn ddifreintiedig iawn, gyda sgorau gwael yn gysylltiedig ag iechyd a'r economi. Ceir tystiolaeth bellach yn y nifer uchel o gyflwyniadau digartrefedd, yn ogystal â'r cynnydd mawr yn nifer y troseddau sy'n cael eu riportio.

Mae gan y Drenewydd yn arbennig, ond hefyd yr ardal gymunedol yn gyffredinol, y nifer uchaf o adeiladau ynni-effeithlon. Mae gan yr ardal hefyd y nifer uchaf o adeiladau sy'n gysylltiedig i'r rhwydwaith nwy, yn hytrach na dibynnu ar ffynonellau tanwydd eraill.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned

**Cynhaliwyd 7 digwyddiad ymgysylltu**

**Pethau Positif**

- Cael cynllun tai gofal ychwanegol yn yr ardal, ond mae angen mwy o gynlluniau tebyg.
- Mae 18 o welyau yn yr ysbyty cymunedol lleol yn Llanidloes, ond mae nifer o'r rhain yn llawn â phobl mor bell i ffwrdd â'r Trallwng.
- Mae'r cynllun 'deialu am daith' yn wych ond maen nhw'n brwydro i gael arian.
- Gofal plant gwych yn y dref.
- Mae trigolion yn gallu gweld manteision y ffordd osgoi i'r Drenewydd, ac yn teimlo y byddai'n adfywio'r ardal ac yn hybu twf busnes a lleihau tagfeydd traffig.
- Sgop am fwy o gysylltiadau o ran twristiaeth, yr amgylchedd a iechyd meddwl. Cynhaliwyd 5 digwyddiad

**Meysydd blaenoriaeth:**

- Llai o arian cyhoeddus
- Seilwaith
- Gwaith a sgiliau
- Cyrhaeddiad addysgol
- Twf Busnes
- Teithio o amgylch Powys
- Amgylchedd lleol

# Canol Dwyrain Powys

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd Trefyclo a Llanandras**



**Poblogaeth - 9,784**

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 17% (1,630) |
| 18-64 oed | 54% (5,254) |
| 65-84 oed | 26% (2,567) |
| 85+ oed | 3% (333) |

**Siaradwyr Cymraeg - 835 (8.5%)**

**Mewn gwaith- 4,840**

**Arwynebedd - 525.4 km2**

O fewn yr ardal gymunedol yma mae gan Drefyclo a Llanandras y poblogaethau gweithio mwyaf dros 60 oed ym Mhowys.

Mae'r ardal hon yn rhan o Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Uwch gyda rhai o'r cyfraddau gor-yfed isaf ym Mhowys. Mae'r gyfradd or-yfed yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru ac yn is na'r ardaloedd cymunedol eraill ym Mhowys (er nad yw hyn o arwyddocâd ystadegol).

Nodir rhan o Ganol Dwyrain Powys fel ardal ddifreintiedig iawn, gyda sgôr isel gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ym meysydd iechyd a'r economi. Hefyd, mae gan yr ardal y gyfran fwyaf o oedolion heb gymwysterau. Ceir diffyg cyflogwyr mawr yn yr ardal hon.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned


**7 engagement events held**
**Pethau Positif**

- Residents interested in well-being and pleased to be invited to have their say via mix of channels
- There are some good shops in existence in the area including real ale pubs and local markets
- Some good social groups and clubs exist like gardening club, events at the memorial hall, library and arts
- Great place to live for the surrounding countryside and ability to get out in the fresh air

**Meysydd Blaenoriaeth:**

- Llai o arian cyhoeddus
- Teithio o amgylch Powys
- Mwynhau'r amgylchedd
- Eich amgylchedd lleol
- Byw'n annibynnol

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd Llandrindod a Rhaeadr Gwy a Llanfair-ym-Muallt a Llanwrtyd**




**Poblogaeth- 19,505**

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 18% (3,540) |
| 18-64 oed | 54% (10,437) |
| 65-84 oed | 24% (4,744) |
| 85+ oed | 4% (784) |

**Siaradwyr Cymraeg - 2,484 (12.7%)**

**Mewn gwaith- 9,005**

**Arwynebedd - 1034.7 km2**

O fewn yr ardal gymunedol yma, gan drefi Llandrindod a Rhaeadr Gwy y mae'r ganran isaf o'r boblogaeth weithio 40 - 59 oed. Mae gan yr ardal ganran fach o'r gweithlu sy'n cynnwys grwpiau oedran iau, gyda'r mwyafrif sy'n weddill yn cael ei ffurfio gan grwpiau oedran hŷn. Bu'r ardal gymunedol hon yn sgorio'n wael yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Er nad yw mor ddifreintiedig ag ardaloedd eraill ym Mhowys, mae'r ardal yn dal i sgorio'n wael o ran y mesuriadau economaidd. Mae dwy ysgol uwchradd yn destun mesurau arbennig gan Estyn oherwydd perfformiad anfoddhaol a diffyg gwelliannau'n ddiweddar.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned


**Cynhaliwyd 19 o ddigwyddiadau Pethau Positif**

- Cymunedau clos yn yr ardal hon ac mae pobl yn tueddu i edrych ar ôl ei gilydd.
- 2 nyrs gardiaidd wych yn Llandrindod.
- Ysbyty Llandrindod yn dda am gael apwyntiadau.
- Grwpiau da'n bodoli yn Llanfair-ym-Muallt o ran cefnogi pobl hŷn.
- Gyrwyr cludiant cymunedol yn wych – diffyg gwirfoddolwyr a lle yn broblem.
- Dosbarthiadau'r canolfannau chwaraeon yn boblogaidd yn cael eu defnyddio'n amlach.

**Meysydd blaenoriaeth:**

- Teithio o amgylch Powys (a thu allan i Bowys am apwyntiadau ysbyty)
- Gwaith a sgiliau
- Cyrhaeddiad addysgol
- Iechyd meddwl
- Llai o arian cyhoeddus
- Llety addas i bobl hŷn
- Seilwaith
- Byw'n annibynnol.

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardaloedd Aberhonddu, y Gelli Gandryll a Thalgarth a Chrughywel**




**Poblogaeth - 29,658**

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 19% (5,572) |
| 18-64 oed | 55% (16,436) |
| 65-84 oed | 22% (6,661) |
| 85+ oed | 3% (989) |

Cymraeg

**Siaradwyr Cymraeg - 3,505 (11.8%)**

**Mewn gwaith-14,795**

**Arwynebedd - 1278.3 km2**

Aberhonddu a Chrughywel yw'r prif drefi yn yr ardal hon. O fewn yr ardal gymunedol yma, mae ardal Crughywel yn rhywle gyda diweithdra isel a mwy o gyfoeth i'w weld o'i chymharu â threfi eraill yn yr ardal. Fodd bynnag, mae gan y rhanbarth hwn hefyd y ganran isaf o'r boblogaeth weithio rhwng 20 a 29 oed. Fodd bynnag, yn y grŵp oedran 49-59 y mae'r rhan fwyaf o drigolion mewn gwaith, yn hytrach na thros 65.

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn rhoi sgôr isel i'r ardal hon, yn seiliedig ar yr economi a ffactorau iechyd. Mae hyn yn arbennig o wir o gwmpas ardaloedd Aberhonddu a Sant Ioan. Mae Aberhonddu ei hun wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y rhai sy'n datgan eu hunain i fod yn ddigartref. Fodd bynnag, ar yr un pryd, gan Dde Canol Powys y mae'r ganran isaf o drigolion y tybir eu bod mewn tlodi tanwydd a hefyd y gyfradd isaf ar gyfartaledd o ddefnyddio trydan.

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned

**Cynhaliwyd 4 digwyddiad**

**Pethau Positif**

- Mae digon o adnoddau am ddim yng nghymuned Aberhonddu i atal cyflyrau iechyd.
- Annog mwy o gerddwyr i ddefnyddio canol tref Aberhonddu
- Ymlaen â'r gwaith da – mae'r siartr fasnach yn syniad da.
- Mae gan y sir gymaint i'w chynnig, gan gynnwys y parc cenedlaethol. Mae'n dda gweld Powys yn gwneud mwy i ddathlu hyn.
- Cynnwys pobl ar lefel llawr gwlad.

**Meysydd blaenoriaeth:**

- Gwaith a sgiliau
- Llai o arian cyhoeddus
- Teithio o amgylch Powys.
- Amgylchedd iach a chadarn
- Byw'n annibynnol
- Twf Busnes
- Gwasanaethau cymunedol.

**Mae'r ardal hon yn cynnwys ardal Ystradgynlais**




**Poblogaeth - 10,107**

| | |
|---|---|
| 0-17 oed | 18% (1,825) |
| 18-64 oed | 56% (5,696) |
| 65-84 oed | 22% (2,225) |
| 85+ oed | 4% (361) |

Cymraeg

**Siaradwyr Cymraeg - 3,875**

**Mewn gwaith - 4,273**

**Arwynebedd - 166.8 km2**

Mae gan yr ardal gymunedol yma gyfran uchel o fyfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o'i chymharu â chymunedau eraill ym Mhowys. Mae gan yr ardal y ganran uchaf o blant 4-5 oed sy'n ordew neu dros eu pwysau yn y sir. Gan Dde-orllewin Powys hefyd y mae'r gyfradd uchaf o bobl sydd yn rheolaidd yn yfed uwchben y canllawiau a argymhellir. Yn yr ardal gymunedol yma, yn Ystradgynlais hefyd mae'r nifer uchaf o ofalwyr digyflog yn y sir. Mae'r ardal wedi gweld lleihad cyffredinol o 3% o ran cyfanswm y boblogaeth ddigartref. Mae gan yr ardal gysylltiadau trafnidiaeth da ag Abertawe a chanolfannau trefol eraill. Yn ddiweddar, mae'r ysgol uwchradd ac ysgolion cynradd lleol wedi cael eu hailddatblygu'n helaeth, gyda nifer mawr o fyfyrwyr Cymraeg iaith gyntaf yn cael eu derbyn. Hefyd, mae cysylltiadau cryf rhwng

## Sylwadau ar ffrwyth ein gwaith ymchwil ar ôl ymgysylltu â'r gymuned

**Cynhaliwyd 7 digwyddiad**
**Pethau Positif**

- Posibilrwydd i greu cysylltiadau rhwng y cyngor ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog ar ddarparu sgiliau i bobl ifanc a allai arwain at waith.
- Cysylltiadau ysbyty lleol ac integreidio gofal iechyd yn dda/yn gwella. Mwy o sgop i integreiddio ymhellach.
- Ysgol Abercraf yn wych. Cysylltiadau da â'r Cyfeillion a rhieni'n cefnogi gwahanol ddigwyddiadau codi arian, gydag athrawon a phawb yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r gymuned. Plannu cennin pedr yn ddiweddar. Potensial i sicrhau mwy o gysylltiadau.
- Mwynhau'r amgylchedd – llefydd anhygoel i gerdded a mwynhau'r awyr iach. Angen mwy o waith hyrwyddo.

**Meysydd blaenoriaeth:**

- Teithio o amgylch Powys.
- Iechyd Lles – pobl ifanc a hŷn.
- Ymyrraeth gynnar ac atal
- Seilwaith

# 6. Sut ydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau?

Fel rhan o'r asesiad hwn, fe wnaethom gynnwys a cheisio barn a sylwadau dinasyddion a chymunedau Powys er mwyn ceisio deall beth yw llesiant, nodi'r meysydd hynny sy'n achosi pryder mewn perthynas â llesiant, a thrin a thrafod sut y gellid ei wella nawr ac i'r dyfodol.

Er mwyn casglu sylwadau'r dinasyddion, fe wnaethom yn gyntaf edrych ar y data sy'n bodoli eisoes, gan ganolbwyntio ar arolygon gyda chwestiynau agored am brofiadau presennol pobl ar lesiant. Roedd hyn yn cynnwys ymchwil cymdeithasol a oedd yn dal sylwadau trigolion ar ansawdd bywyd mewn sir wledig a pha mor fodlon oeddynt â gwasanaethau allweddol megis addysg a gwasanaethau ailgylchu, a'n harolwg o les pobl ifanc a ddosbarthwyd i ysgolion a'r Fforwm Ieuenctid. Defnyddiwyd gwybodaeth o waith ymgysylltu â'r cyhoedd ar gynigion a newidiadau penodol (e.e. ad-drefnu ysgolion, pa mor aml ydym yn casglu sbwriel ac ail-gynllunio gwasanaethau gofal dydd). Fe wnaethom hefyd siarad â phobl trwy fforymau a phaneli sefydledig (er enghraifft Fforwm Ieuenctid, Fforwm Pobl Hŷn, Panel Tai 100, Panel y Dinasyddion). Dadansoddwyd data o Arolwg blynyddol Boddhad y Trigolion, ynghyd â chanlyniadau Holiadur Asesu'r Boblogaeth (i ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Phlant a gofalwyr sy'n derbyn ein cefnogaeth).

Er mwyn denu mwy o bobl i drafod ein canfyddiadau ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn ein gwybodaeth, cynhaliwyd dau ddigwyddiad herio ym mis Tachwedd 2016, un gyda staff y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac un arall lle gwahoddwyd sefydliadau partner (Cynghorwyr Sir Powys, busnesau lleol annibynnol, Age Cymru, Gweithredu dros Blant, Anabledd Powys, grwpiau gwirfoddol a chynrychiolwyr eraill o'r gymuned). Yn ystod y digwyddiadau hyn, rhoddwyd cyflwyniadau byr ar bob un o'r 31 o ganfyddiadau gan ofyn iddynt ystyried pob un yn erbyn y saith nod llesiant a'u sgorio ar feini prawf penodol. Fe wnaethom hefyd gysylltu â'r cyhoedd trwy gyfryngau cymdeithasol ac ymchwil cymdeithasol penodol i fachu ar unrhyw fylchau yn y wybodaeth yn yr adeg yma o'r asesiad llesiant.

Trydydd cam y broses ymgysylltu oedd casglu ymatebion pobl i'r asesiad trwy arolwg ar-lein (Lles cenedlaethau'r dyfodol a chi) a chysylltu â dinasyddion ar draws 7 ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd hefyd yn cynnwys sesiynau taro heibio mewn llyfrgelloedd, neuaddau cymuned a gorsafoedd tân ynghyd â sesiynau gyda grwpiau a chlybiau cymdeithasol cymunedol (e.e. grwpiau rhianta, grwpiau cymdeithasol pobl hŷn, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Sefydliad y Merched, Grwpiau Cefnogi Gofalwyr). Fe wnaethom hefyd siarad â phobl ar stondinau arbennig mewn archfarchnadoedd, ysbytai a marchnadoedd lleol. Fel hyn, roedd yn bosibl siarad â gwahanol drigolion a grwpiau lleol. Roedd yn bosibl cael barn trigolion ar beth mae llesiant yn ei olygu iddyn nhw, pa rai o'r 31 o bynciau fyddai'n flaenoriaeth yn eu barn nhw, a fyddai'n rhain yn wahanol o feddwl am eu cymunedau yn hytrach na'u lles unigol, ac a oedd y data a ddaeth i law ar gymunedau penodol yn gywir.




Am ddisgrifiad llawn o'n gweithgareddau ymgysylltu a'r themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg, gweler rhan 8 (ymgysylltu).

# 7. Cael gwybod mwy a pharhau i gymryd rhan

Os oedd hyn yn ddiddorol i chi, gallwch gael hyd i'r holl wybodaeth fanwl ar

**http://www.powys.gov.uk/index.php?id=2113**

Dadansoddiad cyflawn o'r canfyddiadau allweddol – Cymdeithasol
Dadansoddiad cyflawn o'r canfyddiadau allweddol – Diwylliant a Chymuned
Dadansoddiad cyflawn o'r canfyddiadau allweddol – Yr Economi
Dadansoddiad cyflawn o'r canfyddiadau allweddol - Yr Amgylchedd
Dolenni a'r ymateb posibl
Creu ein hasesiad llesiant
Ymgysylltu
Canfyddiadau'r asesiad a'r effaith ar y saith nod llesiant
Data a ddadansoddwyd ac yr ystyrir nad ydynt yn cael effaith sylweddol ar lesiant
Bylchau yn ein tystiolaeth
Ffynonellau gwybodaeth allweddol
Mesuriadau llesiant cenedlaethol

Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr asesiad llesiant hwn, mae llawer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni:

**E-bost:** business_intelligence@powys.gov.uk
Rhowch eich barn ar ein tudalen ymgysylltu

**Post:** Ysgrifenyddiaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys,
Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys, LD1 5LG

**Ffôn:** 01597 826 000

Cadwch lygad am ddigwyddiadau lleol a gynhelir yn eich cymunedau ar wefan Powys.

Am ragor o wybodaeth am bartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, ewch at ein gwefannau:

- Cyngor Sir Powys - **www.powys.gov.uk**
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys - **http://www.biapowys.cymru.nhs.uk/**
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - **www.mawwfire.gov.uk**
- Cyfoeth Naturiol Cymru - **https://naturalresources.wales**
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog - **http://www.bannaubrycheiniog.org/**
- Heddlu Dyfed Powys - **www.dyfed-powys.police.uk**
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys - **http://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/**
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys - **www.pavo.org.uk**
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru - **http://cymru.mosonline.uk/**
- Llywodraeth Cymru - **http://gov.wales**

# Canfyddiadau Allweddol







# Cynnwys

Oedolion sy'n Ofalwyr

Anghydraddoldebau Iechyd

Atal

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Iechyd Meddwl

Dementia

Poblogaeth Plant Is

Plant ag Anableddau

Lles Meddwl Pobl Ifanc

Digonolrwydd Gofal Plant

Gofalwyr Ifanc

Gwahardd a Phrydau Ysgol am Ddim (FSM)

Plant agored i niwed

Gordewdra ymysg Plant

Cyrhaeddiad Addysgol

Mae'r adran hon yn disgrifio'r 15 canfyddiad allweddol yn fanwl ynghyd â'r data a'r dulliau dadansoddi a ddefnyddiwyd i ddangos ein canfyddiadau.

Fe wnaethom sgorio effaith pob un o'r canfyddiadau allweddol yn erbyn y 7 nod llesiant a nodi a ydynt yn cael effaith gadarnhaol ynteu negyddol ar lesiant (gweler yr allwedd isod)

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | Negyddol - Difrifol |
| | Negyddol - Sylweddol |
| | Negyddol – Cymedrol |
| | Dim effaith ar lesiant ar hyn o bryd |
| | Cadarnhaol – Cymedrol |
| | Cadarnhaol – Sylweddol |
| | Cadarnhaol - Difrifol |
| ★ | Negyddol - Difrifol  (heb ymyrraeth) |
| | Dim sgôr wedi'i rhoi |

## Adult Carers

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae angen i oedolion sy'n ofalwyr fod yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion. Ym Mhowys, mae yna 16,154 o ofalwyr di-dâl (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2016), gyda'r mwyafrif o'r rhain dros 50 oed, ac o'r rheini, mae cyfran fawr wedi ymddeol. Drwy astudiaethau cenedlaethol canfuwyd bod iechyd ymddangosiadol gofalwyr yn llawer gwaelach o'i gymharu â rhai nad ydynt yn ofalwyr (Carers UK, 2016). Mae tua hanner y gofalwyr yn darparu rhwng 1-19 awr o ofal yr wythnos (ONS, 2016). Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhain bod gofalu yn un o'r ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at eu hiechyd gwaelach. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r twf amlycaf mewn gofalwyr di-dâl wedi bod ymysg y rheini sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal yr wythnos. Yn ne Powys y ceir y mwyaf o ofalwyr di-dâl, yn ardal Ystradgynlais yn benodol, tra bod y nifer leiaf o ofalwyr yn ardaloedd y gogledd, megis y Drenewydd, y Trallwng, a Llanidloes. Disgwylir i nifer y gofalwyr di-dâl gynyddu ochr yn ochr â'r boblogaeth sy'n heneiddio yn y sir. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd nifer y gofalwyr di-dâl dan 65 oed yn gostwng bron 10% erbyn 2030 (ONS, 2016). Dywed gofalwyr di-dâl ar hyn o bryd bod gofalu wedi ei gwneud yn llawer anos iddynt gynnal swydd amser llawn, neu fynychu gweithgareddau hamdden neu gymdeithasol eraill. Credir hefyd fod y rhan fwyaf o ofalwyr mewn anawsterau ariannol.

I'r dyfodol, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n ddi-waith wrth i ofalwyr fethu â dychwelyd i'r gweithle. Ceir hefyd y broblem gynyddol o anghydraddoldeb iechyd difrifol, gydag effaith ddifrifol bosibl ar iechyd corfforol a meddyliol gofalwyr.

## Beth ddywed y data wrthym?

Yn ôl cyfrifiad poblogaeth 2011, ceir cyfanswm o 16,154 o ofalwyr di-dâl ym Mhowys; mae 57% o'r rhain yn fenywod a 43% yn ddynion (ONS, 2016). Mae mwyafrif helaeth y rhain (15,038) yn 25 oed a drosodd (ONS, 2016). O'r grŵp hwn, darparodd gofalwyr 25-49 oed 4,665 awr o ofal yr wythnos, 50-64 oed 6,074 o oriau, a 65+ oed 4,299 o oriau. Mae 65% o ofalwyr di-dâl ym Mhowys yn 50 neu drosodd (ONS, 2016). Mae cyfanswm o 39% wedi ymddeol, mae 23% yn darparu gofal amser llawn, ac mae 12% yn gyflogedig yn rhan-amser. O'r holl ofalwyr 26 oed a drosodd, roedd cyfanswm o 2,203 yn hysbys i Credu ym mis Mehefin 2016, er nad oedd yr holl ofalwyr di-dâl yn hysbys. Dengys yr amrywiol ymyriadau a wnaed gydag oedolion sy'n ofalwyr fod mwy o gefnogaeth yn ofynnol i ofalwyr dros 25 oed. Credir bod iechyd gofalwyr yn llawer gwaelach na'r rheini nad oes ganddynt gyfrifoldebau gofalu (Carers UK, 2016). Er 2001, gwelwyd cynnydd o oddeutu 30,000 yn nifer y bobl sy'n darparu gofal yng Nghymru, sef cynnydd o 3.2%. Roedd y cynnydd mwyaf yn nifer y gofalwyr i'w weld ymysg y rheini oedd sy'n darparu 50 o oriau neu fwy o ofal yr wythnos.




Yn cynnwys data Ystadegau Gwladol © hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013
Contains National Statistics data © Crown copyright and database right 2013
Yn cynnwys data Arolwg Ordnans © hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2013
Contains Ordnance Survey data © Crown copyright and database right 2013
% Population providing unpaid care
Source: 2011 ONS Census of Population © Crown Copyright
14% or over
12 to 13%
11.5 to 12%
under 11.5%
Cyngor Sir Powys County Council
Unpaid Care by Lower Super Output Area
2011 Census
Printed by: gdmorgan
Date: 20/9/2016

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

**Gofal di-dâl (pob oedran):** Uchaf yn Ystradgynlais (15%); 2il Crucywel (13%) a Threfyclo a Llanandras (13%). Isaf mewn 4 lleoliad (11%): y Drenewydd, y Trallwng a Threfaldwyn, Llanidloes, Buallt a Llanwrtyd (ONS, 2016).

**Gofal di-dâl (dros 65 oed):** Uchaf yn Ystradgynlais (17%); 2il Llanfair Caereinion (16%); 3ydd 2 lleoliad - Crucywel, Trefyclo a Llanandras (15%); Isaf yn Llanidloes (12%); yna'n isel mewn 5 lleoliad (14%): Buallt a Llanwrtyd, y Gelli a Thalgarth, Llandrindod a Rhaeadr, Machynlleth, y Drenewydd (ONS, 2016).

Rhagwelir y bydd nifer y gofalwyr di-dâl dros 65 oed ym Mhowys yn cynyddu 35% (Cymru: 30%) erbyn 2030, ac ar yr un pryd, rhagwelir y bydd gofalwyr di-dâl dan 65 oed yn gostwng bron 10% erbyn 2030 (Cymru: -0.2%) (ONS, 2016).

Drwyddi draw, mae hwn yn gynnydd o 0.2% yn nifer y gofalwyr di-dâl at ei gilydd ym Mhowys (Cymru: cynnydd o 7%) (ONS, 2016).

## Beth ddywed y dinasyddion?

- Roedd 81% o'r gofalwyr yn yr arolwg yn cytuno (neu'n cytuno'n gryf) bod y gefnogaeth a gawsant wedi helpu i wella'u hiechyd a'u lles.
- Roedd 72% o'r gofalwyr yn yr arolwg yn cytuno (neu'n cytuno'n gryf) bod cysylltiad gyda Gwasanaeth Gofalwyr Powys wedi gwella'r agweddau cymdeithasol, cyflogaeth neu addysgol ar fy mywyd.
- Yn ystod Wythnos Gofalwyr, bu Gweithwyr Allgymorth Credu (Gwasanaeth Gofalwyr Powys gynt) yn cynnal sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig i Chi' gyda Gofalwyr. Roedd y materion a godwyd yn cynnwys seibiant; cyfleoedd i gwrdd â gofalwyr eraill; mae gwahanol wasanaethau sy'n darparu 'paned a sgwrs' yn cystadlu â'i gilydd yn Ystradgynlais ac nid yw'n glir pwy sy'n gwneud beth. Ymysg y materion allweddol eraill yr oedd anawsterau gyda thaliadau uniongyrchol. Yn ogystal, mae rhai Gofalwyr wedi dweud y byddent yn hoffi helpu gofalwyr eraill. (CSP, 2016)

## Beth ddywed y staff?

• Gall grwpiau cefnogi cymheiriaid weithio'n annibynnol ond gall dynameg grwpiau ddioddef heb gefnogaeth/gwaith hwyluso gan Weithiwr Allgymorth.
• Holiadur Staff Asesiad o'r Boblogaeth: Cwestiwn: "A oes unrhyw wasanaethau wedi cau yn eich ardal chi yn ystod y 5 mlynedd diwethaf? Os oes, beth fu'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r angen am wasanaethau cymorth?" Ymateb: "Cefnogaeth i ofalwyr gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl – yn rhy gynnar i ddweud beth yw'r effaith. Darpariaeth Pryd ar Glud yr Awdurdod Lleol wedi dod i ben – yr effaith yw mwy o bwysau ar ofal yn y cartref am ymweliadau lles a thasgau coginio. Gostyngiadau mewn cyllid grant i amrywiol sefydliadau trydydd sector. Un gwasanaeth seibiant ar gyfer Anableddau Dysgu – mae defnyddwyr gwasanaethau'n awr yn defnyddio gwasanaethau eraill sydd ar gael."

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

**Credu – connecting Carers' (formerly Powys Carers Service)**

- Gan gymryd sampl o'r gefnogaeth mewn chwarter arferol a roddir i bobl sydd â chyfrifoldebau gofalu sydd dros 65 oed, rydym ar hyn o bryd yn cefnogi tua 600 o bobl y chwarter, mae ar 32% ohonynt angen gwybodaeth sylfaenol a chyngor, mae ar y 68% arall angen cefnogaeth emosiynol, eiriolaeth i ddelio â budd-daliadau neu wasanaethau, gwasanaethau seibiant, cefnogaeth gyda'u hiechyd a'u lles eu hunain, cefnogaeth gydag unigedd a chefnogaeth i deuluoedd.

- Os yw gofalwyr yn gofalu am rywun â salwch cymhleth, maent yn dweud wrthym eu bod yn gallu cael trafferth delio â'r wybodaeth a'r cyngor anghyson gan wahanol weithwyr iechyd proffesiynol a bod hyn yn achosi llawer o straen gan eu bod yn treulio cymaint o'u hamser yn ceisio cael gweithwyr iechyd proffesiynol i gyfathrebu â'i gilydd ac yn poeni y bydd y cyngor anghyson yn niweidio iechyd y sawl sydd dan eu gofal. Maent yn dweud wrthym eu bod yn teimlo mai nhw sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am y sawl y maent yn gofalu amdano yn y sefyllfa hon eto byddent yn dawelach eu meddwl pe gallai eu meddyg teulu, neu weithiwr iechyd proffesiynol arall o bwys, eu helpu i wneud synnwyr o gyngor amrywiol ymgynghorwyr, a chydlynu'r cyngor hwnnw.
- Mae rhai Gofalwyr yn gyfrifol am fwy nag un unigolyn, mae rhai o'n gofalwyr mwyaf agored i niwed yn gofalu am eu priod sy'n wael yn ogystal â phlant sydd wedi tyfu'n oedolion; mae eu sefyllfa yn ddigon anodd ond weithiau rhaid iddynt hefyd dreulio llawer o amser ac egni yn trafod gyda gwasanaethau. Yr adborth a gawn ydy bod gorfod 'ymladd' gwasanaethau yn gallu bod yn llethol ar ben yr holl straen arall.
- Rydym yn cael llawer o adborth gan Ofalwyr ynglŷn ag unwaith y byddant yn sefydlu trefniadau gyda naill ai darparwyr gofal cartref, neu'n sefydlu eu trefniadau eu hunain, os yw pethau'n newid neu'n mynd o'u lle, yma mae'n cymryd amser hir iawn i'w sortio/cael Gweithiwr Gofal/Cynorthwyydd Personol yn eu lle. Mae bob math o ganlyniadau ac anawsterau i hyn o ran nad yw Gofalwyr yn cael dim seibiant, gan gyfyngu ar eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau ar wahân i Ofalu.
- Mae gofalwyr wedi tynnu sylw at ba mor anodd yw cael cludiant mewn ardaloedd gwledig, hyd yn oed gyda'r cynlluniau cludiant cymunedol amrywiol sydd ar gael. Mae pa gynlluniau sydd yna a sut gallant helpu yn anghyson.
- Gall grwpiau cefnogi cyfoedion weithio'n annibynnol ond gall dynameg grwpiau ddioddef heb gefnogaeth/gwaith hwyluso gan Weithiwr Allgymorth.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Rydym wedi cytuno ar strategaeth gomisiynu gofalwyr ar y cyd ac wedi comisiynu gwasanaeth gwybodaeth, cynghori a chefnogi i ofalwyr o bob oed. Cafodd manyleb y gwasanaeth ei ysgrifennu ar adeg pan oeddem yn cynllunio sut i weithredu'r gofynion a nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Am y rheswm hwnnw edrychom am bartner darparu a datblygu a fyddai'n helpu i siapio a gweddnewid ein cefnogaeth i ofalwyr, yn benodol, roeddem yn ceisio gweddnewid prosesau a gwasanaethau mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth o'r rôl bwysig y mae gofalwyr yn ei chwarae yn y gymuned a'r anghenion ychwanegol am gefnogaeth sydd ganddynt; datblygu asesiad 'llesiant' cynnar ac asesiad statudol o gefnogaeth; darparu cefnogaeth ymyrraeth gynnar ac ataliol i ofalwyr er mwyn atal pryderon a phroblemau rhag gwaethygu; datblygu mentrau cymdeithasol a modelau cyflenwi cymunedol i gefnogi gofalwyr a darparu cyfleoedd ar gyfer gwaith, hyfforddiant a chymdeithasu.

## Yr hyn na wyddom eto.

Gofalwyr nad ydynt yn hysbys inni.
Adroddiadau ar ethnigrwydd (er bod hyn wedi gwella).

## Tueddiadau cenedlaethol

Mae Carers UK yn adrodd y ceir cyfanswm o 6,506,257 o ofalwyr yn y DU (o'i gymharu â 5,884,470 yn 2001), ac mae 370,230 o'r rhain yng Nghymru. Dangosai Gyfrifiad Poblogaeth 2011 gynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn Ofalwyr ym Mhowys - sef 2,036 o bobl ychwanegol er 2001. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 8.7%. Mae Powys yn safle 14eg o ran cyfran y boblogaeth sy'n darparu gofal. Mae Carers UK yn amcangyfrif cynnydd o 40% yn nifer y gofalwyr y bydd eu hangen erbyn 2037 (2.6 miliwn yn ychwanegol o ofalwyr), sy'n golygu y bydd y boblogaeth ofalwyr yn y DU yn cyrraedd 9 miliwn. Mae'r gofal a ddarperir yn y DU gan

ofalwyr yn werth tua £81 biliwn y flwyddyn (Carers UK, 2011). Mae 58% o ofalwyr yn fenywod a 42% yn ddynion (ONS, 2011), ym Mhowys mae 57% o Ofalwyr yn fenywod a 43% yn ddynion. Mae gan un o bob pedair menyw 50-64 oed gyfrifoldebau gofal o'i gymharu ag un o bob chwech o ddynion, mae hyn yn cymharu â'r ffaith bod 59% o Ofalwyr dros 85 yn ddynion a 41% yn fenywod.

## Senario

**Tymor byr**
O ran Oedolion sy'n Ofalwyr sydd mewn gwaith, yn jyglo gwaith ac ymrwymiadau eraill ochr yn ochr â'u rôl ofalu; mwy o alw am wasanaethau; effaith bosibl ar allu oedolion sy'n ofalwyr i weithio, astudio, neu hamddena; unigedd cymdeithasol; incwm isel (mae Carers UK wedi adrodd bod bron hanner y gofalwyr (48%) yn ei chael yn anodd cadw deupen llinyn ynghyd).

**Tymor canolig**
Yr effaith bosibl ar allu oedolion sy'n ofalwyr i gael gwaith neu ddychwelyd i waith yn ddibynnol ar lefel y gofal y maent yn ei ddarparu neu wedi'i ddarparu; effaith gofalu ar iechyd a lles y Gofalwyr eu hunain; effaith ar eu bywyd personol (ynysu cymdeithasol); diffyg annibyniaeth.

**Long Term**
What resources are going to be available to alleviate the pressure on Carers? Some adult carers will have reached retirement age and will be unable to return to work. However, there is a potential impact on adult carers' ability to access or return to work. Impact of caring on Carers own health and well-being, impact on their personal life (social isolation), lack of independence. Financial pressure.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Rydym wedi cytuno ar strategaeth gomisiynu ar y cyd i ofalwyr ac wedi comisiynu gwasanaeth gwybodaeth, cynghori a chefnogi i ofalwyr o bob oed. Mae Powys yn gweithio i gyflawni model Busnes Pawb sy'n golygu bod adnabod gofalwyr a deall eu hanghenion am gefnogaeth yn rhan o rôl pawb. Gallai hyn hefyd gynnwys dull Tîm o gwmpas y Gofalwr unwaith y bydd Asesiad Lles wedi cael ei gwblhau er mwyn helpu amrywiaeth o asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi gofalwyr o bob oed a'r bobl maent yn gofalu amdanynt. Sefydlwyd rhaglen waith ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Oedolion a datblygwyd a chytunwyd ar Fframwaith Atebolrwydd a fydd yn darparu maes thematig gofalwyr.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Fel y dengys y ffigurau, nid yw'r rheini sy'n ystyried eu hunain yn ofalwyr yn y Cyfrifiad i gyd yn hysbys i'n gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad oes arnynt angen ein cefnogaeth, ond mae'n bosibl hefyd na wyddant ei bod ar gael. Bydd ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cynghori a Chefnogi sydd newydd ei gomisiynu yn mynd ati i geisio targedu a chysylltu â gofalwyr sydd yn yr ardaloedd a'r grwpiau mwyaf agored i niwed neu anodd eu cyrraedd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig mynediad teg. Un penderfynydd allweddol o ran nifer tebygol y gofalwyr i'r dyfodol yw'r nifer gynyddol o bobl sy'n byw gyda dementia. Amcangyfrifir, erbyn 2021, y bydd nifer y bobl sydd â dementia ar draws Cymru yn cynyddu 31%, a chymaint â 44% mewn rhai ardaloedd gwledig (Carers UK, 2016). Bydd 1 o bob 3 o bobl yn cyrraedd diwedd eu hoes gyda math o ddementia, mae gan 1 o bob 5 o bobl dros 80 oed ddementia ar hyn o bryd, ac mae dwy ran o dair o'r bobl sydd wedi eu diagnosio â dementia yn byw yn y gymuned. Bydd y mwyafrif helaeth o'r bobl hyn yn dymuno byw gyda'u teuluoedd a'u gofalwyr neu yn agos atynt. Mae Carers UK yn amcangyfrif y gwelwn gynnydd o 40% yn nifer y gofalwyr sydd eu hangen erbyn 2037 - 2.6 miliwn yn ychwanegol o ofalwyr, sy'n golygu y bydd y boblogaeth ofalwyr yn y DU yn cyrraedd 9 miliwn (Carers UK, 2015).

# Anghydraddoldebau Iechyd


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ★ | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae anghydraddoldebau ym maes iechyd yn fater cyfiawnder cymdeithasol. Ceir graddiant cymdeithasol mewn iechyd; po isaf yw safle cymdeithasol unigolyn, y gwaethaf yw ei iechyd ef neu hi. O'i gymharu â'r ffigur cyfartalog ar draws Cymru, mae oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig yn llawer uwch i ddynion a menywod ym Mhowys. Fodd bynnag, er y cafwyd gwelliant (ddim yn arwyddocaol) mewn oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig ar gyfer dynion a menywod, mae'r anghydraddoldeb wedi lledu rhwng y cwintelau uchaf a'r isaf, er nad ydynt eto wedi cyrraedd pwynt lle maent yn ystadegol arwyddocaol. Mae'n bosibl y bydd y bwlch anghydraddoldeb presennol mewn oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig yn parhau i ledu dros y 5-10 mlynedd nesaf oherwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol. Mae gofyn i gamau i ddelio ag anghydraddoldebau iechyd weithredu ar draws holl benderfynyddion cymdeithasol iechyd.


## Beth ddywed y data wrthym?


Ym Mhowys, mae oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig ar gyfer dynion a menywod yn llawer uwch o'i gymharu â'r cyfartaledd ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Mae oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig wedi dangos gwelliant bach anarwyddocaol rhwng 2005-09 a 2010-14. Ymysg dynion, mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran oes ddisgwyliedig wedi lleihau ychydig, ond mae wedi lledu ymhlith menywod - er nad i lefel o arwyddocâd ystadegol (Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016). Mae'r bwlch mewn oes iach ddisgwyliedig rhwng y mwyaf a'r lleiaf cefnog wedi lledu ar gyfer y ddau ryw, er nad ydynt eto o arwyddocâd ystadegol. Marwolaethau cynamserol oherwydd canser a chlefyd cylchredol yw prif achosion y gwahaniaeth mewn oes ddisgwyliedig rhwng y rhannau mwyaf a lleiaf cefnog o boblogaeth Powys. Mae 58% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew (Cymru 59%), ac eto mae dinasyddion Powys yn iachach yn gyffredinol na gweddill Cymru. Mae 20% o oedolion yn ysmygu (Cymru: 20%) ac mae 24% o oedolion ym Mhowys yn cael pwl o or-yfed o leiaf unwaith yr wythnos (Cymru: 24%).





GIG CYMRU NHS WALES
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales Observatory
HOME
TABLE %
TABLE (n)
TECHNICAL GUIDE
USER GUIDE
Select indicator
Overweight / obese
Fruit & veg consumption
Smoking
Healthy life expectancy
Low birth weight
Healthy Life Expectancy (HLE) at birth (years), observed 2005-2009 to 2010-2014 and projected 2015 to 2024
Observed
Projected
Caution: 10 year projections may exceed realistic limits.
WIMD fifth
All
Least
Next least
Middle
Next most
Most
WIMD fifth
Least
Most
Sex
Females
Males
Marker size
Females
Labels off
Local authority
Isle of Anglesey
Gwynedd
Conwy
Denbighshire
Flintshire
Wrexham
Powys
Ceredigion
Pembrokeshire
Carmarthenshire
Swansea
Neath Port Talbot
Bridgend
Vale of Glamorgan
Cardiff
Rhondda Cynon Taf
Merthyr Tydfil
Caerphilly
Blaenau Gwent
Torfaen
Monmouthshire
Newport
Wales
Scale to: 80
80
70
60
50
40
30
20
10
0
2005-2009
2006-2010
2007-2011
2008-2012
2009-2013
2010-2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2024
Produced by Public Health Wales Observatory, using WHS & WIMD (WG), MYE & PHM (ONS)



Healthy life expectancy at birth, females, Wales health boards and local authorities, 2010-14
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)
95% confidence interval
Wales = 66.7
Isle of Anglesey 70.9
Gwynedd 71.1
Conwy 69.1
Denbighshire 67.7
Flintshire 68.9
Wrexham 67.8
Powys 68.7
Ceredigion 69.7
Pembrokeshire 69.0
Carmarthenshire 66.0
Swansea 66.8
Neath Port Talbot 62.4
Bridgend 64.3
Vale of Glamorgan 68.7
Cardiff 67.1
Rhondda Cynon Taf 62.9
Merthyr Tydfil 61.5
Caerphilly 63.7
Blaenau Gwent 59.3
Torfaen 64.4
Monmouthshire 70.7
Newport 67.2
Betsi Cadwaladr UHB 69.2
Powys THB 68.7
Hywel Dda UHB 67.6
ABM UHB 65.0
Cardiff and Vale UHB 67.6
Cwm Taf UHB 62.6
Aneurin Bevan UHB 65.3
45
50
55
60
65
70
75



Healthy life expectancy at birth, males, Wales health boards and local authorities, 2010-14
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)
95% confidence interval
Wales = 65.3
Isle of Anglesey 67.7
Gwynedd 68.2
Conwy 67.3
Denbighshire 67.5
Flintshire 67.7
Wrexham 66.8
Powys 68.2
Ceredigion 67.9
Pembrokeshire 66.9
Carmarthenshire 65.0
Swansea 65.5
Neath Port Talbot 61.9
Bridgend 63.4
Vale of Glamorgan 66.6
Cardiff 65.3
Rhondda Cynon Taf 61.2
Merthyr Tydfil 61.1
Caerphilly 61.5
Blaenau Gwent 59.6
Torfaen 63.1
Monmouthshire 69.8
Newport 65.4
Betsi Cadwaladr UHB 67.6
Powys THB 68.2
Hywel Dda UHB 66.2
ABM UHB 63.9
Cardiff and Vale UHB 65.7
Cwm Taf UHB 61.2
Aneurin Bevan UHB 63.8
45
50
55
60
65
70
75


Life expectancy at birth, females, Wales health boards and local authorities, 2010-14
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)
95% confidence interval
Wales = 82.3
Isle of Anglesey 82.9
Gwynedd 83.5
Conwy 82.6
Denbighshire 81.4
Flintshire 82.4
Wrexham 81.8
Powys 83.6
Ceredigion 83.9
Pembrokeshire 82.9
Carmarthenshire 82.6
Swansea 82.4
Neath Port Talbot 81.2
Bridgend 81.2
Vale of Glamorgan 83.4
Cardiff 82.7
Rhondda Cynon Taf 80.9
Merthyr Tydfil 80.9
Caerphilly 81.4
Blaenau Gwent 80.2
Torfaen 82.0
Monmouthshire 84.1
Newport 82.3
Betsi Cadwaladr UHB 82.4
Powys THB 83.6
Hywel Dda UHB 82.9
ABM UHB 81.7
Cardiff and Vale UHB 82.9
Cwm Taf UHB 80.9
Aneurin Bevan UHB 82.0
45 55 65 75 85 95


Life expectancy at birth, males, Wales health boards and local authorities, 2010-14
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)
95% confidence interval
Wales = 78.3
Isle of Anglesey 78.6
Gwynedd 79.3
Conwy 78.9
Denbighshire 78.1
Flintshire 79.0
Wrexham 78.3
Powys 80.2
Ceredigion 80.1
Pembrokeshire 79.5
Carmarthenshire 78.6
Swansea 77.8
Neath Port Talbot 77.0
Bridgend 77.0
Vale of Glamorgan 79.6
Cardiff 78.2
Rhondda Cynon Taf 76.5
Merthyr Tydfil 77.1
Caerphilly 77.7
Blaenau Gwent 76.0
Torfaen 77.9
Monmouthshire 80.5
Newport 78.0
Betsi Cadwaladr UHB 78.7
Powys THB 80.2
Hywel Dda UHB 79.2
ABM UHB 77.4
Cardiff and Vale UHB 78.6
Cwm Taf UHB 76.6
Aneurin Bevan UHB 78.1
45 50 55 60 65 70 75 80 85


GIG CYMRU NHS WALES
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales Observatory
HOME
TABLE %
TABLE (n)
TECHNICAL GUIDE
USER GUIDE
Select indicator
Overweight / obese
Healthy life expectancy
Low birth weight
Fruit & veg consumption
Smoking
Healthy Life Expectancy (HLE) at birth (years), observed 2005-2009 to 2010-2014 and projected 2015 to 2024
Observed
Projected
100
80
60
40
20
0
2005-2009
2006-2010
2007-2011
2008-2012
2009-2013
2010-2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2024
Health Board
Betsi Cadwaladr UHB
Powys THB
Hywel Dda UHB
ABM UHB
Cardiff & Vale UHB
Cwm Taf UHB
Aneurin Bevan UHB
Wales
WIMD fifth
Least
Next least
Middle
Next most
Most
All
Marker size
All
Sex
Females
Males
Sex
Females
Males
CLICK TWICE TO RESET AGE & SEX
Labels off
Produced by Public Health Wales Observatory, using WHS & WIMD (WG), MYE & PHM (ONS)
Scale to: 100


Life expectancy at birth, females, Powys tHB, 2009-2013
Middle Super Output Area (MSOA)
87.1 - 88.8 [1]
85.3 - 87.1 [3]
83.6 - 85.3 [8]
81.8 - 83.6 [3]
80.1 - 81.8 [4]
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM and MYE (ONS)
© Crown Copyright and database right 2015, Ordnance Survey 100044810


Life expectancy at birth, males, Powys tHB, 2009-2013
Middle Super Output Area (MSOA)
81.4 - 83.2 [8]
79.6 - 81.4 [3]
77.9 - 79.6 [4]
76.1 - 77.9 [2]
74.3 - 76.1 [2]
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM and MYE (ONS)
© Crown Copyright and database right 2015, Ordnance Survey 100044810

## A oes unrhyw wahaniaethau penodol rhwng ardaloedd?

**Oes ddisgwyliedig:**
Dynion: MSOA Uchaf Ffridd Faldwyn (83.2 oed). MSOA Isaf y Drenewydd y De-orllewin (74.3 oed). Menywod: MSOA Uchaf Nant Cegidfa (88.8 oed). MSOA Isaf y Trallwng (80.1 oed).

## Beth ddywed y dinasyddion?
Nid oes dim gwybodaeth ar gael am farn trigolion Powys am anghydraddoldebau iechyd.

## Beth ddywed y staff?
Ni chynhaliwyd dim ymgynghoriadau staff ar y mater hwn.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?
Nid oes dim gwybodaeth ar gael am farn y trydydd sector/sector preifat am anghydraddoldebau iechyd.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Mae gwaith cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar brofiad niweidiol yn ystod plentyndod yn berthnasol. Mae hwn ar gael yn: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/newyddion/40001**

Mae adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Gwneud Gwahaniaeth' yn cynnig tystiolaeth ymchwil a barn arbenigol i gefnogi camau i atal gwaeledd a lleihau anghydraddoldebau. Mae hwn ar gael yn: **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/87127**

Mae adolygiad Marmot yn ffynhonnell allweddol am wybodaeth genedlaethol. Mae hwn yn gweithredu ar hyd cwrs bywyd gydag ymyriadau'n cael eu nodi gydol oes.
Mae hwn ar gael yn: **http://www.instituteofhealthequity.org/**

Bydd anghydraddoldebau iechyd yn cyplysu nifer o feysydd eraill yr asesiad llesiant (e.e. cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth, amgylchedd a blynyddoedd cynnar) gan mai'r rhain yw'r ffactorau sydd angen sylw er mwyn lleihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd. Mae hwn ar gael yn: **http://www.instituteofhealthequity.org/.**

## Yr hyn na wyddom eto?
Ni welwyd dim bylchau penodol yn y data.

## Tueddiadau Cenedlaethol
Mae data ar lefel Cymru sy'n dangos oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig i'w weld isod.

## Senario

**Tymor byr**
Mae anghydraddoldebau iechyd yn annhebygol o newid llawer iawn dros amser mor gymharol fyr. Nifer yw'r gwahaniaethau presennol rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn debygol o newid.

**Tymor canolig**
Mae data o 2005-09 i 2010-14 yn awgrymu y gallai'r gwahaniaethau mewn oes ddisgwyliedig ac oes iach ddisgwyliedig rhwng cwintelau uchaf ac isaf y boblogaeth ym Mhowys fod yn lledu ychydig. Mae amcanestyniadau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn benodol mewn perthynas ag oes iach ddisgwyliedig hefyd yn awgrymu bod y bwlch anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod hyd at 2024 yn lledu. Un o oblygiadau hyn i fenywod yw y gall y bwlch anghydraddoldeb ym Mhowys fod yn fwy nag yng Nghymru erbyn 2024.

**Tymor hir**

Mae'n bosibl i'r newidiadau a ddisgrifir yn y tymor canolig barhau neu beidio. Rydym yn gwybod bod y gwahaniaethau rhwng y rhannau mwyaf/lleiaf difreintiedig o'r boblogaeth yn annhebygol o newid yn sylweddol heb newid sylweddol mewn polisi cymdeithasol tuag at gymdeithas fwy cyfartal ar lefel macro a micro

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae nifer o ymdrechion i roi sylw i'r anghydraddoldebau iechyd ar lefel partneriaeth strategol yn cael eu cofnodi yn y Cynllun Powys yn Un. Mae hyn yn cynnwys gwaith i gefnogi teuluoedd sy'n agored i niwed, gwella addysg i bawb, a darparu cymunedau cryfach, mwy diogel.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Yr uchelgais yw lleihau ac yn y pen draw gael gwared ar anghydraddoldebau iechyd. Mae'r ffaith nad yw'r cyfraddau wedi newid llawer dros amser yn awgrymu bod angen gwneud mwy.

## Atal

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ★ | | | | |

### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae ffordd iach o fyw yn allweddol ar gyfer iechyd a lles, mae 36% o oedolion yn bwyta eu pump y dydd (Cymru: 32%). Mae ffyrdd afiach o fyw yn rhoi mwy o alw ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac yn lleihau'r cyfleoedd i fyw bywydau boddhaus. O'i gymharu â gweddill Cymru, mae cyfraddau gweithgarwch corfforol bum diwrnod neu fwy yr wythnos ym Mhowys yn uwch na'r ffigur cyfartalog (39%, Cymru: 31%), er nad yw 25% o'r bobl yn gwneud dim gweithgaredd corfforol. Er gwaethaf hyn, mae bron 58% o oedolion dros eu pwysau neu'n ordew ym Mhowys a rhagwelir y bydd hyn yn dal i godi (Cymru: 59%, Llywodraeth Cymru, 2016). Mae nifer o gyflyrau difrifol yn cael eu cysylltu â bod dros bwysau neu'n ordew. Maent yn cynnwys diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, clefyd coronaidd y galon a strôc, osteoarthritis a chanser.

Mae ychydig o dan 20% o oedolion yn ysmygu ar hyn o bryd (Cymru: 20%, Llywodraeth Cymru, 2016). Ysmygu yw achos unigol mwyaf marwolaethau y gellir eu hatal ac mae'n un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd. Mae ysmygu yn achosi amrywiol ganserau, mae'n arwain at glefyd cardiofasgwlaidd ynghyd ag amrywiol gyflyrau anadlol, e.e. clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD) ac emffysema.


Mae 24% o oedolion yn cael pwl o or-yfed o leiaf unwaith yr wythnos (Cymru: 24%, Llywodraeth Cymru, 2016). Gall yfed yn ormodol yn rheolaidd achosi canser, strôc, clefyd y galon, clefyd yr iau, niwed i'r ymennydd, a niwed i'r system nerfol. Mae effaith ffyrdd afiach o fyw ar unigolion a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yn golygu bod atal yn destun pwysig.


Yn ogystal ag ymddygiad iach, ceir cysylltiadau rhwng ynysu cymdeithasol, unigrwydd a chyflyrau y gellir eu hatal, yn enwedig ymysg pobl hŷn. Mae lefelau lles meddyliol drwy hunan-adrodd ym mhoblogaeth Powys yn ymddangos yn eithaf uchel o'u cymharu â'r ffigur cyfartalog ar draws Cymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Ym Mhowys, mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd lleol hefyd yn arddangos lefelau uchel o'r asedau sy'n ofynnol ar gyfer cymunedau iach o'i gymharu â Chymru fel cyfangorff.


### Beth ddywed y data wrthym?


Ym Mhowys, ymysg yr oedolion, ceir cyfradd gymharol uchel o weithgarwch corfforol rheolaidd gydag ychydig dros un o bob tri yn hunan-adrodd eu bod yn gorfforol weithgar yn rheolaidd (Llywodraeth Cymru, 2016). Fodd bynnag, mae bwlch amlwg i'w weld rhwng y rhywiau gyda 45% o ddynion yn adrodd eu bod yn gorfforol egnïol 5 diwrnod neu fwy yr wythnos o'i gymharu â dim ond 25% o fenywod. Yn 2008-09, canran y bobl 50+ oed oedd yn cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu weithgaredd ym Mhowys oedd yr uchaf o'r holl Awdurdodau eraill yng Nghymru, 61% (Cymru 46%). Er gwaetha'r ffigurau hyn, ar gyfartaledd, adroddir bod chwech o bob deg o bobl ym Mhowys dros eu pwysau neu'n ordew, mae un o bob pump yn ysmygu ar hyn o bryd, a dywed pedwar o bob deg eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn rheolaidd (Llywodraeth Cymru, 2016). Dywedodd un o bob tri oedolyn eu bod wedi bwyta'r pum darn o ffrwythau a llysiau a argymhellir y diwrnod cynt. Mae oedolion Powys yn adrodd am lefelau lles emosiynol llawer uwch nag yng ngweddill Cymru. Yn ogystal â risgiau iechyd corfforol, credir bod nifer fawr o bobl hŷn yn dioddef o unigrwydd ac unigedd, a all yn ei dro arwain at fod arnynt angen cefnogaeth fwy dwys. Amcangyfrifir bod 15,571 o bobl dros 50 oed yn byw eu hunain ym Mhowys; mae hyn, ar 24%,

yn ychydig dan chwarter y boblogaeth. Yn ôl ffigurau a ddarparwyd gan Age UK, mae rhwng 6% a 13% o bobl yn unig yn aml neu drwy'r amser (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'n bosibl i bob un o'r ffactorau hyn gyfrannu at ddatblygu cyflwr meddygol neu leihau oes iach ddisgwyliedig unigolyn (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2013).





GIG CYMRU NHS WALES
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales Observatory
HOME
TABLE %
TABLE (n)
TECHNICAL GUIDE
USER GUIDE
Select indicator
Overweight / obese
Healthy life expectancy
Low birth weight
Fruit & veg consumption
Smoking
Estimated percentage of adults who reported to be overweight or obese, observed 2003/04-2004/05 to 2013-2015 and projected 2016 to 2025
Observed
Projected
Health Board
Betsi Cadwaladr UHB
Powys THB
Hywel Dda UHB
ABM UHB
Cardiff & Vale UHB
Cwm Taf UHB
Aneurin Bevan UHB
Wales
Age group
16-44
45-64
65+
Age 16+
Marker size
Age 16+
Sex
Females
Males
Persons
CLICK TWICE TO RESET AGE & SEX
Labels off
Scale to: 40
Produced by Public Health Wales Observatory, using WHS & 2011-based Population Projections (WG)





GIG CYMRU NHS WALES
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales Observatory
HOME
TABLE %
TABLE (n)
TECHNICAL GUIDE
USER GUIDE
Select indicator
Overweight / obese
Healthy life expectancy
Low birth weight
Fruit & veg consumption
Smoking
Estimated percentage of adults who self reported to be current smokers, observed 2003/04-2004/05 to 2013-2015 and projected 2016 to 2025
Observed
Projected
Health Board
Betsi Cadwaladr UHB
Powys THB
Hywel Dda UHB
ABM UHB
Cardiff & Vale UHB
Cwm Taf UHB
Aneurin Bevan UHB
Wales
Age group
16-44
45-64
65+
Age 16+
Marker size
Age 16+
Sex
Females
Males
Persons
CLICK TWICE TO RESET AGE & SEX
Labels off
Scale to: 40
Produced by Public Health Wales Observatory, using WHS & 2011-based Population Projections (WG)

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Gweithgarwch corfforol: Canolbarth Powys sydd â'r gyfradd uchaf wedi'i safoni yn ôl oedran (40%) a Gogledd-ddwyrain Powys sydd â'r gyfradd isaf wedi'i safoni yn ôl oedran (36%), er nad yw arwyddocâd y gwahaniaeth wedi cael ei brofi. Mae pob ardal yn sylweddol uwch na Chymru (Llywodraeth Cymru, 2016).

Ysmygu: Gogledd-orllewin a Gogledd Canolbarth Powys sydd â'r gyfradd uchaf wedi'i safoni yn ôl oedran o oedolion sy'n ysmygu (24%). Mae'r cyfraddau sydd wedi'u safoni yn ôl oedran ar gyfer Canolbarth Powys a De Powys yn llawer is na Chymru (Llywodraeth Cymru, 2016).
Yfed mwy na'r canllawiau: De Powys (43.4%) sydd â'r gyfradd uchaf wedi'i safoni yn ôl oedran o oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau o leiaf un diwrnod yr wythnos. Yng nghanolbarth Powys y mae'r gyfradd isaf (40.9%) sy'n llawer is na Chymru (Llywodraeth Cymru, 2016).
Bwyta'n iach: Gogledd-ddwyrain Powys sydd â'r gyfradd uchaf wedi'i safoni yn ôl oedran o oedolion sy'n dweud eu bod wedi bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod cynt (42.9%). Mae'r cyfraddau wedi'i safoni yn ôl oedran yng Ngogledd-ddwyrain a Chanolbarth Powys yn llawer uwch na Chymru (Llywodraeth Cymru, 2016).

Gordewdra ymysg oedolion: Mae Gogledd-orllewin a Gogledd Canolbarth Powys a Chanolbarth Powys yn llawer is na Chymru.



## Beth ddywed y dinasyddion?

Cymerwyd y data a ddisgrifir uchod o ymatebion dinasyddion i Arolwg Iechyd Cymru (WHS). Mae'r WHS yn rhoi sylw i ystod o faterion sy'n ymwneud ag iechyd, gan gynnwys statws iechyd, ffordd o fyw, ymddygiadau iechyd, a defnyddio gwasanaethau iechyd. Cyhoeddir y canlyniadau'n flynyddol. Anelir at gael sampl o tua 15,000 o oedolion a 3,000 o blant y flwyddyn, gan gynnwys o leiaf 600 o oedolion o bob awdurdod lleol.

Pan ofynnwyd i drigolion Powys pa wasanaethau oedd ar goll o'u cymuned leol, y chweched ateb mwyaf cyffredin oedd "llefydd i fynd yn ystod y dydd ar gyfer pobl hŷn". Hefyd, y mater pwysig a ddaeth i'r amlwg yn ystod y broses Gwrando a Dysgu oedd mai'r gwmnïaeth y mae pobl yn ei gwerthfawrogi fwyaf am fynychu'r Ganolfan Ddydd.

## Beth ddywed y staff?

Nid yw barn staff ar atal wedi cael ei hasesu'n ffurfiol yn y gorffennol, er bod y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth iechyd a gofal ar gyfer Powys yn casglu barn staff ar flaenoriaethau ar gyfer atal.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Bydd barn y trydydd sector ar flaenoriaethau ar gyfer atal yn cael ei chasglu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth iechyd a gofal.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae effeithiau unigrwydd ac unigedd yn cynnwys:

- Effeithiau andwyol fel pwysedd gwaed uchel, ymateb annormal i straen, clefyd y galon a methu â chysgu, a'i broblemau iechyd cysylltiedig.
- Yn ogystal, mae nifer o astudiaethau yn dangos cysylltiad cryf ag iselder.
- Mae ban bobl hŷn sy'n unig neu'n ynysig hefyd siawns lawer uwch o ddatblygu dementia ac, yn benodol, glefyd Alzheimer, o'i gymharu ag unigolion sydd â gwell cysylltiadau.
- Mae gan bobl hŷn sydd â perthnasoedd cymdeithasol anfoddhaol neu gyfyngedig lawer mwy o risg o farw na phobl sydd â rhwydweithiau cymdeithasol cryfach.

## Yr hyn na wyddom eto?

Mae ystadegau ar gyfer ardaloedd bach yn ddiffygiol.
Baglu a chwympo: mae angen data yn awr.
Mynediad i Wasanaethau Iechyd Rhyw: mae angen data yn awr.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Bu gan Gymru yn gyson ganran uwch o'r boblogaeth sydd dros ei phwysau neu'n ordew na Phowys. Fodd bynnag, yn 2013/14, caeodd y bwlch hwn i 0.5%, gyda'r gyfradd gyfartalog ar gyfer Cymru yn gostwng ychydig, a chyfradd Powys yn cynyddu (Llywodraeth Cymru, 2016). Mae gan Gymru hefyd gyfradd uwch o oedolion sy'n ysmygu o'i gymharu â Phowys. Mae hyn hefyd yn wir am nifer y bobl sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir. Mae gan Gymru hefyd sgôr is na Phowys am nifer y bobl a ddywedodd eu bod wedi bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y diwrnod cynt.

## Senario

**Tymor byr**

Nid yw'r tueddiadau presennol mewn ymddygiadau ffordd o fyw iachach yn debygol o newid llawer.

**Tymor canolig**

Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd nifer y bobl sydd dros eu pwysau/yn ordew yn dal i godi. Bydd y ffigurau defnyddio cynhyrchion tybaco yn parhau i fod yn sefydlog neu'n lleihau ychydig, a gall yfed gormod o alcohol godi - yn rhannol oherwydd newidiadau mewn faint o alcohol a argymhellir. Bydd y cyfraddau gweithgarwch corfforol yn aros yr un fath a'r cyfraddau bwyta'n iach yn gostwng.

**Tymor hir**

Bydd y cyfraddau gweithgaredd corfforol isel a diet gwael yn parhau i arwain at gyfraddau uwch o bobl sydd dros eu pwysau/yn ordew. Ymysg dynion, rhagwelir y bydd y nifer sydd dros bwysau/yn ordew yn cynyddu yn uwch na chyfradd Cymru erbyn 2025. Gallai hyn arwain at fwy o achosion o salwch ac afiechydon sy'n cael eu cysylltu â diet gwael, e.e. diabetes, clefyd y galon.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae cyfraniad Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIaP) i ffyrdd iach o fyw yn cael ei ddisgrifio yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig cyfredol (IMTP).

Mae cyfraniad y bartneriaeth ehangach ym Mhowys yn cael ei ddisgrifio yn y Cynllun Powys yn Un.

Disgrifir gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu IMTP ac yng nghynllun busnes tîm lleol Powys.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Yn seiliedig ar y rhagamcanion presennol, bydd nifer y bobl sydd dros eu pwysau/yn ordew yn parhau i godi. Mae bron un o bob pump o oedolion yn dal i gyfrif eu hunain yn ysmygwyr ar hyn o bryd, ac mae tua phedwar o bob deg o oedolion yn yfed mwy na'r hyn a argymhellir. Mae hyn yn awgrymu bod angen gwneud mwy o waith i roi sylw i atal.

# Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

| Powys Ffyni-annus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gy-fartal | Powys Gy-dlynus | Powys Lew-yrchus | Powys sy'n f yd-eang gy-frifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Eleni, mae Powys wedi gweld cynnydd amlwg yn nifer yr achosion o drais domestig, yn ogystal ag yn nifer y troseddau gwirioneddol yr adroddir arnynt wrth yr heddlu (Heddlu Dyfed Powys, 2016). Mae hyn yn parhau â'r duedd gynyddol bresennol er 2010. Mae'n ymddangos bod trais domestig ychydig yn fwy cyffredin yng ngogledd y sir, lle mae grwpiau BME (pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig) a LGBT (Pobl Hoyw, Ddeurywiol, Trawsrywiol Lesbiaid,) hefyd yn fwy tebygol o ddioddef. Er gwaethaf y cynnydd hwn, fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y troseddau trais domestig yn digwydd heb i neb wybod (Cymorth i Fenywod Cymru, 2016). Mae trais domestig hefyd yn dod yn fater i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda thraean o'r holl achosion Plant mewn Angen yn cyfeirio at drais domestig fel y rheswm dros agor achos (Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, 2015). Tra bod sefydliadau gwirfoddol ar hyn o bryd yn gallu ymdopi â'r galw, gall cynnydd mewn adroddiadau ddechrau rhoi straen ar y system bresennol. Dros y blynyddoedd nesaf, disgwylir i achosion trais domestig ddal i godi, ac wrth i boblogaeth y sir newid, gall achosion o FGM (Anffurfio Organau Cenhedlu Merched), priodasau dan orfod, a lladd er anrhydedd ddod yn fwy cyffredin.


## Beth ddywed y data wrthym?

Er mis Awst 2016, adroddwyd am gyfanswm o 964 o achosion o drais domestig wrth yr heddlu (Heddlu Dyfed Powys, 2016). Dylid nodi na fydd y ffigur hwn o bosibl yn adlewyrchu gwir nifer y digwyddiadau gan fod llawer o achosion o drais domestig yn dal i ddigwydd heb i neb wybod. Beth bynnag, mae ffigur eleni yn gyfystyr â chynnydd o 10% yn erbyn ffigurau'r llynedd, er y gallai newidiadau yn y dull o gofnodi digwyddiadau gael effaith ar y data. Cododd cyfanswm nifer y digwyddiadau hyn sy'n cael eu cyfrif fel troseddau gwirioneddol 9% i 533. Mae'r cynnydd hwn yn parhau â'r duedd bresennol gyda chynnydd cyffredinol o 75% er 2010. Ar hyn o bryd, oherwydd diffyg ffynhonnell ddata gymharol genedlaethol, ni ellir cynnig cymariaethau. Yn ychwanegol at y data hwn, mae MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth), sy'n delio â'r achosion trais domestig hynny lle credir bod y dioddefwr yn agored i'r lefel uchaf o risg, hefyd yn awgrymu cynnydd sydyn yn nifer yr achosion trais domestig o'i gymharu ag awdurdodau lleol cyfagos (Cyngor Sir Powys, 2016). Er y gallai hyn yn hawdd gael ei briodoli i ddiffyg cyn-sgrinio achosion a gyfeiriwyd at MARAC, ni wnaed ymchwil i hyn ac ni ellir ei ddilysu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae data MARAC yn dangos cyfradd gynnydd o rhwng 28-36%. Nid yw'n glir eto pam bod y duedd barhaus hon wedi digwydd, a byddai angen gwneud ymchwil pellach, mwy manwl.






| dicator | National figure | Most similar force group | SafeLives recommends | Police force | Carms | Ceredigion | North Powys | Pembs | South Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| umber of Maracs | 282 | 13 | - | 5 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| ises discussed | 81,764 | 3,461 | - | 1,334 | 454 | 190 | 173 | 342 | 175 |
| ecommended cases | 98,510 | 4,400 | N/A | 870 | 310 | 130 | 110 | 210 | 110 |
| ises per 10,000 population | 33 | 31 | 40 | 61 | 58 | 58 | 62 | 66 | 62 |
| iildren in household | 103,404 | 4,160 | N/A | 1,459 | 447 | 257 | 167 | 405 | 183 |
| ear on year change in cases | 5% | -2% | N/A | 12% | 8% | 20% | 36% | -3% | 28% |
| epeat cases | 25% | 16% | 28% - 40% | 16% | 17% | 16% | 20% | 13% | 13% |
| olice referrals | 64% | 61% | 60% - 75% | 74% | 75% | 66% | 76% | 82% | 59% |
| eferrals from partner agencies | 36% | 39% | 25% - 40% | 26% | 25% | 34% | 24% | 18% | 41% |
| ME | 15.00% | 7.00% | 0.00% | 4.00% | 5.00% | 3.00% | 6.00% | 2.00% | 3.00% |
| SBT | 1.00% | 0.70% | 5%+ | 0.50% | 0.20% | 0.50% | 2.90% | 0.00% | 0.00% |
| sability | 3.90% | 2.70% | 17%+ | 0.80% | 0.20% | 0.50% | 0.60% | 1.20% | 2.30% |



## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Caiff data MARAC Powys ei rannu rhwng y Gogledd a'r De. Yn y gogledd, mae'n ymddangos y ceir mwy o gyfeiriadau na'r disgwyl sy'n cynnwys cymunedau BME ac LGBT, ond mae'r niferoedd yn fach a gallai hyn fod yn anghysondeb ystadegol, mae angen gwneud mwy o ymchwil i mewn i'r data.

## Beth ddywed y dinasyddion?

Gan fod y mwyafrif helaeth o gamdriniaeth yn digwydd heb fod sôn amdano nid oes gennym unrhyw ddata lleol ar farn dinasyddion. Mae'r arolygon troseddau cenedlaethol diweddaraf yn dangos bod 30% o fenywod a 16% o ddynion yn dweud eu bod wedi dioddef cam-drin domestig; mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn yn cyfyngu nifer y digwyddiadau y gall rhywun roi gwybod amdanynt a dadleuir bod hyn yn arwain at sefyllfa lle nad yw trais domestig yn erbyn menywod yn cael ei gynrychioli'n deg (Cymorth i Fenywod Cymru, 2016).

## Beth ddywed y staff?

Mae staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion a Gwasanaethau Tai yn ymwybodol o effaith trais domestig. Mae'n ffactor amlwg ar hyn o bryd mewn 49% o'r achosion a agorwyd ac a ddosbarthwyd fel Plant mewn Angen, a dyma'r ffactor sy'n effeithio fwyaf ar allu rhieni i ofalu'n ddigonol am blant mewn achosion a roddir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (CPPI, 2016). Mewn cynadleddau a chyflwyniadau a roddir i staff ceir amgyffrediad cyffredinol bod llawer o'r cam-drin hwn yn digwydd heb i neb sôn amdano.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Mae darparwyr gwirfoddol fel Calan, Hafan Cymru a Chanolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn (MFCC) yn teimlo eu bod wedi eu hymestyn i'r eithaf wrth ymdopi â'r lefel bresennol o atgyfeiriadau, maent yn pryderu ynglŷn â'u gallu i ymdopi â chynnydd yn y galw wrth i fwy o ddioddefwyr deimlo y gallant ddod ymlaen yn ystod gweithredu'r Ddeddf VAWDASV (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015).

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae dau brosiect yn rhedeg mewn ysgolion fel rhan o'n strategaeth ataliol, ond yn y tymor hir y byddwn yn gweld yr effeithiau. Ar hyn o bryd, nid oes gan Bowys raglen i'w chynnig i droseddwyr nad ydynt yn gysylltiedig â MARAC na'r system Cyfiawnder Troseddol. Gwyddom nad yw'r gwasanaethau presennol ond yn cael eu defnyddio gan leiafrif o ddioddefwyr, ac wrth i ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth i ddioddefwyr trais domestig dyfu gallwn ddisgwyl gweld cynnydd mawr iawn yn y galw. Ychydig iawn o waith rydym wedi'i wneud ar agweddau eraill ar yr agenda VAWDASV fel FGM, priodasau dan orfod, ayb. Mae tystiolaeth o ymchwil i ddata cyfrifiadau yn dangos y bu nifer o enedigaethau i famau o wledydd sy'n ymarfer FGM sydd bellach yn byw ym Mhowys. Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i weithwyr cymdeithasol rheng flaen ar elfennau cyfreithiol ac ymarferol FGM, nid oes gennym ddata ar briodasau dan orfod nac agweddau eraill ar VAWDASV.

## Yr hyn na wyddom eto?

Deall ein cyfraddau uchel o atgyfeiriadau i MARAC a deall yr anghenion sydd heb eu bodloni o safbwynt holl faterion VAWDASV.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Senario

**Tymor byr**

Mae'n debygol iawn y bydd troseddau a digwyddiadau o drais domestig yr adroddir amdanynt yn parhau i godi yn unol â'r tueddiadau hirdymor. Wrth i newidiadau yn y boblogaeth barhau gallwn hefyd ddisgwyl gweld cynnydd yn y risg o FGM a materion eraill o'r fath ym Mhowys

**Tymor canolig**

Bydd y rhagolygon ar gyfer y tymor canolig yn dibynnu ar i ba raddau y mae Powys yn sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer VAWDASV. Os na wneir cynnydd da, yna mae risg uchel iawn y bydd gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr yn cael eu llethu ac y bydd y costau i dimau Gwasanaethau Plant ac Oedolion y Cyngor yn cynyddu.

**Tymor hir**

Yn y tymor hir, ond na wneir cynnydd i leihau achosion VAWDASV yna bydd yr effaith ar iechyd ac economi cymunedau Powys yn sylweddol iawn.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Yn hanesyddol, mae gwasanaethau i ddioddefwyr trais domestig wedi'u taenu ar draws nifer o adrannau a deiliaid portffolio ac maent yn dal felly heddiw. Nid oes gennym ddarlun cywir o'r galw a'r angen yn y Sir.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Nac ydy. Gallwn weld o'r patrymau cyfeirio cynyddol nad ydym yn bodloni'r galw.

# Iechyd Meddwl

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Mae gwella iechyd meddwl yn fater hollbwysig i bobl o bob oed ac mae ei effaith yn eang, gan effeithio ar gyfleoedd bywyd, dysgu, bywyd cartref, cyflogaeth, diogelwch, iechyd corfforol, annibyniaeth ac oes ddisgwyliedig. Bydd un o bob pedwar o bobl yn y DU yn cael problem iechyd meddwl bob blwyddyn, a defnyddir 25% o ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. 11 mlynedd yw'r amser cyfartalog a gollir mewn oes ar gyfer dynion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae menywod â phroblemau iechyd meddwl, ar gyfartaledd, yn colli chwe blynedd. Mae 8% o boblogaeth Powys yn cael eu trin am iselder neu bryder ac mae'n un o dri phrif achos blaenllaw anabledd.

Mae un o bob pedwar o gleifion sy'n dod at eu meddyg teulu yn byw gydag iselder gyda'r meddyg teulu ar gyfartaledd yn gweld o leiaf un claf sy'n dioddef o iselder yn ystod pob sesiwn. Ymdrinnir ag 80% o'r bobl y gwelwyd bod ganddynt iselder, yn gyfan gwbl mewn lleoliad gofal sylfaenol. Yn y DU, mae gan 25% o oedolion hŷn iselder sydd angen ymyriad ac mae iselder yn effeithio ar dros 40% o'r rheini sydd yn eu 80au. Mae hyn yn arwyddocaol o ystyried demograffeg Powys. Mae hefyd yn bwysig nodi mai iselder yw prif achos hunanladdiad yng Nghymru a Lloegr bob blwyddyn.

Amcangyfrifwyd bod rhwng 10 a 15% o fenywod yn dioddef o iselder ôl-enedigol. Ym Mhowys ceir tua 1000 o enedigaethau bob blwyddyn, sy'n golygu y gallai tua 100 o fenywod ddioddef o iselder ôl-enedigol.

# Dementia

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

Mae achosion o ddementia yn cynyddu gydag oedran, gan ddyblu'n fras bob pum mlynedd ar gyfer pobl dros 65 oed. Mae dementia yn effeithio ar 20% o bobl dros 80 oed yn y DU ac ar un o bob 14 o bobl dros 65 oed.

Ym Mhowys credir mai dim ond 39.6% o'r nifer rhagamcanol o bobl â dementia sydd â diagnosis. Mae hyd at 70% o welyau ysbyty acíwt yn cael eu meddiannu gan bobl hŷn, ac mae gan tua 40% ohonynt ddementia. Fodd bynnag, mae cleifion sydd â dementia yn wynebu llawer mwy o gymhlethdodau ac aros yn hwy yn yr ysbyty na'r rhai nad oes ganddynt ddementia. Amcangyfrifir hefyd y bydd 30 y cant o bobl yn marw gyda dementia ac mae llawer o'r rhain yn marw mewn ysbytai cyffredinol. Mae gwella'r gofal i bobl â dementia mewn ysbytai cyffredinol yn elfen o Gynllun Dementia Powys.

# Poblogaeth Plant Is


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ★ | | | | ★ | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Rhagwelir y bydd y boblogaeth plant a phobl ifanc ym Mhowys yn lleihau yn y deng mlynedd nesaf, yn bennaf oherwydd tuedd barhaus i bobl ifanc adael y sir o blaid ardaloedd mwy trefol, yn ogystal â'r gyfradd genedigaethau is ar draws Powys. Mae effeithiau hyn eisoes yn dod i'r amlwg, gydag oed cyfartalog y boblogaeth yn cynyddu'n gyflym. Er bod rhai gwasanaethau, megis ysgolion, wedi dechrau paratoadau i liniaru effaith y newid hwn mewn demograffeg, mae'r boblogaeth plant is yn debygol o arwain at sgil-effeithiau eraill. Yn benodol, mae cost gwasanaethau a gomisiynir yn debygol o gynyddu a gall ddod yn fwy anodd recriwtio staff wrth i'r gweithlu sydd ar gael grebachu. Rhagwelir y bydd poblogaeth plant yn dechrau crebachu'n ymylol erbyn 2018, gyda gostyngiad yn y boblogaeth blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn lledaenu yn araf i bob grŵp oedran blynyddoedd cynnar ac oedolion ifanc, gyda'r effeithiau difrifol cychwynnol yn cael eu teimlo erbyn 2025.


## Beth ddywed y data wrthym?

Wrth i'r boblogaeth plant barhau i ostwng, oherwydd bod pobl ifanc yn symud i drefi a dinasoedd mwy, a llai o deuluoedd ifanc yn symud i mewn, mae cyfartaledd oedran y boblogaeth yn mynd i gynyddu ar yr un cyflymder. Mae cymuned gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yn debygol o fod yn llai deniadol i fusnesau, a fydd yn ei chael yn anodd recriwtio staff yn lleol. Ymysg yr effeithiau eraill y mae llai o ysgolion, cynnydd yn nifer y cartrefi gwag, a gostyngiad dilynol mewn prisiau tai, diffyg datblygu eiddo neu lety rhent newydd, llai o gyfleusterau gofal, llai o drosiant ar gyfer busnesau lleol, llai o ddefnydd ar gyfleusterau lleol, llai o ddefnydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan arwain at gynnydd yn y pris, a mwy o amser teithio. Mae'r boblogaeth plant eisoes yn lleihau, gyda gostyngiad yn y cyfraddau genedigaethau rhwng 1991 a 2014 (CSP, 2015). Amcangyfrifir y ceir, erbyn 2035, 20% yn llai o blant 0-2 oed ym Mhowys. Bydd y grwpiau oedran eraill yn dechrau gostwng erbyn 2025. Yn benodol, disgwylir i bobl ifanc 14-19 oed syrthio 13% erbyn 2035, gan arwain at ostyngiad dilynol o 27% yn y bobl ifanc 20-25 oed (CSP, 2015). Dylid nodi, fodd bynnag, mai amcangyfrifon yw'r ffigyrau hyn a bod y rhagolygon blaenorol ar gyfraddau genedigaethau is yn fwy na'r gostyngiad gwirioneddol. Yn ogystal, efallai y gellid egluro rhyw gymaint o'r allfudo gan bobl ifanc sy'n gadael i fynychu addysg uwch, gan nad oes gan Bowys sefydliadau addysg uwch, ac mae llawer o'r rhain nad ydynt yn dychwelyd ar ôl cwblhau eu haddysg. Mae hyn yn cael effaith ganlyniadol ar weithlu Powys.




Mid Year Estimate for people aged 0 and number of births per year
1,600
1,400
1,200
1,000
800
600
400
200
0
1991 1992 1993 1994 1995 1996 1997 1998 1999 2000 2001 2002 2003 2004 2005 2006 2007 2008 2009 2010 2011 2012 2013 2014 2015
MYE aged zero


The predicted percentage change in the population from 2015's population for Under 11 year olds in Powys
10%
5%
0%
-5%
-10%
-15%
-20%
2016
2017
2018
2019
2020
2025
2030
2035
Powys: People aged 0-2
Powys: People aged 3-7
Powys: People aged 8-10
Wales: People aged 0-2
Wales: People aged 3-7
Wales: People aged 8-10


The predicted percentage change in the population from 2015's population for 11-25 year olds in Powys
20%
15%
10%
5%
0%
-5%
-10%
-15%
-20%
-25%
-30%
2016
Powys: People aged 11-13
Powys: People aged 14-19
Powys: People aged 20-25
Wales: People aged 11-13
Wales: People aged 14-19
Wales: People aged 20-25

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?
Ni allwn ddarparu'r data hwn oherwydd pryderon ystadegol.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?
Mae'r rhan fwyaf o'r adborth gan ddinasyddion o'n hymgysylltiad Facebook yn sôn am y siwrnai hir i'r ysgol:

Annog teuluoedd ifanc i ymgartrefu yn yr ardal drwy ymlacio rheolau cynllunio ar gyfer adeiladau newydd #bringdownbarriers

"Diffyg ysgolion lleol, rydych chi'n eu cau i gyd. Dim cyfleoedd hamdden i blant a phobl ifanc. Mae gan Bowys amgylchedd perffaith ar gyfer hyn. Diffyg anogaeth i fusnesau greu swyddi. Meddygfeydd yn cau oherwydd na allant ddenu staff. Mae hon yn Sir sy'n marw".

"Rydych yn cau'r holl ysgolion, mae'r canolfannau hamdden yn cael eu cau, rydych wedi torri cyllid y clybiau ieuenctid i ofalwyr, nid oes dim yma ar gyfer plant ni allaf hyd yn oed gael gofal deintyddol ar gyfer fy mhlant oherwydd all y lle ddim denu staff; meddygfeydd yn cael eu cau".

"Oherwydd eich bod yn cau ein hysgolion, canolfannau hamdden, canolfannau ieuenctid".

## Beth ddywed y staff?

Gweler yr Holiadur Tîm a gyflwynwyd gan y Tîm Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (PPPI). Ym Mhowys, mae'n dal i fod yn anodd darparu gwasanaethau i boblogaeth wasgaredig ac os yw nifer y plant a'r bobl ifanc yn lleihau, gallai hyn gael ei ddehongli fel gwasanaethau'n dod yn rhatach i'w cyflenwi - nid yw hyn o reidrwydd yn wir oherwydd bod poblogaeth sy'n lleihau yn golygu llai o fàs critigol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Gall hyn arwain at:

- gost gynyddol yr uned am gyflenwi gwasanaethau;
- costau teithio ychwanegol;
- Lefelau cynyddol o amser anghynhyrchiol (oherwydd amser teithio);
- costau cyfathrebu ychwanegol;
- costau hyfforddiant cynyddol (oherwydd problemau trafnidiaeth).

Wrth inni gomisiynu mwy o wasanaethau, gallai poblogaeth plant a phobl ifanc is effeithio ar ba mor ddeniadol yw hi i ddarparwyr gyflenwi gwasanaethau, gan ei bod yn ddrutach iddynt wneud hynny. Byddai hyn yn arwain at lai o gystadleuaeth o fewn y farchnad ac felly gost uwch i'r gwasanaethau cyhoeddus – yn yr un modd, gallai cyflenwi'r gwasanaeth yn fewnol fod yn ddrud o hyd oherwydd costau teithio ayb oni bai y ceir dulliau eraill o gyflenwi gwasanaethau.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Yr hyn na wyddom eto?

Lefel cymhlethdod achosion – h.y. pa alw sydd gennym am wasanaethau ar draws y gwahanol haenau angen?

## Tueddiadau Cenedlaethol

Disgwylir i effeithiau a graddfa'r boblogaeth plant lai fod yn llai difrifol ar draws Cymru gyfan. Disgwylir i Bowys weld gostyngiad o hyd at 30% erbyn 2035, ond ni ddisgwylir i Gymru gyfan ond gweld gostyngiad o 5% ar ei gwaethaf (CSP, 2015).

## Senario

**Tymor byr**

Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd y boblogaeth plant a phobl ifanc yn lleihau dros y 3 - 5 mlynedd nesaf. Mae gwasanaethau eisoes wedi dechrau cynllunio gyda hyn mewn golwg (e.e. y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaethau yn cyfateb i'n demograffeg.

**Tymor canolig**

Os yw nifer gyffredinol y plant a'r bobl ifanc yn y sir yn parhau i leihau fel y rhagwelir, bydd hyn yn parhau i gael effaith ar faint o arian a gaiff Powys gan Lywodraeth Cymru gan fod y fformiwla ariannu bresennol yn defnyddio nifer y plant a'r bobl ifanc fel un o'r meini prawf. Bydd cyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn dod yn fwy anodd oherwydd diffyg màs critigol, a fydd yn cynyddu cost pob uned.

**Tymor hir**

Os na fydd y gyfradd genedigaethau a nifer y teuluoedd sy'n symud i Bowys gyda babanod a phlant yn cynyddu yn y tymor hwy, yna bydd yn rhaid i'r sir ddibynnu ar nifer net y gweithwyr sy'n mudo i mewn er mwyn sicrhau y gall barhau i gefnogi ei ddinasyddion a chyfrannu at yr economi leol.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae gwasanaethau yn y sir eisoes yn cael eu comisiynu i gyflenwi mewn ymateb i'r angen a welir gan sicrhau arbedion maint ar yr un pryd.

Er enghraifft, comisiynodd y PPPI wasanaeth cwnsela ar y rhyngrwyd er mwyn sicrhau bod pobl ifanc, lle bynnag y maent ym Mhowys, yn gallu cael gafael ar gymorth. Roeddem wedyn yn gallu integreiddio'r gwasanaeth ar-lein gyda gwasanaeth wyneb-yn-wyneb fel bod pobl ifanc yn gallu gofyn am apwyntiad i weld cwnselydd lleol yn eu hardal.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Mae partneriaid, drwy'r PPPI, wedi ymrwymo i gyflenwi gwasanaethau drwy fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd. Bydd hyn yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio fel eu bod mor addas â phosibl ar gyfer y boblogaeth i sicrhau mas critigol a'u bod hefyd yn gallu ymateb i angen lleol.

# Plant ag Anableddau


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Disgwylir i'r boblogaeth plant ag anableddau ragweledig leihau dros y deng mlynedd nesaf, yn unol â'r gostyngiad yn y boblogaeth plant. Ar hyn o bryd Anhwylderau Sbectrwm Awtistiaeth (ASD) yw'r math mwyaf cyffredin o anabledd mewn plant, ac yna anawsterau dysgu ac anhwylderau ymddygiad. Er bod disgwyl i nifer y plant ag anableddau leihau, mae disgwyl i gymhlethdod anghenion gynyddu a chyflwyno mwy o her a chost i wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'r system bresennol dan bwysau mawr oherwydd nifer y plant sydd ag anghenion ychwanegol fwyfwy cymhleth.

## Beth ddywed y data wrthym?

Ar hyn o bryd, anhwylderau'r sbectrwm Awtistig (ASD) yw'r anabledd mwyaf cyffredin a welir ymysg plant ym Mhowys (PPPI, 2015). Yr ail fwyaf cyffredin ydy anawsterau dysgu ac anhwylderau ymddygiad. O fis Hydref 2016 ymlaen, cafodd 155 o achosion agored eu cyfeirio i'r tîm Plant ag Anableddau, daeth y rhan fwyaf o'r achosion hyn o ogledd y sir (Daffodil, 2014). Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn dangos gostyngiad bach o 25 o achosion o'i gymharu â llwyth achosion 2012. Credir bod y gostyngiad hwn yn nifer y cyflwyniadau yn gysylltiedig â'r boblogaeth plant sy'n lleihau'n raddol. Os yw hyn yn wir, gellir disgwyl i nifer yr achosion barhau i ostwng yn unol â'r lleihad yn y boblogaeth plant. Fodd bynnag, tra'i bod yn ymddangos bod nifer y plant yn lleihau, ymddengys bod cymhlethdod eu problemau yn cynyddu. Gall hyn fod yn gysylltiedig ag oedran cyfartalog cynyddol y mamau. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn 2014 ceid tair gwaith yn fwy o famau 25-34 oed nac a geid o famau dan 25 oed. Yn ôl astudiaeth a gynhaliwyd yn yr Unol Daleithiau, mae rhywfaint o gydberthynas rhwng oedran y fam a'r tebygolrwydd y bydd plentyn cael ei eni â nam gwybyddol – syndrom down ac awtistiaeth yn benodol.




Lloegr a Chymru. Dan 25. 25 i 34. 35 a drosodd. Genedigaethau byw.
Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Mae 83% o achosion y Gwasanaeth Anabledd Integredig (IDS) sy'n cael cefnogaeth lefel is yn dod o'r Gogledd (CSP, 2016).

Mae 51.8% o'r Achosion Plant ag Anableddau yn y Gogledd gyda 48.2* yn y Canolbarth a'r De. Mae'r boblogaeth yn fwy ar wasgar yn ardal y De (CSP, 2016).

## Beth ddywed y dinasyddion?

Mwy o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth, e.e. ymddygiad heriol ac awtistiaeth glasurol.

Plant a Phobl Ifanc yn arddangos mwy o broblemau iechyd meddwl gan gynnwys y rheini sydd ag anableddau.

Angen mwy o ddarpariaeth gofal seibiant a gwasanaethau arbenigol fel gofalwyr maeth hyfforddedig a Bannau/Camlas (Preswyl).

Mae defnyddwyr gwasanaethau eisiau cael rheolaeth dros eu bywydau.
Mae plant a phobl ifanc anabl eisiau mwy o fynediad i weithgareddau cymunedol y mae plant eraill yn eu gwneud.

Mae angen i'r pontio rhwng gwahanol lwybrau fod yn llyfn, a chael canlyniadau a chymorth clir ac ystyrlon.

Gofynnodd rhieni i Seibiannau Byr fod ar gael yn gynnar – rhag iddynt gael eu cyfeirio i gefnogaeth arbenigol.

## Beth ddywed y staff?

Mae capasiti'r gwasanaeth yn broblem gyda rhai gwasanaethau, Seicoleg addysgol, Nyrsio AD, Therapyddion Galwedigaethol, Plant ag Anableddau.
Bydd cyflenwi gwasanaethau cyson ar draws y gymuned wledig denau ei phoblogaeth yn parhau i fod yn her yn enwedig gyda llai o adnoddau.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Bu Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys (PAVO) a sefydliadau eraill yn cyfrannu at ymgynghoriadau IDS ar adolygu cyfnodau Pontio ac Egwyliau Byr.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Cynllunio gofal cefnogaeth Llwybr IDS yn y cam Ymyrraeth Gynnar. Prosiect Datblygu IDS i sicrhau mwy o integreiddio a chydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Ail-gomisiynu egwyliau byr i'w gwneud yn fwy hygyrch i anghenion lefel is.

## Yr hyn na wyddom eto?

Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan gynnwys rheswm am y Datganiad.

Cyrhaeddiad Plant ag Anableddau – ddim ar gael.

Pellter teithio i ysgolion arbennig – ar gais y Gwasanaeth Ysgolion.

Data Iechyd.

Data Lefel gwasanaeth - e.e. Defnydd ar ddarpariaeth hosbis Tŷ Hafan

## Tueddiadau Cenedlaethol

Poblogaeth plant sy'n lleihau.

## Senario

**Tymor byr**
Ail-ddylunio ac ad-drefnu'r gwasanaeth.

**Tymor canolig**
Byddwn yn cefnogi nifer lai o blant ag anghenion cymhleth, fodd bynnag, bydd lefel yr angen yn fwy. Materion yn ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc ag ASD ac ymddygiad heriol sy'n arwain at chwalu teuluoedd a'u gwahardd o'r byd addysg.

**Tymor hir**
Gormod o bethau'n anhysbys.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Comisiynu gwasanaethau i roi cefnogaeth egwyliau byr i deuluoedd.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

# Lles Meddwl Pobl Ifanc


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Yn seiliedig ar y tueddiadau presennol, disgwylir i nifer y bobl ifanc sy'n gwneud defnydd o wasanaethau iechyd meddwl ym Mhowys godi'n sylweddol. Wrth i fynediad i adnoddau iechyd meddwl, megis gwasanaethau gwybodaeth a chynghori, wella mae mwy a mwy o bobl ifanc yn dod yn ymwybodol o'r pryderon ac yn gofyn am gymorth a chyngor gan wasanaethau. Mae arolygon hefyd yn awgrymu bod pobl ifanc yn dal i roi blaenoriaeth llawer uwch i'w hiechyd meddwl na'u rhagflaenwyr, ac o'r herwydd maent yn fwy tebygol o ofyn am gymorth. O ganlyniad, mae mwy o alw yn cael ei roi ar wasanaethau iechyd meddwl, ac mae hyn yn cael ei waethygu gan bwysau pellach oherwydd toriadau parhaus yng nghyllidebau gwasanaethau. Mae dynion hefyd yn awr yn fwy parod i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn nag yn y gorffennol. Pryder a straen yw'r broblem fwyaf cyffredin yr adroddir amdani, ynghyd â phryderon hunanwerth ac anawsterau â pherthnasoedd.


## Beth ddywed y data wrthym?


Caiff pryderon iechyd meddwl eu cydnabod fel un o brif achosion clefydau ledled y byd, maent i gyfrif am 28% o gyfanswm y baich. Mae hyn yn golygu y bydd un o bob pedwar o bobl yn y DU yn dioddef o broblem iechyd meddwl yn ystod eu hoes (Daffodil, 2014). Fodd bynnag, ym Mhowys, fel mewn llawer o ardaloedd eraill yn y DU, mae gwasanaethau iechyd meddwl dan bwysau aruthrol ac ni allant gynnig gwasanaethau arbenigol. Ar hyn o bryd, mae gwariant cyhoeddus yn canolbwyntio mwy ar ymdopi ag argyfwng, yn hytrach nag ar atal y problemau. Yn ogystal, mae nifer y bobl sy'n rhoi gwybod am broblemau iechyd meddwl i'w weld yn cynyddu (Daffodil, 2014). Ar lefel Powys, mae nifer yr asesiadau a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi cynyddu rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2016, ac mae'r amseroedd aros hefyd wedi lleihau. Mae cofrestriadau ar-lein hefyd wedi cynyddu. Mae nifer gynyddol o ddynion (36% o atgyfeiriadau) yn awr yn troi at wasanaeth cwnsela a gwasanaethau iechyd meddwl, sy'n unol â'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru (Daffodil, 2014). O blith y pryderon a gyflwynwyd, pryder a straen oedd y mwyaf cyffredin drwyddi draw, ond i ddynion, roedd pryderon dicter ac ymddygiad yn fwy cyffredin, ac ymysg menywod, roedd pryderon yn ymwneud â hunan-niweidio yn fwy cyffredin.
Ceir hefyd nifer gynyddol o achosion cymhleth, gan gynnwys pobl ifanc sy'n meddwl am hunanladdiad. Yn y Gwasanaeth cefnogi teuluoedd 0-11, gwelwyd mai'r pryder mwyaf cyffredin oedd diffyg hunanhyder.the most common issue was found to be low self-esteem.






N.B. This may include an element of double counting as these are aggregated quarterly statistics.






## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y dinasyddion?

Mae aelodau Fforwm Ieuenctid Powys, sy'n cynrychioli gwahanol bobl ifanc ar draws y sir, wedi dweud bod gwasanaethau iechyd meddwl yn broblem i bobl ifanc ym Mhowys. Adroddwyd Eat Carrots, Be Safe from Elephants (Grŵp Iau Bwrdd Lleol Diogelu Plant Powys) hefyd fod gwasanaethau iechyd meddwl yn un o'u 4 maes blaenoriaeth ar gyfer 2016/17.

## Beth ddywed y staff?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Dewis da o raglenni i ddatblygu gwytnwch:
Therapi chwarae, mae ysgolion yn darparu'r rhaglen ffynnu ar hyn o bryd.
'Fresh' – meddwl iach, corff iach.

## Yr hyn na wyddom eto?

Data iechyd meddwl ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, gyda rhai ohonynt yn Blant sy'n Derbyn Gofal neu'n Blant o Awdurdodau Lleol Eraill sy'n byw ym Mhowys.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Yng Nghymru bu cynnydd yn nifer y plant 5-15 oed sydd â phroblemau iechyd meddwl, gyda thwf cyfartalog o 4.3% ar gyfer Cymru. O'i gymharu, mae Powys wedi gweld gostyngiad cyffredinol o 7.7%.

## Senario

**Tymor byr**
Mae'r tueddiadau presennol yn awgrymu y bydd nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac iechyd emosiynol ym Mhowys yn dal i gynyddu yn ystod y cyfnod hwn.

**Tymor canolig**
Os na chaiff y galw ei reoli, bydd ymyriadau drutach yn ofynnol i roi sylw i bryderon iechyd meddwl ac emosiynol. Mae gwydnwch (h.y. iechyd meddwl da) yn allweddol i fynd i'r afael ag amrywiol faterion, megis bwlio, cam-drin domestig, arferion magu plant gwael, perthnasoedd afiach ac ati a all basio ymlaen i lawr y cenedlaethau.

**Tymor hir**
Fel yn achos y tymor canolig, efallai y ceir cynnydd posibl yn nifer yr achosion o hunan-niweidio a hunanladdiad ymysg pobl dan 45 oed ac y bydd ymyriadau lefel a chost uwch yn angenrheidiol i helpu unigolion.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae'r gwasanaethau cwnsela yn cynnig dull integredig - gall pobl ifanc gael mynediad at wasanaeth cwnsela ar-lein 24/7 a gallant hefyd ofyn am apwyntiad gyda chwnselydd wyneb-yn-wyneb drwy gyfrwng y wefan. Fel rhan o'r gwasanaeth ar-lein, mae pobl ifanc yn mynegi eu nodau ar ddechrau'r gefnogaeth a chaiff nifer y nodau a gyrhaeddir eu mesur ar ddiwedd yr ymyriad. Mae'r gwasanaeth wyneb-yn-wyneb yn defnyddio'r mesur canlyniad YP-CORE i olrhain a geir newid clinigol neu ddibynadwy yn dilyn yr ymyriad.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Ar hyn o bryd, mae'r angen yn cael ei reoli ac mae'r amseroedd aros ar gyfer asesiadau yn CAMHS wedi gwella. Mae arian ychwanegol ar gael i alluogi mwy o bobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau cynghori, ond nid yw hyn ar gael mwyach oherwydd gostyngiadau mewn cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn effeithio ar nifer yr oriau y gall cynghorwyr ar-lein helpu pobl ifanc ym Mhowys.

# Digonolrwydd Gofal Plant

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ★ | | | | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i asesu a sicrhau gofal plant digonol ac os yw'n gweld bylchau, dylai ymyrryd yn y farchnad i sicrhau bod darpariaeth yn cael ei chreu. Mae cyfleusterau gofal plant Powys ar hyn o bryd yn gymysgedd o sefydliadau preifat, gwirfoddol, yn ogystal â sefydliadau yn yr ysgol sy'n darparu lefelau amrywiol o ofal plant. O'n canfyddiadau cychwynnol, mae Powys ar hyn o bryd yn bodloni'r lefelau galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd wedi sicrhau bod darpariaeth ar gael i sicrhau bod gwasanaethau gofal plant yn hygyrch i blant ag anghenion ychwanegol, megis anabledd. Mae cynllun Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru yn gweithredu mewn pum tref ar draws Powys, gan ddarparu oriau gofal plant am ddim i blant 2 oed yn yr ardaloedd dynodedig hyn.

Er ei bod yn ymddangos bod digon o ddarpariaeth gofal plant ac addysg ar gael ar hyn o bryd i fodloni anghenion y boblogaeth, bydd y newid yn yr oedran derbyn i addysg gynradd yn arwain at gynnydd yn y galw am ofal plant cyn oed ysgol a darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar. Ar hyn o bryd, un cynnig gan Lywodraeth Cymru yw darparu mwy o ofal plant a gyllidir ac mae hawliau addysgol hefyd yn cael eu hystyried a gallai felly effeithio ar y ddarpariaeth addysgol a gofal plant. Mae cost gofal plant hefyd yn dal i fod yn rhwystr. Mae gan ardaloedd fel y Drenewydd nifer fawr o leoedd gofal plant o'u cymharu â maint y boblogaeth, tra nad oes gan ardaloedd eraill ond ychydig iawn ar gael, felly mae'n rhaid bod rhieni yn dewis gwneud trefniadau eraill, megis defnyddio cyfleusterau gofal plant sy'n agos at eu gwaith.


## Beth ddywed y data wrthym?

Ym Mhowys, ceir cyfanswm o 267 o leoliadau gofal plant cofrestredig (PPPI, 2015). Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o sefydliadau preifat, gwirfoddol, ac mewn ysgolion. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg dau gynllun cenedlaethol ym Mhowys. Mae'r cyntaf, Dechrau'n Deg, yn gweithredu mewn pump o'r prif drefi ym Mhowys. Mae'r cynllun hwn yn darparu ar gyfer cyfanswm o 12.5 awr o ofal yr wythnos yn ystod y tymor ac mae'n dechrau yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwy oed a daw i ben ar ddechrau'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair (CPPI, 2013). Yn ogystal â Dechrau'n Deg, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cynllun Addysg a ariennir i Blant Tair Oed, sy'n darparu deg awr o ofal plant yr wythnos sy'n dechrau pan na fydd y plentyn yn gymwys mwyach am Dechrau'n Deg, a daw i ben ar ddechrau'r tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i godi oedran derbyn i ysgolion cynradd, disgwylir y bydd bwlch yn ymddangos yn y ddarpariaeth ac ni fydd dim gofal dydd amser llawn ar gael i blant dros dair blwydd oed. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynnig i sefydlu rhaglen a fydd yn darparu 30 awr yr wythnos o ofal plant i gefnogi rhieni sy'n gweithio. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig hwn wedi cael ei gadarnhau eto.


The number of registered childcare places per 100 children and young people aged 0-14 years in Powys 2015.
Powys
20.6
Sarn Helen
23.3
Crug Hywel
21.4
Brecon
30.0
Beacons Epynt
21.2
Wye and Llynfi
21.1
Irfon and Edw
22.1
Llandrindod
29.5
Elan and Ithon
14.5
Radnor Forest
14.6
Clywedog
13.0
Newtown South-West
3.2
Newtown North-East
47.0
Wantyn's Dike
11.3
Gregynog
11.9
Ffridd Faldwyn
25.8
Dyfi
16.5
Welshpool
37.6
Guilsfield Brook
5.6
Vyrnwy
23.8
0.0
5.0
10.0
15.0
20.0
25.0
30.0
35.0
40.0
45.0
50.0

Additional information © Powys County Council 2017
No additional copies should be made without the permission of the Council.
Gwybodaeth ychwanegol © Cyngor Sir Powys 2017
Ni ddylid gwneud unrhyw gopïau ychwanegol heb ganiatâd y Cyngor.

Powys




Printed bygdmorgan Date: 10/01/2017

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?
Mae nifer y lleoedd gofal plant sydd ar gael i bob 100 o blant yn amrywio o 13 o lefydd yn Nant Cegidfa i 86 o lefydd i bob 100 o blant yng ngogledd-ddwyrain y Drenewydd. Wrth edrych ar y ffigurau hyn, dylem gofio y gall rhieni ddewis gofal plant mewn ardal y tu allan i ble maent yn byw (e.e. yn nes at eu gwaith) ac mae'n bosibl mai hyn sydd i gyfrif am yr amrywiaeth eang a welwyd yn nifer y lleoedd mewn ardal benodol o'i gymharu â phoblogaeth amcangyfrifedig yr ardal honno. Mae'r farchnad gofal plant yn y pen draw yn ddarostyngedig i rymoedd galw a chyflenwad a bydd y Cyngor yn cefnogi lleoliadau gofal plant sy'n wynebu problemau cynaliadwyedd dros dro a bydd hefyd yn helpu lleoliadau gofal plant newydd i sefydlu mewn ardaloedd lle ceir galw am ddarpariaeth newydd.

## Beth ddywed y dinasyddion?
Wrthi'n ymgynghori â rhieni fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

## Beth ddywed y staff?
Nid oedd dim gwybodaeth.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?
Wrthi'n ymgynghori â darparwyr gofal plant yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol fel rhan o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Cyflogaeth a Sgiliau
Tlodi ac Amddifadedd

## Yr hyn na wyddom eto?
Ni welwyd dim bylchau penodol yn y data.

## Tueddiadau Cenedlaethol
Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ffigurau cenedlaethol eto.

## Senario
**Tymor byr**
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

**Tymor canolig**
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

**Tymor hir**
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

# Gofalwyr Ifanc


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ★ | ★ | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Gyda'r cynnydd parhaus ym mhoblogaeth pobl hŷn Powys, mae mwy a mwy o bobl ifanc yn cael eu gorfodi i fod yn ofalwyr. Mae'r nifer yn cynyddu'n gyson, er bod y boblogaeth plant yn lleihau. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn darparu hyd at bedair awr ar bymtheg o ofal (PPPI, 2016). Mae hyn wedi golygu bod rhai gofalwyr ifanc yn colli'r ysgol oherwydd eu cyfrifoldebau, ac mae hyn yn ei dro yn effeithio ar eu siawns o gael gwaith hirdymor yn y dyfodol. Er gwaetha'r problemau hyn, nid yw gofalwyr ifanc yn cael eu rhoi mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu sefydliadau cefnogi eraill yn rheolaidd. Mae'r cymorth sydd ar gael hefyd yn amrywio llawer iawn yn ôl oedran a'r oriau o ofal a ddarperir.


## Beth ddywed y data wrthym?

Yn ôl cyfrifiad 2011, ceir 1,066 o ofalwyr di-dâl 0-24 oed ym Mhowys (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn darparu rhwng 1-19 awr o ofal yr wythnos. Dim ond 576 o ofalwyr ifanc oedd yn hysbys i Wasanaeth Gofalwyr Powys yn 2016 ac nid oedd pob un o'r rhain yn hysbys i'r gwasanaeth gwybodaeth a chynghori a gomisiynir (PPPI, 2016). Mae'r gefnogaeth a gynigir yn amrywiol iawn, yn dibynnu ar oedran gofalwr ifanc. Roedd cefnogaeth emosiynol yn aml yn ofynnol i ofalwyr 16 oed ac iau, ac roedd ymyriadau cymorth i deuluoedd yn ofynnol i rai 16-25 oed. Effaith allweddol arall ar ofalwyr ifanc yw'r ffaith bod tua 1 o bob 20 o ofalwyr ifanc yn methu'r ysgol oherwydd eu cyfrifoldebau (PPPI, 2016). Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar eu haddysg a'u siawns o gael gwaith tymor hir. Mae lefel cyrhaeddiad gofalwyr ifanc yn llawer is mewn TGAU ac maent yn llawer mwy tebygol o fod yn NEET (ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant), sy'n lleihau eu cyfleoedd mewn bywyd ymhellach. Er gwaethaf eu hangen am gefnogaeth ychwanegol, nid yw gofalwyr ifanc yn fwy tebygol na'u cyfoedion i fod mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaethau Lles Addysgol, er bod y ddau wasanaeth hyn wedi'u bwriadu i gynnig cefnogaeth iddynt.






The number of young carers and young adult carers known to Powys Carers Service
Number of carers
400
350
300
250
200
150
100
50
0
Q1
Q2
Q3
Q4
Q1
Q2
Q3
Q4
Q1
Q2
Q3
Q4
2013/14
2014/15
2015/16
Total Young Carers (0-15)
Total Young Adult Carers (16-25)

Number of interventions by type and age (can be counted in multiple categories)
600
500
400
300
200
100
0
483
224
378
268
281
96
167
55
167
115
143
51
122
78
114
27
48
23
46
8
30
8
10
61
6
45
3
2
Emotional Support
Info/advice
Family Support
Respite
Education
Social
Advocacy
Registration
Health
POVA/Child Protection
No Show
Training
Employment
Signposting
Total for under 16's
Total for 16-25 year olds




Cyngor Sir Powys County Council

Printed by: gdmorgan Date: 11/01/2017

Carers aged 5 to 25 as percentage of population
January 2017
by Lower Super Output Area

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y dinasyddion?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y staff?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn helpu gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, eu helpu i wneud y mwyaf o'u bywydau, a rhoi iddynt lais cryf. Yn benodol, maent yn helpu gofalwyr ifanc i gael ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth, i gael dyheadau a llwyddo yn eu haddysg, ynghyd â phrofiadau plentyndod positif.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Yr hyn na wyddom eto?

Nifer y gofalwyr ifanc ym mhob ysgol ac a yw ysgolion yn ymwybodol o nifer y gofalwyr ifanc yn eu hysgol (Canfu Arolwg gan (Gyn) Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr (2010), ar gyfer dros 39% o ofalwyr ifanc, nad oedd staff ysgolion yn ymwybodol eu bod yn ofalwyr ifanc a dywedodd 68% eu bod wedi cael eu bwlio yn yr ysgol) - rydym yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Ysgolion ynglŷn â hyn.

Roedd adroddiadau am ethnigrwydd yn un bwlch ond mae wedi gwella yn ddiweddar.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae nifer gyffredinol y gofalwyr ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru wedi bod yn gostwng bob blwyddyn er 2012, gan syrthio o ffigur uchel o 1,070 yn 2012, i lawr i 782 yn 2016. Mae hyn yn groes i'r cynnydd yn nifer y gofalwyr sy'n dod yn hysbys i Wasanaeth Gofalwyr Powys.

## Senario

**Tymor byr**

Mwy o alw. Effaith bosibl ar gyrhaeddiad gofalwyr ifanc yn yr ysgol, yn ogystal â'u cyfleoedd i gael seibiant er mwyn eu galluogi i gymdeithasu gyda'u cyfoedion oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

**Tymor canolig**

Effaith bosibl ar allu gofalwyr ifanc i gael gwaith os yw eu cyfrifoldebau gofalu wedi cael effaith negyddol ar eu cyrhaeddiad. Os bydd raid i ofalwyr roi'r gorau i'w cyfrifoldebau gofalu, yna bydd angen i Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddarparu (yn uniongyrchol neu drwy wasanaethau a gomisiynir) gefnogaeth i lenwi'r bwlch hwn. Y newid o fod yn ofalwr ifanc i oedolyn sy'n ofalwr a sut y gwneir hyn ochr yn ochr â newidiadau eraill wrth i'r person ifanc ddod yn oedolyn.

**Tymor hir**

Cyflogaeth a jyglo cyfrifoldebau gofalu gyda bywyd teuluol a chyflogaeth.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Rydym wedi cytuno ar strategaeth gomisiynu ar y cyd ar gyfer gofalwyr ac wedi ail-gomisiynu gwasanaeth gwybodaeth, cynghori a chefnogi i ofalwyr o bob oed. Mae Powys yn gweithio i gyflawni model Busnes Pawb sy'n golygu bod adnabod gofalwyr a deall eu hanghenion am gefnogaeth yn rhan o rôl pawb. Gallai hyn hefyd gynnwys dull gweithredu Tîm o gwmpas y Gofalwr ar ôl i Asesiad Lles gael ei gwblhau er mwyn helpu amrywiaeth o asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i gefnogi gofalwyr o bob oed a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Fel dengys y ffigurau, nid yw'r rheini sy'n nodi eu bod yn ofalwyr yn y Cyfrifiad i gyd yn hysbys i'n gwasanaethau. Fodd bynnag, efallai nad oes arnynt angen ein cymorth, neu efallai na wyddant ei fod yn bodoli. Bydd ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cynghori a Chefnogi sydd newydd gael ei gomisiynu yn mynd ati i dargedu ac ymgysylltu â'r gofalwyr sydd yn yr ardaloedd a'r grwpiau mwyaf agored i niwed neu anodd eu cyrraedd i sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig mynediad teg.

# Gwahardd a Phrydau Ysgol am Ddim (FSM)

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ★ | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Tra bod bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys, mae'r disgyblion hynny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim ym Mhowys yn gwneud cystal neu'n well na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru yn gyffredinol. Mae gan Bowys nifer gymharol uchel o waharddiadau, yn rhai cyfnod penodol a pharhaol. Mae amrywiad i'w weld rhwng ysgolion.

## Beth ddywed y data wrthym?


Yn 2015-16 yn y Cyfnod Sylfaen, fe wnaeth 79.2% o ddisgyblion sy'n gymwys am Brydau Ysgol am Ddim gyrraedd y Dangosydd Cyfnod Sylfaen, 3.5 pwynt canran yn uwch na'r ffigurau cyfartalog ar gyfer Cymru. Yng nghyfnod allweddol 2, fe wnaeth 68.8% o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gyrraedd y dangosydd pwnc craidd, roedd hyn 8.3 pwynt canran yn is na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru. Yng nghyfnod allweddol 3 roedd y perfformiad, ar 70.8%, 1.4 pwynt canran yn uwch na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4 fe wnaeth 41.75 o'r disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gyrraedd dangosydd cynhwysol lefel 2 (5 A* - C yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a mathemateg yn TGAU).

Mae gweithdrefnau ar waith sy'n sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaharddiadau a bod hawliau'r disgyblion a'u rhieni i apelio yn cael eu diogelu. Disgwylir yn eiddgar, oherwydd gwaith ardderchog dwy ysgol uwchradd yn benodol dros y misoedd diwethaf, y bydd y ffigurau'n gostwng fel adlewyrchiad cywir o'r camau a gymerwyd i fodloni anghenion disgyblion yn yr ysgol.

Ceir ysgolion penodol sydd yn hanesyddol wedi bod â nifer uchel o waharddiadau, ond maent wedi buddsoddi mewn darpariaeth i gynyddu'r gefnogaeth i'r dysgwyr agored i niwed hynny. Buddsoddwyd yn sylweddol mewn ysgolion i gynyddu sylfaen sgiliau a gwybodaeth staff i weithio gyda disgyblion y gallent fod yn agored i herio ysgolion gyda'u hymddygiad.




| 3-year average FSM eligibility (% pupils) | Year | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
| Primary, Secondary & Special Schools - Powys | 11.0 | 10.9 | 10.9 | 10.8 | 10.8 |
| Primary, Secondary & Special Schools - Wales | 19.3 | 19.5 | 19.3 | 19.2 | 18.8 |
| Primary Schools - Powys | 12.1 | 12.0 | 11.7 | 11.3 | 11.0 |
| Primary Schools - Wales | 20.6 | 20.8 | 20.5 | 20.1 | 19.6 |
| Secondary Schools - Powys | 9.1 | 9.1 | 9.2 | 9.4 | 9.8 |
| Secondary Schools - Wales | 17.4 | 17.6 | 17.5 | 17.5 | 17.3 |



## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Mae'r lefelau uchaf o amddifadedd i'w gweld mewn ardaloedd penodol megis y Drenewydd, y Trallwng, ac Ystradgynlais.

## Beth ddywed y dinasyddion?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y staff?

Mae'n ofynnol i arweinwyr ysgolion, gan gynnwys llywodraethwyr fonitro cynnydd disgyblion sy'n agored i niwed yn ofalus. Mae'n ofynnol i bob ysgol werthuso effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) ar gyrhaeddiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chyhoeddi sut maent yn defnyddio'r grant ar wefan eu hysgol. Mae bron pob ysgol yn datgan eu bod yn gwneud defnydd da o'r grant hwn.

O ran gwaharddiadau, mae staff wedi cael hyfforddiant yn null Thrive a/neu ymwybyddiaeth o ymlyniad, a chafwyd adroddiadau ffafriol iawn ar effaith yr ymyriadau hyn.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Mae'r Gwasanaeth Gwella ysgolion rhanbarthol, drwy ei dîm o Gynghorwyr Herio, yn gwerthuso effaith y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) ar gyrhaeddiad y grŵp bregus hwn. Mewn arolygiadau craidd, barnwyd bod bron pob ysgol yn defnyddio'r PDG yn effeithiol. Mae'r broses o werthuso effaith y PDG ar gyrhaeddiad disgyblion yn dal i fynd rhagddi drwy'r rhaglen o ymweliadau craidd ag ysgolion gan Gynghorwyr Herio.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae tîm Cynghorwyr Herio Powys drwy'r canllawiau rhanbarthol, yn herio pob ysgol ar berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim bob tymor yr hydref yn Ymweliad Craidd Un. Mae'r ymweliad hwn yn cynnwys dadansoddiad sy'n canolbwyntio ar berfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.

Mae'r broses o gofnodi gwaharddiadau bellach yn glir ac mae datblygu gallu mewn ysgolion yn cael effaith gadarnhaol ar y cyfraddau gwaharddiadau.

## Yr hyn na wyddom eto?

Mae cyd-destun gwaharddiadau angen cynnwys y niferoedd mewn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD), symudiadau wedi'u rheoli, a'r rheini sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Senario

**Tymor byr**

Gwaharddiadau: Bydd y niferoedd hyn yn lleihau. Mae'r ymyrraeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gan gynnwys strategaeth ar gyfer plant ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, gan gynnwys yr UCD.

**Tymor canolig**

Disgwylir gweld gwaharddiadau yn gostwng i lefel sy'n adlewyrchu'r hyn a allai ddigwydd, er enghraifft, lle mae gwaharddiad parhaol yn briodol.

**Tymor hir**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae'r Strategaeth Gwella Ysgolion ranbarthol drwy Gynghorwyr Herio lleol yn monitro, yn cefnogi, ac yn herio ysgolion a phenaethiaid i wella perfformiad disgyblion sy'n agored i niwed. Darperir i'r ysgolion hefyd adnodd arfer gorau cynhwysfawr ar ddefnyddio'r PDG yn effeithiol. Mae'r Cynghorwyr Herio yn barnu ynglŷn ag effeithiolrwydd PDG ym mhob ysgol.

Gwaharddiadau: Mae'r Gwasanaeth Ysgolion a gwasanaethau a gomisiynir megis ymyrraeth blynyddoedd cynnar drwy Dechrau'n Deg, Blynyddoedd Rhyfeddol, a rhaglenni atal bwlio yn chwarae rhan bwysig i atal yr ymddygiadau y mae gofyn ymateb iddynt.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Mae angen lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys ym mhob cyfnod. Gwaharddiadau: Mae'r lefelau gwaharddiadau yn rhy uchel ar hyn o bryd.

# Plant agored i niwed

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae oedran cyfartalog plant sy'n derbyn gofal ym Mhowys yn cynyddu'n gyson. Mae hyn yn ei gwneud yn llawer anoddach dod o hyd i rieni maeth addas, gan fod llawer yn amharod i dderbyn pobl ifanc hŷn. Mae cymhlethdod anghenion y plant hyn hefyd yn cynyddu, gan ei gwneud yn fwy o her i ofalwyr maeth ofalu amdanynt. Mae'r cynnydd hwn mewn oedran hefyd yn arwain at nifer uwch o leoliadau sy'n chwalu. Yn eu tro, mae aml-leoliadau yn effeithio ymhellach ar les meddyliol y plant. Mae mwy o blant bellach yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant, ac esgeulustod a chamdriniaeth emosiynol yw'r prif resymau dros fynd â phlant i ofal. Yn benodol, mae achosion o esgeulustod wedi bod yn cynyddu o'i gymharu â phroblemau eraill. Mewn cyferbyniad, mae nifer y plant a gyfeiriwyd at y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gostwng o'i gymharu â ffigur 2010-11, ac o ganlyniad, mae llai o blant yn dod i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae ymateb aml-asiantaeth mwy cadarn i gefnogi ymyrraeth gynnar wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion Plant mewn Angen. Dengys ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru y gall profiadau yn ystod plentyndod effeithio ar iechyd drwy gydol cwrs bywyd. Mae plant sy'n cael plentyndod o ansawdd gwael, llawn straen yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad niweidiol i iechyd yn ystod llencyndod, a gall hyn ynddo'i hun arwain at bryderon iechyd meddwl ac afiechydon fel canser, clefyd y galon a diabetes yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod nid dim ond yn peri pryderon iechyd. Mae cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o ymwneud â throseddu ac yn y pendraw yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas.


## Beth ddywed y data wrthym?

Beth ddywed y data wrthym?

Dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 5% (CSP, 2015). Ym Mhowys, fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn wir, gyda'r ffigurau'n aros yn sefydlog i raddau helaeth dros y pum mlynedd diwethaf ar tua 150 o blant sy'n derbyn gofal, sy'n un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru (CSP, 2015). Fodd bynnag, mae anghenion y plant hyn wedi dod yn raddol fwy a mwy cymhleth, gan arwain at fod mwy o leoliadau'n chwalu, ar gost aruthrol i'r awdurdod lleol. Mae galw mawr am fwy o rieni maeth, gyda gwell hyfforddiant a gallu i ymdopi â'r anghenion mwy cymhleth hyn (Llywodraeth Cymru, 2015). Er bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yn isel, mae'r nifer ar y gofrestr amddiffyn plant wedi bod yn cynyddu'n raddol, gydag esgeulustod fel y rheswm mwyaf cyffredin (CSP, 2015). Mae nifer y newydd-ddyfodiaid i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid wedi gostwng er 2010. Mae nifer y plant mewn angen yn ddiweddar wedi dechrau syrthio ar ôl gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth, ac mae hynny'n caniatáu i fwy o achosion gael eu cau.


Looked after children by Age Range
200
180
160
140
120
100
80
60
40
20
0
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
31.03.2009
31.03.2010
31.03.2011
31.03.2012
31.03.2013
31.03.2014
31.03.2015
31.12.2015
0 to 4
5 to 9
10 to 15
16 plus
% aged 10plus


Loooked after children - 3plus placements
12.0%
10.0%
8.0%
6.0%
4.0%
2.0%
0.0%
2008/09
2009/10
2010/11
2011/12
2012/13
2013/14
2014/15
2015/16


Children on the Child Protection Register
120
100
80
60
40
20
0
78
89
84
63
80
64
104
104
31.03.09
31.03.10
31.03.11
31.03.12
31.03.13
31.03.14
31.03.15
31.03.16
Sexual Abuse
Physical and Sexual Abuse
Physical Abuse
Neglect and Physical Abuse
Neglect
Emotional Abuse

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?
Dros y 6 blynedd diwethaf y Drenewydd yn gyson yw'r ardal â'r lefelau uchaf o gofrestriadau, ac mae'r rhain yn sylweddol uwch na llawer o ardaloedd eraill tebyg.

## Beth ddywed y dinasyddion?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y staff?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Yr hyn na wyddom eto?
Mae angen inni wneud mwy o waith dadansoddi ynglŷn â lle mae plant yn hysbys i'r gwasanaethau, er mwyn deall a oes unrhyw beth y gellir ei wneud yn wahanol er mwyn atal cynnydd mewn angen.

## Tueddiadau Cenedlaethol
Mae nifer y plant sy'n agored i niwed yng Nghymru wedi cynyddu er 2010, ond ar hyn o bryd mae'n amrywio gyda chynnydd o un flwyddyn i'r llall a gostyngiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal 0-18 oed. Mae hyn yn cyferbynnu â Phowys, lle mae'r ffigur wedi aros yn sefydlog yn bennaf.

## Senario
**Tymor byr**
Pwysau cynyddol yn cael ei roi ar gyllidebau awdurdodau lleol oherwydd y gost gynyddol o letya plant ag anghenion cymhleth.

**Tymor canolig**
Y gallu i blant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal gael canlyniadau addysgol llawn gan fod ymchwil yn dangos nad yw plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni cystal â'u cyfoedion nad ydynt yn derbyn gofal.

**Tymor hir**
Llai o gyfleoedd i gael cyflogaeth a dibyniaeth hirdymor ar gefnogaeth yr awdurdod lleol.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?
Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth yn buddsoddi mewn hyfforddiant i helpu gofalwyr maeth ac mae wrthi'n recriwtio gofalwyr maeth ar gyfer plant penodol sydd ag anghenion cymhleth. Mae'r gwasanaeth hefyd wrthi'n adolygu ei Gynllun Gweithredu Rhianta Corfforaethol, ac mae canlyniadau addysgol ein plant sy'n derbyn gofal yn dal i fod yn un o'r meysydd blaenoriaeth allweddol i'r Gwasanaeth Ysgolion a'r Gwasanaethau Plant.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?
Mae'n dal yn anodd recriwtio gofalwyr, er bod amrywiol ymgyrchoedd wedi'u cynnal yn y 18 mis diwethaf, er hynny, mae cadw'r gofalwyr presennol yn dal i fod yn her.

# Gordewdra ymysg Plant

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi cydnabod gordewdra ymysg plant fel un o'r heriau mwyaf i iechyd y cyhoedd yn yr 21ain ganrif. Mae'r canlyniadau iechyd yn ddifrifol, yn y tymor byr a'r tymor hir. Mae gordewdra a bod dros bwysau yn bryder iechyd cyhoeddus ar draws pob grŵp oedran, fodd bynnag, maent yn peri pryder arbennig ymysg plant a phobl ifanc oherwydd yr effeithiau niweidiol ar iechyd a lles yn ystod plentyndod a'r goblygiadau tymor hwy ar afiechyd i'r dyfodol.


Mae cyfran y plant derbyn (4-5 mlwydd oed) ym Mhowys sydd o bwysau iach neu dan bwysau yn 76.4% (Rhaglen Mesur Plant 2014/15). Mae hyn ychydig yn uwch nag yn arolwg blaenorol Rhaglen Mesur Plant 2013/14 pan oedd yn 76.1%, er nad yw'r gwahaniaeth rhwng 2013/14 a 2014/15 yn ystadegol arwyddocaol.

Mae cyfran y plant sydd dros bwysau (14.4%), sy'n ordew (9.2%) yn ordew neu dros bwysau (23.6%) ym mlwyddyn derbyn ym Mhowys wedi gostwng ychydig o'i gymharu â 2013/14, er nad yw'r gwahaniaethau rhwng 2013/14 a 2014/15 yn ystadegol arwyddocaol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014).

Fodd bynnag, mae cyfran y plant oed derbyn sy'n ordew yn ystadegol arwyddocaol is ym Mhowys o'i gymharu â Chymru: er bod gan Bowys gyfran is o blant gordew yn 2013/14 o'i gymharu â Chymru, 2014/15 oedd y flwyddyn gyntaf pan oedd y gwahaniaeth rhwng Powys a Chymru yn ystadegol arwyddocaol is. Er bod hyn yn galonogol, mae'n rhy gynnar inni wybod a fydd hyn yn cael ei gynnal i'r dyfodol. Mae hefyd yn bwysig nodi, er bod lefelau gordewdra ymysg plant ym Mhowys yn cymharu'n weddol ffafriol â Chymru gyfan, mae bron chwarter plant Powys (23.6%) eisoes naill ai'n rhy drwm neu'n ordew pan maent yn dechrau'r ysgol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014).


## Beth ddywed y data wrthym?

Mae gordewdra ymysg plant yn fater sy'n peri pryder cynyddol yng Nghymru. Er bod y cyfraddau'n isel ym Mhowys o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ym Mhowys mae un o bob deg o fyfyrwyr yn ordew erbyn iddynt ddechrau'r ysgol (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014). Mae gordewdra mor gynnar â hyn mewn bywyd yn aml yn arwain at yr un problemau pan fyddant yn oedolion. Ar hyn o bryd, mae'r gyfradd gordewdra ymysg oedolion ym Mhowys yn 60% (Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014). Gall hyn yn ei dro arwain at nifer o gyflyrau mwy difrifol gan arwain at farwolaethau cynamserol fel diabetes math 2, clefyd cardiofasgwlaidd, a chanser. Yn ogystal, mae gordewdra yn costio'n ddrud i iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.




Percentage of children aged 4 to 5 years who are obese, Powys THB MSOAs, Child Measurement Programme for Wales, 2012/13-2014/15

Due to smaller sample sizes at MSOA level, caution should be taken when making comparisons between areas.
Produced by Public Health Wales Observatory, using CMP data (NWIS) © Crown copyright and database right 2016. Ordnance Survey 100044810




Percentage of children aged 4 to 5 years who are overweight or obese, Welsh Index of Multiple Deprivation quintiles, Child Measurement Programme for Wales, 2014/15

Produced by Public Health Wales Observatory, using CMP data (NWIS)

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Oes, mae anghydraddoldebau i'w gweld o safbwynt gordewdra ymysg plant. Er enghraifft, ceir amrywiaeth yn nifer yr achosion o blant sydd dros bwysau ac yn ordew ym Mhowys (gweler y map uchod). Mae gorbwysau a gordewdra ymysg plant yn dilyn graddiant amddifadedd yng Nghymru. Mae plant oed derbyn yn llawer mwy tebygol na chyfartaledd Cymru o fod yn ordew os ydynt yn byw mewn ardal o amddifadedd uwch. Mae anghydraddoldebau hefyd i'w gweld ar draws Cymru yn ôl grŵp ethnig (plant o gefndiroedd ethnig du, yn fwy tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew, plant o gefndir Asiaidd, yn llai tebygol o fod dros eu pwysau neu'n ordew). Mae rhai gwahaniaethau hefyd i'w gweld rhwng merched a bechgyn: er enghraifft ym Mhowys roedd gan 78% o ferched a 75% o fechgyn bwysau iach neu o dan eu pwysau yn arolwg Rhaglen Mesur Plant (CMP) 2014/15.

## Beth ddywed y dinasyddion?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y staff?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?
Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Mae'r canllawiau canlynol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o'r dystiolaeth ddiweddaraf am atal a thrin gordewdra ymysg plant a gweithredu yn y gymuned:

-

Rheoli Pwysau: gwasanaethau ffordd o fyw ar gyfer plant a phobl ifanc sydd dros eu pwysau neu'n ordew

- NICE guidlines [PH47] – Obesity in children and Young people: prevention and lifestyle weight management programmes NICE quality standard [QS94] Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2015
- Obesity: working with local communities NICE guidelines [PH42] Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2012

**10 Cam i Bwysau Iach**
Mae cynlluniau polisi i roi sylw i ordewdra ymysg plant yng Nghymru yn canolbwyntio ar atal ac ar ymyrryd yn gynnar. 10 Cam i Bwysau Iach yw'r polisi cenedlaethol seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer hyrwyddo pwysau iach a lleihau gorbwysau a gordewdra mewn menywod beichiog a phlant ifanc 0-5 oed. Mae'n cynnwys gweithgaredd corfforol a bwyta'n iach ynghyd â ffactorau sy'n cefnogi hyn (e.e. cael digon o gwsg, chwarae yn yr awyr agored a chyfyngu amser ar y sgrin): bydd digwyddiad lansio ffurfiol ar gyfer y 10 Cam yn digwydd ym Mhowys ym mis Tachwedd 2016.

Mae 10 Cam yn cyd-fynd â chynlluniau cenedlaethol eraill gan gynnwys canllawiau a lansiwyd yn ddiweddar gan y Prif Swyddog Meddygol: Gweithgarwch Corfforol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Newid am Oes.

Penderfynyddion iechyd ehangach - gorbwysau a gordewdra
Mae'n bwysig nodi bod achosion gordewdra yn gymhleth ac wedi'u cyplysu'n gadarn â newidiadau ehangach cymdeithasol (Adroddiad Foresight, Tackling Obesities: future choices 2007) - gan gynnwys llai o weithgarwch corfforol o ganlyniad i newidiadau yn yr amgylchedd adeiledig, defnydd cynyddol o drafnidiaeth modur a bwyd wedi'i brosesu, llawn egni. Dylai unrhyw gynllun atal cynhwysfawr, tymor hwy roi ystyriaeth i'r ffactorau amgylcheddol hyn.

## Yr hyn na wyddom eto?
Mae'r CMP yn arolwg blynyddol graddfa fawr ac mae'n darparu data cadarn ar bwysau plant oed derbyn (4-5 oed) ledled Cymru, gan gynnwys ar lefel Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Mae'r arolwg hwn yn drwm iawn ar adnoddau. Mae'n cael ei gydlynu'n genedlaethol ac mae'r mesuriadau yn cael eu cynnal yn lleol mewn lleoliadau ysgol gan y gwasanaeth Nyrsys Ysgolion. Yn ogystal â darparu data am blant 4-5 oed, gellir defnyddio canlyniadau arolwg CMP (gyda gofal) i ddarparu mesur procsi i adlewyrchu pwysau yn y boblogaeth plant ehangach. Nid oes arolwg cyfatebol i'w gael ar gyfer plant neu bobl ifanc oedrannau eraill nac ar gyfer oedolion er bod data hunan-adrodd ar orbwysau a gordewdra ar gael ar gyfer oedolion.Gallai'r ddolen ganlynol i gefnogaeth ar gyfer Asesiadau Lles fod yn ddefnyddiol:
**http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/news/42399**

## Tueddiadau Cenedlaethol

Yng Nghymru caiff plant eu pwyso a'u mesur ym mlwyddyn Derbyn (4-5 oed) gan Raglen Mesur Plant Cymru (CMP). Ar gyfer plant a fesurwyd yn 2014/15 y mae'r data cyhoeddedig mwyaf diweddar o'r arolwg CMP. Mae crynodeb o'r canfyddiadau i'w weld isod.

## Senario

**Tymor byr**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

**Tymor canolig**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

**Tymor hir**

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

**Grŵp Llywio Pwysau Iach Powys**

Mae'r grŵp aml-asiantaeth dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn cydlynu ystod o waith sydd â'r nod o hyrwyddo pwysau iach ar draws cwrs bywyd. Sefydlwyd is-grwpiau i gydlynu agweddau ar gynllun gweithredu cyffredinol y grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar bwysau iach yn ystod y beichiogrwydd ac ymysg plant cyn oed ysgol ac ymysg plant a phobl ifanc oed ysgol. Byddai mwy o gynrychiolaeth gan yr Awdurdod Lleol ar y grŵp hwn yn dderbyniol iawn a byddai'n galluogi iddynt weithio'n fwy amlasiantaethol a chydgysylltiedig i hyrwyddo pwysau iach ar draws Powys.

**Gwasanaethau awdurdodau lleol**

Mae gan ystod eang o wasanaethau a ddarperir neu a gomisiynir gan awdurdodau lleol y potensial i ddylanwadu ar ordewdra ymysg plant drwy gyfleoedd i wneud gweithgarwch corfforol a hyrwyddo bwyta'n iach. Dyma rai enghreifftiau: hybu teithio llesol (e.e. hyrwyddo cerdded a beicio, datblygu lonydd beicio, llwybrau diogel i gerddwyr, arafu traffig), mynediad i wasanaethau hamdden, mannau gwyrdd, cyfleusterau chwarae a datblygu cyfleoedd chwaraeon i bob oed, cyfleusterau cyn oed ysgol ac yn yr ysgol, hyrwyddo bwyta'n iach a pholisïau bwyd iach (e.e. prydau ysgol, peiriannau gwerthu ac ystyried effeithiau ceisiadau cynllunio ar iechyd, megis siopau bwyd cyflym wrth ymyl ysgolion).

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Nid oedd y wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch yn y data.

# Cyrhaeddiad Addysgol

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Lewyrchus | Powys sy'n fyd-eang gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ★ | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae safonau ym Mhowys yn dda ar y cyfan. Gwelwyd tystiolaeth dda bod safonau wedi gwella yn ysgolion Powys yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae gormod o amrywiaeth. Mae arolygiadau Estyn diweddar (er mis Medi 2010) wedi rhoi 25% o Ysgolion Uwchradd Powys mewn Mesurau Arbennig, gydag un angen gwelliant sylweddol a 25% arall (3 ysgol) dan fesurau Monitro Estyn (CSP, 2016).


Mae'n aml yn anodd recriwtio a chadw penaethiaid ac uwch arweinwyr. Bu newidiadau sylweddol mewn penaethiaid ym Mhowys yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae'r penaethiaid presennol mewn 6 allan o'r 12 Ysgol Uwchradd ym Mhowys (50%) wedi bod yn y swydd ers blwyddyn neu lai ac mae 4 allan o'r 12 ysgol (33%) wedi cael o leiaf tri Phennaeth neu Benaethiaid Dros Dro yn y swydd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Yn ogystal, ceir cystadleuaeth gynyddol i geisio cadw disgyblion yn y chweched dosbarth yn ysgolion Powys yn erbyn darpariaeth colegau trydyddol yn lleol ac mewn siroedd cyfagos yng Nghymru a Lloegr (Gyrfa Cymru, 2015). At hynny, mae cyflymder y broses gweddnewid ysgolion y'i bwriedir i leddfu'r materion hyn yn cael ei dylanwadu'n drwm gan y broses wleidyddol, barn y cyhoedd a gostyngiadau diweddar ym mhŵer prynu ysgolion.


## Beth ddywed y data wrthym?

Er bod safonau'n gwella yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oes digon o gysondeb yn ansawdd ac ehangder y ddarpariaeth ar draws holl Ysgolion Uwchradd Powys gan ei gwneud yn anodd i rai disgyblion gyrraedd eu llawn botensial.







Level 2 including GCSE Eng/Cym & Maths
65%
60%
55%
50%
45%
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
2015
Powys
Wales





% of Yr.11 Pupils in Powys Schools as Yr.13 A-level Candidates in the Same School 2 Years Later
42%
41%
40%
39%
38%
37%
36%
35%
34%
2013
2014
2015
2016

% of Yr. 11 Leavers as NEETS
(Not in Employment, Education or Training)
5.0
4.5
4.0
3.5
3.0
2.5
2.0
1.5
1.0
0.5
0.0
%
2011
2012
2013
2014
2015
Wales
Powys


Recent Powys High School Inspection Outcomes
100%
90%
80%
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
No recent inspection, 25%
Not in an Estyn category, 8%
Local Authroity Monitoring, 17%
Estyn Monitoring, 25%
Special Measures, 25%


Current Secondary School Head teachers - No. of School Terms in Post at 01/09/2016
30
27
24
21
18
15
12
9
6
3
0
School A
School B
School C
School D
School E
School F
School G
School H
School I
School J
School K
School L

## A oes unrhyw wahaniaeth penodol rhwng lleoliadau?

Oes - mae Ysgolion Uwchradd Powys ar y cyfan yn gwasanaethu eu cymunedau lleol ac felly bydd unrhyw anghysonderau mewn perfformiad yn cael effaith fawr ar yr ardal leol. Mae'r tair ysgol sydd mewn Mesurau Arbennig yn awr neu yn y gorffennol wedi cael effaith andwyol ar y cymunedau lleol.

## Beth ddywed y dinasyddion?

Dangosodd yr Arolwg o Drigolion Powys a gynhaliwyd yn 2013 a 2015 ddirywiad mawr mewn boddhad gyda'r system Addysg Uwchradd o 68% i 59%.

## Beth ddywed y staff?

Yn yr Arolwg Canfyddiadau o Ysgolion diwethaf a gynhaliwyd yn 2014 gofynnwyd i'r penaethiaid raddio priodoldeb y ddarpariaeth ar gyfer addysg 14-19 a gynlluniwyd gan y cyngor a'i bartneriaid. O'r 27 ymateb a ddaeth i law dim ond 19% oedd o'r farn bod y gwasanaeth yn 'Dda' neu'n well, dywedodd 56% ei fod yn 'Foddhaol' a 26% ei fod naill ai'n 'Wael' neu'n 'Wael iawn'.

## Beth ddywed y trydydd sector/sector preifat?

Mae'r gwasanaeth arolygu Ysgolion yng Nghymru (Estyn) wedi argymell yn flaenorol fod Powys yn cynnal momentwm y broses Gweddnewid ysgolion ac yn defnyddio ei phwerau ymyrryd i gyflymu'r broses gwella ysgolion lle gwelwyd diffygion.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae Tîm Gwella Ysgolion ERW/Powys yn gweithio'n agos gydag ysgolion i liniaru effaith diffygion lleol lle bo modd. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Ysgolion cyfan yn anelu at nodi a gweithredu atebion hirdymor drwy'r broses Gweddnewid ysgolion.

## Yr hyn na wyddom eto?

Nid oes prinder data ar bob agwedd ar berfformiad ysgolion, ac mae llawer ohono ar gael i'r cyhoedd.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae rhai ysgolion Uwchradd ym Mhowys nad ydynt yn perfformio cystal ag y dylent o'u cymharu ag ysgolion tebyg mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cynnydd positif i'w weld mewn rhai dangosyddion allweddol hyd yn oed mewn rhai ysgolion sy'n achosi pryder.

## Senario

**Tymor byr**

Nod y prosiectau gweddnewid ysgolion Uwchradd cyfredol yw delio â llawer o'r materion sy'n llesteirio cynnydd ysgolion sy'n cael anhawster. Dylai rhywfaint o gynnydd ymddangos yn y tymor byr ond mae'n anrhagweladwy.

**Tymor canolig**

Dylai cynnydd mwy sylweddol ddod i'r amlwg yn y tymor canolig cyn belled â bod y momentwm presennol yn cael ei gynnal.

**Tymor hir**

Dylai manteision y prosiectau cyfredol i weddnewid y ddarpariaeth Ysgolion Uwchradd ddod yn gwbl amlwg yn y tymor hir.

## Sut mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae'r Strategaeth Gwella Ysgolion ranbarthol sydd dan ofal ERW, drwy'r Cynghorwyr Herio lleol, yn monitro, yn cefnogi ac yn herio ysgolion a phenaethiaid i wella eu perfformiad. Mae ysgolion hefyd yn cael gwasanaeth cynhwysfawr i'w helpu i ddefnyddio data perfformiad i hunan-arfarnu a darperir hefyd ystod bellach o wasanaethau wrthgefn gan y sir, i gefnogi holl brif swyddogaethau a chyfrifoldebau ysgolion unigol. Mae'r Tîm Gweddnewid ysgolion yn cydlynu'r broses i sicrhau newidiadau mawr yn strwythur y system ysgolion ym Mhowys a'r ffordd y'i cyflwynir fel sy'n ofynnol gan ddatblygiadau mewn ymarfer addysg a'r cyd-destun lleol. Fodd bynnag mae cau, uno, neu ad-drefnu sefydliadau mawr megis ysgolion uwchradd yn broses hynod o heriol.

## A yw'r angen yn cael ei fodloni'n ddigonol?

Nid bob amser oherwydd bod mynediad i ddarpariaeth safon uchel, eang dan fygythiad i bobl ifanc mewn rhai ardaloedd o Bowys. Gall hyn gael ei gymhlethu gan natur ddaearyddol y sir ac apêl darpariaeth y tu allan i'r sir, yn arbennig darpariaeth ôl-16. Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Ysgolion yn gwneud pob ymdrech i liniaru'r materion hyn wrth gynllunio ar gyfer atebion hirdymor.

# Diwylliant a Chymuned

## Canfyddiadau Allweddol







# Cynnwys

Cyfraddau Troseddu a Gwarchod y Cyhoedd

Llety Addas i Bobl Hŷn

Byw'n Annibynnol

Diwylliant

Gwasanaethau Cymunedol

Mae'r adran isod yn disgrifio'r chwe chanfyddiad allweddol yn fanwl ynghyd â'r data a'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd fel tystiolaeth o'n canfyddiadau.

Rydym wedi sgorio effaith pob canfyddiad allweddol yn erbyn y saith nod lles ac a ydynt yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar les (gweler yr allwedd isod).

| Allwedd | |
|---|---|
| | Negyddol - Argyfyngus |
| | Negyddol - Sylweddol |
| | Negyddol - Cymedrol |
| | Dim effaith bresennol ar les |
| | Cadarnhaol - Cymedrol |
| | Cadarnhaol - Sylweddol |
| | Cadarnhaol – Tra Sylweddol |
| ★ | Negyddol – Argyfyngus (heb ymyriad) |
| | Dim sgôr wedi'i roi |

## Cyfraddau Troseddu a Gwarchod y Cyhoedd

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys Gyfrifol yn Fyd-Eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ★ | | | | | | |

### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae Powys wedi gweld cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodir dros y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gallai hyn fod oherwydd newid diweddar i'r ffordd o adnabod a chofnodi troseddau yn hytrach na newid mawr yn y ffigur ei hun. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni allwn gadarnhau hyn i sicrwydd. Mae cynnydd nodedig wedi bod hefyd yn nifer y troseddau rhywiol a gofnodir. Eto gallai hyn fod oherwydd bod mwy o bobl yn adrodd, oherwydd bod gan ddioddefwyr fwy o ffydd yn yr heddlu, yn hytrach nag o ganlyniad i fwy o droseddu. Mae troseddu stepan drws yn parhau i fod yn uchel yn ôl safonau sir wledig, gyda nifer uchel o fasnachwyr castiog a sgamiau eraill ar waith yn y sir. Mewn amaeth, mae cynnydd hefyd wedi bod mewn twyll a throseddau'n ymwneud â da byw. Mae gan y Drenewydd, yn enwedig, gyfradd droseddu uwch na gweddill Powys, er bod hyn yn unol â'r galw yn yr ardal. Un maes newydd o bryder cynyddol yw'r cynnydd mewn seiber-droseddu, yn enwedig twyll ac ecsbloetio ar-lein. Mae disgwyl i'r troseddau hyn gynyddu mewn nifer a chymhlethdod dros y 5-10 mlynedd nesaf.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Mae'n debyg y gellir priodoli'r cynnydd diweddar mewn troseddu ar draws pob categori i'r newid yn y ffordd y mae'r heddlu'n cofnodi troseddau, gyda phob adroddiad o drosedd honedig bellach yn cael ei gofnodi (Heddlu Dyfed Powys, 2015). Mae hyn yn helpu i egluro'r cynnydd siarp yn nifer y troseddau treisgar, gyda'r rhai llai difrifol wedi cael eu cofnodi o'r blaen fel ymddygiad gwrthgymdeithasol mae'n debyg. Erbyn hyn, os daw tystiolaeth o drosedd i'r golwg, fe'i cofnodir fel trosedd ac nid fel ymddygiad gwrthgymdeithasol. O ganlyniad cafwyd cynnydd siarp yn nifer yr ymosodiadau a throseddau treisgar eraill, a lleihad siarp yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol (Gwasanaeth Heddlu Dyfed Powys, 2015). Mae gwrth-honiadau hefyd bellach yn cael eu cofnodi a gallent gael eu hystyried fel troseddau ar wahân nes ymlaen. Mae nifer yr ymosodiadau difrifol a throseddau anhrefn cyhoeddus hefyd i lawr, yn bennaf oherwydd ymdrechion asiantaethau sy'n gweithio gydag eiddo trwyddedig i wella eu diwydiant, yn enwedig tafarndai a chlybiau (Gwasanaeth Heddlu Dyfed Powys, 2015). Mae defnydd mwy o gamerâu CCTV preifat a'r cynllun Bihafiwch neu cewch eich Banio (BOBB) hefyd wedi arwain at lai o droseddu gyda'r nos. Fodd bynnag, mae cynnydd wedi bod yn nifer y troseddau rhywiol a adroddir i'r heddlu, gyda chynnydd siarp yn Ionawr 2015 (TNS BMRB Public Insights, 2015). Gallai hyn hefyd fod yn dilyn newid y dulliau adrodd a chofnodi, ond gallai fod oherwydd bod gan bobl fwy o ffydd yn yr heddlu yn dilyn y nifer uchel o achosion troseddau rhywiol proffil uchel sy'n cael sylw yn y cyfryngau. Mae masnachu castiog, yn enwedig troseddu stepan drws a gwerthu a phrynu cynhyrchion anghyfreithlon, hefyd ar gynnydd ac yn enwedig yng nghyswllt y diwydiant ffermio (Gwasanaeth Heddlu Dyfed Powys, 2015).

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn Sir Drefaldwyn, yn enwedig yn y Drenewydd, ond mae hyn yn unol â'r galw yn yr ardal honno. Mae achosion o droseddu stepan drws yn digwydd ar draws y sir. Daeth cynhyrchion anghyfreithlon yn broblem arbennig yn y Drenewydd a'r Trallwng.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Awgryma Arolygon Cwsmeriaid fod delio â masnachwyr castiog yn flaenoriaeth ynghyd ag atebion iawn i'w hatal. Mae teimlad cyffredinol bod troseddau casineb yn cael eu tan-adrodd oherwydd yr argraff barhaus na chymerir hwynt o ddifrif.

Yn ôl Holiadur Asesiad Poblogaeth 2016, teimlai 69% yn ddiogel yn eu cymuned.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae angen gweithio gyda'r sector ar ymweliadau cartref a chydgysylltu gwasanaethau cymorth gyda gwahanol gynlluniau, fel 'cyfeillio' a 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fydd y cyfrwng gorau i wneud hyn.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Dim gwybodaeth wedi'i nodi.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae gwaith amlasiantaethol yn digwydd gydag asiantaethau partner i asesu bygythiad a risg, a'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael eu hamddiffyn. Mae fforymau fel y Pwyllgor Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yn gweithio i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig yn derbyn yr help sydd ei angen arnynt a delio'n briodol â throseddwyr. Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) yn eu lle i fonitro troseddwyr rhyw a threisgar sy'n byw yn y gymuned, neu ar fin gadael y carchar, a sicrhau bod cynlluniau rheoli risg cadarn yn eu lle. Mae'r sefydliad wedi symleiddio'r ffordd y mae'n rhannu gwybodaeth

drwy sefydlu'r Uned Atgyfeirio Ganolog (CRU) gan asesu gwybodaeth staff rheng flaen a gyflwynir naill ai drwy logiau gwybodaeth neu'r Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol (MARF) a sicrhau bod trafodaeth ar y dechrau â'r asiantaeth bartner berthnasol. Mae gwaith wedi'i wneud â'r bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol ar sut i ddelio â phobl yn y gymuned gyda phroblemau iechyd meddwl, gan gydnabod mai asiantaethau eraill yw'r rhai gorau i ddelio â hyn oherwydd mai angen meddygol sydd gan y bobl hyn ac na ddylid eu trin fel troseddwyr; ni ddylai'r heddlu gario'r baich hwn eu hunain. Mae staff rheng flaen wedi'u hyfforddi mewn iechyd meddwl gan godi eu hymwybyddiaeth o sut i'w adnabod a'i drin yn y ffordd fwyaf priodol. Buddsoddwyd ymhellach i wella capasiti a gallu'r adrannau diogelu ac ymchwilio. Buddsoddwyd mewn adrannau sy'n edrych ar ddyfeisiau electronig a bydd y sefydliad yn canolbwyntio adnoddau ar dargedu troseddwyr ar-lein, gyda Thîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu (POLIT) yn cael ei sefydlu. Bydd hyn yn gwella eto ar waith yr Uned Cyfathrebu Digidol a Seiber-Droseddu (DCCU). Hyfforddiant estynedig i'r holl staff ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol (CSE), pobl agored i niwed, caethwasiaeth fodern, iechyd meddwl a cham-drin domestig. Canolbwyntio ar y troseddwyr yn ogystal â'r dioddefwyr a gwneud mwy o ddefnydd o Rybuddion Herwgipio Plant (CAWN) a Hysbysiadau Amddiffyn Rhag Trais Domestig (DVPN). Gwneir defnydd gwell o dechnoleg a rhoddir dyfeisiadau data symudol i blismyn i recordio tystiolaeth yn y fan a'r lle, ynghyd â Chamerâu Fideo ar y Corff (BWVC) i'r holl staff i gasglu'r dystiolaeth orau yn y fan a'r lle. Bydd y cohort Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) yn cael ei adolygu i sicrhau bod ffocws ar bobl agored i niwed gydag adnoddau wedi eu hadleoli i ddod o dan yr uned rheoli troseddwyr. Cynhelir sesiynau briffio tîm dyddiol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r problemau yn eu hardal ac yn gyfrifol am ymateb iddynt a chasglu gwybodaeth lle mae unrhyw fylchau. Cynhelir sesiynau briffio heddlu lleol a sirol yn ddyddiol i adolygu digwyddiadau er mwyn sicrhau bod yr ymateb yn unol â pholisi'r heddlu lleol a chenedlaethol ac y cymerwyd camau cadarnhaol i ddiogelu dioddefwyr agored i niwed. Mae cyfarfodydd perfformiad misol yn canolbwyntio ar berfformiad adrannau ac unedau, a chamau cywiro'n cael eu cymryd. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn ceisio darogan unrhyw alwadau yn y dyfodol a chymerir camau i sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i ddelio gyda nhw. Lle cafodd achosion o fasnachwyr castiog eu hadrodd, ystyrir cyflwyno 'parthau rheoli masnachwyr castiog' gyda chymuned er mwyn rhoi cymorth pellach a lleihau troseddu. Mae'r system Negeseuon Cymunedol ar flaen y gad yn atal achosion pellach o droseddu ac yn bwydo gwybodaeth yn ôl, a bwriedir datblygu'r prosiect i gynnwys yr holl bartneriaid. Mae nifer yr achosion Masnachu Castiog yn uchel ym Mhowys, felly hefyd nifer y rhai sy'n dioddef o sgamiau. Ar hyn o bryd mae 253 o ddioddefwyr ar y cynllun IOM (Rheoli Troseddwyr Integredig) ar draws Dyfed-Powys. O'r rhain, mae 39 yn droseddwyr "Coch" yn ôl y system BRAG (sy'n cyflwyno'r risg fwyaf o aildroseddu) a 62 yn "Glas" (yn y carchar ar hyn o bryd). Ar sail y data ar gyfer Dyfed-Powys, mae nifer y troseddau a gofnodir wedi gostwng o 414 o droseddau. Mae gostyngiad cysylltiedig wedi bod yng nghost troseddu o £1.9 miliwn. (Mae hyn yn cyfateb i leihad o -2.1% mewn troseddu ar draws ardal Dyfed-Powys).

## Beth na wyddon ni eto?

Bylchau yn y data yn erbyn rhestr yr Asesiad Poblogaeth. Dadansoddiad o fasnachwyr castiog / twyll gan ddefnyddwyr ar draws yr ardaloedd ac angen heb ei gwrdd.
Cafeat: Gallai fod nifer o adroddiadau troseddu nad ydynt yn cofnodi oed y dioddefwr, felly gallai'r ffigurau fod yn amcan braidd yn rhy isel.

Nifer y bobl a ddioddefodd gam-drin honedig yn ôl oed a math o gam-drin
Achosion o gam-drin domestig a throseddu rhywiol

Nifer ddisgwyliedig o bobl rhwng 18-64 oed fydd yn goroesi cam-drin rhywiol pan oeddent yn blant – methu â mesur.

Data ar fusnesau'n cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Troseddau bywyd gwyllt. Data ar ofn / argraff pobl o droseddu

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae'r newidiadau yn ardal Heddlu Dyfed Powys yn unol â thueddiadau cenedlaethol.

## Senario

*Tymor Byr*
Cynnydd parhaus mewn achosion twyll a rhywiol ar-lein.

**Tymor Canolig**
Bydd cymhlethdod y math o droseddau sy'n gysylltiedig â newid mewn technoleg yn parhau.

**Tymor Hir**
Bydd cymhlethdod y math o droseddau sy'n gysylltiedig â newid mewn technoleg yn parhau.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Amddiffyn pobl agored i niwed, Atal Troseddu ac Anhrefn, Datrys problemau ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Ymchwilio i, a chanfod troseddau, tawelu meddyliau, delio gyda phobl agored i niwed a sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn y gwasanaeth gorau posib. Mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn gweithio gyda phobl ifanc i leihau aildroseddu – ond mae canran fawr o'u gwaith yn troi o gwmpas atebion "y tu allan i'r llys", er enghraifft Cyfiawnder Adferol etc, sy'n golygu nad oes gan rai o'r bobl ifanc gofnod troseddol ac felly nid ydynt yn rhan o unrhyw setiau data aildroseddu. Y Gwasanaeth Prawf – mae'r NPS a'r CRC hefyd yn rheoli aildroseddu fel rhan o'u gwaith craidd – felly eto, mae gan y rhain hefyd gyfraddau aildroseddu.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Mae'r galw'n cael ei adolygu i sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle i ddelio gydag unrhyw fygythiadau presennol ac yn y dyfodol. Buddsoddwyd ymhellach i wella capasiti a gallu'r adrannau diogelu ac ymchwilio. Buddsoddwyd mewn adrannau sy'n edrych ar ddyfeisiau electronig a bydd y sefydliad yn canolbwyntio adnoddau ar dargedu troseddwyr ar-lein gyda Thîm Ymchwilio Ar-lein yr Heddlu (POLIT) yn cael ei sefydlu. Rhaid i'r sefydliad hefyd sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â'r galwadau cenedlaethol am ddrylliau / gynnau ynghyd â Chemegol, Biolegol, Ymbelydrol a Niwclear (CBRN) a Gwrth-Derfysgaeth (CT). Bydd y capasiti i gwrdd ag anghenion dioddefwyr sgamiau'n cael ei asesu wrth i'r broblem hon dyfu, felly hefyd troseddau masnachu castiog. Bydd angen i strategaethau seiber-droseddu esblygu ar draws asiantaethau.

# Llety Addas i Bobl Hŷn

| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys Gyfrifol yn Fyd-Eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Oherwydd y disgwylir i boblogaeth oedrannus Powys dyfu'n sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf, mae'n debyg y rhoddir mwy o bwysau ar lety ar gyfer pobl hŷn yn y sir. Yn wahanol i bobl iau, nid oes gan y preswylwyr hŷn hyn fawr o awydd symud o'u hardal, hyd yn oed pan fydd angen gwneud hynny. Roedd nifer o resymau, ond roedd pobl hŷn yn aml yn poeni am golli annibyniaeth a cholli eu cysylltiad â'r gymuned leol. Roedd y rhan fwyaf am aros yn eu cartrefi a'u cymunedau presennol. Disgwylir i nifer y preswylwyr dros 65 oed sy'n byw eu hunain hefyd gynyddu o dros 6,000 erbyn 2035 (Swyddfa Ystadegau Gwladol 2016). Mae'r rhan fwyaf o'r bobl hyn yn berchen ar eu cartrefi eu hunain ond mae lleiafrif sylweddol yn byw mewn tai cymdeithasol a thai rhent. Fodd bynnag, wrth i'r boblogaeth heneiddio, felly hefyd nifer y preswylwyr oedrannus ac eiddil a hefyd y nifer sy'n dioddef o ddementia. Er hynny mae amrywiadau yn y sir o ran lleoli pobl yn agos i'w cartrefi neu beidio.

Mae gan bobl hŷn ym Mhowys hawl i gael eu cefnogi mewn nifer o wahanol leoliadau llety, yn amrywio rhwng tai gwarchod, tai gofal ychwanegol, a chartrefi preswyl neu nyrsio.

Mae'r data yn y graff isod yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi'i ddarogan yn nifer y bobl hŷn 75+ oed dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda'r boblogaeth 85+ oed yn fwy na dyblu. Heb os bydd hyn yn rhoi pwysau difrifol ar y Llety i Bobl Hŷn ym Mhowys. Mae'r gwaith modelu a wnaed hyd yma (ar sail yr ystod oed 75+ dros yr 20 mlynedd nesaf), fel y gwelwn o'r graff isod, yn darogan y cynnydd yn y gwahanol fathau o lety. Mae'n glir bod cynnydd yn y tai Gofal Ychwanegol, Tai Gwarchod a Chartrefi Nyrsio.


Mae'r map isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng ardaloedd ar draws Powys. Lle mae ardal wedi'i nodi gyda sgôr coch, ystyrir ei bod yn ardal flaenoriaeth. Er mwyn penderfynu ar flaenoriaethau, sgoriwyd wyth ardal i gynnwys: y cynnydd yn y boblogaeth, oedi gyda throsglwyddo gofal, a oes gwasanaethau Dementia ar gael, digon o dai gwarchod, gofal ychwanegol a chartrefi preswyl, a hefyd yn ystyried pellter teithio. Mae'r map delweddu'n adnabod pum ardal flaenoriaeth.


## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?


Oherwydd bod y boblogaeth o bobl hŷn ym Mhowys ar gynnydd, gan ddisgwyl i'r boblogaeth 85+ fwy na dyblu erbyn 2035, rhagwelir y bydd pwysau difrifol yn cael ei roi ar lety i bobl hŷn ym Mhowys. Ym Mhowys ar hyn o bryd mae 15,571 o bobl dros 50 y credir eu bod yn byw eu hunain, a disgwylir i'r ffigur hwn godi i 22,063 erbyn 2035 (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae'r rhan fwyaf o bobl 65+ oed (71%) yn berchen ar eu cartrefi, gyda dim ond 14% yn byw mewn tai cymdeithasol (ONS< 2014). Mae'r lefel yma o berchnogaeth ar gartrefi'n unol â'r cyfartalog cenedlaethol yng Nghymru. Ym Mhowys mae cyfanswm o 2,467 o bobl gyda diagnosis o ddementia. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae 758 o breswylwyr oedrannus neu eiddil wedi eu rhoi mewn cartrefi preswyl neu nyrsio (PCC, 2016). Cafodd 176 arall eu lleoli y tu allan i'r sir. Menywod oedd y rhan fwyaf o'r rhai a roddwyd mewn cartrefi (538), gyda llai o ddynion (220) nag ar draws Powys yn gyffredinol (PCC, 2016). Roedd y rhan fwyaf yn ardaloedd Rhaeadr a Llandrindod (152) a'r nifer leiaf yn Nhrefyclo a Llanandras (18) (PCC, 2016). Ni chafodd unrhyw bobl o'r fath eu rhoi mewn cartrefi yn Llanfair Caereinon oherwydd nid oes cartrefi gofal yn yr ardal honno. Dengys y map isod y pwysau ar draws y sir o ran llety addas..

**Older People Accommodation - Detailed Data Visualisation: 13 localities - Weighted Scoring**

The following areas were considered extremely important factors to assess older people accommodation and have been assigned a weighting




Projected Older People in Powys
(2014 Welsh Government Projection)
25,000
20,000
15,000
10,000
5,000
0
Persons
Current impact
Short-term impact
Long-term impact
2014
2019
2024
2029
2034
2039
55 to 64
65 to 74
75 to 84
85 plus


1200
1000
800
600
400
200
0
Accommodation Type
7000
6000
5000
4000
3000
2000
1000
0
Population aged 75+
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2024
2025
2026
2027
2028
2029
2030
2031
2032
2033
2034
2035
Sheltered Housing
Enhanced Sheltered
Total Extra Care
Residential Care
Nursing Care
Population aged 75+

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae dosbarthiad pobl hŷn mewn gofal yn amrywio ar draws pob un o'r 13 ardal ym Mhowys. O'r 13 ardal hon, ar hyn o bryd mae'r boblogaeth fwyaf o bobl 85+ oed (635) yn y Trallwng a Threfaldwyn, gyda'r boblogaeth leiaf (146) yn Llanfair Caereinion. Dros yr 20 mlynedd nesaf, disgwylir i'r cynnydd mwyaf yn y boblogaeth bobl hŷn fod yn Nhrefyclo (172%) a'r cynnydd lleiaf yn Llanfyllin (143%). Disgwylir i'r cynnydd cyfartalog yn nifer y bobl dros 85 oed ar draws Powys gynyddu o 4,451 yn 2016 i 11,456 erbyn 2036 (157%).

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

- Mae mwy o bobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain.
- Mae pobl eisiau aros mewn cysylltiad â'u cymuned.
- Mae gwaith tŷ a chynnal a chadw eu cartref yn dod yn anodd.
- Mae pobl eisiau teimlo'n ddiogel ac wedi eu gwarchod rhag niwed.
- Nid yw pobl eisiau symud wrth i'w hanghenion personol newid.
- Mae pobl eisiau opsiynau i brynu neu rentu lle i fyw.
- Roedd cydnabyddiaeth eang bod y sector preswyl yn newid, gyda mwy o alw am ofal nyrsio (yn enwedig yn ymwneud â dementia) a llai o alw am ofal preswyl 'traddodiadol'; Yn debyg i'r canolfannau dydd, mae cartrefi preswyl yn rhoi cyfle i bobl hŷn gael cymdeithasu. Fodd bynnag, rhoddwyd enghreifftiau o breswylwyr nad oeddent yn teimlo bod ganddynt ddim yn gyffredin â'u cyd-breswylwyr ac felly nid oeddent yn cael y profiad hwn;
- Rhoddwyd enghreifftiau gan ddefnyddwyr o lai o annibyniaeth a diffyg cyfleoedd pwrpasol;
- Teimlai rai bod pobl yn symud i ffwrdd o ofal preswyl ym Mhowys ac yn mynd i rywle arall yn y wlad, neu i Loegr.
- Roedd pobl eisiau gallu byw yn eu cartref presennol am gyn hired â phosib.
- Roedd rhai'n galw am fwy o ofal preswyl mewn rhannau o'r sir, ac yn galw am fwy o ofal dementia arbenigol a gofal nyrsio mewn rhannau o'r sir.
- Roedd rhai hefyd yn galw am fwy o unedau gofal ychwanegol a lle mewn cartrefi preswyl a nyrsio.
- Roedd cefnogaeth i ddefnyddio'r cartref preswyl fel canolfan i ddod â grwpiau cymunedol i mewn.
- Teimlai un ymatebydd na fydd rhai cartrefi'n derbyn pobl gyda diagnosis o ddementia a bod angen mwy o welyau seibiant ar gyfer gofalwyr / aelodau o deulu pobl gyda dementia.

Yn ôl Holiadur Asesiad Poblogaeth 2016, roedd 64% o'r bobl yn byw mewn cartref gofal preswyl yn dewis byw yno. O'r grŵp nad oedd wedi gwneud dewis personol i symud i gartref, roedd y rhan fwyaf wedi eu symud yno oherwydd bod eu hiechyd wedi dirywio ac oherwydd na allai eu teulu neu ofalwyr ofalu'n ddigonol amdanynt.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae dibyniaeth yn cynyddu ar ôl i bobl fynd i gartref preswyl ac mae'r staff ym mhob cartref yn amrywio o ran hyrwyddo annibyniaeth.

- Gellir hyrwyddo annibyniaeth mewn cartrefi gyda grwpiau llai, oherwydd mae unigolion ar goll mewn cartrefi mwy. Dylid adeiladu cartrefi gofal ar un lefel.
- Mae cartrefi llai yn y gymuned yn fwy delfrydol na chartrefi mwy. Rhaid i'r cartrefi mwy hynny gynnal teimlad o gymuned.
- Nid yw pobl yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt ac, yn aml, yn darganfod yr ystod lawn o ospiynau dim ond ar ôl gweithio gyda darparwyr.
- Mae cysylltiadau trafnidiaeth ar draws y sir (ac yn lleol) yn gallu bod yn rhwystr.
- Byddai pentref ymddeol ym Mhowys yn ddelfrydol. Byddai'n rhoi tawelwch meddwl dros y deng mlynedd nesaf.
- Mae diffyg llety addas ym Mhowys, mae angen gwneud llawer iawn o addasiadau.

- Nid yw rhai pobl eisiau gadael eu cartrefi, sy'n golygu bod darparu gwasanaeth yn gallu bod yn anodd mewn ardaloedd anghysbell.
- Mae'r ganran sy'n berchen ar eu cartrefi ym Mhowys yn uchel.
- Angen amgylchedd lle gellir rhyddhau pobl o'r ysbyty a derbyn cymorth ychwanegol – efallai tŷ hyfforddiant.
- Byddai rhai pobl yn hoffi dychwelyd i fyw yn eu cartref eu hunain ond yn poeni y gallai fod yn rhy unig ac ynysig.
- Nid yw gofal cartref mor effeithiol. Mae pobl yn wynebu risg esgeulustod / cam-drin / diogelu a dim cymorth dros nos.
- Mae llawer o breswylwyr wedi byw yn eu cartrefi eu hunain cyn symud i gartref gofal a byddai rhai'n hoffi dychwelyd i fyw yn eu cartref eu hunain ond mae angen gofal arnynt.
- Holiadur Staff yr Asesiad Poblogaeth: "Darpariaeth leol yn y gymuned – h.y. gofal preswyl a nyrsio da. Yn ddiogel o beryglon yn y cartref. Rheoli meddyginiaeth. Hylendid Maeth'. Gwasanaethau Oedolion" "Mae gan Bowys, fel llawer o awdurdodau eraill, boblogaeth sy'n heneiddio. Yn bennaf cefnogwn y boblogaeth hŷn ac mae'r galw am ofal yn y cartref, gofal preswyl / nyrsio a thaliadau uniongyrchol yn cynyddu; bydd y galw o hyd yn parhau i gynyddu".

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Graddfa ac Ymrwymiad

- £200m+ o ran gwerth
- Contract hirdymor.
- Ar y cyfan ni fyddai gennym ddiddordeb mewn bod yn rhan o fframwaith.
- Model
- Dull hyblyg gan y Cyngor ac yn barod i gofleidio atebion arloesol
- Tir datblygu da ar gyfer codi tai newydd a gwerthu.
- Cyllid
- Byddem eisiau cadarnhad o ran sut y byddai'r datblygiadau'n cael eu hariannu.
- Y broses benodi
- Byddem eisiau i'r penodi ddigwydd drwy broses gyflym a chryno o Ddeialog Gystadleuol

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mwy o gydweithredu a dealltwriaeth ymhlith gwasanaethau

- Model o ymyrryd yn gynnar ac atal
- Gofal Cartref
- Technoleg Gynorthwyol
- Defnyddio Tai Cymorth / Stoc Tai Cyngor
- Gofal Dydd / Cyfeillio
- Gofal Ychwanegol – (gan gynnwys Severnside)

## Beth na wyddon ni eto?

Y rhesymau dros dderbyn pobl i'r ysbyty oherwydd yr anhwylder sy'n cael ei gofnodi nid y rheswm.Pobl a dderbynnir i'r ysbyty ac yna, o ganlyniad, mae angen newid eu trefniadau llety ar ôl eu rhyddhau.

Un fantais y data hwn yw helpu i ddeall a yw pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd eu bod yn byw o dan amodau byw peryglus. Mae deall a allai math arall o lety fod wedi bod ar gael i bobl sy'n gadael yr ysbyty'n allweddol o ran y gwaith modelu sy'n cael ei wneud i atal derbyn pobl i gartrefi gofal preswyl.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Ar draws Cymru, disgwylir i'r boblogaeth 85+ oed gynyddu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd nesaf, er y disgwylir i'r lleihad ymhlith grwpiau poblogaeth eraill fod yn llai difrifol nag ym Mhowys. Ar draws Cymru, mae nifer y cartrefi un person hefyd wedi bod yn cynyddu, er yn fwy araf o'i gymharu â Phowys

## Senario

**Tymor Byr**

Mae'r ddarpariaeth ar gael ond nid yn y lle iawn. Mae gwelyau gofal gwag yng Nghanol a De'r sir ond capasiti annigonol yn y Gogledd gan arwain at leoli pobl y tu allan i'r sir. Bydd pobl yn teithio'n bellach i dderbyn gwasanaeth a bydd gwasanaethau'n costio mwy.

**Tymor Canolig**

Darpariaeth annigonol ar draws y sir, mwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, mwy o alw ar ofal yn y cartref, mwy o oedi gyda throsglwyddo gofal (DTOC), costau'n cynyddu.

**Tymor Hir**

Nid yw amgylchedd hynod draddodiadol yn cwrdd â disgwyliadau cynyddol / newydd cymdeithas. Gwasanaethau anghynaliadwy.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Tai, 2,000 o unedau llety wedi eu dynodi ar gyfer Pobl Hŷn.

Mae Tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i gyd yn bartneriaid allweddol mewn cynnig ateb.

Mae Gofal Cymdeithasol Oedolion yn berchen ar 12 o gartrefi preswyl ac yn gweithio mewn partneriaeth â PtHB ar un cartref gofal integredig.

Yn ddiweddar mae Gofal Cymdeithasol Oedolion wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Thai Cymru a'r Gorllewin i agor unedau Gofal Ychwanegol yn y Drenewydd.

Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor ar gyfer Cartrefi Gofal yn gofyn bod preswylwyr yn cael eu hasesu'n unol â deddfwriaeth.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Nid yw'r Sir yn gallu cwrdd â'r angen ac mae achosion cynyddol gymhleth, yn enwedig yng Nghanolbarth a Gogledd y Sir, yn gorfod cael eu hateb y tu allan i Bowys. Mae'r dewis presennol o lety wedi'i gyfyngu i gartrefi'r bobl eu hunain, tai gwarchod gyda nifer fach o unedau Gofal Ychwanegol neu Ofal Preswyl / Nyrsio.

# Byw'n Annibynnol


| Powys Ffyniannus | Powys Wydn | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys Gyfrifol yn Fyd-Eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ★ | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Rydym eisiau cynyddu nifer y bobl sy'n gallu byw bywydau annibynnol. Mae heriau i fyw'n annibynnol, yn enwedig unigrwydd ac ynysu sy'n gallu gwaethygu wrth i bobl fynd yn hŷn, gyda'r ganran o bobl sy'n byw eu hunain yn cynyddu'n sylweddol unwaith i bobl gyrraedd 65+ oed. Ym Mhowys credir fod cyfran fawr o'r boblogaeth oedrannus dros 65 oed yn byw eu hunain. Oherwydd bod y boblogaeth oedrannus yn tyfu, disgwylir i'r ffigur hwn gynyddu'n arw erbyn 2035. Ar hyn o bryd nid yw'r gwasanaeth weithiau'n cwrdd â'r angen. Mae gwahaniaethau nodedig o un ardal i'r llall hefyd, oherwydd bod pob gwasanaeth yn defnyddio ei ffiniau daearyddol ei hun. Arweiniodd hyn at wasanaethau'n gorgyffwrdd mewn rhai ardaloedd fel gogledd a chanolbarth y sir, a diffyg gwasanaeth mewn ardaloedd eraill. Yr ardaloedd sy'n debygol o fod yn waeth arnynt yw'r rhai mwy gwledig, lle mae poblogaeth isel iawn a chyfyngiadau seilwaith yn effeithio ar hyfywedd ariannol contractwyr gofal cymdeithasol i ddarparu'r ystod ofynnol o wasanaethau gofal, fel gofal cartref. Yn ei dro mae hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y sector preifat yn buddsoddi ymhellach. Mae diffyg seilwaith addas hefyd wedi arafu cyflwyno technoleg gynorthwyol mewn cartrefi mwy gwledig, er bod cynnydd bach wedi bod er hynny. Disgwylir i Bowys weld cynnydd yn nifer y preswylwyr oedrannus na fedrant gyflawni tasgau tŷ sylfaenol ac y bydd angen gofal cartref a thechnoleg gynorthwyol arnynt. Mae problemau symudedd hefyd yn debygol o gynyddu wrth i'r boblogaeth 65+ oed gynyddu. Mae diffyg gwasanaethau unedig, cydgysylltiedig a pharod yn golygu bod risg o bobl yn disgyn drwy fylchau yn y cymorth. Yn ei dro gallai hyn dyfu yn y dyfodol i fod yn broblem ddiogelu.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ym Mhowys, credir fod cyfanswm o 15,571 o bobl dros 50+ yn byw eu hunain, a disgwylir i'r ffigur hwn godi i 22,063 erbyn 2035 (Llywodraeth Cymru 2014). Yn ogystal, disgwylir i'r boblogaeth 85+ oed a'r boblogaeth 65+ oed yn gyffredinol gynyddu'n amlwg iawn dros y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae'r math anghywir o wasanaethau ar gael, a lle maen nhw ar gael nid oes digon ohonynt i ganiatáu ar gyfer y twf yn y boblogaeth 65+ oed. Yn enwedig, mae natur wledig rhai ardaloedd yn golygu nad yw gofal cymdeithasol yn ariannol hyfyw a bod buddsoddiad pellach yn annhebygol. Er bod cyfanswm o 859 o gwsmeriaid yn cael eu cefnogi gan ofal cartref ym Mhowys (PCC, 2016), mae diffyg seilwaith a thechnoleg gynorthwyol wedi golygu bod byw'n annibynnol yn llai hyfyw. Er hyn mae cynnydd wedi bod yn nifer yr oedolion a gefnogir yn y sir, ac yn nifer yr oedolion sy'n derbyn technoleg gynorthwyol. Dros y blynyddoedd nesaf, mae Powys yn debygol o weld mwy o oedolion yn methu â chyflawni un dasg ddomestig, tasg symudedd neu weithgaredd hunan-ofal heb gymorth, gyda chynnydd o fwy na 60% dros yr 20 mlynedd nesaf yn rhoi mwy o straen ar wasanaethau (Llywodraeth Cymru 2014). Mae gan Bowys hefyd nifer fwy na'r cyfartalog o oedolion gydag anabledd dysgu a nifer uwch o oedolion gyda nam ar y synhwyrau (2,987) (Llywodraeth Cymru, 2011).




Cyngor Sir **Powys** County Council

Domiciliary Care Hours
August 2016 by Locality

Printed by: gdmorgan Date: 13/09/2016

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

- Mae gwahanol wasanaethau wedi sefydlu dros y blynyddoedd, yn defnyddio gwahanol ffiniau daearyddol – gall hyn greu gorgyffwrdd a dyblygu gwasanaeth neu wasanaeth nad ydynt, yn hanesyddol, wedi derbyn gwasanaethau digonol. Mae poblogaethau wedi cael eu denu i ardaloedd lle mae'r seilwaith yn well – er enghraifft, gogledd y Sir.
- Mae pobl sy'n byw mewn trefi hefyd yn elwa'n aml o fwy o ddewis lle mae'r farchnad leol yn ddigon mawr i ganiatáu mwy nag un darparwr / rhwydwaith cymunedol, manteision parhaus o fuddsoddi'n hanesyddol mewn gwasanaethau lleol, seilwaith trafnidiaeth gwell a mwy o fynediad at gyflogaeth mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol na phobl sy'n byw mewn pentrefi neu ardaloedd ynysig nad oes ganddynt y mas critigol cynhenid i gefnogi buddsoddiad cost-effeithiol mewn rhwydweithiau preifat neu gymunedol.
- O ran Gofal Cartref, mae'r ardaloedd gyda'r ddarpariaeth fwyaf yn tueddu i fod yng ngogledd a chanolbarth Powys. Er enghraifft mae'r ddarpariaeth yn Nhrefyclo a Llanandras yn fwy na dwbl y ddarpariaeth yn Aberhonddu.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Mae pobl hŷn yn hoffi'r gwasanaethau a ddefnyddir ganddynt ar hyn o bryd ac nid ydynt yn gweld rheswm i'w newid (Gwrando a Dysgu).

Mae gan bobl iau farn wahanol am beth ddylid ei gomisiynu yn y dyfodol o'i gymharu â'r ddarpariaeth ar gyfer y genhedlaeth bresennol o bobl hŷn (Ymgynghoriad ar y Strategaeth Cyd-Gomisiynu Pobl Hŷn). Dywedodd rai pobl hŷn y byddent yn defnyddio mwy o dechnoleg gynorthwyol pe byddent yn gwybod beth oedd ar gael a sut yr oedd yn gweithio: (Gwrando a Dysgu / Ymgynghoriad Strategaeth Cyd-Gomisiynu Pobl Hŷn).

Arolwg Gofal Cartref: Teimlai 40% o'r rhai a ymatebodd fod y gwasanaeth ym Mhowys yn Dda Iawn / Da, teimlai 46% ei fod yn Wael Iawn / Gwael. Lleisiwyd pryder sylweddol am y canfyddiad o ddiffyg sgiliau a phroffesiynoldeb ymhlith gofalwyr er bod llawer hefyd yn canmol ymroddiad a natur ofalgar y staff. Lleisiwyd llawer iawn o bryder am yr amser a ganiateir ar gyfer ymweliadau unigol. Cododd lawer y broblem o ddiffyg dilyniant gyda'r gofalwyr sy'n ymweld â chwsmeriaid.

Lleisiwyd pryder hefyd am golli apwyntiadau a newidiadau eraill i'w trefniadau beunyddiol. Cafodd yr asiantaethau darparu eu beirniadu ac nad oedd y cyngor yn eu rheoli / monitro'n ddigonol, a chyfeiriwyd at y broses ail-dendro.

Roedd beirniadaeth hefyd o'r amodau y mae gofalwyr asiantaethau yn gweithio o danynt. Roedd angen cymorth i ofalwyr i fynd â chwsmeriaid allan (e.e. i'r meddyg) fel rhan o'u rôl. Holiadur yr asesiad poblogaeth 2016. Teimlai 75% eu bod yn byw mewn cartref oedd yn cefnogi eu lles; gallai 48% wneud y pethau oedd yn bwysig iddynt; gwyddai 70% gyda phwy i gysylltu am eu gofal a'u cymorth; roedd 66% wedi derbyn y wybodaeth a'r cyngor iawn pan fo'i angen arnynt; roedd 67% yn cyfrannu'n weithredol at benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth; gallai 84% gyfathrebu yn iaith eu dewis; roedd 75% yn hapus gyda'u gofal a'u cymorth; roedd 68% o bobl ifanc rhwng 18-24 oed yn derbyn cyngor a chymorth oedd yn eu paratoi i fod yn oedolion

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Ar y cyfan mae'r diwylliant yn dal i fod yn un o gredu bod angen i'r wladwriaeth / gwasanaeth cyhoeddus gwrdd â holl anghenion pobl: a oes unrhyw dystiolaeth / dyfyniadau?
Dim ond cyffredinoli yw hyn wedi'i adlewyrchu mewn modelau darparu ac ymarfer parhaus. Mae rhai staff yn nodi bod angen datblygu capasiti a gwydnwch yn y gymuned drwy ddefnyddio'r trydydd sector.
Holiadur Staff yr Asesiad Poblogaeth: "Dywedodd rai o'r defnyddwyr gwasanaeth a holwyd

ar gyfer yr arolwg bod gallu aros yn annibynnol, yn hunan-gynhaliol ac mewn rheolaeth o'u bywyd yn bwysig iawn iddynt. Roedd yr ymateb hwn gryfaf wrth ddelio gyda phoblogaeth hŷn Powys"

"Mae'r defnyddwyr gwasanaeth am aros yn eu cartrefi eu hunain ond gyda digon o gymorth. Gyda'r cymorth hwn byddai'r defnyddwyr gwasanaeth yn hoffi cael eu trin fel pobl ac nid fel gwaith i rywun. Felly mae angen lefel o ryngweithio cymdeithasol." Contractio a Chomisiynu"
"Darpariaeth leol yn y gymuned – h.y. gofal preswyl a nyrsio da. Yn ddiogel o beryglon yn y cartref. Rheoli meddyginiaeth. Hylendid Maeth'. Gwasanaethau Oedolion"

"Mae angen cymorth yn y cartref ar fwy a mwy o bobl, a gyda'r ddeddfwriaeth newydd bydd mwy o bwyslais ar gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain. Yn ei dro bydd mwy o alw am ofal yn y cartref oherwydd nid yw teuluoedd yn byw'n agos at ei gilydd mwyach. Mae pobl hefyd yn gweithio oriau hirach ac felly'n methu â chefnogi eu teuluoedd gyda'u gweithgareddau beunyddiol."

"Cymhlethdod cyflyrau iechyd. Mwy o alw wrth i bobl symud i Bowys i ymddeol. Pwyslais strategol cynyddol ar gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain. Bydd datblygiadau technolegol yn newid y ffordd y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu. Bydd cymorth mwy arbenigol yn y gymuned yn datblygu."

"Mae angen mwy o gymorth ar boblogaeth sy'n heneiddio a gwybod bod gofal ar gael wrth iddynt fynd yn hŷn."

"Mae diffyg darparwyr gofal yn yr ardal felly nid yw pobl yn gallu cael y pecynnau gofal sydd ei angen arnynt."

"Yn methu â recriwtio: gofalwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr, gweithwyr proffesiynol medrus fel gweithwyr cymdeithasol. Capasiti'r farchnad – e.e. darparwyr gofal cartref. Mynediad at wasanaethau arbenigol a chymhleth. Mas critigol ar gyfer lleoli gwasanaethau. Trafnidiaeth – cefnogi mwy o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain."
"Mwy o 'borthgadw' ar wariant ariannol. Mwy o gyfeirio ymlaen at wasanaethau ac ymyriadau therapiwtig eraill. Gofal cartref arbenigol, e.e. Oedi gyda throsglwyddo gofal (DTOC) ar gyfer Iechyd Meddwl oherwydd diffyg dewis cartref, aros am addasiadau tai".

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

- Maent yn gweld bod ganddynt rôl greiddiol i'w chwarae. Maent hefyd yn poeni am golli cyllid hanesyddol ac na fydd ganddynt digon o adnoddau i gwrdd â'n blaenoriaethau strategol.Assistive technology

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Bydd angen cymryd mesurau ataliol a chael dull o rwydweithio ar lefel gymunedol i sicrhau bod pobl yn aros wedi eu cysylltu i'w cymunedau. Bydd angen cyd-leoli gwasanaethau a gwasanaethau'n well i ganolbwyntio ar aros yn iach a chynllunio ar gyfer mynd yn hŷn. Y trydydd sector a'r gymuned sydd yn y sefyllfa orau i gwrdd ag anghenion yn gynnar cyn i bethau waethygu a / neu fynd yn argyfwng. Er enghraifft:
-Gwybodaeth a chyngor

-Cymorth yn y Cartref (gan gynnwys ymateb cyflym 24/7 ac ysbyty i'r cartref)
- Cyfeillio, gwarchod tŷ a chymdeithasu mewn grwpiau

- Gwasanaethau cymorth dementia a Chymunedau Dementia Gyfeillgar

- Technoleg Gynorthwyol
- Gofal a Thrwsio / Adre'n Ddiogel / Cartref Iach / Symud Ymlaen / Adleoli
-Cymorth i Ofalwyr
-Technoleg Gynorthwyol

Bydd mesurau iechyd ataliol yn eithriadol bwysig gan gynnwys gwaith fel:
-Rheoli Cyflyrau Hirdymor
-Atal Codymau
-Cymorth Strôc
-Gofal Lliniarol
-Cymorth Iechyd Meddwl
-Rhaglenni Atal Iechyd
-Teleiechyd

## Beth na wyddon ni eto?

Tracio a mapio'r canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar – mae angen i ni sicrhau bod y WCCIS (System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru) wedi'i chysylltu i fodel atal ac ymyrryd yn fuan fel y gallwn ddangos tystiolaeth gadarn o'r ymyriadau a'r costau sydd efallai wedi eu harbed.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Ar y cyfan yng Nghymru disgwylir gweld cynnydd yn nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw eu hunain, gan godi o 283,313 yn 2015 i 388,608 erbyn 2035. Mae canran y bobl yng Nghymru na fedrant gyflawni tasgau hunan-ofal, symudedd neu ddomestig yn debyg i'r ganran ym Mhowys. Mae hyn yn awgrymu y bydd y galw'n cynyddu mewn ffordd debyg ar draws y wlad.

## Senario

**Tymor Byr**
Byddwn yn parhau i wario mwy oherwydd na allwn reoli'r llif drwy'r drws ffrynt o bobl sydd angen gwasanaethau statudol arnynt – ac yn treulio mwy o amser yn asesu anghenion a bydd pobl yn poeni mwy oherwydd na allwn ymateb. Y senario waethaf yw bod problemau diogelu'n gwaethygu wrth i bobl ddisgyn drwy'r rhwyd oherwydd na all y gwasanaeth ymdopi. Bydd mwy o oedi gyda throsglwyddo gofal, oedi arall a mwy o wariant yn disgyn ar Iechyd a gwasanaethau eraill.
**Tymor Canolig**
Cynllun Ariannol Tymor Canolig Anhydrin – mwy o herio cyfreithiol ac ymgyfreitha oherwydd na fydd angen yn cael ei gwrdd. Mwy o'r uchod. Mwy o rwystredigaeth a herio gwleidyddol. Gellid rhoi'r awdurdod lleol mewn mesurau arbennig. Anghenion mwy o bobl hŷn ddim yn cael eu cwrdd.
**Tymor Hir**
Syniad cliriach o'r anghenion y bydd gan ein dinasyddion.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae ystod o wasanaethau, er nad ydynt wedi eu cysoni na'u cydgysylltu'n dda, sy'n canolbwyntio'n draddodiadol ar reoli argyfwng a pharhad gofal yn hytrach na rhoi sylw i fethiannau galw, arwyddion argyfwng cynnar ac ailalluogi / annibyniaeth.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Nid eto ond mae'n dechrau cael ei gwrdd.

# Diwylliant

## Findings not scored against wellbeing goals

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae llawer iawn o gyfleoedd ym Mhowys i fwynhau diwylliant a'r celfyddydau, gyda nifer o theatrau, canolfannau celfyddyd ac amryw o atyniadau. Gan amlaf mae gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol yn y Sir yn annibynnol ac yn cael eu darparu'n bennaf gan gyrff elusennol. Mae rhai'n derbyn cymorth rheolaidd gan Gyngor Sir Powys a Chyngor Celfyddydau Cymru tra bod eraill yn derbyn nemor ddim neu ddim cefnogaeth o gwbl ac yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Mae'r sector celfyddydau a diwylliannol (yn cynnwys grwpiau gwirfoddol, preifat a thrydydd parti), gan gynnwys y diwydiannau creadigol, yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol a hefyd yn sicrhau bod lleoedd a chymunedau'n fywiog, egnïol a chydlynus.

Yr Iaith Gymraeg: Mae Powys yn ymrwymedig i sicrhau bod yr iaith yn cael ei hybu a'i thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg a bod y bobl yn gallu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny.Mae Powys wedi gweld lleihad yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir yn fwy nag ym 1991

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau celfyddydol yn gymharol uchel ym Mhowys ac yn unol â'r cyfartalog cenedlaethol, drwy fod yn weddol hygyrch. Mae'r sir hefyd yn derbyn 4.6m o ymwelwyr ar gyfartaledd bob blwyddyn sydd, yn eu tro, yn buddsoddi £615m yn yr economi leol. Mae twristiaeth yn cyfrif am 12% o'r holl gyflogaeth ym Mhowys, sy'n fwy na'r cyfartalog Cymru Gyfan o 8%. Mae gan Bowys bum Amgueddfa, ar hyn o bryd mae Amgueddfa Brycheiniog wedi cau er mwyn datblygu'r Ganolfan Ddiwylliannol ac mae Amgueddfa Llanidloes hefyd wedi cau tra byddwn yn cyd-leoli'r amgueddfa â'r llyfrgell. Yn 2015/16 derbyniodd yr amgueddfeydd 21,436 o ymwelwyr. Mae gan Bowys 17 o lyfrgelloedd ac yn 2015/16 roedd 603,833 o ymweliadau sy'n gynnydd o 2014/15, a welodd 570,288 o ymwelwyr. Mae gan Bowys hefyd ddwy lyfrgell symudol (Aberhonddu a'r Drenewydd) a dderbyniodd 10,599 o ymweliadau yn 2015/16; yn 2014/15 roedd pedair llyfrgell symudol (Aberhonddu, y Drenewydd, Maesyfed a'r Trallwng) a welodd 19,466 o ymweliadau.

Mae Powys yn ariannu'r lleoliadau celfyddydol a diwylliannol canlynol; pedair theatr ym Mhowys sy'n darparu ystod eang o adloniant gan gynnwys drama, cerdd a dawns; Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu, Canolfan Glannau Gwy yn Llanfair-ym-Muallt, Theatr Hafren yn y Drenewydd a'r Neuadd Les yn Ystradgynlais. Canolfan Dreftadaeth a Chelfyddydau Llanwrtyd a'r Cylch, sy'n rhoi hanes rhyngweithiol o'r dref a'r cyffiniau. Hefyd www.arts-engine.org.uk sy'n ganolfan ar-lein i'r celfyddydau gweledol a pherfformio ym Mhowys. Mae'r cyfeiriadur gwasanaethau creadigol o gelfyddydau'n rhestru artistiaid a sefydliadau ym Mhowys sy'n darparu gweithdai, cyrsiau, tiwtora a gwasanaethau eraill.

| Math o Atyniad | Nifer |
|---|---|
| Abaty | 1 |
| Castell | 17 |
| Cadeirlan | 1 |
| Cefn Gwlad | 1 |
| Gardd | 10 |
| Adeilad Hanesyddol | 4 |
| Eglwys Hanesyddol | 35 |
| Tŷ Hanesyddol | 5 |
| Amgueddfa | 5 |
| Safle Cynhanesyddol | 6 |
| Safle Rhufeinig | 12 |
| Prif Gyfanswm | 97 |

Mae 97 o atyniadau diwylliannol ym Mhowys;
Nifer y Gwahanol Fathau o Atyniadau

Mae wyth o'r atyniadau (4 Castell, 3 Adeilad Cynhanesyddol ac 1 Safle Rhufeinig) yn cael eu rhedeg gan Cadw;


Mae tri o'r atyniadau (2 Dŷ Hanesyddol ac un Ardd) yn cael eu rhedeg gan y Gymdeithas Tai Hanesyddol;

Mae un o'r atyniadau, sef Castell Powis a'r Gerddi, yn cael ei redeg gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

Mae dau atyniad arall ym Mhowys sy'n rhan o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac yn uchel mewn diwylliant;

Bannau Brycheiniog – parthau mynyddig fel y rhai o gwmpas Pen y Fan (y mynydd uchaf yn ne Cymru, cymoedd rhewlifol a rhaeadrau fel Sgwd Henrhyd (y rhaeadr dalaf yn ne Cymru); Comin Abergwesyn – ardal deuddeng milltir o led anghysbell yn y Canolbarth, wedi'i chroesi gan ychydig o lonydd bychain a safleoedd cynhanesyddol a chanoloesol.

Mae gan Bowys ychydig yn llai na'r cyfartalog o siaradwyr Cymraeg, gyda 18.6% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith. Fodd bynnag mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch ymhlith plant 3-15 oed (39.9%) ac yn sylweddol is ymhlith pobl 50-64 oed sef 12.1%. Ar y cyfan mae cynnydd wedi bod o 2,300 yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2006 a 2013 sef y cynnydd trydydd mwyaf yng Nghymru.



## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Yn ôl yr arolwg preswylwyr, mae gan bob ardal ganran uchel o 'dim yn defnyddio' neu 'dim barn', gyda'r canrannau uchaf yn y Drenewydd (56%) ar gyfer Amgueddfeydd, a Llanidloes (62%) ar gyfer y Celfyddydau.

Yr Iaith Gymraeg: Mae gwahaniaeth mawr yng nghanran y siaradwyr Cymraeg yn y gwahanol ardaloedd ym Mhowys, gan amrywio o 53.8% yn ardal Machynlleth a 39% yn ardal Ystradgynlais i 8.6% yn Nhrefyclo a Llanandras a 9.8% yn y Gelli Gandryll a Thalgarth. Ond mae hefyd yn bwysig cydnabod bod siaradwyr Cymraeg i'w cael, ac y defnyddir yr iaith ym mhob cymuned ac ardal ym Mhowys.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Mae preswylwyr yn gwerthfawrogi cael mynediad at y celfyddydau a diwylliant, gan nodi bod hyn yn cyfrannu at ffyrdd o fyw egnïol ac iach.

Dywedodd 21% o'r preswylwyr eu bod yn gwirfoddoli'n rheolaidd. Dywedodd dros hanner nad ydynt byth yn gwirfoddoli.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Yr Iaith Gymraeg: Mae gwasanaethau, gan gynnwys addysg cyfrwng Cymraeg o safon, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, gyda'r Cyngor ac yn gymdeithasol, iddynt hwy a'u teuluoedd, a chyfleoedd i ddatblygu gyrfaoedd drwy gyfrwng y Gymraeg, yn allweddol i gadw staff Cymraeg eu hiaith yn yr ardal, sy'n hanfodol os yw'r awdurdod a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau, Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg, yn ôl disgwyliadau'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Yn ôl adborth o ymgynghori â phartneriaid yn y sector celfyddydau, mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwneud cyfraniad pwysig i iechyd a lles ac yn rhoi cyfle i bobl ryngweithio'n gymdeithasol, cymryd rhan a bod yn greadigol.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Yn ddiweddar llwyddodd y Gwasanaeth Celfyddydau i sicrhau cyllid allanol gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer dylunio ac arwain rhaglen wydnwch ar gyfer sefydliadau celfyddydol i wneud y sector yn fwy cynaliadwy a pharod i ateb sialensiau (cyllid, capasiti). Roedd yr 'Ysgol Gynaliadwyedd i'r Celfyddydau' yn cynnwys 30 o sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ym Mhowys mewn rhaglen hyfforddiant yn trafod; codi arian, adnoddau a chyllid, datblygu busnes a mentora, datblygu marchnata a chynulleidfa, cynllunio strategol a gwerthuso (adroddiad ar gael). Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaeth Celfyddydau'n darparu rhaglen arall gysylltiedig mewn partneriaeth â Chelfyddydau a Busnes Cymru i helpu sefydliadau i ddatblygu eu Byrddau, recriwtio aelodau Bwrdd newydd, darparu hyfforddiant llywodraethu a chynllunio – Cynaliadwyedd A MWY. Mae cymorth, hyfforddiant a mentora cydgysylltiedig o'r fath, wedi'i ddarparu'n strategol, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan sefydliadau elusennol annibynnol sy'n dweud bod y cymorth hwn yn eu helpu i addasu, cynnal a thyfu eu busnes ac felly'n cyfrannu at allu parhau i ddarparu'r celfyddydau i breswylwyr gyda dim ond ychydig o gefnogaeth ariannol gan Gyngor Sir Powys.

Mae Safonau newydd ar y Gymraeg wedi cael eu cyflwyno o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac wedi'u cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Safonau'n rhestru sut y disgwylir i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith, asesu effaith polisïau a phenderfyniadau ar y Gymraeg, a nodi sut y bydd yn hybu'r Gymraeg er

mwyn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg yn y sir.
Rhaid i'r Cyngor hefyd weithredu'n unol â gofynion 'Mwy na Geiriau', Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg. Mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn cynnwys adran sy'n ystyried effaith penderfyniadau cynllunio ar y Gymraeg, a pha gamau sy'n rhaid i ddatblygwyr eu cymryd mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith dwy Fenter Iaith yng ngogledd a de Powys sy'n hyrwyddo a rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol, a hefyd yn gweithio gyda mudiadau Iaith Gymraeg eraill yn yr ardal.

## Beth na wyddon ni eto?

Mae angen datblygu data: Data ar dystiolaeth o'r cysylltiadau uniongyrchol rhwng mynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau, a'r effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol a meddwl, lles a ffyniant, sgiliau a chyflogaeth. Asesiadau o'r effaith ar yr economi – y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Astudiaeth wedi'i harwain gan bobl ifanc yn dadansoddi gwerth, yr effaith ar sgiliau ac iechyd meddwl a lles, gan gynnwys yr effeithiau cymdeithasol, o gymryd rhan yn y celfyddydau.

Yr Iaith Gymraeg: Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor ddata ar sgiliau iaith Gymraeg ei holl staff (mae ganddo ddata ar gyfer 56.45% o'r gweithlu). Mae angen y data hwn i weld a yw'r meysydd gwasanaeth yn gallu darparu eu gwasanaethau'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, ac felly'n unol ag anghenion y gymuned.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 o'r Celfyddydau, Amgueddfeydd a Lleoedd Hanesyddol roedd 58% wedi ymweld â digwyddiadau Celfyddydol, 39% Amgueddfeydd a 59% Lleoedd Hanesyddol.

Dengys Powys yr un canlyniad ar gyfer digwyddiadau Celfyddydol ond llai yn ymweld ag Amgueddfeydd (35%) a Lleoedd Hanesyddol (56%).

## Senario

**Tymor Byr**
Llai o gyllid cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau celfyddyd a diwylliannol. Ni fyddai'r Cyngor yn cwrdd â gofynion Safonau'r Gymraeg a thrwy hynny Fesur y Gymraeg, ac felly ni fyddai'n darparu gwasanaethau'n unol â disgwyliadau'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith, gyda'r risg y byddai Comisiynydd y Gymraeg yn gosod sancsiynau, gan gynnwys cosbau ariannol.

**Tymor Canolig**
Byddai cyllid yn parhau i leihau neu o leiaf yn aros yr un fath ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant. Fel yr uchod, a hefyd yn arwain at leihad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal a fyddai, yn ei dro, yn effeithio ymhellach ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith a chwrdd â gofynion y Safonau. Byddai hefyd yn gwneud Powys yn lle llai deniadol i siaradwyr Cymraeg fyw a gweithio ynddi a hynny yn ei dro'n ei gwneud yn anoddach recriwtio siaradwyr Cymraeg i swyddi allweddol yn y Cyngor, mewn ysgolion a sefydliadau partner, gan golli elfen unigryw o ddiwylliant yr ardal.

**Tymor Hir**
Bydd llai o arian refeniw, llai o gapasiti a diffyg buddsoddi mewn cyfleusterau, lleoliadau a sefydliadau celfyddydol yn arwain at seilwaith yn dirywio a heb allu cynnal ei hun yn y tymor hir. Yn ei dro byddai hyn yn arwain at gau lleoliadau, sefydliadau celfyddydol yn mynd i'r wal

a bwlch cynyddol yn y ddarpariaeth hygyrch i breswylwyr ac ymwelwyr i Bowys. Fel yr uchod, gyda llai o gyfleoedd gwaith a chyfleoedd i gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg fel bod pobl ifanc yn gadael yr ardal.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethau Celfyddydau a Diwylliant yn darparu neu'n cefnogi prosiectau, lleoliadau a gweithgareddau celfyddydol, y gwasanaeth llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, gan gynnwys rhaglenni addysgol. Mae'r Gwasanaeth Celfyddydau'n gweithio mewn partneriaeth uniongyrchol â'r sector preifat a'r trydydd sector i gynnal, datblygu a darparu gwasanaethau celfyddydol o safon ar draws y sir. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys gwaith targed i fagu hyder a meithrin sgiliau plant a phobl ifanc drwy waith theatr ieuenctid cynhwysol a hygyrch, cerddoriaeth a chelfyddydau gweledol i bobl ifanc fwy abl a thalentog, ac yn aml yn cynnwys rhai gydag anableddau, problemau iechyd meddwl ac anhwylderau sy'n effeithio'n benodol ar bobl ifanc fel iselder, gorbryderu ac allgau cymdeithasol. Ffilmiau dementia gyfeillgar, cynhyrchiadau theatr ar bwnc penodol, cynhyrchiadau celfyddydau perfformio gwledig yn teithio i neuaddau pentref a chymunedau, gwyliau a digwyddiadau cerddorol sy'n helpu i gwrdd ag anghenion cymunedau gwledig a fyddai, fel arall, heb nemor ddim neu ddim mynediad at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol heb orfod teithio'n bell. Mae llyfrgelloedd yn cynnig ystod eang o wasanaethau cymunedol gan gynnwys: cynllun tanysgrifio llyfrau, adrodd stori i blant a theuluoedd, clybiau llyfrau, ymgyrchoedd darllen dros yr haf i blant a llu o weithgareddau a digwyddiadau cymunedol i bobl hŷn ynysig, pobl ifanc nad oes ganddynt gyfleusterau TGCh yn eu cartref (i astudio) ac i'r cyhoedd yn gyffredinol. Maen nhw hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu Hyfforddiant Powys, Y Ganolfan Byd Gwaith, gwasanaethau i gwsmeriaid ac yn helpu'r cyhoedd i ddysgu sgiliau TGCh a sgiliau eraill ac i chwilio am waith a gwneud ceisiadau ar-lein. Mae'r Gwasanaeth Amgueddfeydd yn rhoi mynediad at gasgliadau hanes lleol a chenedlaethol, arddangosfeydd, digwyddiadau, sgyrsiau a gweithgareddau allgymorth addysgol – gan gyfrannu at fywyd o ansawdd gwell, cyswllt cymdeithasol a theimlad o werth a chydlyniant cymunedol. Mae gan y Gwasanaeth Amgueddfeydd gynllun o'r enw 'Blychau Dementia', yn cynnwys arteffactau ac eitemau o wahanol gyfnodau mewn hanes, er enghraifft o'r Ail Ryfel Byd, a fenthycir i grwpiau o bobl hŷn, gofalwyr a darparwyr gwasanaethau cymunedol i ennyn diddordeb ac ysgogi atgofion ac adrodd straeon mewn rhai sy'n dioddef o Ddementia – mae'r effaith gadarnhaol yn sylweddol ac mae'r galw am y cynllun yn tyfu o'r herwydd.
Yr Iaith Gymraeg: Mae'n ofynnol i holl wasanaethau'r Cyngor weithredu'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar ran y Cyngor gan sefydliadau partner. Mae Safonau'r Gymraeg hefyd wedi cael neu byddant yn cael eu cyflwyno i gyrff cyhoeddus eraill sy'n gweithredu ym Mhowys

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Mae gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol wedi eu gwasgaru'n eang ar draws Powys felly mae mynediad i rai heb drafnidiaeth yn fwy cyfyngedig. Mae cynlluniau fel y 'Cynllun Teithio Gwledig Noson Allan' yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at y gwasanaeth 'lleol' drwy ddod â chynhyrchiadau celfyddydau perfformio i ardaloedd gwledig. Mae theatrau proffesiynol sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol ar gael yn y Drenewydd, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt ac Ystradgynlais.

Yr Iaith Gymraeg: Mae bylchau yn y ddarpariaeth, ac nid oes yr un maes gwasanaeth yn gallu darparu gwasanaethau'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg ar hyn o bryd.

# Gwasanaethau Cymunedol

## Nid yw'r canfyddiadau wedi eu sgorio yn erbyn amcanion lles.

### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Gallai methu â chael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen a'u heisiau arnom, mewn sir wledig sy'n ymestyn dros chwarter tir Cymru, gael effaith fawr ar les preswylwyr. Gyda thoriadau cyllid o £29.8m dros y tair blynedd nesaf (PCC, 2016) a hyn yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen o lyfrgelloedd i gasglu sbwriel, mae'n ein gorfodi i ailfeddwl sut a ble i ddarparu gwasanaethau ac mae'r cwestiwn o fynediad yn y dyfodol yn un sy'n dechrau achosi pryder i breswylwyr. Mae'r un peth yn wir am wasanaethau eraill, o iechyd i blismona.

### Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ar draws Powys mae mynediad da at wasanaethau cyhoeddus gydag o leiaf un gwasanaeth cyhoeddus ym mhob un o'r prif drefi (Llywodraeth Cymru 2014). Fodd bynnag, oherwydd toriadau mae llawer o'r gwasanaethau bellach yn cael eu canoli mewn un adeilad. Mae meysydd eraill, fel cynnal a chadw toiledau cyhoeddus a chanolfannau hamdden, wedi eu trosglwyddo naill ai fusnesau preifat neu gynghorau tref neu grwpiau cymunedol eraill. Mae hyn wedi creu arbedion i'r Cyngor heb o reidrwydd effeithio ar y gwasanaeth. Yn olaf, mae preswylwyr yn ei chael yn haws cysylltu â'r Cyngor gyda'r Gwasanaethau Cwsmeriaid yn derbyn 13,000 o alwadau bob mis (PCC, 2016). Fodd bynnag ni ddylid diystyru pa mor bwysig yw cyfathrebu wyneb yn wyneb.

### Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae gan Bowys nifer o adeiladau sy'n hygyrch i'r cyhoedd er mwyn defnyddio gwasanaethau fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, clybiau ieuenctid, tai a swyddfeydd fel Neuadd y Sir lle mae preswylwyr yn gallu ac yn dod yno i dderbyn cyngor, cwrdd â swyddogion neu ollwng llythyrau. O ran mynediad, rydym yn dechrau gweld gwasanaethau'n cael eu darparu allan o'r trefi mwy fel y Drenewydd, y Trallwng, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi peidio â darparu gwasanaethau o ganolfannau ieuenctid ond yn meddwl comisiynu gwasanaethau i gymunedau llai'n defnyddio grwpiau trydydd sector. Mae trafodaethau hefyd yn digwydd rhwng sefydliadau ar gyd-leoli a chyd-ddefnyddio adeiladau, ond mae'r rhain yn cymryd amser. Gallai'r trefi marchnad mwy gwledig golli gwasanaethau os nad yw'r cynghorau tref a chymuned neu fudiadau cymunedol yn gallu neu ddim yn camu i'r bwlch drwy'r cynllun darparu cymunedol i gynnig gwasanaethau fel toiledau, torri gwair, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a / neu adeiladau lleol.

### Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Yn ôl Arolwg Boddhad Preswylwyr 2015, dywedodd 85% o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt gysylltu â ni dros y ffôn, dywedodd 12% drwy e-bost a dywedodd 7% wyneb yn wyneb. Dywedodd 3% y byddent yn defnyddio'r we a 2% y byddai'n well ganddynt anfon llythyr. Dywedodd 54 o ymatebwyr allan o 821 y cawsant drafferth yn cael gafael ar wasanaethau. Soniwyd amlaf am y gwasanaethau cynllunio a stryd. Pan ofynnwyd i bobl a gawsant drafferthion mynediad oherwydd eu hoed, rhywedd, credoau crefyddol etc, dim ond pump a ddywedodd fod hyn yn broblem. Yn ôl yr arolwg arbedion llyfrgell, barn preswylwyr oedd bod cyd-leoli, lle'r oedd yn bosib, yn gwneud synnwyr ac nid gyda'r bygythiad o gau llyfrgelloedd yn unig, ond yn ehangach.

Holiadur Asesiad Poblogaeth 2016 – teimlai 61% eu bod yn rhan o'r gymuned. Roedd 74% yn hapus â'r gefnogaeth a gawsant gan deulu, ffrindiau a chymdogion.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?
Mae staff yn poeni am y pwysau ar gyllid a'r toriadau mewn gwasanaethau i gymunedau ar draws Powys. Mae'r newid mewn darparu gwasanaethau hefyd yn effeithio ar rai staff rheng flaen, gyda dileu swyddi'n ganlyniad amlwg os nad yw gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?
Byddai rhai cymunedau'n fodlon darparu gwasanaethau ond yn teimlo bod angen llawer mwy o gefnogaeth gan y cyngor nag a roddir ar hyn o bryd.  Soniwyd am ddefnyddio peiriannau ail-law, materion yswiriant, arbenigedd ariannol a chyllido, a'r amserlen ail-gyllido, h.y. newid o 3 i 5 mlynedd, wedi gwella'r gwasanaeth a'i gynaliadwyedd.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Teimlai preswylwyr y byddai cyfuno adnoddau a rhannu adeiladu'n creu arbedion a chynnal gwasanaethau.  Diben y prosiect darparu cymunedol yw ceisio llenwi'r bwlch a greir drwy golli gwasanaethau lleol ac annog gwydnwch.

## Beth na wyddon ni eto?
Dim bylchau data penodol wedi eu hadnabod.

## Tueddiadau Cenedlaethol
Nid oedd y wybodaeth yma ar gael, ond mae wedi'i nodi fel bwlch yn y data.

## Senario
**Tymor Byr**
Mae darlun yn dechrau cael ei greu o lai o wasanaethau'n cael eu cynnig yn y trefi marchnad mwy trefol.  Mae'r ffocws ar ddarparu rhai o wasanaethau'r Cyngor, fel canolfannau hamdden, clybiau ieuenctid a llyfrgelloedd, o bump neu chwech o'r trefi mwy.

**Tymor Canolig**
Bydd y dull conglfaen hwn yn parhau, a allai effeithio ar gymunedau ac ardaloedd daearyddol penodol fel na fydd preswylwyr ag anghenion penodol yn gallu derbyn gwasanaethau.  Er bod gan Bowys nifer uchel o gartrefi gyda dau gar, nid yw rhai preswylwyr yn gyrru ac felly'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn. Y bobl hyn efallai yw ein preswylwyr mwy agored i niwed.

**Tymor Hir**
Gallai colli elfen allweddol a phwysig o'r gymuned mewn rhannau o'r sir effeithio ar hyfywedd gwasanaethau a darpariaeth gymunedol yn gyffredinol yn yr ardaloedd hynny. Llai o wasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu allan o adeiladau cymunedol.  Symud at ddulliau digidol o ddarparu'n unig?

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?
Mae rhai gwasanaethau fel gofal cymdeithasol yn gweithio ar sail unigolion, felly bydd pobl agored i niwed sydd angen gofal arnynt yn derbyn ymweliad yn eu cartrefi eu hunain. Bydd rhai preswylwyr gyda cheir efallai'n gallu defnyddio gweithgareddau trydydd sector drwy gynlluniau trafnidiaeth gymunedol, wedi eu hariannu gan y cyngor ar y cyd â PAVO fel y fraich ddarparu.  Ar hyn o bryd nid yw'r rhaglen cymedroli ysgolion yn cael effaith fawr ar leoedd gwag ond bydd newidiadau dros y 5-10 mlynedd nesaf gyda phenderfyniad i leoli un ysgol ar ddau safle Ysgolion Uwchradd Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod a rhai ysgolion cynradd yn cael eu cau.  Mae ffigurau poblogaeth canol tymor yn awgrymu y bydd niferoedd disgyblion yn parhau i ostwng ac erbyn 2018 y bydd 400 yn llai o blant oed ysgol yn y sir.   Ar y cyfan mae

mynediad at ganolfannau hamdden yn dda'n dilyn trosglwyddo eu rhedeg i Freedom Leisure. Mae newidiadau i glybiau ieuenctid yn debygol o fod yn cael effaith ar y bobl ifanc a fu'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae symudiad i ddarparu mwy a mwy o wasanaethau'n ddigidol, e.e. mae gwasanaethau cwsmeriaid yn annog pobl i adrodd neu gysylltu â'r cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thrwy'r wefan, ac wrth ofyn neu dalu am wasanaeth, yn hytrach na thros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Mae gwasanaethau celfyddydol a diwylliannol wedi eu gwasgaru'n eang ar draws Powys felly mae mynediad i rai heb drafnidiaeth yn fwy cyfyngedig. Mae cynlluniau fel y 'Cynllun Teithio Gwledig Noson Allan' yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at y gwasanaeth 'lleol' drwy ddod â chynhyrchiadau celfyddydau perfformio i ardaloedd gwledig. Mae theatrau proffesiynol sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol ar gael yn y Drenewydd, Aberhonddu, Llanfair-ym-Muallt ac Ystradgynlais.

# Canfyddiadau Allweddol





# Cynnwys

Seilwaith

Twf busnes

Twristiaeth

Cyflogaeth a Sgiliau

Tlodi ac Amddifadedd

Mae'r adran isod yn disgrifio'r pum canfyddiad allweddol yn fanwl a'r data a'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd yn dystiolaeth ar gyfer ein canfyddiadau.

Rhoddwyd sgôr i effaith pob canfyddiad allweddol ar y 7 nod llesiant gan ddangos a yw'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant (gweler yr allwedd isod).

| **Allwedd** | |
|---|---|
| (coch tywyll) | Negyddol – Pwysig Iawn |
| (coch) | Negyddol – Sylweddol |
| (pinc golau) | Negyddol - Cymedrol |
| (llwyd) | Dim effaith ar lesiant ar hyn o bryd |
| (gwyrdd golau) | Cadarnhaol - Cymedrol |
| (gwyrdd) | Cadarnhaol -Sylweddol |
| (gwyrdd tywyll) | Cadarnhaol – Pwysig Iawn |
| ★ | Negyddol – Pwysig Iawn (os nad oes ymyrraeth) |
| | Sgôr heb ei rhoi |

## Seilwaith

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| (coch tywyll) | (llwyd) | (coch) | (coch) | (coch) ★ | (llwyd) | (llwyd) |

### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

At ddibenion yr adroddiad hwn, diffinnir y seilwaith economaidd fel y cydrannau sylfaenol hynny ym Mhowys sy'n angenrheidiol i fusnes fodoli a thyfu. Mae hyn yn cynnwys mynediad drwy drafnidiaeth a thelathrebu, argaeledd adnoddau cynradd, gan gynnwys ynni a gwastraff, ac argaeledd tir a gweithlu.

Mae materion seilwaith ym Mhowys yn cynnig her fawr i lesiant ac i fusnesau. Gall diffyg seilwaith amharu'n sylweddol ar fusnes gan leihau ei effeithlonrwydd. Rydym yn gweld hyn ar draws Powys, gyda'r canlyniad bod rhai busnesau'n dewis peidio ag aros yn y sir. Mae signal ffôn symudol gwael a diffyg band eang cyflym iawn yn ddwy broblem o bwys sy'n cyfyngu hyfywedd busnesau ym Mhowys. Gwaethygir hyn drwy gysylltiadau cyfyngedig o ran ffyrdd a rheilffyrdd sy'n cyfyngu ar symud nwyddau trymion. Ar ben hynny, mae diffyg mewnfudo a phoblogaeth sy'n heneiddio wedi'i gwneud yn anodd i fusnesau recriwtio ym Mhowys. Yn olaf, golyga marchnad eiddo masnachol a diwydiannol gyfyngedig fod llawer o fusnesau bach, wrth iddynt barhau i dyfu, yn gadael Powys oherwydd, er bod gan y sir ardaloedd helaeth o dir y gellid ei ddatblygu, mae heb unedau busnes canolig eu maint i hybu ehangu pellach. Mae canol traddodiadol trefi hefyd yn wynebu cystadleuaeth gref gan gwmnïau ar y rhyngrwyd a'r brandiau mawr. Rhwystr pellach i ddatblygu busnes yw cysylltedd cyfyngedig â gridiau cyfleustodau lleol. Canlyniad hyn oll yw bod gan Bowys nifer mawr o fusnesau bach neu ficro-fusnesau ond ychydig iawn o rai mwy o faint.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Nodir bod seilwaith yn allweddol i ddatblygiad economaidd Powys. Yn fwyfwy, mae angen mynd i'r afael â phroblemau o ran cysylltedd band eang a seilwaith ffonau symudol (Y Swyddfa Gyfathrebu 2014). Erbyn mis Mehefin 2017, dylai fod gan 96% o Bowys fynediad i fand eang cyflym iawn oherwydd prosiect Cyflymu Cymru. Fodd bynnag, yn ardaloedd gwledig y sir, mae ynysu gwledig yn broblem sy'n tyfu. Mae hefyd angen mawr am leoedd gofal plant ychwanegol, yn ogystal â chyfleusterau mwy o faint (Partneriaeth Pobl Ifanc Powys 2015). Ar ben hynny, mae angen am fwy o gyfleoedd gwaith i bobl ifainc er mwyn sicrhau eu bod yn aros yn y sir (CSP, 2015). Ar hyn o bryd, mae cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn dechrau ymagor, gan roi hwb i'r economi leol a mewnfuddsoddiad a thwf. Er bod digon o dir cyflogaeth datblygadwy a galw gan fusnesau, yn araf deg y mae datblygu'n mynd yn ei flaen (Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, 2015). Mae hyn yn awgrymu'r posibilrwydd nad yw datblygiadau o'r fath yn hyfyw'n ariannol i fusnesau lleol oherwydd y bwlch rhwng costau datblygu a'r elw posibl.

**In Migration to Powys***

Top 10 destinations

| | | No. People |
|---|---|---|
| 1. | Shropshire | 640 |
| 2. | Herefordshire | 290 |
| 3. | Cardiff | 230 |
| 4. | Ceredigion | 220 |
| 5. | Neath Port Talbot | 220 |
| 6. | Gwynedd | 160 |
| 7. | Swansea | 150 |
| 8. | Carmarthenshire | 130 |
| 9. | Monmouthshire | 110 |
| 10. | Rhondda Cynon Taf | 90 |

**Total in migration to Powys = 5,130**

**Out Migration from Powys***

Top 10 destinations

| | | No. People |
|---|---|---|
| 1. | Shropshire | 740 |
| 2. | Herefordshire | 250 |
| 3. | Ceredigion | 230 |
| 4. | Cardiff | 230 |
| 5. | Swansea | 180 |
| 6. | Neath Port Talbot | 180 |
| 7. | Carmarthenshire | 160 |
| 8. | Monmouthshire | 150 |
| 9. | Gwynedd | 110 |
| 10. | Telford and Wrekin | 100 |

**Total out migration to Powys = 4,870**

*Moves within the UK during the year ending June 2014

**Net growth = 260**

© Crown Copyright, Produced by Powys County Council Business Intelligence Team. Data source: Origin and destination of migrants by age, ONS, 2011

## A oes unrhyw wahaniaethau penodol rhwng ardaloedd?

Y tu allan i ganolfannau trefol mae tua 63% o gymunedau gwledig naill ai â signal ffôn symudol gwael neu heb un o gwbl. Effeithir yn arbennig ar ogledd a chanol y sir. Drwy'r rhwydwaith llinellau sefydlog mae gan 40% o gymunedau gwledig gysylltedd gwael â band eang. At ei gilydd, mae'r prif ganolfannau trefol ar draws y sir yn cael eu gwasanaethu'n dda drwy'r rhwydwaith llinellau sefydlog a rhwydweithiau ffonau symudol. Mae ynysu gwledig yn parhau'n broblem.

Mae llif traffig ffyrdd yng nghanol a gogledd Powys yn dioddef yn arbennig oherwydd mannau cul a pherygl llifogydd yma ac acw ar hyd y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r cynllun trafnidaeth rhanbarthol yn nodi'r B4358 Beulah i'r A4081 Llanllŷr (i'r gogledd o Lanfair-ym-Muallt) ynghyd â'r A44 ger Trefyclo fel safleoedd strategol penodol y mae angen eu huwchraddio. Hefyd,  mae  gwelliannau'n angenrheidiol mewn Ardaloedd Twf Lleol yn Ystradgynlais, Aberhonddu, Llandrindod a Dyffryn Hafren i fynd i'r afael â theithio egnïol, tagfeydd traffig a phroblemau parcio.

Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn gwasanaethu canol a gogledd y sir ond nid oes unrhyw gysylltiad rhwng y de a'r gogledd. Nid oes gan ddeheubarth y sir unrhyw gysylltiad rheilffordd ac mae'n fwy dibynnol ar rwydwaith bysiau'r gwasanaeth cyhoeddus

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Mae un ym mhob pump o ddinasyddion yn anfodlon ar gysylltedd band eang (Arolwg Ofcom).

Mae cysylltedd trafnidiaeth yn broblem ac yn cyfyngu symudoledd y boblogaeth weithio (Cynllun Trafnidiaeth). Prinder eiddo addas i fusnesau (ymholiadau ynglŷn ag eiddo i CS Powys, Cronfa Ddata Eiddo Llywodraeth Cymru).

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Her yw hybu Powys fel lle i ddychwelyd iddo (ymfudo).
Rhaid gweld ynysu gwledig fel problem sy'n unigryw i ganolbarth Cymru.
Problem fawr yw cysylltiadau trafnidiaeth a chysylltedd â'r rhyngrwyd y tu allan i ardaloedd trefol. Mynediad ffisegol i gyflogaeth.Prinder eiddo diwydiannol i ganiatáu twf busnes – unedau lluosog â thenant unigol yn rhwystro'r system.

Cyllid ar gyfer seilwaith dan bwysau yn sgil toriadau yng nghyllid y sector cyhoeddus a Brexit. Seilwaith busnes, cyllid, rheoleiddio, argaeledd eiddo a thir, twf araf. Cadw pobl ifainc (cefnogi datblygu gyrfaoedd).

Cysylltedd – cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, telathrebu/rhyngrwyd gwael. Ynysu gwledig difrifol.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Rhwydweithiau cyfathrebu gwael, o ran trafnidaeth a thelathrebu fel ei gilydd.
Anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

Pwysau yn sgil trosglwyddo gwasanaethau cyhoeddus i'r 3ydd sector (rheoli cyfleusterau). Effaith ar ariannu ar gyfer y seilwaith yn sgil Brexit.

Prinder gofod gweithdai addas yn y sir ar draws yr holl fandiau maint

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

RCyflwyno band eang cyflym iawn ar draws Powys.
Mae darparwyr rhwydweithiau'n cynnig gwasanaeth ar lefel gymdeithasol, e.e. ynysu gwledig. Dylai hyn arwain at gynydd yn nifer y mastiau a chwmpas y signal ar gyfer ffonau symudol. Mae hyn yn cael ei ystyried ar gyfer rownd nesaf trwyddedau 5G.

## Beth na wyddon ni eto??

Ceir bylchau data ynglŷn â hyd a lled y rhwydwaith band eang ffeibr a chwmpas signal ffonau symudol (mastiau). Mae amserlen cyflwyno'r rhwydwaith ffeibr yn newid o hyd ac ni fydd yr holl fylchau yng nghwmpas y rhwydwaith yn cael eu deall tan ddiwedd y rhaglen yn 2020.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Yn ôl data o Fynegai Cystadleurwydd Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd, mae prif bartneriaid masnachu'r DU o Orllewin Ewrop yn ennill y blaen arni o ran ansawdd cyffredinol seilwaith trafnidiaeth, ni waeth pa mor gyfoethog ydynt. Mewn dadansoddiad arall, mae'r cwmni ymghynghori KPMG yn ogystal â'r felin drafod Policy Exchange wedi amcangyfrif bod gan y DU ddiffyg cyllid seilwaith o oddeutu £400bn hyd at 2020.Mae twf o ran cyflwyno rhwydweithiau ffeibr cyflym iawn wedi gwella drwy roi ffeibr cyflym iawn ar waith ar draws y DU

## Senario

**Y Tymor Byr**

Ar sail ymagwedd 'beidio â gwneud dim' ni fydd unrhyw gymhelliad masnachol i ddarparwyr telathrebu fuddsoddi mewn seilwaith newydd. Ni fyddai'r economi'n tyfu y tu hwnt i'r lefelau presennol. Bydd cysylltiadau trafnidiaeth yn rhwystro twf busnes. Bydd busnesau llai'n brwydro i dyfu. Bydd ynysu gwledig yn teyrnasu.

**Y Tymor Canolig**

Efallai y bydd ein busnesau twf yn edrych y tu hwnt i'r sir am gyfleoedd i adleoli. Gallai Gwerth Ychwanegol Gros ddirywio ychydig. Gallai llifau ymfudo net ddechrau troi'n negyddol.

**Y Tymor Hir**

Mae Powys yn dod yn lleoliad cymudo ar hyd ei ffiniau, gyda lefelau diweithdra uwch yng nghanol ac ar ochr orllewinol y sir. Bydd cynhyrchiant economaidd yn dirywio yn y sir.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Drwy gyflwyno cynllun benthyciadau canol trefi yn Aberhonddu, Llandrindod a'r Drenewydd (£10M) i wella eiddo masnachol ac adfer adeiladau er mwyn eu defnyddio eto.
2. Rhaglen buddsoddi mewn gweithdai (cyfalaf).
3. Cefnogi manteisio ar wasanaethau cyflym iawn/digidol.
4. Cydweithio â phartneriaethau ar gyfer buddsoddi a thwf busnes:
+ Partneriaeth Menter Leol y Gororau
+ Tyfu Canolbarth Cymru
+ Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
+ Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
+ Effaith Dyffryn Hafren
+ Busnes Cymru
+ Gweithgor Datblygu Economaidd Gwasanaethau Mewnol (Tai, Trafnidiaeth, Eiddo, Cyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac yn y blaen)
5. Cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y 4 ardal twf lleol ym Mhowys

6. Datblygu cyfleoedd ar ôl adeiladu'r A483/A489 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd)
Cynnig dewis cynadledda fideo mewn ysgolion i leihau teithio er mwyn astudio pynciau penodol (er mai rhywbeth dewisol ac nid gorfodol yw hwn).

Trefnu i hyfforddiant gael ei ddarparu yn lleol fel nad oes raid i bobl deithio pellteroedd maith i gael hyfforddiant. Mae hyn yn hwyluso lleihau costau ac unwaith y gall staff Powys ddarparu'r hyfforddiant, bydd y costau'n llai byth.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

O gofio tueddiadau hanesyddol yng nghyfraddau geni a thyfu busnesau, mae'n ymddangos bod anghenion sylfaenol busnesau yn y sir yn cael eu diwallu gan gynlluniau a gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ni fu'r lefel yma o gymorth yn ddigonol i hybu twf, sydd wedi aros yn ddisymud. Mae buddsoddiad y DU mewn trafnidiaeth yn syrthio y tu ôl i'n cystadleuwyr Ewropeaidd. Mae'n rhaid mynd i'r afael â darparu gwasanaethau rhyngrwyd cyflym iawn a seilwaith ffonau symudol yng nghefn gwlad.

Mae Arolwg Anghenion Cyflogaeth CDLl Powys yn nodi galw cryf am eiddo ond nid oes fawr o adeiladu newydd yn digwydd ar ran y sector preifat.

Mae angen cyllid i fynd â datblygu'r pedair Ardal Twf Lleol yn ei flaen.

# Twf Busnes

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae gan Bowys nifer mawr o'r hyn a elwir yn ficro-fusnesau (8,670, sy'n cyflogi 0-9 o weithwyr). Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth ar hyn o bryd yn cael eu cyflogi gan y sector cyhoeddus. Mae'r sefyllfa hon, oherwydd toriadau parhaus, yn anghynaliadwy.
Yn bennaf, mae busnes preifat ym Mhowys yn cynnwys nifer uwch na'r cyfartaledd o'r micro-fusnesau bondigrybwyll hyn sydd â 10 gweithiwr ar y mwyaf. Fodd bynnag, cyfyngedig yw twf y busnesau hyn ar hyn o bryd ac yn aml, byddant yn symud o'r sir wrth dyfu.
Mewn busnesau amaethyddol a'r sector adeiladu y ceir hunangyflogaeth gan mwyaf. Mae contractau rhan-amser hefyd yn ffurfio cyfran sylweddol o'r boblogaeth weithio ac mae hyn yn cyfrannu i'r cyflog wythnosol sy'n is na'r cyfartaledd a delir ym Mhowys.
(Darn ar effaith Brexit gan Lywodraeth Cymru i'w hychwanegu).

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ym Mhowys, er bod nifer mawr o ficro-fusnesau wedi agor yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y busnesau bach (a ddiffinnir fel busnesau sydd â mwy na 10 gweithiwr) wedi tyfu 11%, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 14% (Llywodraeth Cymru, 2007). Mae'r sefyllfa'n waeth byth ar gyfer micro-fusnesau, sydd wedi cynyddu 3% yn unig ym Mhowys, o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 8% (Llywodraeth Cymru, 2007). Gallai hyn awgrymu marchnad orlawn neu sy'n sefyll yn ei hunfan. Mae gweithwyr hunangyflogedig a rhan-amser yn cyfrif am 38% o gyfanswm gweithlu Powys gan gyfrannu i'r cyflog wythnosol o £425 ym Mhowys sy'n is na'r cyfartaledd (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), 2015). Cyflogir 33% arall gan y sector cyhoeddus. O ganlyniad i'r ddau ffactor hyn, mae gan y sir nifer anghyfesur o swyddi sgiliedig ac ychydig iawn o alwedigaethau heb sgiliau o'i chymharu â gweddill Cymru (SYG, 2014), Yn olaf, heblaw am Gaerdydd, mae gan Bowys y nifer mwyaf o fusnesau, yn bennaf yn y sectorau bwyd ac amaeth, sy'n dod o dan sectorau busnes blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru. Fel prif ysgogwyr yr economi, mae'r rhain yn derbyn cymorth

**Yr economi yn nhermau sectorau busnes, nifer y busnesau a chyflogaeth gyffredinol (Ffynhonnell: SYG)**

**Mae'r sector amaethyddol yn cyfrif am y nifer mwyaf o fusnesau yn y sir ond nid y cyflogwr mwyaf mohono y tu allan i'r sector cyhoeddus. Er mai un o'r sectorau lleiaf o ran niferoedd y busnesau yw gweithgynhyrchu, mae'n cyfrif am 11% o'r gyflogaeth (dwysedd cyflogaeth uchel) ac felly mae'n bwysig i'r economi leol.**

**Powys Business Performance 2015**

| | Micro | Small | Medium | Large | Total |
|---|---|---|---|---|---|
| Enterprises Nos | 8,080 | 545 | 65 | 10 | 8,700 |
| Enterprise %age | 92.9 | 6.2 | 0.8 | 0.1 | 100 |
| Turnover (£M) | 1,385 | 676 | 546 | 1,140 | 3,747 |
| Turnover (%age) | 37% | 18% | 15% | 30% | |
| Employment Nos | 28,900 | 9,600 | 6,400 | 8,800 | 53,700 |
| Employment (%age) | 54% | 18% | 12% | 16% | |
| Turnover per employee | £47.92 | £70.42 | £85.31 | £129.55 | |

Source: Inter-Departmental Business Register (IDBR), Offcie For National Statistics

**Sut mae Busnesau Powys yn Perfformio (yn ôl maint y fenter)**

**Mae ein busnesau mwyaf yn effeithlon iawn yn ariannol a hwythau'n cyfrif am 30% o drosiant busnes yn y sir ac am gyfran sylweddol o'r boblogaeth o ran cyflogaeth. Mae trosiant y gweithiwr ar y gyfradd uchaf ar £129 y pen.**

**Mae ein micro-fusnesau, er eu bod yn cyfrif am ychydig dros draean o'r trosiant busnes, yn cyfrif am 54% o'r holl gyflogaeth ac mae hyn yn dangos nad ydynt mor effeithlon â busnesau mwy o faint gan gyfrif am £47 o drosiant busnes i bob gweithiwr (ac felly'n llai cynhyrchiol yn ariannol). Fodd bynnag, o ystyried y nifer mawr o fusnesau sy'n dod o dan sectorau allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd, dylid cofio bod y sectorau hyn yn cynnig mwy o gyfle ar gyfer twf newydd.**

Business Size and Overall Employment Figures

| Sector | Employed | Businesses | Employed % | Businesses % |
|---|---|---|---|---|
| Agriculture, forestry and fishing | 10200 | 3,315 | 15.72% | 38.06% |
| Production | 7200 | 380 | 11.09% | 4.36% |
| Construction | 5100 | 810 | 7.86% | 9.30% |
| Wholesale, retail, transport, hotels and food | 13900 | 1,815 | 21.42% | 20.84% |
| Information and communication | 1200 | 205 | 1.85% | 2.35% |
| Finance and insurance activities | 500 | 50 | 0.77% | 0.57% |
| Real estate activities | 900 | 140 | 1.39% | 1.61% |
| Professional, scientific and technical activities; administrative and support service activities | 6100 | 1,225 | 9.40% | 14.06% |
| Public aministration, defence, education and health | 15600 | 340 | 24.04% | 3.90% |
| Other service activities | 4200 | 430 | 6.47% | 4.94% |
| | 64900 | 8,710 | 100.00% | 100.00% |

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae gan Bowys ganolfannau diwydiannol sylweddol yn ein trefi mawr fel y Trallwng, y Drenewydd ac Ystradgynlais. Lleolir pedwar o bump o'n busnesau mwyaf (250+ o weithwyr) yn nalgylch Dyffryn Hafren yng ngogledd y sir. Mae tua 64% o fusnesau maint canolig y sir (50-249 o weithwyr) wedi'u lleoli yn nalgylch Dyffryn Hafren gan gynnwys y Drenewydd a'r Trallwng. Byddai hyn yn awgrymu mai gogledd y sir yw sbardun economaidd yr economi leol.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Yn ffafrio cymorth busnes uniongyrchol ac ymyriadau ariannol nad ydynt yn fenthyciadau. Mae prinder unedau busnes bach yn yr ardal (mae portffolio helaeth y Cyngor yn adlewyrchu hyn – mae'r holl eiddo busnes wedi'i feddiannu). Angen mynediad i wasanaethau cymorth 'wyneb yn wyneb' yn hytrach na thrwy gyfryngau eraill (cyfathrebu cyflymach a mwy personol) a chymorth mentora yn hytrach na gwasanaethau ar y we yn unig. Ansicrwydd yn sgil Brexit. Yn ôl rhai dinasyddion, byddai darpariaeth gofal plant megis meithrinfeydd neu ofalwyr plant yn eu galluogi i ystyried ymuno â'r farchnad gyflogaeth.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae angen mynd i'r afael â phrinder yr unedau busnes bach mewn rhai ardaloedd o'r sir drwy ddarparu unedau mwy o faint sy'n gadael i denantiaid symud yn eu blaenau. Mae cymorth ariannol yn gyfyngedig ac mae angen ymyriadau mwy deinamig i hybu busnesau newydd a thwf busnes. Ansicrwydd yn sgil Brexit. Helpu micro-fusnesau i dyfu'n fusnesau bach. Gwasanaethau'n lleihau, pwysau ariannol a throsglwyddo gwasanaethau i sefydliadau

cymunedol/gwirfoddol. Mae gostyngiad yn y grant cymunedol wedi effeithio ar drafnidiaeth gymunedol, hamdden a chadw gwasanaethau.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Mae angen meithrin capasiti yn y trydydd sector ynghyd ag adnoddau ariannol i alluogi datblygu menter gymdeithasol a gwasanaethau sy'n seiliedig yn y gymuned. Mae cyfle i'r trydydd sector ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd gynt gan y sector cyhoeddus.
Mae'r sector preifat yn gweld trethi a rheoleiddio busnes fel problem. Mae mynediad i gyllid ac eiddo'n dod yn rhwystr i dwf. Mae cael hyd i staff sgiliedig a'u cadw'n broblem. Mae angen gwell cysylltiadau rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Ansicrwydd yn sgil Brexit. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn darparu cyllid, cyngor a chymorth i'n busnesau.
Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cynnig y sgiliau cywir (llwybr gyrfa) o fewn ein system addysg ar gyfer y mathau o fusnes a thwristiaeth sydd gennym yma ac rydym am eu denu i Bowys.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Gweithredu'r Strategaeth Datblygu Economaidd.
Rhaglen Manteisio ar Fand Eang Cyflym Iawn a weithredir gan Lywodraeth Cymru ac a fydd yn parhau tan 2020. Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Menter Leol y Gororau.

## Beth na wyddon ni eto??

Deall ein busnesau a'r tueddiadau sy'n dod i'r fei, h.y. ein twf busnes naturiol.
Cyfle i ddeall ein poblogaeth ddi-waith ac economaidd anweithgar yn well er mwyn nodi cyfleoedd i dyfu'r gweithlu.

Mae capasiti eiddo diwydiannol wedi cyrraedd y pen; mae gennym ddatblygwyr sy'n gyndyn o adeiladu oherwydd na allant sicrhau digon o incwm rhent i gyfiawnhau buddsoddi. Mae ymchwil gychwynnol a wnaed gan CS Powys yn dangos bod galw am unedau bach yn enwedig. Angen deall beth y bydd pobl yn ei adeiladu yn y dyfodol a ble.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Cynhyrchiant wedi'i fesur yn ôl Gwerth Ychwanegol Gros y pen yng Nghymru yw 71.4%, yr isaf yng ngwledydd neu ranbarthau'r DU. O fewn Powys, y ffigur yma yw 66%. Mae'r ddau fesur yn gymharol sefydlog.

## Senario

**Y Tymor Byr**
Os na wnaiff y sector cyhoeddus ddim byd, bydd yr economi'n dibynnu ar rymoedd y farchnad yn y sector preifat a'r trydydd sector. Os oes gwell cyfleoedd masnachol mewn mannau eraill bydd menter breifat yn llai awyddus i ddatblygu ym Mhowys neu symud i'r sir. Gallai'r trydydd sector ddod yn fwy tameidiog heb gymorth cyhoeddus gan ddarparu gwasanaethau cymunedol llai effeithiol.
**Y Tymor Canolig**
Heb fuddsoddiad ac arloesedd yn y sector cyhoeddus, gallai twf economaidd aros yn ei unfan yng nghanolbarth a gogledd-orllewin Powys. Byddai'r boblogaeth yn dod yn fwy dibynnol ar gyflogaeth y tu allan i'r sir a gallai hyn effeithio ar gyflenwad a phrisiau tai ar hyd ein ffiniau. Gallai hefyd fod mwy o bwysau o lawer i sicrhau bod tir datblygadwy ar gael i fusnesau gael symud i'r ardaloedd ar hyd ein ffiniau. Yn yr un modd, gallai ein hardaloedd yn y canolbarth a'r gogledd-orllewin ddirywio. Hefyd, gellid gweld dirywiad yn y mathau o wasanaethau cymunedol sydd ar gael ar y lefel leol wrth i gyfoeth symud i'n hardaloedd ar y ffiniau.

**Y Tymor Hir**

Heb fuddsoddiad yn y sector cyhoeddus, bydd menter breifat yn mudo i ardaloedd sy'n cynnig gwell cyfleoedd busnes a gallai hyn achosi dirywiad economaidd hirdymor yn arbennig yn y canolbarth a'r gogledd-orllewin. Gyda llai o gyfleoedd gwaith, efallai y bydd rhaniad yn dod i'r amlwg ar draws y sir, gydag unedau teuluol iau yn symud i'r lleoliadau gwaith ar hyd ein ffiniau. Gallai fforddiadwyedd hefyd ddod yn broblem sy'n gorfodi'r grwpiau hyn i ymfudo o Bowys. Gallai'r ardaloedd yn y canolbarth a'r gogledd-orllewin weld diweithdra uwch a gorgyflenwi o ran llety a allai arwain at brisiau tai is. Gallai hyn annog grwpiau oedran hŷn i fewnfudo, gyda chostau economaidd ychwanegol i'r gymuned o ran gwasanaethau gofal. Gallai menter breifat a menter gymdeithasol ddod i ganolbwyntio'n fwy ar wasanaethau gofal sydd yn hanesyddol yn cynnig cyfleoedd gwaith sydd â chyflog is gan greu llai o gyfoeth o lawer ar lefel leol. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant y sir ac yn y pen draw ar gynhyrchu cyfoeth.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, mae Adfywio'n cyfeirio busnesau (y sector preifat a menter gymdeithasol) at ffynonellau posibl o wybodaeth, cyngor a chyllid, e.e. Busnes Cymru, Cyllid Cymru, yn ogystal â chwarae rôl weithredol wrth helpu i gael hyd i adeiladau ac yn y blaen. Ymgymerir â'r mentrau canlynol:-

Strategaeth Datblygu Economaidd

- Darparu drwy raglen Arwain – cyllid ar gyfer datblygu gwledig dan arweiniad y gymuned
- Cynllun benthyciadau canol trefi
- Cydweithio â phartneriaethau ar gyfer buddsoddi a thwf busnes
- Partneriaeth Menter Leol y Gororau
- Tyfu Canolbarth Cymru
- Fforwm Economaidd Canolbarth Cymru
- Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru
- Effaith Dyffryn Hafren
- Busnes Cymru
- Gweithgor Datblygu Economaidd Gwasanaethau Mewnol (Tai, Trafnidiaeth, Eiddo, Cyllid, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ac yn y blaen)
- Cefnogi manteisio ar wasanaethau cyflym iawn/digidol
- Cronfa Nant Helen - Cynllunio i gael cyllid ar gyfer ardal Ystradgynlais
- Grantiau cymunedol – gweinyddu grantiau cyfalaf blynyddol, Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfamod Cymunedol Lluoedd Arfog Powys
- Gweithredu'r ymgyrch Fewnfuddsoddi – Symud i Ganolbarth Cymru – Darganfod Powys

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Rheolir y gwahanol ffurfiau ar gymorth sydd ar gael o'r sector cyhoeddus rhwng Llywodraeth Cymru, asiantaethau cefnogi mentrau, Cyngor Sir Powys ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae cymorth i fusnes hefyd ar gael drwy'r trydydd sector a'r sector preifat. Ar hyn o bryd, mae'r economi'n iach o ystyried y lefelau cyflogaeth uchel a nifer uchel y busnesau sy'n syrthio i sectorau busnes blaenoriaeth allweddol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cynhyrchiant isel yn awgrymu bod yr economi efallai'n agosáu at bwynt allweddol ac mae twf busnes yn aros yn ei unfan. Mae cyflenwad unedau gweithdai i fusnesau bach - ganolig yn gyfyngedig oherwydd nad yw'r gost o ddarparu'r unedau hyn yn ddeniadol i ddatblygwyr (mae'r incwm drwy rent yn isel). Byddai hyn yn awgrymu bod angen cymorth pellach yn enwedig gan y sector cyhoeddus i fynd i'r afael â meysydd a allai fod yn methu.

# Twristiaeth


| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae twristiaeth wedi parhau i dyfu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ym Mhowys, gyda nifer cynyddol o dwristiaid yn aros yn y sir. Mae hyn wedi arwain at fuddsoddiad o ryw £720 miliwn yn yr economi leol, sydd hefyd yn dynodi cynnydd ar y blynyddoedd blaenorol (CSP, 2015). Ymddengys fod twristiaeth yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig, gyda Sir Drefaldwyn yn gweld y mwyaf o dwristiaid yn aros dros nos ac ardaloedd y deheubarth tuag Aberhonddu yn gweld mwy o ymwelwyr undydd. Bwyd a diod sy'n ffurfio'r gyfran fwyaf o'r diwydiant twristiaeth ym Mhowys ar hyn o bryd (CSP, 2015). Fodd bynnag, os nad eir i'r afael yn iawn ag anghenion y farchnad, mae perygl y gallai'r niferoedd hyn ddechrau lleihau, er bydd twf yn parhau yn y tymor byr. Er y gall cefnogaeth barhau drwy Lywodraeth Cymru, yr angen cenedlaethol sy'n debygol o gael ei ddiwallu, gan o bosib leihau'r effaith ar Bowys fel rhanbarth ac erydu cynrychiolaeth leol.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Yn 2015, gwelodd Powys gynnydd o 5.8% yn nifer y twristiaid o'i gymharu â 2014, gyda chyfanswm o 4.5 miliwn o ymwelwyr (CSP, 2015). Mae nifer yr ymwelwyr sy'n aros hefyd wedi cynyddu 8.9% i gyfanswm o 1.4 miliwn. Ymwelwyr undydd oedd gweddill y 3.1 miliwn o ymwelwyr, sef cynnydd o 4.5% dros y flwyddyn flaenorol. Cyfrannodd y diwydiant twristiaeth gyfanswm o £720.3 miliwn i'r economi leol (CSP, 2015). Dyma gynnydd o 9% o £653 miliwn yn 2014. Cynhyrchwyd cyfanswm o 86.6% o'r incwm hwn gan ymwelwyr oedd yn aros dros nos. Arweiniodd y cynnydd hwn hefyd at gynnydd mewn cyflogaeth ym Mhowys gyda chyfanswm y gyflogaeth yn codi 8.6% at gyfanswm o 11,129 o bobl mewn gwaith (SYG, 2014). Bwyd a diod oedd y sector mwyaf o ran cyflogaeth yn y diwydiant twristiaeth.






## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae twristiaeth yn cynhyrchu £720 miliwn – mae'n amlycaf mewn ardaloedd gwledig.
Bwyd a diod (21%) sy'n cael yr effaith economaidd fwyaf ar y diwydiant twristiaeth.
Ceir mwy o nosweithiau mewn ystafelloedd yng ngogledd y sir (Sir Drefaldwyn) a mwy o ymwelwyr undydd â'r deheubarth (yn enwedig Bannau Brycheiniog).
Mae nosweithiau mewn ystafelloedd yn creu mwy o weithgarwch economaidd nag ymwelwyr undydd.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Hyrwyddo'r ardal fel lle i ddychwelyd iddo.
Gwasanaethau'n lleihau, pwysau ariannol a throsglwyddo gwasanaethau ymwelwyr i sefydliadau cymunedol/gwirfoddol.
Balchder dinesig – mae twristiaeth yn hybu'r hunaniaeth leol a natur unigryw gadarnhaol yr ardal. Mae'n sector sy'n dda i'r sir. Pwysau ar ochr ddwyreiniol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Angen hybu Gorllewin Bannau Brycheiniog ac Ystradgynlais.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Cysylltedd – cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, telathrebu /rhyngrwyd gwael
Amgylchedd gwleidyddol Brexit. Effaith ar gyllid. Ansicrwydd.
Mae denu ymwelwyr i ardal wledig, cysylltiadau ffyrdd, trothwyau TAW a threthi busnes yn broblem.Hybu hyder cymunedol i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy yn y gymuned. Meithrin capasiti.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Angen meithrin capasiti a phartneriaethau. Mae'r trydydd sector yn darparu cymorth seilwaith o ran cyfleusterau ymwelwyr a gwasanaethau gwybodaeth. Mae i bwysau ar gyllid cyhoeddus oblygiadau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

A ninnau'n gweithio mewn marchnad fasnachol, mae data'n cael eu cynhyrchu ac mae ymchwil yn allweddol i rag-weld y galw a sicrhau ein bod yn manteisio ar dwristiaeth i'r eithaf.

## Beth na wyddon ni eto??

- Beth fydd effaith bosibl Brexit ar Bowys yn y tymor hir?
- Deall effaith twristiaeth ar economi Powys yn ei chrynswth.
- Deall effaith leol twristiaeth ym Mhowys, cryfderau pob ardal a'r cyfle i ddatblygu.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Disgwylir y bydd nifer yr ymwelwyr tramor â'r DU yn cynyddu. Disgwylir y bydd gwariant domestig ar hamdden yn tyfu o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio (cynnydd mewn amser hamdden ac incwm gwario). Mae'r segment Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau'n debygol o weld twf wrth i deuluoedd geisio cael y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan ymddeoliad

## Senario

**Y Tymor Byr**

Os na wneir dim byd, ceir twf yn y tymor byr. Bydd niferoedd ymwelwyr undydd yn lleihau ychydig ond bydd cynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n aros dros nos yn ychwanegu mwy o werth at yr economi.

**Y Tymor Canolig**

Os na eir i'r afael ag anghenion y farchnad, bydd dirywiad cyson yng ngwerth twristiaeth i'r economi leol a gallai targed Croeso Cymru o gynnydd o 10% yng ngwerth twristiaeth yng Nghymru gael ei beryglu.

**Y Tymor Hir**

Bydd y dirywiad yn gwastatáu wrth i ddarpariaeth gael ei sbarduno'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus. Efallai na fydd buddiannau economaidd Powys yn cael eu cynrychioli.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Prosiect Llyn Llandrindod - Cais
Cais Camlas Trefaldwyn
Prosiect Cofebion Rhyfel Powys
Digwyddiadau Mawr – Tour of Britain 2016 / Eisteddfod yr Urdd 2017
Gweithio mewn partneriaethau twristiaeth a phrosiectau datblygu cyrchfannau
Marchnata Powys
- Gwefan
- Deunydd Hyrwyddo
- Dolenni â Digwyddiadau a Gwyliau
- Mentrau Llywodraeth Cymru
- Dolenni â gwybodaeth am 'bethau i'w gwneud' ym Mhowys

Cynnal ymchwil farchnata
Darparu gwybodaeth i ymwelwyr a gwasanaeth lleol

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Mae'r galw'n cael ei ateb gan adnoddau sydd ar gael. Fodd bynnag, elfen allweddol sy'n galluogi'r ddarpariaeth hon yw cyllid allanol. O un flwyddyn i'r llall, mae perfformiad wedi gwella yn 2014/15 a bydd cynnal y twf yn her. Yn ôl y dangosyddion cychwynnol, mae pleidlais Brexit wedi rhoi hwb i dwristiaeth ddomestig a thwristiaeth fel allforyn (cyfraddau cyfnewid) a lleihau twristiaeth fel mewnforyn economaidd.

# Cyflogaeth a Sgiliau


| Powys Lew-yrchus | Powys Gyd-nerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ★ | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Beth yw'r canfyddiadau allweddol?
Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd ym Mhowys yn gymharol isel ac maent wedi aros eu hunfan gan mwyaf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae gan Bowys y nifer isaf o bobl yng Nghymru sy'n economaidd anweithgar ond sy'n chwilio am waith (SYG, 2011). Mae gan Bowys hefyd nifer is na'r cyfartaledd o bobl heb unrhyw gymwysterau ffurfiol (SYG, 2014). Er bod cyfraddau diweithdra ac anweithgarwch economaidd yn isel ym Mhowys, mae gan y sir hefyd y gyfradd gynhyrchiant isaf sydd gan unrhyw is-ranbarth yn y DU gyfan (SYG, 2015). Mae cynhyrchiant ymhell islaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Gall hyn, yn rhannol, gael ei briodoli i'r nifer mawr o weithwyr rhan-amser yn y sir.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 2,200 o bobl ym Mhowys yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n economaidd anweithgar ond sy'n chwilio am waith (SYG, 2011). Mae hyn yn cynrychioli 3.3% o'r boblogaeth gyfan sydd ymhell islaw'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 4.5%. Mae hefyd gan Bowys nifer is na'r cyfartaledd o bobl heb unrhyw gymwysterau, sef 10% o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 13%. Fel rhan o Gynllun Cymunedau Cryf Powys, mae ymdrechion yn cael eu gwneud i helpu'r 15,000 o bobl eraill ym Mhowys a ddosberthir fel rhai economaidd anweithgar i gael gwaith (CPS, 2015). Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae Powys yn parhau i gael ei dosbarthu fel yr is-ranbarth lleiaf cynhyrchiol yn y DU, gyda chynhyrchiant yr awr, fe dybir, 33% o dan gyfartaledd y DU, sef 67%.  Credir bod hyn o ganlyniad i'r nifer uwch na'r cyfartaledd o weithwyr rhan-amser ym Mhowys sy'n ffurfio 37% o'r gweithlu cyfan (SYG, 2014).






## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Ceir cnewyllyn cyfoethog yng Nghrucywel heb fawr o ddiweithdra.
Mae canran fawr o bobl yn gweithio i'r sector cyhoeddus yn ein prif drefi. Mae ein prif ganolfannau cyflogaeth yn y Drenewydd, y Trallwng ac Ystradgynlais (lle mae dwysedd poblogaeth ar ei lefelau uchaf).

Gan Grucywel y mae'r boblogaeth weithio isaf sydd rhwng 20 a 39 oed,
Gan y Drenewydd y mae'r boblogaeth weithio uchaf sydd rhwng 20 a 39 oed,
Gan Landrindod a Rhaeadr Gwy y mae'r boblogaeth weithio isaf sydd rhwng 40 a 59 oed
Gan Grucywel y mae'r boblogaeth weithio uchaf sydd rhwng 40 a 59 oed
Gan y Drenewydd y mae'r boblogaeth weithio isaf sy'n 60+ oed
Gan Drefyclo a Llanandras y boblogaeth weithio uchaf sy'n 60+ oed

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Byddent yn ffafrio mwy o gymorth busnes ac ymyriadau sy'n lleol ac wyneb yn wyneb.
Mynediad i gyfleoedd gwaith addas yn lleol.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Nid yw'r data economaidd yn adlewyrchu amgylchiadau unigryw'r sir a'i heconomi sy'n amaethyddol yn bennaf – rhaid ymgysylltu ymhellach â busnesau i ddeall yn llawn y rhwystrau i dwf a pha sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau. Ar hyn o bryd, mae pobl ifainc yn dewis cael sgiliau mewn mannau y tu allan i Bowys ac mae hyn yn eu gwthio o'r sir ac ni chynigir prentisiaethau.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Mae rhwystrau i waith i'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn amrywio dipyn yn ein sir – mae angen edrych ar ofal plant hyblyg ac yn y blaen. Diffyg gweithlu sgiliedig mewn rhai sectorau. Mae busnesau'n teimlo nad yw addysg cyn 16 yn hybu cyflogaeth leol na galwedigaethau

ymarferol fel llwybrau gyrfa. Nid yw entrepreneuriaeth yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol fel llwybr gyrfa mewn ysgolion. Mae busnesau'n teimlo bod myfyrwyr yn cael eu gwthio tuag at gyflawniad academaidd drwy'r brifysgol yn hytrach nag ar hyd llwybrau addysg mwy addas a allai arwain at gyfleoedd gwaith yn lleol a chryfhau'r economi leol.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Dolenni â'r dadansoddiad cyfunol o Gyrhaeddiad Addysgol
Dolenni â'r dadansoddiad cyfunol o Dwf Busnes
Dolenni â'r dadansoddiad cyfunol o Seilwaith
Dolenni â Thwristiaeth (hamdden)

## Beth na wyddon ni eto??

Bwlch yn y dystiolaeth ynglŷn â'r rhesymau dros dwf busnes gwael (gweler tab Twf Busnes) – bydd hyn yn bwydo i weithgarwch yr adran Adfywio sy'n targedu swyddi rhan-amser/ cynhyrchiant

Data diffiniol ar ymfudo pobl ifainc – a ydynt am ddod yn ôl?
Creu amgylchedd, swyddi, gweithgareddau cymdeithasol – sinema ac yn y blaen.
Deall patrymau ymfudo'n fanwl – rydym yn gwybod i ble ond nid pam maent yn mynd.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Yn nhermau anweithgarwch economaidd, cyfraddau'r DU yw'r isaf ers i gofnodion ddechrau ym 1971, ac maent wedi syrthio ychydig ar lefel y DU a Chymru dros y flwyddyn ddiwethaf. GYG y pen ar hyn o bryd yng Nghymru yw 71.4%, yr isaf yn unrhyw wlad neu ranbarth yn y DU. Fel canran o gyfartaledd y DU, mae GYG y pen yng Nghymru wedi amrywio rhwng 71% a 74% ers datganoli – mae hyn yn golygu bod Cymru (a Phowys) wedi dilyn llwybr tebyg yn fras o ran twf i weddill y DU dros yr un cyfnod, er ar lefelau is.

## Senario

**Y Tymor Byr**
Yn seiliedig ar senario 'gwneud dim', mae'n debygol y bydd niferoedd yr economaidd anweithgar yn y sir yn aros yn isel ond yn ddigyfnewid, yn seiliedig ar ddata blaenorol. Gellir dweud yr un peth am lefelau cynhyrchiant a nifer y swyddi rhan-amser yn y sir, ond mae cyswllt anorfod rhwng y rhain â chyfraddau geni a thyfu busnesau.

**Y Tymor Canolig**
Dylid nodi y bydd demograffeg Powys yn newid yn sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf a rhagwelir y bydd gan y sir y ganran uchaf o bobl dros 65 oed yng Nghymru erbyn canol 2016. Yn anochel, bydd hyn yn effeithio ar ddata am bobl economaidd anweithgar (nifer uwch o bobl wedi ymddeol ac yn y blaen) a lefelau cynhyrchiant (llai o bobl yn cyfrannu'n economaidd), yn enwedig ar sail senario 'gwneud dim.'

**Y Tymor Hir**
Yr un fath â'r tymor canolig.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd mae Adfywio'n datblygu prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, Workways+, i dargedu grwpiau penodol o bobl economaidd anweithgar drwy leoliadau gwaith â chymorth. Mae Gwasanaethau Ieuenctid hefyd yn cyfrannu gyda gweithgarwch sydd wedi'i dargedu ar leihau nifer y bobl ifainc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant ac sydd mewn perygl o ddod yn economaidd anweithgar yn y tymor hir.  Ar hyn o bryd mae

Adfywio'n cyfeirio busnesau at ffynonellau posibl o wybodaeth, cyngor a chyllid e.e. Busnes Cymru, Cyllid Cymru, yn ogystal â chwarae rôl weithredol wrth helpu i gael hyd i adeiladau ac yn y blaen. Maent hefyd wedi sefydlu a chyfranogi o gynllun Effaith Dyffryn Hafren yng ngogledd Powys, gan ddarparu cymorth busnes i unigolion a busnesau newydd.
Prosiect Peilot Peirianwyr Ifainc
Peilot Prime Cymru ym Mhowys
Cais Cynnydd i Gronfa Gymdeithasol Ewrop – Prosiect Gwasanaeth Ieuenctid
Rhaglen Trawsnewid Dysgu a Sgiliau

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Unwaith bod y tri phrosiect arfaethedig dan arweiniad Cyngor Sir Powys ac a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael eu cymeradwyo ac ar gerdded yn y sir, byddant yn darparu gwasanaeth crwn o ran diwallu anghenion pobl sy'n economaidd anweithgar yn y tymor hir a phobl ifainc sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

O ystyried tueddiadau hanesyddol cyfraddau geni a thyfu busnesau, mae'n ymddangos bod anghenion sylfaenol busnesau yn y sir yn cael eu diwallu gan wasanaethau cymorth a chynlluniau dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r lefel gymorth yma wedi bod yn ddigon i hybu twf, sydd wedi aros yn ei unfan.

# Tlodi ac Amddifadedd

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ★ | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru yw rhai ardaloedd ym Mhowys yn ôl MALlC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru), gydag Ystradgynlais yn cael ei sgorio yn y 10% isaf yng Nghymru a De'r Drenewydd a Chastell y Trallwng yn cael eu sgorio yn yr 20% gwaethaf yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae sgôr Powys yn isel o ran cyflogaeth. Er bod y rhan fwyaf o'r boblogaeth mewn gwaith, mae llawer mewn gwaith rhan-amser gan ennill cyflogau sy'n is na'r cyfartaledd. Mae pobl ifainc, yn enwedig dynion, hefyd yn brwydro i gael hyd i waith. Mae nifer yr achosion o dlodi tanwydd yn uchel ym Mhowys o ganlyniad i'w natur wledig heb fynediad i danwyddau rhatach fel nwy yn ogystal â'i phoblogaeth henoed uchel (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae rhaniad cynyddol rhwng y rhai mwyaf a lleiaf amddifad o ran disgwyliad oes, gyda phroblemau iechyd hirdymor yn dod yn fwyfwy cyffredin ymysg y rheini llai cefnog (GIG Cymru, 2016). Powys hefyd yw un o'r lleoedd drutaf i brynu tŷ. Mae llai o bobl bellach yn berchen ar gartref yn gyfan gwbl neu drwy forgais. Yn lle hynny, mae canran helaeth yn rhentu (home.co.uk, 2015). Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag incwm wythnosol sydd o dan y cyfartaledd. Er na ellir gwybod i sicrwydd, disgwylir y bydd diwygio'r system les yn effeithio ar fwy na hanner poblogaeth Powys, ac o ganlyniad i fudd-daliadau'n cael eu gostwng neu eu terfynu, y gwelir gostyngiad ar gyfartaledd o 2% yn Incwm Gwario Gros Aelwydydd (SYG, 2015). Mae Powys yn cael ei sgorio yn y 10% isaf o ran mynediad i wasanaethau, yn enwedig o ran mynediad i wasanaethau ar droed neu drafnidiaeth gyhoeddus (Llywodraeth Cymru, 2014). Hefyd, mae nifer uwch na'r cyfartaledd o'r boblogaeth heb fynediad i signal 2G. Mae cyflwyniadau digartrefedd yn dangos nifer y bobl mewn argyfyngau tai ar draws y sir. Mae data gosodiadau a rhestrau aros yn dangos argaeledd tai cyngor i ateb y galw am dai cymdeithasol/llety fforddiadwy; mae'n dangos nad oes gennym gyflenwad digonol i ateb y galw yn enwedig ar gyfer aelwydydd bach. Dros y 18 mis blaenorol, cafwyd cynnydd dramatig yn nifer y banciau bwyd ym Mhowys; mae'r rheini sydd bellach ar gael yn cynorthwyo mwyfwy o bobl sydd mewn gwaith ond sy'n dal i frwydro i gadw deupen ynghyd (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, 2015).

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Yn ôl MALlC, mae nifer o ardaloedd ym Mhowys yn cael eu hadnabod fel rhai o'r mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae Ystradgynlais yn enwedig yn cael ei sgorio ymysg y 10% isaf o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae cynnydd sydyn o 32% wedi bod mewn cyflwyniadau digartrefedd rhwng 2015 a 2016, gyda 1812 o bobl wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Tai Cyffredin yn 2016. Ar hyn o bryd, mae gan Bowys y gyfradd gyflogaeth uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae incwm wythnosol ar gyfartaledd yn isel, sef £487, ymhell y tu ôl i'r cyfartaledd cenedlaethol o £539 (SYG, 2015). Ar ben hynny, o'r rheini sydd mewn gwaith, mae 29% yn cael eu cyflogi'n rhan-amser. Roedd diweithdra ieuenctid ym Mhowys ym mis Tachwedd 2016 oddeutu 1.7% o'i chymharu â'r gyfradd gyffredinol o 1%. Mae gan Bowys nifer is na'r cyfartaledd o blant mewn tlodi, gyda dim ond 13% o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 21.9%. Amcangyfrifir bod 16% o aelwydydd Powys mewn tlodi tanwydd; credir bod hyn yn bennaf oherwydd natur wledig y sir a diffyg cysylltiadau i'r rhwydwaith nwy (Llywodraeth Cymru, 2014). Ceir rhaniad cynyddol o ran iechyd y cyhoedd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig ym Mhowys (GIG Cymru, 2016). Yn ogystal â bwlch cynyddol o ran disgwyliad oes iach, mae gordewdra'n prysur ddod yn broblem, yn enwedig ymhlith grwpiau oedran iau. Ystyrir bod 25% o'r holl blant 4-5

oed ym Mhowys bellach yn ordew. Powys yw'r chweched awdurdod lleol drutaf yng Nghymru i brynu tŷ, ar sail cymhareb rhwng enillion llawn amser a phrisiau tai'r Gofrestr Dir (home.co.uk, 2015). Mae maint yr aelwydydd presennol hefyd yn crebachu a'r amcanestyniad yw y bydd yn syrthio cyn ised â 2.13 o bobl erbyn 2026. Mae rhentu preifat a chymdeithasol hefyd wedi gweld cynnydd o 3%. Mae nifer y ceisiadau cynllunio hefyd wedi gostwng. Disgwylir y bydd diwygio'r system les yn cael effaith ar breswylwyr Powys gan fod 9,760 (12% o'r boblogaeth) yn hawlio rhyw ffurf ar fudd-dâl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Disgwylir y bydd y diwygiadau'n effeithio ar gyfanswm o 56% o'r boblogaeth. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at golled ar gyfartaledd o 2% o Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen (SYG, 2014). Powys yw un o'r awdurdodau lleol gwaethaf yng Nghymru o ran mynediad i wasanaethau. Yn arbennig, mae mynediad i ardaloedd ar droed neu drafnidiaeth gyhoeddus yn wael. Mae cyfanswm o 1.6% o'r boblogaeth yn byw mewn ardaloedd heb signal ffôn 2G (OFCOM, 2014). total of 1.6% of the population live in areas with no 2G phone signal (OFCOM, 2014).




Powys
WIMD 2014 Overall Index
By Lower Super Output Area
Within best 50%
Within worst 50%
Within worst 30%
Within worst 20%
Within worst 10%
Welshpool Gungrog 1
Welshpool Castle
Newtown Central 1
Newtown East
Newtown Central 2
Newtown South
Llandrindod East/
Llandrindod West
St. John 2
Ystradgynlais 1

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a’r llall?

Mae gogledd-ddwyrain Powys, yn enwedig Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Llanfyllin a Llansantffraid yn sgorio’r isaf ym mhob agwedd ar yr economi ac iechyd.

Yng nghanol Powys, mae sawl tref yn sgorio islaw’r cyfartaledd mewn ardaloedd allweddol. Mae sgoriau’r Trallwng a Threfyclo’n is mewn cysylltiad ag amddifadedd, yr economi, iechyd ac oedolion heb gymwysterau. Mae’r Drenewydd yn sgorio’n wael mewn cysylltiad ag iechyd a’r economi. Mae Llanidloes yn sgorio’n wael o ran yr economi, fel y mae Llandrindod. Ac isel yw sgôr Sant Ioan mewn cysylltiad ag amddifadedd, yr economi ac iechyd.

Mae Coridor Gorllewinol Powys yn sgorio’n wael drwyddi draw, gyda Machynlleth, Rhaeadr Gwy, Llanwrtyd, Maes-car, Ystradgynlais a Thawe Uchaf ymhlith y rhai yr effeithir waethaf arnynt. Ac yn ne-ddwyrain Powys, mae Llangatwg a Glangrwyne yn sgorio’n wael o ran iechyd. Mae cyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu 107% yn Aberhonddu rhwng 2014/15 a 2015/2016 a thros yr un cyfnod, cafwyd 39% o gynnydd yn y Trallwng, 30% yn y Drenewydd ac 13% yn Llandrindod. Cafwyd lleihad o 3% yn Ystradgynlais. Ceir y nifer mwyaf o gyflwyniadau digartrefedd yn y Drenewydd a’r Trallwng.

Mae’r data’n dangos bod tlodi tanwydd ar ei uchaf ym Machynlleth a Llanfyllin (20.2%) gydag Ystradgynlais yn ail ar 17.4%. Mae ar ei isaf yn ardaloedd Crucywel (13.3%) a’r Drenewydd (13.7%).

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â’r mater hwn yn Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr 2015. Gofynnwyd i breswylwyr pa mor debygol oedd hi y byddai’n rhaid iddynt ddewis rhwng cynnau’r gwres neu brynu bwyd yn ystod misoedd y gaeaf.

Yn sgil y cwestiwn am ‘wresogi neu fwyta’, dywedodd 1 ym mhob 9 neu 11% o breswylwyr eu bod yn weddol debygol neu’n debygol iawn o wynebu’r dewis hwn. Teimlodd 81% fod y dewis hwn yn annhebygol o fod yn rhywbeth y byddai’n rhaid iddynt ei ystyried. Yn ddiddorol ddigon, wrth edrych ar y math o breswylwyr, dowciodd y ffigur i 65% i’r rheini oedd wedi symud i’r sir o fewn y pum mlynedd diwethaf yn unig.

Gall hyn ymwneud â’r ffaith bod Powys yn defnyddio mwy o ynni na siroedd eraill yng Nghymru ac mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â’n natur wledig a’r defnydd o danwyddau megis nwy a glo, cyflwr rhai o’r adeiladau hynaf ac o bosibl y cynnydd cyffredinol yng nghostau ynni. Pan ofynnwyd i breswylwyr pa fath o danwydd oedd yn cael ei ddefnyddio i wresogi eu cartrefi, nodwyd cymysgedd digon cyfartal o fathau o danwydd, gyda gwresogyddion storio’n cael eu defnyddio leiaf.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Rhoddir blaenoriaeth i daliadau drwy ddebyd uniongyrchol gan y Gwasanaeth Tai gan mai dyma’r dull rhataf o gasglu rhent. Mae’r galw am dai’n amrywio ar draws y sir fel y mae nifer y cyflwyniadau digartrefedd. At ei gilydd, ceir mwy o alw am wasanaethau mewn cysylltiad â phobl sydd eisiau tai a phroblemau’n ymwneud â digartrefedd yng ngogledd y sir. Nid yw maint y llety na’r math sydd ar gael yn cyfateb i’r galw pan ystyrir y diwygiadau lles a’r cyfyngiadau o ran y budd-daliadau sydd ar gael

## Beth y mae’r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Mae’r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi bod yn cydweithio â’r dadansoddwr defnyddwyr blaenllaw CACI i lunio model sy’n gallu amcangyfrif lefelau gor-ddyled ar draws y DU. Rydym am i bobl ymweld â gwefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol i ddefnyddio’r Offeryn Lleoli Cyngor ar Ddyled i gael hyd i gyngor diduedd di-dâl yn eu hardal nhw. Mae’r Gwasanaeth Tai a rhai o’r Cymdeithasau Tai sy’n bartneriaid wedi trefnu bod cyngor ychwanegol ar arian/rheoli dyled ar gael.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Mae asiantaethau a sefydliadau'n cynorthwyo tenantiaid mewn ôl-ddyled, sydd angen tai a chyda digartrefedd drwy ddarparu cyngor a chymorth, e.e. Incwm a Dyfarniadau, Cyngor ar Bopeth, Shelter Cymru, Money Saviour ayyb. Mae gan Gyngor Sir Powys Gytundeb Partneriaeth Gyflenwi â'r Adran Gwaith a Phensiynau i ddarparu cyngor ar arian a chymorth i denantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol sy'n optio i mewn – cyflwynir hyn gan y Tîm Cynghori Ariannol a Chymorth. Hefyd, mae Incwm a Dyfarniadau'n mynd ati i hybu'r Taliad Tai yn ôl Disgresiwn. Mae Cyngor Sir Powys wrthi'n ailwampio sut mae gweinyddiaeth y Dreth Gyngor yn cael ei chyflwyno fel y bydd yn canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, gan sicrhau bod y nifer uchaf posibl yn hawlio gostyngiadau, esemptiadau a rhyddhadau ar yr adeg gynharaf bosibl. Ers mis Ebrill 2016, mae gan y Cyngor ddyletswydd i atal digartrefedd. Mae wedi ailstrwythuro ei wasanaeth er mwyn blaenoriaethau'r gwaith hwn.

## Beth na wyddon ni eto??

Data'n ymwneud â thenantiaethau Cymdeithasau Tai a'r Sector Preifat, yn enwedig tenantiaid mewn ôl-ddyled. Amodau tai'r sector preifat. Y nifer o bobl yr effeithir arnynt gan y gyfradd lety a rennir gan y rhai o dan 35 oed. Nifer y bobl ym Mhowys sydd â chyfrifon banc. Y lefel fenthyca ym Mhowys.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Nododd Cyd-asesiad Anghenion Strategol 2014 y 5 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is ac mae data Incwm a Dyfarniadau a ddarparwyd yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn.
2% yw'r incwm a gollir oherwydd Diwygio Lles ym Mhowys, £391 i bob oedolyn oedran gweithio. Mae Powys islaw'r incwm a gollir yng Nghymru, sef 3%, £480.50 y pen.
Mae Powys yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y DU ar gyfer dyledusrwydd. Cyfartaledd y DU yw 16.1%. Fodd bynnag, rydym o dan gyfartaledd Cymru o 19.6%. Cyfartaledd Powys yw 17.1%.

## Senario

**Y Tymor Byr**

Erbyn 2017, amcanestynnir y gall y diwygio lles effeithio ar hyd at 56% o'r boblogaeth oedran gweithio. Mae argaeledd y maint a'r math cywir o lety mewn cysylltiad â'r diwygiadau lles yn arwyddocaol a bydd yn effeithio ar beth y bydd darparwyr tai'n ei adeiladu. Bydd y gyfradd lety a rennir yn effeithio ar yr holl denantiaethau a roddir ers mis Ebrill 2016 hyd at fis Ebrill 2017. Nid yw'r stoc gan y Cyngor yn y sector preifat neu gymdeithasol h.y. llety a rennir i ateb y galw.

**Y Tymor Canolig**

Os bydd y diwygiadau lles yn parhau, ni fydd nifer cynyddol o bobl yn gallu cael mynediad i lety na gallu ei fforddio. Mae gan Gyngor Sir Powys boblogaeth sy'n heneiddio ac mae angen llety a fydd yn addas i bobl iau. Fodd bynnag, mae diwygio lles megis y gyfradd lety a rennir i'r rhai o dan 35 oed yn annog y grŵp hwn i beidio ag aros ym Mhowys. Mae'n rhaid i'r Cyngor fod â strategaeth i annog pobl ifainc a theuluoedd i aros yn y sir.

**Y Tymor Hir**

Bydd yn cymryd amser i naill ai addasu'r llety presennol neu adeiladu llety newydd i aelwydydd llai o faint. Fodd bynnag, gallai hyn waethygu'r sefyllfa i Bowys. Mae'r setliad ar gyfer awdurdodau lleol yn gysylltiedig â nifer y plant yn y sir. Ar hyn o bryd, mae gennym nifer mawr o dai i deuluoedd yn y sector tai cymdeithasol ond oherwydd diwygio lles ni chawn osod y llety i aelwydydd bach gan na fydd y budd-daliadau'n talu'r costau. Gall trawsnewid hyn i lety llai a rennir annog teuluoedd i beidio ag aros ym Mhowys.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Y Gwasanaeth Tai a arweiniodd ar atal digartrefedd a darparu llety. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi dinasyddion mewn gwahanol ffyrdd. Bydd datblygu gwasanaeth ymyrraeth gynnar yn helpu. Mae Incwm a Dyfarniadau'n darparu gwasanaethau i helpu pobl i gyrchu budd-daliadau ac ymdopi'n ariannol.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Ar hyn o bryd, rydym yn atal a lliniaru digartrefedd ; fodd bynnag, os bydd cynnydd yn y galw bydd angen adolygiad o'r ddarpariaeth a gwasanaethau. Mae landlordiaid cymdeithasol yn gwella cyflwr eu stoc a byddant yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru a fydd yn arwain at dai fforddiadwy/cynaliadwy. Mae tai'r sector preifat yn cael eu gwasanaethu gan y Gwasanaeth Tai ac mae cyllid ar gael ar ffurf benthyciadau i wella ansawdd llety'r sector preifat. Ariennir cyfleusterau i'r anabl drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl neu gronfeydd landlordiaid cymdeithasol. Gellir ariannu adeiladau sydd newydd eu codi gan Grantiau Tai Cymdeithasol oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor yn gallu cael ei ddefnyddio bellach i adeiladu cartrefi newydd. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynnydd sylweddol yn y cyfalaf sydd ar gael i adeiladu tai fforddiadwy newydd.

# Yr Amgylchedd

## Canfyddiadau Allweddol





# Cynnwys

Ynni Adnewyddadwy

Ynni mewn Tai

Eich Amgylchedd Lleol

Newid yn yr Hinsawdd

Yr Amgylchedd Cydnerth

Mwynhau'r Amgylchedd

Teithio o gwmpas Powys

Mae'r adran isod yn disgrifio'r chwe chanfyddiad allweddol yn fanwl a'r data a'r dadansoddiad a ddefnyddiwyd yn dystiolaeth i'n canfyddiadau.

Rhoddwyd sgôr i effaith pob canfyddiad allweddol ar y 7 nod llesiant gan ddangos a yw'n cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar lesiant (gweler yr allwedd isod).

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | Negyddol – Pwysig Iawn |
| | Negyddol – Sylweddol |
| | Negyddol - Cymedrol |
| | Dim effaith ar lesiant ar hyn o bryd |
| | Cadarnhaol - Cymedrol |
| | Cadarnhaol -Sylweddol |
| | Cadarnhaol – Pwysig Iawn |
| | Negyddol – Pwysig Iawn (os nad oes ymyrraeth) |
| ★ | Sgôr heb ei rhoi |

## Renewable energy

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


### Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


yw'r canfyddiadau allweddol?

Ar hyn o bryd mae Powys yn cynnal nifer mawr o brosiectau ynni adnewyddadwy. Gosodiadau solar ffotofoltaig (solar PV) yw'r rhan fwyaf o'r rhain. Dilynir hyn gan osodiadau pŵer solar thermol (at ddiben gwresogi dŵr) a safleoedd cynhyrchu ynni biomas (CSP, 2016). Powys yw'r cynhyrchydd ynni adnewyddadwy mwyaf ym meysydd biomas, gwynt ar y tir ac ynni solar thermol (CSP, 2016). Mae defnyddio ffermydd gwynt ar y tir ym Mhowys yn gyfrifol am yr arbedion mwyaf o ran CO2 yn y sir (CSP, 2016). Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'n bosibl y bydd bwlch ynni amlwg wrth i orsafoedd pŵer hŷn sy'n defnyddio tanwydd ffosil gael eu datgomisiynu.

### Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Y prosiectau ynni adnewyddadwy mwyaf cyffredin ym Mhowys yw'r rhai sy'n defnyddio celloedd solar ffotofoltaig. Mae'r rhain yn gyfrifol am gyfanswm o 60% o'r holl brosiectau ynni adnewyddadwy ym Mhowys (CSP, 2016). Mae hyn ymhell ar y blaen i'r ffynhonnell fwyaf cyffredin nesaf, gyda gosodiadau solar thermol a phrosiectau biomas ill dau'n ffurfio 12% o'r holl brosiectau presennol. Fodd bynnag, defnyddio gwynt ar y tir sy'n gyfrifol am yr arbediad mwyaf o ran CO2 ym Mhowys, gyda ffermydd gwynt yn cyfrif am 65% o'r holl CO2 sy'n cael ei arbed gan brosiectau ynni adnewyddadwy, gyda biomas yn sicrhau'r arbediad ail fwyaf, sef 25% (CSP, 2016). Powys hefyd yw'r cynhyrchydd carbon isel mwyaf yng Nghymru yn y sectorau biomas, gwynt ar y tir a solar thermol. Gan ddiystyru effeithiau gosodiadau gwynt ar y môr a'r arbedion a enillir drwy safleoedd ynni niwclear, Powys sy'n arbed y mwyaf o CO2 o ddefnyddio gosodiadau cynhyrchu adnewyddadwy yng Nghymru (CSP, 2016).




## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Nid oes unrhyw ymchwil wedi bod i leoliadau penodol gosodiadau adnewyddadwy ym Mhowys; mae'r data a ddarperir wedi'u seilio ar set ddata i Bowys gyfan yn unig. Mae gwaith helaeth wedi'i wneud fel rhan o broses Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2011-2026 i adnabod y lleoliadau gorau ar gyfer technoleg adnewyddadwy. Fodd bynnag, data ar gyfer gosodiadau yn y dyfodol yw'r rhain ac nid y rhai presennol

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Er gwaethaf y problemau mewn cysylltiad â phrosiectau ynni adnewyddadwy, mae'r data meintiol ynglŷn â barn ein dinasyddion ar Ynni Adnewyddadwy'n gyfyngedig. Wrth ymateb i ymgynghori CDLl 2011-2026, dim ond 14 o'r 882 o ymatebion i'r CDLl a gofnodwyd oedd yn ymwneud â'r polisi cynllunio arfaethedig ar ynni adnewyddadwy. Nid yw'r gallu gennym i ddarparu cynrychiolaeth gytbwys a theg o agweddau dinasyddion tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

Er gwaethaf y problemau mewn cysylltiad â phrosiectau ynni adnewyddadwy, mae'r data meintiol ynglŷn â barn ein dinasyddion ar Ynni Adnewyddadwy'n gyfyngedig. Wrth ymateb i ymgynghori CDLl 2011-2026, dim ond 20 o'r 1091 o ymatebion i'r CDLl a gofnodwyd oedd yn ymwneud â'r polisi cynllunio arfaethedig ar ynni adnewyddadwy. Nid yw'r gallu gennym

i ddarparu cynrychiolaeth gytbwys a theg o agweddau dinasyddion tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Noder: mae'r ymatebion yn cynnwys ymgynghoriadau mis Mehefin 2015 a mis Ionawr 2016 ynglŷn â'r CDLl.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Beth na wyddon ni eto??

Lleoliadau prosiectau ynni adnewyddadwy o fewn Powys ac agweddau pobl tuag at dechnoleg adnewyddadwy yn y sir.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Ym Mhowys y cafwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y prosiectau cynhyrchu adnewyddadwy yng Nghymru rhwng 2012 a 2014. Mae gan Bowys y ganran uchaf o ran cynhyrchu ynni carbon isel yng Nghymru, 12.9% (ac eithrio cynhyrchu o wynt ar y môr a phŵer niwclear).
Powys oedd â'r cynnydd mwyaf mewn prosiectau carbon isel yn 2013 a 2014, 11.2% o'r holl brosiectau.

## Senario

**Y Tymor Byr**

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

**Y Tymor Canolig**

O fewn y CDLl mae ffigyrau o 599MW o gynhyrchu trydan adnewyddadwy a 29.5MW o gynhyrchu ynni thermol adnewyddadwy wedi'u gosod i ateb y capasiti gosodedig mwyaf posibl tan 2026.

**Y Tymor Hir**

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Gall prosiectau ynni adnewyddadwy gael eu hybu drwy'r broses gynllunio (CDLl), ond yn bwysicach byth drwy gymorth ariannol cenedlaethol gan y Llywodraeth megis Tariffau Cyflenwi Trydan a'r Cymhelliad Gwres Adnewyddadwy.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Er mai Powys yw'r awdurdod mwyaf blaenllaw o ran nifer y prosiectau, mae angen o hyd i brosiectau ynni adnewyddadwy gael eu darparu i gyrraedd targed y CDLl a'r bwlch ynni wrth i orsafoedd pŵer hŷn gael eu datgomisiynu.

# Ynni mewn Tai

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ★ | | ★ | | | ★ |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae angen Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC) pryd bynnag y bydd adeilad yn cael ei godi, ei werthu a'i rentu. Ar sail sgoriau Tystysgrif Perfformiad Ynni ar gyfer yr adeiladau sydd wedi'u hasesu, mae gan Bowys ganran isel o gartrefi ynni-effeithlon (sgôr A-C) a chanran gymharol uchel o gartrefi aneffeithlon (sgôr F a G) (Y Ganolfan Ynni Cynaliadwy, 2015). Nid yw'r rhan fwyaf o gartrefi ym Mhowys wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy oherwydd natur wledig y sir. Mae'r cartrefi hyn yn debygol o ddibynnu ar ffurfiau eraill ar wresogi sy'n fwy carbon-ddwys a drud, megis olew, nwy petrolewm hylifedig a glo (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011). Mae maint y trydan a ddefnyddir gan aelwydydd ar gyfartaledd ym Mhowys yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ogystal â'r cyfartaledd yn y DU. Mae maint y nwy domestig a ddefnyddir ar gyfartaledd i bob mesurydd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ogystal â'r DU (Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2013). Yn wyneb prisiau ynni cynyddol, mae mwyfwy o breswylwyr yn ei chael yn anodd gwresogi eu cartrefi hyd at safon ddigonol a disgwylir y bydd y duedd hon yn parhau dros y 5 i 10 mlynedd nesaf.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Mae Tystysgrifau Perfformiad Ynni'n dangos pa mor effeithlon yw cartref wrth ddefnyddio ynni, cost rhedeg cartref ac argymhellion ynglŷn â sut i wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad. Crëir y tystysgrifau pan fydd adeiladau'n cael eu gwerthu neu'u rhentu, i fesur perfformiad eiddo landlordiaid ac maent yn ofynnol o dan rai cymelliadau ariannol. Rhoddir sgôr effeithlonrwydd ynni A-G i eiddo, lle mai 'A' yw'r mwyaf effeithlon a 'G' yw'r lleiaf effeithlon. Mae'r map gwyrdd isod yn dangos lle mae'r canrannau uchaf o eiddo ynni-effeithlon (bandiau A-C) yn y DU ymysg yr adeiladau sydd wedi'u hasesu. Canran isel o eiddo ynni-effeithlon sydd gan Bowys.

Mae'r map coch isod yn dangos lle mae'r ganran uchaf o eiddo lleiaf ynni-effeithlon yn y DU (bandiau F a G) ymysg yr adeiladau sydd wedi'u hasesu. Mae gan Bowys ganran gymharol uchel o eiddo aneffeithlon.


Noda'r hierarchaeth ynni y dylai sefydliadau ac unigolion ymdrin â phroblemau ynni yn y drefn ganlynol:


1. Lleihau'r angen am ynni
2. Defnyddio ynni'n fwy effeithlon
3. Defnyddio ynni adnewyddadwy
4. Dylai unrhyw barhad o ran defnyddio tanwyddau ffosil fod yn lân ac yn effeithlon.


Nwy o'r prif gyflenwad yw un o'r ffurfiau mwyaf rheoladwy a fforddiadwy ar wresogi. Mae tua 53% (31,000) o adeiladau ym Mhowys nad ydynt wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, 2016) – mae hyn yn fwy na'r ffigur i Gymru (15%). Mae adeiladau nad ydynt wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy yn debygol o ddibynnu ar ffurfiau eraill, mwy carbon-ddwys ar wresogi, megis olew, LPG a stôr-wresogyddion nos. Mae amcangyfrifon ynglŷn â nifer yr adeiladau nad ydynt wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy yn amrywio, gydag un ffynhonnell yn amcangyfrif bod 43,000 o adeiladau ym Mhowys heb eu cysylltu i'r rhwydwaith nwy (SYG, 2011).


Ym Mhowys, y defnydd o drydan domestig ar gyfartaledd oedd 4316 cilowat awr y flwyddyn sy’n uwch na’r cyfartaledd yng Nghymru (3656 cilowat awr y flwyddyn) a’r cyfartaledd yn y DU (4021 cilowat awr y flwyddyn) (SYG, 2011).


Ar gyfartaledd, maint y nwy domestig a ddefnyddir i bob mesurydd ym Mhowys yw 11,995 cilowat awr y flwyddyn sy’n is na’r cyfartaledd yng Nghymru (12,264 cilowat awr y flwyddyn) a chyfartaledd y DU (13,202 cilowat awr y flwyddyn (SYG, 2011).
annum) (ONS, 2011).







## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae'r data ar gyfer Sir Drefaldwyn yn dangos, o'r adeiladau sydd wedi cael eu hasesu, fod ganddi ganran uwch o adeiladau aneffeithlon nag sydd gan Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed. Mae adeiladau hŷn sy'n anodd eu trin, sydd â waliau soled a heb fynediad i nwy drwy'r prif gyflenwad at ei gilydd yn llai ynni-effeithlon nag adeiladau modern sydd wedi'u hinswleiddio'n dda ac sydd ar y rhwydwaith nwy. Mae adeiladau gwledig yn fwy tebygol o ddibynnu ar ffurfiau carbon-ddwys ar wresogi, fel olew, LPG neu stôr-wresogyddion nos. Mae gan Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol (MSOA) Efyrnwy y ganran uchaf o adeiladau nad ydynt ar y grid nwy, sef 99%. Mae gan y Drenewydd ac Aberhonddu y canrannau mwyaf o adeiladau ar y rhwydwaith nwy. Ceir pedwar rhwydwaith LPG cymunedol yn y DU, gyda dau wedi'u lleoli ym Mhowys, un yn Llanfyllin ac un yn Llanwrtyd.

Mae gan ardal Aberhonddu (MSOA Powys 017) y defnydd isaf o drydan domestig ar gyfartaledd, sef 3325 cilowat awr y flwyddyn. Mae ardal MSOA Ffridd Faldwyn (Powys 005), sy'n cynnwys Aberriw, Ffordun, Kingswood, Trefaldwyn a Thre-wern, y defnydd trydan domestig uchaf ar gyfartaledd, sef 5616 cilowat awr y flwyddyn.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Yn ôl 11% o'r preswylwyr, mae'n debygol y byddai angen iddynt ddewis rhwng gwresogi eu tai a phrynu bwyd.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae pobl yn aml yn cael trafferth â chyllidebu ar gyfer y taliad uchel ymlaen llaw sydd ei angen wrth dalu am olew gwresogi.

Gall arwynebedd mawr Powys olygu ei bod yn anodd codi ymwybyddiaeth o wahanol gynlluniau a'r cymorth sydd ar gael. Bwriedir rhai o'r cynlluniau gyda'r mwyafrif mewn cof (o ran adeiladau sydd ar y grid nwy), ac nid yw'r mesurau gwella a gynigir i adeiladau nad ydynt ar y grid nwy bob amser yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd gwledig cystal ag y gallent. Dim ond ychydig ardaloedd sydd gan Bowys lle ceir yr 20% uchaf o amddifadedd incwm sy'n

gallu ei gwneud yn anodd denu buddsoddiad drwy gynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Ceir deddfwriaeth a gwahanol gynlluniau a fwriedir i adnabod a gwella effeithlonrwydd ynni tai ym Mhowys; mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Mae Safon Ansawdd Tai Cymru'n gofyn bod pob landlord cymdeithasol yn gwella eu stoc dai at lefel dderbyniol erbyn 2020 (sgôr SAP o 65, yn cyfateb i sgôr 'D').

- Rhaglenni Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau Arbed a Nyth, sy'n darparu cyllid ar gyfer gwelliannau effeithlonrwydd ynni i gartrefi ar incwm isel a'r rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig ar draws Cymru. Mae cynllun Nyth yn darparu mynediad i gyngor a chymorth di-dâl i ddeiliaid tai sy'n byw yng Nghymru i'w helpu i leihau eu biliau ynni. Gall y rheini sy'n cyrraedd meini prawf cymhwyso Nyth dderbyn pecyn o fesurau effeithlonrwydd ynni am ddim. Cynllun seiliedig ar ardaloedd yw Arbed, Cynllun Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru, a fwriedir i dargedu ardaloedd lle ceir tlodi tanwydd.
- Bydd Deddf Ynni 2011 yn gofyn bod gan adeiladau a rentir yn breifat sgôr Tystysgrif Perfformiad Ynni o 'E' fan leiaf o 2018 ymlaen.

- Cyfarwyddeb Perfformiad Ynni mewn Adeiladau (EPBD)
- Y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO).
- Cymelliadau ariannol ar gyfer technolegau carbon isel (e.e. tariffau cyflenwi trydan, y cymhelliad gwres adnewyddadwy).
- Mae benthyciadau gwella cartrefi ar gael a fwriedir i wella cyflwr eiddo preswyl.
- Mae talebau cysylltu i nwy ar gael i bobl sy'n cyrraedd rhai meini prawf cymhwyso.

Mae'r niferoedd sy'n derbyn technolegau carbon isel ym Mhowys wedi bod yn uchel a cheir nifer mawr o osodiadau ffotofoltaig domestig, sy'n cynhyrchu trydan a fydd yn gwrthbwyso'r defnydd domestig o drydan (gweler gwybodaeth am ynni adnewyddadwy).

## Beth na wyddon ni eto??

Lle mae'r stadau sydd â'r lefelau tlodi tanwydd uchaf a'r lefelau isaf o amddifadedd incwm.
Lle mae'r adeiladau lleiaf effeithlon a pha fesurau gwella sydd eu hangen i ddod â nhw hyd at safon gymharol o ran effeithlonrwydd ynni.
Asesiad anghenion strategol o ran mewnlenwi nwy i adnabod cyfleoedd ar gyfer prosiectau mewnlenwi nwy.

Pam mae defnydd trydan aelwydydd Powys ar gyfartaledd yn uwch na chyfartaledd Cymru neu'r DU.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae'r mapiau'n dangos bod y canrannau uchaf o adeiladau ynni-effeithlon a'r ganran isaf o adeiladau aneffeithlon wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol. Bydd gan ardaloedd lle cafwyd cynlluniau adfywio mawr a chanrannau uchel o adeiladau newydd ganran uwch o adeiladau ynni-effeithlon.

Yng ngwledydd Prydain, nid yw 10% o adeiladau wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy. Yng Nghymru, nid yw 15% o adeiladau wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy. Ym Mhowys, nid yw 53% o adeiladau wedi'u cysylltu i'r rhwydwaith nwy.

Y defnydd nwy domestig ar gyfartaledd i bob mesurydd ym Mhowys yw 11,995 cilowat awr y flwyddyn sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (12,264 cilowat awr y flwyddyn) a'r cyfartaledd yn y DU (13,202 cilowat awr y flwyddyn). Gostyngodd cymedr defnydd nwy domestig i bob mesurydd yng ngwledydd Prydain 30.6% rhwng 2005 a 2015. Ceir nifer o ffactorau a all fod wedi cyfrannu i'r gostyngiadau hyn yn y defnydd, gan gynnwys amodau'r tywydd, gwelliannau effeithlonrwydd ynni, fel lefelau inswleiddio uwch, boeleri newydd ac offer sy'n fwy ynni-effeithlon; prisiau uwch a'r dirwasgiad a newidiadau yn y stoc adeiladau a chyfansoddiad aelwydydd. Mae Rheoliadau Adeiladu wedi gofyn gwelliannau sylweddol i effeithlonrwydd ynni adeiladau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau cydymffurfiaeth.

Y defnydd o drydan domestig ar gyfartaledd yw 4564 cilowat awr y flwyddyn ym Mhowys, sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (3930 cilowat awr y flwyddyn) ac yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU (4092 cilowat awr y flwyddyn). Mae cymedr defnydd trydan domestig i bob mesurydd yng ngwledydd Prydain wedi gostwng 15.4% rhwng 2005 a 2015. Ceir nifer o ffactorau a all fod wedi cyfrannu i'r gostyngiadau hyn yn y defnydd, gan gynnwys amodau'r tywydd, gwelliannau effeithlonrwydd ynni, fel lefelau inswleiddio uwch, boeleri newydd ac offer sy'n fwy ynni-effeithlon, prisiau uwch, y dirwasgiad, newidiadau yn y stoc adeiladau a chyfansoddiad aelwydydd.

## Senario

**Y Tymor Byr**
Bydd deiliaid tai ar yr incwm isaf yn cael trafferth talu eu biliau ynni. Bydd pobl yn dibynnu ar ffurfiau mwy carbon-ddwys o wresogi i gynhesu eu cartrefi a bydd rhai'n methu â fforddio eu cynhesu. Bydd rhai o breswylwyr Powys yn ei chael yn anodd talu eu biliau trydan, gan arwain at ddyled ynni a mwy o fesuryddion talu ymlaen llaw.

**Y Tymor Canolig**
Gall prisiau ynni barhau i godi; mae ansicrwydd ynglŷn â phrisiau olew mewn ardaloedd nad ydynt ar y grid nwy. Os bydd lefelau buddsoddi'n uwch mewn ardaloedd trefol nag mewn ardaloedd gwledig, bydd y bwlch o ran allyriadau carbon a biliau tanwydd yn cynyddu.

**Y Tymor Hir**
Mae Powys yn parhau i fod â rhai o'r canrannau uchaf o adeiladau ynni-aneffeithlon yn y DU. Wrth i brisiau ynni barhau i godi, bydd mwy o bobl yn cael trafferth gwresogi eu cartrefi hyd at safon ddigonol.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae gwaith i wella adeiladau o eiddo'r Cyngor yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru sy'n cynnwys gwaith i wella gwresogi, gwydro ac inswleiddio. Cafwyd cryn dipyn o fuddsoddiad yn stoc dai'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gyflawni hyn ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

Rydym yn cydweithio â'n rheolwr ar gyfer Datblygu Partneriaeth Nyth Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o gynllun Nyth sy'n targedu unigolion mewn tlodi tanwydd ac wedi cynyddu nifer yr atgyfeiriadau o 347 yn 2014/15 i 913 yn 2015/2016 y flwyddyn i Bowys. Rydym yn gweithio ar geisiadau am gyllid gan ARBED Cartrefi Cynnes Llywodraeth Cymru ac yn ddiweddar rydym wedi cwblhau gwaith gwella inswleiddio mewn 250 o adeiladau yn y Drenewydd.

Rydym yn rhoi benthyciadau gwella cartrefi llog isel/dim llog i wneud gwelliannau i adeiladau ynghyd â chyflwyno mesurau effeithlonrwydd ynni.

Rydym yn cydweithio â phartneriaid megis Cynghorwyr Ynni Cyngor ar Bopeth, Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni a chydweithwyr yn adrannau Incwm a Dyfarniadau a Thai i geisio sicrhau bod gweithwyr rheng flaen yn ymwybodol o ba gynlluniau a chymorth sydd ar gael.

## A yw anghenion yn cael eu diwallu'n ddigonol?

Nac ydyn. Er ein bod yn symud yn ein blaenau, mae cyfleoedd i wneud rhagor. Wrth ymdrin ag ardal ddaearyddol eang, tipyn o her yw gwneud preswylwyr yn ymwybodol o ba gynlluniau a chymorth sydd ar gael. Hefyd, ychydig ardaloedd yn unig sydd gan Bowys sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau tlodi tanwydd seiliedig ar ardaloedd oherwydd nid yw lefelau amddifadedd incwm yn ddigon isel. Er bod cynlluniau yn eu lle i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc tai cymdeithasol, gan y sector tai preifat ar rent y mae'r lefelau tlodi tanwydd uchaf, ond mae nifer y cynlluniau i'r sector hwn i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau'n gyfyngedig. Ceir oddeutu 58,000 o aelwydydd ym Mhowys, felly mae'r her o ran gwella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai'n anferth ac yn amlweddog iawn.

# Eich Amgylchedd Lleol

| Powys Lew-yrchus | Powys Gyd-nerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae maint yr ailgylchu ym Mhowys yn cynyddu er 2010 gyda'r deunydd sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ar ei lefel isaf erioed (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae hyn oherwydd gwelliannau yn y cyfleustodau ailgylchu a chyfraniad y gymuned ac aelwydydd i raglenni ailgylchu. Er gwaethaf cynnydd bach mewn achosion o dipio anghyfreithlon er 2012, mae'r lefel yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2016).

O ran rhai agweddau ar yr olwg sydd ar y strydoedd, megis glendid y priffyrdd, cŵn yn baeddu a graffiti, mae Powys yn gweld sgôr sy'n lleihau'n gyson o'r naill flwyddyn i'r llall ac mae'n dechrau llithro islaw'r cyfartaledd yng Nghymru, er y ceir arwyddion bod y tueddiadau hyn efallai'n mynd yn ôl (CSP, 2015). Bydd y problemau hyn yn dod yn fwy heriol yn y dyfodol gyda chyni pellach a llai o gyllid yn cyfuno â thargedau ailgylchu uwch. Fodd bynnag, wrth i boblogaeth hŷn Powys gynyddu a chyda llai a llai o deuluoedd yn aros yn y sir, mae'r pwysau'n debygol o lacio wrth i lai o wastraff gael ei gynhyrchu'n gyffredinol.


## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ym Mhowys, mae maint y gwastraff nad yw'n cael ei ailddefnyddio na'i ailgylchu'n syrthio er 2010. Mae'r gyfradd ailgylchu hefyd wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn, er gwaethaf dowcio ychydig yn 2013 a 2014 a achoswyd gan newidiadau yn y rheoliadau am ailgylchu dail sy'n syrthio yn y gwynt (Llywodraeth Cymru, 2015). Ta waeth, mae'r cynnydd yng nghyfradd ailgylchu Powys dros y pum mlynedd diwethaf wedi goddiweddyd Cymru a'r DU 200%. Ar hyn o bryd mae Powys yn cynnal 60 o safleoedd dod â gwastraff sy'n ymdrin â 7 llif deunydd yn ogystal â chasglu 4 llif o ymyl y ffordd. Ar ben hynny, mae llai a llai o wastraff pydradwy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, 2016). Yn ogystal â gwella cyfraddau ailgylchu, mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon hefyd wedi lleihau er 2010, er bod tystiolaeth o duedd fach ar i fyny er 2012, er bod y nifer yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2015). Er 2012, mae sgôr Powys ar gyfer glendid y strydoedd yn parhau i ostwng yn gyson ac erbyn hyn wedi gostwng yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 68.4%. Mae hyn wedi'i briodoli i broblemau fel cŵn yn baeddu a graffiti (CSP, 2015)




Powys Recycling Rates (%) Compared with Wales and UK Averages.
% of Waste Recycled
70%
60%
50%
40%
30%
20%
10%
0%
2010/11
2011/12
2012/13
2013/14
2014/15
2015/16
Powys
Wales
UK


PRODUCT (NON-WASTE)
PREVENTION
WASTE
PREPARING FOR RE-USE
RECYCLING
RECOVERY
DISPOSAL


Recorded Fly Tipping Incidents
5000
4500
4000
3500
3000
2500
2000
1500
1000
500
0
2010-11
2011-12
2012-13
2013-14
2014-15
Powys
Wales Average
Cornwall
Cumbria
Devon

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Yn bendant, mae preswylwyr yn poeni am amlder casglu sbwriel ar fin y ffordd; fodd bynnag, mae'r prosiect wedi rhedeg yn llwyddiannus ac wedi parhau i sicrhau gostyngiadau o ran tirlenwi a chyfraddau ailgylchu uwch.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Holiadur Asesu'r Boblogaeth i staff: Gwastraff: 'A oes unrhyw anghenion heb eu diwallu yn eich ardal? Os oes, beth yw'r anghenion hyn sydd heb eu diwallu neu'r bylchau yn y ddarpariaeth?' Atebion: 'Adeiladau ynysig neu breswylwyr hŷn sydd â chyfleusterau trafnidiaeth a gallu corfforol cyfyngedig ac nad ydynt yn cael eu gwasanaethu oherwydd gwahanol agweddau ar bolisi hanfodol. Preswylwyr sydd â gofalwyr nad ydynt yn fodlon delio â gwastraff. Gorfodi cosbau am gael gwared â gwastraff mewn ffordd anghywir." Adeiladau ynysig a Phreswylwyr Hŷn/Anabl

Rydym eisoes yn darparu casgliadau â chymorth i'r rheini sy'n cyrraedd y meini prawf. Fodd bynnag, rydym yn deall mai dim ond y rheini sy'n byw'n agos i briffordd y mae hyn yn eu helpu. Yn anffodus, ni allwn anfon criwiau ailgylchu neu sbwriel i fyny lonydd preifat at adeiladau ynysig. Byddai hyn yn ei gwneud yn amhosibl gwasanaethu pob aelwyd ym Mhowys o fewn yr amserlen bresennol, o gofio ein hadnoddau. Hefyd, mae'r broblem sy'n ymwneud â chynhenna posibl yn sgil difrod i gerbydau oherwydd lonydd sydd wedi'u cynnal yn wael, neu fel arall, ddifrod i eiddo preifat gan ein cerbydau. Er efallai nad yw'r Adran Wastraff yn darparu gwasanaeth perffaith ym mhob achos, rydym o hyd a byddwn yn parhau i gasglu gwastraff/ailgylchu o holl aelwydydd Powys, o fannau casglu penodedig. Hwyrach y gallai partneriaeth weithio ffurfiol â thimau gofal cymdeithasol bontio'r bwlch rhwng y preswylwyr a'r mannau casglu yn yr achosion hyn.

Gorfodi

Rydym yn ymwybodol bod ein camau gorfodi yn y gorffennol wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, roedd hyn oherwydd diffyg adnoddau i fynd ar drywydd achosion. Yn sgil ailstrwythuro'r Tîm Ymwybyddiaeth o Wastraff a Gorfodi dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym yn cywiro hyn ac ers mis Ebrill yn mynd ati'n frwd i weithredu camau gorfodi ar draws Powys.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Cysylltiadau ag adrannau/materion eraill fel a drafodwyd gynt: newid yn yr hinsawdd, economi gylchol, amddiffyn y gallu i fwynhau tirweddau (tipio anghyfreithlon, llai o safleoedd tirlenwi).

## Beth na wyddon ni eto??

- Bwlch data: ni allwn ddadansoddi cyfraddau ailgylchu'n gywir yn ôl ardal ar hyn o bryd. Yn edrych i wella hyn.
- Mae achosion o dipio anghyfreithlon bellach yn cael eu cofnodi yn ôl rhanbarth (y Gogledd, Canolbarth a'r De), ond ni fydd blwyddyn gyflawn o ddata gennym tan ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae cyfraddau ailgylchu ym Mhowys wedi cynyddu'n gynt na'r cyfartaleddau yng Nghymru a'r DU. Ar hyn o bryd, mae'r cyfraddau ailgylchu cyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd yn y DU ond yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon i bob 1000 o bobl ym

Mhowys yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru, yn ogystal â mewn llawer o awdurdodau gwledig eraill sydd â dwysedd poblogaeth isel. Mae maint y gwastraff pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi ym Mhowys 40% yn is na therfyn Cynllun Lwfansau Tirlenwi Llywodraeth Cymru, yn debyg i Gymru gyfan.

## Senario

**Y Tymor Byr**

Bydd cyfyngiadau'r gyllideb yn ei gwneud yn anoddach cynnal cyfraddau ailgylchu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn arbennig gyda'r adolygiad parhaus o Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae'r cyfleusterau hyn yn darparu ffordd effeithiol o reoli didoli gwastraff heb fuddsoddiad drud mewn cyfleusterau adfer deunyddiau.

Dylai mwy o weithgarwch gorfodi helpu i leihau effaith tipio anghyfreithlon ym Mhowys dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad parhaus (yn y gyllideb a staffio) i gynnal hyn.

**Y Tymor Canolig**

Gyda chyni i fod i barhau, mae cyfyngiadau yn y gyllideb hefyd yn debygol o barhau. Bydd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfraddau ailgylchu wedi cynyddu eto a bydd culhad yn y gyllideb yn gwneud y rhain yn fwy heriol i'w cyflawni.

**Y Tymor Hir**

Awgryma'r amcanestyniadau poblogaeth y bydd ein poblogaeth hŷn yn cynyddu yn ystod y cyfnod hwn ac eto mae ein poblogaeth gyffredinol yn debygol o grebachu ychydig. O ran gwastraff, mae hyn yn cynnig y posibilrwydd o leihau maint y gwastraff a gynhyrchir yn y sir, gan fod parau hŷn yn cynhyrchu llai na theuluoedd ifainc â phlant. Gallai hyn leihau'r pwysau ar dargedau o ran cyfraddau ailgylchu. Fodd bynnag, mae'r diwydiant ailgylchu'n esblygu'n gyflym, yn yr un modd â'r technolegau i ddelio â gwastraff. Dros y cyfnod yma, gallai hyn ddarparu dulliau mwy effeithlon o ailgylchu gwastraff yn ogystal â lleihau pwysau.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Drwy lwyddo i gyflawni'r cyfraddau ailgylchu a nodwyd ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, mae'r Adran Wastraff ac Ailgylchu wedi atal  yr Awdurdod rhag cael ei ddirwyo gan Lywodraeth Cymru. Drwy ddod 40% ar gyfartaledd o dan Derfyn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi o ran gwastraff pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi, mae Powys wedi lleihau ei chyfraniad i allyriadau nwy tŷ gwydr yn uniongyrchol a'r effeithiau ar newid yn yr hinsawdd a ddaw yn ei sgil. Drwy gynyddu maint y deunydd a ailddefnyddir neu a ailgylchir ym Mhowys yn sylweddol ac oherwydd bod y rhan fwyaf o'i hailbrosesu cynradd yn digwydd yn y sir neu yng Nghymru, mae Powys yn adeiladu economi gylchol gryfach i'r sir a Chymru gyfan. Mae'r cynnydd mewn ailgylchu deunyddiau hefyd yn lleihau'r effeithiau ar newid yn yr hinsawdd yn sgil y gofynion ynni is a'r ôl troed carbon llai mewn cysylltiad â deunyddiau neu brosesu eilaidd, o'u cymharu ag echdynnu/prosesu adnoddau cynradd.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

# Newid yn yr Hinsawdd

| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ★ | | | | | ★ |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae'r hinsawdd fyd-eang yn newid ac allyriadau nwy tŷ gwydr sy'n deillio o weithgarwch dynol yw'r prif achos. Mae'r cynnydd byd-eang yn y tymheredd o 0.85°C er 1880 yn cael ei adlewyrchu yn hinsawdd y DU, gyda thymereddau uwch ar gyfartaledd a rhywfaint o dystiolaeth o ddigwyddiadau tywydd mwy eithafol (Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, 2016). Gyda'r polisïau byd-eang presennol gallwn ddisgwyl gweld tymereddau byd-eang blynyddol yn codi 3-4°C y ganrif hon. Bydd y newidiadau a ddaw yn sgil hyn yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau pob dydd a'r amgylchedd naturiol.


## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?


Mae tymereddau blynyddol y DU wedi cynyddu, gan arwain at aeafau mwynach a hafau poethach yn ystod y degawdau diwethaf. Er 1900, mae lefelau'r môr wedi codi rhwng 15 ac 20 centimetr (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016). O'r 22 o awdurdodau lleol Cymru, lleihaodd 17 eu hallyriadau carbon deuocsid rhwng 2005 a 2010 (SYG, 2014). Yn gyffredinol, lleihaodd Powys ei hallyriadau CO2 o 1,093.1kt i 868.7kt sydd yn unol â'r cyfartaledd yng Nghymru (DEFRA, 2016). Mae lefelau NO2 (nitrogen deuocsid) hefyd wedi syrthio rhwng 2007 a 2014, o 8µg/m3 i 5µg/m3, gostyngiad o 38% (DEFRA, 2016). Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn islaw cyfartaledd Cymru.

D.S Mae'r sector LULUCF yn cynnwys allyriadau a gwaredu nwyon tŷ gwydr sydd o ganlyniad uniongyrchol i ddefnydd tir, newid yn y defnydd tir a gweithgareddau coedwigaeth lle mai pobl sy'n gyfrifol.




Average NO2 concentration at residential dwelling locations
µg/m3
16
14
12
10
8
6
4
2
0
2007
2008
2009
2010
2011
2012
2013
2014
Wales
Powys


Flooding and coastal change risks to communities, businesses and infrastructure (Ch3, Ch4 Ch5, Ch6)
Risks to health, well-being and productivity from high temperatures (Ch5, Ch6)
Risk of shortages in the public water supply, and for agriculture, energy generation and industry (Ch3, Ch4, Ch5, Ch6)
Risks to natural capital, including terrestrial, coastal, marine and freshwater ecosystems, soils and biodiversity (Ch3)
Risks to domestic and international food production and trade (Ch3, Ch6, Ch7)
MORE ACTION NEEDED
New and emerging pests and diseases, and invasive non-native species, affecting people, plants and anmals (Ch3, Ch5, Ch7)
RESEARCH PRIORITY
NOW -----> RISK MAGNITUDE -----> FUTURE
LOW
MEDIUM
HIGH
Note: Future magnitude is based on a combination of climate change and other drivers of risk (e.g. demographic change), taking account of how current adaptation policies and plans across the UK are likely to reduce risks. The urgency categories are defined as follows:
• More action needed: New, stronger or different government policies or implementation activities – over and above those already planned – are needed to reduce long-term vulnerability to climate change.
• Research priority: Research is needed to fill significant evidence gaps or reduce the uncertainty in the current level of understanding in order to assess the need for additional action.
• Sustain current action: Current or planned levels of activity are appropriate, but continued implementation of these policies or plans is needed to ensure that the risk continues to be managed in the future. This includes any existing plans to increase or change the current level of activity.
• Watching brief: The evidence in these areas should be kept under review, with long-term monitoring of risk levels and adaptation activity so that further action can be taken if necessary.




## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem fyd-eang ac mae'r effaith yn cael ei mesur ar lefel Cymru gyfan yn hytrach nag ar lefel awdurdodau lleol.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Yn ystod ymgynghori â rhanddeiliaid fel rhan o dreial Rheoli Adnoddau Naturiol Dyfi dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2016 – roedd aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol o newid yn yr hinsawdd ac yn poeni amdano gan deimlo bod yn rhaid i ni wneud mwy i ymaddasu.

• Materion a godwyd yng nghyfarfodydd rhwydweithiau Stand-up for Mental Health. "Pobl heb glem sut orau i addasu i effeithiau cynyddol newid yn yr hinsawdd (llawer)"

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Staff y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyflwyno 'Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd' Llywodraeth Cymru a'r cynllun cyflenwi cysylltiedig. Gosododd y cynllun hwn dargedau i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr yng Nghymru 3% bob blwyddyn a sicrhau gostyngiad o 40 % fan leiaf erbyn 2020 o'u cymharu â ffigyrau o 1990. Mae staff yn gefnogol o fesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd megis effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, ynni adnewyddadwy ac adfer cynefinoedd.Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

## Beth mae'r trydydd sector/sector preifat yn ei ddweud?

TMae sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig sefydliadau amgylcheddol megis y RSPB, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Choed Cadw yn gefnogol o fesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd fel effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, ynni adnewyddadwy ac adfer cynefinoedd ac yn aml byddant yn lobïo'r llywodraeth ynglŷn â'r materion hyn. Er enghraifft, yn ôl yr RSPB, "Mae effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y bywyd gwyllt a'r lleoedd gwyllt rydym yn eu nabod a'u caru eisoes i'w gweld."

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

- Fe'i derbynnir yn gyffredinol, fel cymdeithas, fod yn rhaid i ni leihau ein hallyriadau carbon. Mae angen i ni, er enghraifft, wneud ein swyddfeydd yn fwy ynni-effeithlon, lleihau'r angen i deithio a theithio mewn cerbydau sy'n defnyddio tanwydd yn fwy effeithlon (boed yn drenau, bysiau neu geir bach).
- Mae angen i ni baratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd sydd eisoes yn digwydd drwy, er enghraifft, sicrhau y gall datblygiadau newydd ddelio â llifogydd dŵr wyneb.
- Mae angen i ni barhau i fuddsoddi mewn cartrefi ynni-effeithlon ac ynni adnewyddadwy.
- O ran addasu i newid yn yr hinsawdd, y cam cyntaf yw gwella ein gallu i wrthsefyll eithafion presennol y tywydd (fel llifogydd dŵr wyneb). Bydd 'cydweithio â natur' i feithrin cydnerthedd drwy'r cyfnod hwn o drawsnewid cyflym yn flaenoriaeth allweddol

## Beth na wyddon ni eto??

Er bod gennym ryw amcan o'r broblem, mae llifogydd dŵr wyneb wedi'u nodi gan y grŵp fel bwlch data. Rydym yn aros am fewnbwn gan yr Uwch Asiant Tir.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae amcanestyniadau UKCP09 yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa o ran newid i'r hinsawdd yn y DU. Yng Nghymru, gallwn ddisgwyl gweld glawiad trymach, mwy o lifogydd mewn ardaloedd isel ar yr arfordir yn ogystal â hafau poethach a sychach. Mae'r amcanestyniadau hefyd yn rhagweld mwy o ddiwrnodau eithriadol gynnes, gaeafau mwynach a gwlypach, llai o eira a barrug yn ogystal â gostyngiad yn lefelau dŵr daear.

## Senario

**Y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir**

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r senarios tymor byr, canolig a hir a'u difrifoldeb.

**Figure 1:** Top six areas of inter-related climate change risks for the United Kingdom




**Note:** Future magnitude is based on a combination of climate change and other drivers of risk (e.g. demographic change), taking account of how current adaptation policies and plans across the UK are likely to reduce risks. The urgency categories are defined as follows:

- ***More action needed:*** New, stronger or different government policies or implementation activities – over and above those already planned – are needed to reduce long-term vulnerability to climate change.
- ***Research priority:*** Research is needed to fill significant evidence gaps or reduce the uncertainty in the current level of understanding in order to assess the need for additional action.
- ***Sustain current action:*** Current or planned levels of activity are appropriate, but continued implementation of these policies or plans is needed to ensure that the risk continues to be managed in the future. This includes any existing plans to increase or change the current level of activity.
- ***Watching brief:*** The evidence in these areas should be kept under review, with long-term monitoring of risk levels and adaptation activity so that further action can be taken if necessary.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae gwahanol asiantaethau a'r llywodraeth yn hybu cynhyrchu ynni domestig a masnachol carbon isel drwy gynlluniau grantiau a thariffau. Mae cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn parhau i gefnogi dal a storio carbon drwy grantiau ar gyfer gweithgareddau fel adfer mawnogydd, plannu coed ac yn y blaen.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Nac ydyn. Bydd yn rhaid i allyriadau byd-eang gyrraedd eu hanterth yn fuan ac yna gostwng yn gyflym er mwyn i nodau Cytundeb Paris fod yn ddichonadwy. Hyd yn oed yn y senario yma, mae sensitifrwydd ansicr yr hinsawdd i nwyon tŷ gwydr yn golygu y byddai o hyd gyfle bach o leiaf y gwelir cynhesu 4°C neu ragor erbyn 2100. Felly, mae'n ddoeth paratoi ar gyfer cynhesu pellach wrth fynd ar drywydd gostyngiadau llymach mewn allyriadau fel rhan o'r ymdrech fyd-eang.

# Yr Amgylchedd Cydnerth


| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ★ | | | | | ★ |


## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?


Mae amgylchedd ac adnoddau naturiol Powys yn diwallu ein hanghenion sylfaenol. Maent yn darparu awyr a dŵr glân; yn helpu i'n diogelu rhag llifogydd ac yn darparu bwyd, coed a mwynau i ni a thirwedd y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn gallu ei mwynhau. Mae amgylchedd iach a chydnerth yn creu'r amodau ar gyfer cymdeithas ffyniannus a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos bod ein hamgylchedd naturiol yn parhau i gael ei roi o dan bwysau o amrywiaeth o ffynonellau megis newid yn yr hinsawdd, plâu a chlefydau newydd, llygredd a phwysau yn sgil gorddefnydd a datblygu. Ar hyn o bryd, mae sawl ffynhonnell ddŵr ym Mhowys wedi'i halogi â llygryddion (CNC, 2016). Hefyd, mae hen fwyngloddiau ym Mhowys yn effeithio ar ansawdd y dŵr gan halogi, mewn rhai achosion, lifau dŵr tanddaearol â dŵr ffo sy'n cynnwys metelau (CNC, 2016). Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar ansawdd y dŵr, bywyd gwyllt ac iechyd anifeiliaid am filltiroedd lawer i lawr yr afon. Mae ardaloedd anghysbell helaeth o Bowys hefyd yn agored iawn i lifogydd, yn enwedig ardaloedd amaethyddol (Llywodraeth Cymru, 2008). Mae maint holl goetiroedd Powys ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru gan gyfrannu i ddiwydiant coed Cymru. Fodd bynnag, a hithau'n sir wledig yn bennaf, mae hyd a lled y coetiroedd yn gymharol isel (o dan 15%) o'u cymharu â'r cyfartaledd yn Ewrop o 37% (CNC, 2016). Mae Powys yn gartref i nifer helaeth o safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA) yn ogystal â gwarchodfeydd natur, er bod y safleoedd hyn at ei gilydd yn fach ac ar wasgar. Mae rhai o'r safleoedd hyn hefyd mewn cyflwr gwael. Mae gan Bowys sawl mawnog hefyd er, ar hyn o bryd, fod llawer ohonynt mewn cyflwr gwael ac nid ydynt yn gwireddu eu potensial o ran cael eu defnyddio at storio carbon (mae hyn yn adlewyrchu adnoddau annigonol). Mae bioamrywiaeth ar draws yr ardal yn dirywio'n gyson yn unol â gweddill Cymru a naill ai nid yw ymyriadau'n digwydd neu maent yn annigonol. Mae cyfleoedd go iawn i feithrin cydnerthedd adnoddau naturiol i gynnal llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol pobl Cymru. Rhaid i ni fynd ati o ddifrif i osod Cymru fel economi flaenllaw, gan feithrin cydnerthedd ac iechyd ein hadnoddau naturiol a'n pobl (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, 2016).


## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Ar hyn o bryd ym Mhowys, ystyrir bod cyfanswm o 6,650 o gartrefi mewn perygl o lifogydd (Llywodraeth Cymru, 2008). Oherwydd nifer y ffyrdd sydd ar dir isel, gall llifogydd cymharol leol effeithio ar ardaloedd eang a seilwaith pwysig. Mae coetiroedd yn ymestyn dros 14.9% o'r sir, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru o 14% (CNC, 2016). Mae'r coedwigoedd hyn yn cynhyrchu dros 200,000 tunnell o goed bob blwyddyn (CNC, 2016). Ar ben hynny, mae coedwigoedd yn helpu i ddarparu awyr lân, storio carbon a lleihau'r perygl o lifogydd. Mae rhai ardaloedd o goetir hynafol lled-naturiol dan fygythiad ar hyn o bryd oherwydd gorbori. Gallai'r cynnydd cyflym yn nifer y ffermydd ieir ym Mhowys (789 o safleoedd cofrestredig erbyn hyn (CSP, 2016)) effeithio ar ansawdd y dŵr a bydd angen iddynt gael eu rheoli'n ofalus er mwyn osgoi'r problemau hyn yn y dyfodol.


Legend
Powys - Powys
Flood Zone 3
Flood Zone 2
Communities at risk from fluvial flooding
MAX_SCORE
0
1 - 10
11 - 100
101 - 1000
1001 - 10000
0
12.5
25
50 Kilometers
N
© Crown Copyright and database right 2016. Ordnance Survey licence number 100019741.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741.


0
25
50
100 Kilometers
Legend
PPC Air Emissions Points
Class
1
2
3
4
5
Combined Pollution - NO2, PM2.5 and PM10 (2011)
Combined NO2, PM2.5 and PM10 Pollution Scores
0
12.5
25
50 Kilometers
N


Legend
Powys - Powys
WFD cycle 2 (2015) Rivers and canals
Bad
Poor
Moderate
Good
High
WFD cycle 2 (2015) Transitional, coastal and lake
Bad
Poor
Moderate
Good
High
0
12.5
25
50 Kilometers
N


Legend
Powys - Powys
Total Peatland
SOIL_TYPE
Deep peaty soil
Modified deep peaty soil
Shallow peaty soil
Soil with peaty pockets
Agricultural Land Classification
CLASS
Grade 1
Grade 2
Grade 3
Grade 4
Grade 5
0
12.5
25
50 Kilometers
N

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Ceir mawnogydd helaeth yng ngorgorsydd ucheldiroedd y Berwyn, Carnedd Wen, Mynyddoedd Cambria, llwyfandiroedd Carno a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, tra ym Mynyddoedd Cambria'n bennaf y mae glaswellt y gweunydd (Molina) yn broblem. Problem leol ond difrifol ar gyfer mawn y gorgorsydd yw erydu, yn enwedig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae cynefinoedd lled-naturiol eraill megis glaswelltir wedi'i led-wella a choetir llydanddail at ei gilydd yn fach ac yn wasgarog o fewn y dirwedd amaethyddol. Mae mesurau gwarchod diweddar ar gyfer afonydd Gwy ac Wysg yn amddiffyn llifau dŵr er mwyn sicrhau nad oes gormod o ddŵr yn cael ei dynnu. Mae hyn hefyd yn cynnal rhywogaethau a chynefinoedd dynodedig.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

Er nad oes ffigyrau ar gael i Bowys yn unig, mae un ym mhob 10 o oedolion yn y DU yn aelod o grwpiau tirwedd/cadwraeth ac mae'r cyhoedd at ei gilydd yn gefnogol o fesurau cadwraeth ac amgylcheddol.

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae staff y sector cyhoeddus ym Mhowys yn gefnogol o bolisïau i gyfoethogi a gwella'r amgylchedd.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Mae sefydliadau amgylcheddol/tirwedd mawr ac amlwg yn y trydydd sector fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, Coed Cadw ac eraill yn eiriolwyr cryf dros amgylchedd cydnerth.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Ceir tri phrif gam sy'n gallu meithrin amgylchedd cydnerth:

- Lleihau/ newid arferion drwg – fel llygru'r amgylchedd a chael gwared â chynefinoedd.
- Gwella cyflwr a helaethu cynefinoedd naturiol fel y gallant helpu i storio carbon; cyfrannu i leihau'r perygl o lifogydd; diogelu priddoedd; gwella ansawdd yr aer; lleihau sŵn; a rheoleiddio plâu a chlefydau.
- Addysgu a hysbysu'r cyhoedd, fel y byddant yn gofalu am yr amgylchedd ac yn ei reoli'n ofalus.

## Beth na wyddon ni eto??

Nid ydym yn gwybod am gyflwr rhai cynefinoedd ym Mhowys ac a oes modd eu hadfer yn llwyddiannus.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae nifer y tai yng Nghymru sydd mewn perygl mawr neu gymedrol o lifogydd wedi syrthio cryn dipyn rhwng 2010 a 2012. Mae gan Bowys ychydig yn fwy na'r cyfartaledd o dir a ddefnyddir ar gyfer coedwigaeth o'i chymharu â chyfartaledd Cymru.

## Senario

**Y Tymor Byr a'r Tymor Canolig**

Ar y lefelau ymyrraeth cyfredol, mae bioamrywiaeth yn debygol o barhau i ddirywio gyda'r cynefinoedd presennol yn dod yn llai cydnerth yn wyneb newid yn yr hinsawdd.

**Y Tymor Hir**

Mae rheoleiddio (megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) a chynlluniau cymhelliadau (megis cynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir a chynlluniau grant eraill) i gyd yn cyfrannu i amgylchedd sy'n fwy cydnerth.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Mae rheoleiddio (megis y  Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) a chynlluniau cymhelliadau (megis cynlluniau amaeth-amgylcheddol Glastir a chynlluniau grant eraill) i gyd yn cyfrannu i amgylchedd sy'n fwy cydnerth.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Nac ydyn. Mae angen i ni wneud mwy o lawer i leihau llygredd gwasgaredig gwledig yn arbennig, helpu i leihau llifogydd ac adfer cynefinoedd bywyd gwyllt – yn enwedig mawnogydd – ac ystyried plannu mwy o goed.

# Mwynhau'r Amgylchedd


| Powys Lewyrchus | Powys Gydnerth | Powys Iachach | Powys Gyfartal | Powys Gydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Mae adnoddau naturiol Powys – ein mynyddoedd, afonydd, llynnoedd a thirweddau lawr gwlad – yn darparu amgylchedd gwych i ni fyw, gweithio a hamddena ynddo. Maent yn darparu cefnlen i'r diwydiant twristiaeth ac yn ein helpu i fyw bywydau iachach a gwell. Mae amgylchedd cydnerth iach yn creu'r amodau ar gyfer cymdeithas ffyniannus a chynaliadwy. Fodd bynnag, nid ydym yn sicrhau'r manteision gorau o'n hamgylchedd naturiol a allai helpu preswylwyr i fyw bywydau iachach, hybu gweithgareddau awyr agored a ffurfiau eraill ar dwristiaeth a chefnogi ffyniant y sir. Mae pobl sy'n egniol ac sy'n mwynhau'r awyr agored yn fwy tebygol o fyw bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae hefyd tystiolaeth gref sy'n cysylltu ansawdd amgylcheddol gwael (ansawdd aer, ansawdd dŵr ac yn y blaen) ag iechyd gwael ymysg y cyhoedd.

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Mae gan Bowys rwydwaith helaeth o hawliau tramwy a llwybrau beicio, gan gynnwys llwybrau troed a llwybrau ceffylau. Ymhlith materion sy'n ymwneud â'r rhain mae cynnal a chadw'r llwybrau hyn, diwallu anghenion yr holl wahanol ddefnyddwyr a'r galw cynyddol am fynediad (Llywodraeth Cymru, 2011). Gall hamdden awyr agored gyfrannu'n sylweddol i iechyd corfforol a llesiant meddwl y boblogaeth, tra gall defnyddio'r llwybrau hyn ar gyfer teithio rheolaidd gwtogi ar allyriadau carbon. Mae afonydd, fel afon Gwy, hefyd yn medru chwarae rhan allweddol mewn hamdden, ond hefyd yn gofyn cryn dipyn o waith cynnal a chadw o ganlyniad (CNC, 2014). Mae afonydd eraill, fel afon Hafren, yn gorfod delio â materion sy'n codi o hawliau mordwyo cyhoeddus. Er yn






## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?

Yn ôl Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr Powys, mae 60% o breswylwyr yn fodlon ar yr hawliau tramwy yn y sir. Nid yw hyn yn cynnwys mynediad agored sy'n ffurfio oddeutu un rhan o dair o'r holl ddarpariaeth yng Nghymru.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?

O fewn treial Adnoddau Naturiol Dyfi (sy'n cynnwys rhan o Bowys), nododd preswylwyr a rhanddeiliaid 'cysylltu pobl â'r awyr agored' fel un o'u 6 phrif flaenoriaeth. Yn ôl Arolwg Bodlonrwydd Preswylwyr Powys, mae 60% o breswylwyr yn fodlon ar yr hawliau tramwy yn y sir (nid yw hyn yn cynnwys mynediad agored sy'n ffurfio oddeutu un rhan o dair o'r holl ddarpariaeth yng Nghymru).

## Beth y mae staff yn ei ddweud?

Mae'r staff yn gefnogol o ddatblygu seilwaith gwyrdd/ chwarae gwyrdd a phrosiectau teithio llesol ac yn ymwneud â nhw. Mae staff hefyd yn ymwneud â sicrhau bod hawliau tramwy'n aros yn agored. .

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?

Mae sefydliadau anllywodraethol yn cefnogi mwynhau a chael mynediad i gefn gwlad. Er enghraifft, polisi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw sicrhau bod cefn gwlad yn cadw nodweddion sy'n cynnig yr amrywiaeth ehangaf o brofiadau gan alluogi pobl i gael mynediad i'w heiddo.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?

Hyd yn oed yn ein sir 'werdd', nid pawb sydd â mynediad i'r mannau gwyrdd sydd eu hangen i gynnal iechyd corfforol a llesiant meddwl. Gall rhwydweithiau llwybrau, coetiroedd trefol a seilwaith gwyrdd arall sy'n anelu at gyfoethogi ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd lleol i gyd chwarae rhan bwysig wrth wella iechyd a llesiant pobl ym Mhowys. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser wedi'u lleoli'n agos i'r bobl a fyddai'n ymelwa fwyaf arnynt, neu nid ydynt yn cael eu rheoli mewn ffyrdd sy'n eu gwneud yn hygyrch. Mae llawer o gyfleoedd i ddefnyddio ein hadnoddau naturiol yn well i wella adnoddau o ran hamdden, mynediad, tirwedd a threftadaeth i gefnogi ffyrdd iach o fyw, gwella'r sir fel rhywle i fyw a gweithio ynddi a gwella'r cynnig i dwristiaid.

## Beth na wyddon ni eto??

Nid yw asesu gwir fodlonrwydd cwsmeriaid drwy ofyn a yw'r hawliau tramwy cyhoeddus yn diwallu anghenion y defnyddwyr, er yn ddefnyddiol, wir yn darparu ffigur da i fesur perfformiad.

## Tueddiadau Cenedlaethol

Mae gan Gymru ganran uwch o hawliau tramwy cyhoeddus sy'n hygyrch (55%) o'i chymharu â Phowys (50%). Hefyd, mae 60% o oedolion ym Mhowys dros eu pwysau/yn ordew, sy'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (ond sy'n dal i fod yn gymharol uchel).

## Senario

**Y Tymor Byr**

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

**Y Tymor Canolig**

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

**Y Tymor Hir**

Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?

Ar hyn o bryd, mae gan awdurdodau lleol gylch gwaith i wella hawliau tramwy ac mae strategaethau addysg a hamdden gan CNC a Llywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gan y gwasanaeth dros 3000 o adroddiadau yn aros i gael eu penderfynu am y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac mae'r sefyllfa'n dirywio.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?

Mae llawer o botensial heb ei wireddu o ran gwell a mwy o gyfleoedd hamdden awyr agored ym Mhowys a fydd yn helpu i sbarduno twristiaeth a gwella iechyd a llesiant y boblogaeth.

# Teithio o gwmpas Powys

| Powys Lew-yrchus | Powys Gyd-nerth | Powys Iachach | Powys Cyfartal | Powys Cydlynus | Powys Fywiog | Powys sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ★ | ★ | | | |

## Beth yw'r canfyddiadau allweddol?

Dros y degawd diwethaf, ar draws Cymru, cafwyd cynnydd sydyn yn y defnydd o'r rheilffyrdd. Fodd bynnag, o 2014 ymlaen, mae'r duedd hon wedi troi'n ôl ym Mhowys, gyda'r niferoedd sy'n teithio ar y rheilffyrdd yn gostwng yn sylweddol, er bod Cymru yn ei chyfanrwydd yn parhau i weld tuedd gynyddol (ORR, 2013). Mae dwy linell reilffordd ym Mhowys (Lein y Cambrian sy'n rhedeg drwy'r Trallwng a'r Drenewydd tuag Aberystwyth a Rheilffordd Calon Cymru sy'n rhedeg o Craven Arms i Lanelli) sy'n cludo 110,000 o deithwyr y flwyddyn.

Cyfyngedig iawn hefyd yw'r defnydd o fysiau. Er gwaetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r gwasanaethau hyn yn gweithredu drwy gymhorthdal gan y cyngor, gan y byddent fel arall yn rhedeg ar golled,  dim ond 1% o boblogaeth y sir sy'n defnyddio bysiau cyhoeddus i deithio'n rheolaidd (CSP, 2012). Yn lle hynny, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu cerbydau eu hunain neu'n cerdded ac yn sôn eu bod yn anfodlon ar y gwasanaeth. Gan Bowys y mae rhai o'r ffyrdd a gynhelir waethaf yng Nghymru, ac eithrio ffyrdd dosbarth A ac mae hyd yn oed y rhain yn dirywio i gyflwr difrifol wael mewn mannau (Yr Adran Drafnidiaeth, 2015). Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae marwolaethau ac anafiadau ar y ffyrdd wedi lleihau ar draws Powys, gyda gostyngiad o 24% er 2004 (Llywodraeth Cymru, 2015). Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, disgwylir y bydd y ffactorau hyn yn arwain at arwahanrwydd cymdeithasol pellach i'r boblogaeth sy'n heneiddio ym Mhowys, yn ogystal â pheri i bobl adael y sir. Bydd y gostyngiad hwn ym maint y cymunedau yn gwneud datblygiadau newydd yn llai tebygol, yn ogystal â gorfodi busnesau sydd yma ar hyn o bryd i symud i ffwrdd. Ar ben hynny, bydd y rhwydwaith ffyrdd sy'n dirywio'n ei gwneud yn anoddach byth i wasanaethau brys gyrraedd eu targedau ymateb presennol

## Beth y mae'r data'n ei ddweud wrthym?

Beth mae'r data'n ei ddweud wrthym?
Rhwng 2002 a 2012, bu cynnydd mawr yn nefnydd rhwydwaith y rheilffyrdd, gyda niferoedd y teithwyr yn codi o 66,541 i 119,283, yn unol â thueddiadau cenedlaethol (ORR, 2013). Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf, er bod tueddiadau cenedlaethol wedi parhau i gynyddu, mae Powys wedi gweld y gwrthwyneb gyda gostyngiad yn nifer y teithwyr. Mae gan Wasanaeth Bysiau Powys, sy'n contractio 27 o gwmnïau, gan roi cymhorthdal i 25 ohonynt, un o'r lefelau uchaf y pen yng Nghymru o ran cymorthdaliadau i deithwyr. Er gwaethaf hyn, dim ond 1% o boblogaeth Powys sy'n defnyddio'r bws yn rheolaidd i deithio i'r gwaith (CSP, 2012). Roedd y rhan fwyaf o breswylwyr (58%) yn defnyddio eu ceir eu hunain neu'n teithio ar droed (11%) (CSP, 2014). Mae gan Bowys 5,500km o ffyrdd, gydag 1.49 biliwn o gilometrau o draffig ffyrdd yn 2015 a lefel gymharol isel o dagfeydd traffig. Gan Bowys y mae rhai o'r ffyrdd a gynhelir waethaf yng Nghymru, gyda dim ond ffyrdd dosbarth A mewn cyflwr uwchben y cyfartaledd yng Nghymru. Mae gan Bowys nifer uwch na'r cyfartaledd o ffyrdd dosbarth B mewn cyflwr gwael, gyda 67% o ffyrdd dosbarth B ym Mhowys wedi'u hadnabod fel rhai mewn cyflwr gwael, o'u cymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 5%. Powys hefyd yw'r waethaf yng Nghymru o ran cyflwr ffyrdd dosbarth C, gyda 27% mewn cyflwr gwael, o'i chymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru o 17% (Llywodraeth Cymru, 2014). Yn 2014, roedd cyfanswm o 582 o anafiadau a marwolaethau ar ffyrdd Powys, gan ddynodi cyfanswm gostyngiad o 24% o'i chymharu â ffigyrau o 2004 (Llywodraeth Cymru, 2015).

## Unrhyw wahaniaeth penodol rhwng un ardal a'r llall?
Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Beth y mae dinasyddion yn ei ddweud?
Pan ofynnwyd i gyfranogwyr o Arolwg Preswylwyr Powys a oeddent yn fodlon ar drafnidiaeth gyhoeddus, dywedodd bron hanner yr holl ymatebwyr (45%) eu bod yn fodlon ar safon trafnidiaeth gyhoeddus, gyda 37% yn dweud eu bod yn anfodlon.

Mae'r preswylwyr hynny sy'n tueddu i fod yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus (pobl hŷn, aelwydydd incwm isel) ychydig yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar y gwasanaeth, ond at ei gilydd, mae'r ffigurau yn isel drwyddi draw. Mae dim ond un ym mhob tri o breswylwyr sydd wedi symud i'r sir yn ddiweddar yn fodlon ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Y prif resymau am anfodlonrwydd ar drafnidiaeth gyhoeddus oedd nifer y bysiau ac amlder gwasanaethau.

Cwynion wedi'u derbyn oherwydd cyflwr y briffordd. Hawliadau yswiriant yn sgil priffordd sydd heb ei chynnal. Cwynion wedi'u derbyn oherwydd gwaith a gwblhawyd gan drydydd partïon (Dŵr, Nwy a BT).

## Beth y mae staff yn ei ddweud?
Mae pobl yn derbyn eu bod yn teithio ymhellach i ddod i'r gwaith. Efallai y bydd yn anodd recriwtio yn y dyfodol oherwydd y pellteroedd teithio dan sylw. Y cynnydd mewn trefniadau gweithio hyblyg, llai o gyfle i rannu trafnidiaeth. Mae gan dechnoleg rôl i'w chwarae i leihau'r angen i deithio, megis gweithio hyblyg. Cyflwynodd yr Awdurdod Lleol raglen i gyfyngu nifer y milltiroedd busnes sy'n cael eu teithio i leihau'r costau o un flwyddyn i'r llall.

## Beth y mae'r trydydd sector / sector preifat yn ei ddweud?
Mae hyd y briffordd yn peri problemau logistaidd mawr wrth ddarparu gwasanaethau, e.e. mynychu apwyntiadau ysbyty - pellteroedd mawr i'w teithio. Mae gwasanaethau golau glas yn cael anhawster cyrraedd targedau oherwydd lleoliadau gwledig anghysbell (Ambiwlans 8 munud, Tân 20 Munud). Y sector preifat - dan anfantais, diffyg mynediad i rwydweithiau mawr.

## A oes unrhyw fesurau ataliol yn gysylltiedig â'r data hwn?
Nid oedd yr wybodaeth hon ar gael, ond fe'i nodwyd fel bwlch data.

## Beth na wyddon ni eto??
Mynediad i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth. Astudiaethau yn y dyfodol i adnabod cyfleoedd partneriaeth i rannu adnoddau.

## Tueddiadau Cenedlaethol
Teithio ar y trenau – mwy o gysondeb dros y 10 mlynedd diwethaf.
Cyflwr y ffyrdd – mae 11.9% o ffyrdd Cymru mewn cyflwr gwael.
Anafiadau/marwolaethau ar y ffyrdd – 8,208 o bobl wedi'u hanafu neu'u lladd yng Nghymru yn 2014.

## Senario
**Y Tymor Byr**
Arwahanrwydd cymdeithasol, mae teuluoedd yn symud o'r ardal, mae cyflwr y ffordd yn dirywio (wnaiff o ddim gwella). Mwy o hawliadau/taliadau yswiriant.

**Y Tymor Canolig**
Fel uchod, yn llai deniadol ar gyfer datblygu os bydd cymunedau'n lleihau. Mae niferoedd ysgol yn dechrau syrthio a gallai hyn effeithio ar safonau addysg. Mae mwy o fusnesau'n cau ac yn symud i ffwrdd. Mwy o alw ar ofal iechyd, llai o gyfle i ymweld â meddyg teulu, personél mewn argyfwng. Mwy o ymyrraeth gan wasanaethau statudol.

**Y Tymor Hir**
Fel uchod, dim byd yng nghanolbarth Cymru oherwydd llai o fuddsoddiad yn ein seilwaith. Leihad naturiol mewn llesiant cymdeithasol. Mae gweithwyr sgiliedig yn symud i ffwrdd oherwydd cyfleoedd cyfyngedig.

## Sut y mae gwasanaethau'n cyfrannu ar hyn o bryd?
Network Rail - Trenau Arriva Cymru'n gweithredu'r gwasanaeth trenau. Ceir 22 o wasanaethau bysiau lleol sy'n derbyn cymorth, 19 o gynlluniau trafnidiaeth gymunedol, 2 glwb ceir, 260 o fysiau ysgol, 40 o finibysiau, 70 o dacsis yn cludo 7500 o ddisgyblion i sefydliadau addysg. Cerbydau trafnidiaeth wirfoddol (cludo i ysbytai), tacsis preifat, maes awyr y Trallwng, yr Ambiwlans Awyr, cynnal a chadw'r priffyrdd, timau diogelwch ar y ffyrdd, prosiectau/gwelliannau peirianyddol. Asiantaeth gefnffyrdd Llywodraeth Cymru. Deddf Teithio Llesol – hybu teithio cynaliadwy.

## Ydy'r angen yn cael ei gwrdd yn ddigonol?
Nid yw gwasanaethau o anghenraid yn cael eu darparu yn ôl y galw; mae gwahanol ddefnyddwyr am deithio o gwmpas y sir ar wahanol adegau o'r dydd a'r nos. "Dydy rhai pobl ddim yn teimlo'n ddiogel ar y bws, yn arbennig os mai dim ond nhw a'r gyrrwr sydd yno" (adroddiad adborth terfynol o'r ymarferiad ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus, Mehefin 2015). Felly, bydd y newidiadau i wasanaethau'n cael effaith andwyol ac anghyfartal ar bobl ifainc ym Mhowys. Gellir rhagweld o ganlyniad na fydd pobl ifainc yn:

- Gallu teithio i'r gwaith mor rhwydd â grwpiau oedran eraill;
- Yn gallu achub ar gyfleoedd addysg a hyfforddiant mor rhwydd â grwpiau oedran eraill;
- Yn gallu achub mor rhwydd ar gyfleoedd hamdden e.e. chwaraeon neu weithgareddau celfyddydol, neu ymweld â ffrindiau a pherthnasau.

Derbynnir cwynion ynghyd â hawliadau yswiriant (yn cynyddu).

# Dolenni ac ymatebion posibl








## 1.1. Y cysylltiadau pwysig rhwng ein prif ganfyddiadau

Mae'r darlun isod yn dynodi'r prif gysylltiadau pwysig rhwng y pynciau a godwyd yn ein digwyddiadau rhanddeiliaid, a gwelwyd bod y meysydd canlynol yn cael eu codi'n gyson:






## 2. Ein hymatebion posibl i ganfyddiadau'r asesiad

Mae deall llesiant Powys yn ddefnyddiol ond i gael dealltwriaeth lawn o'r ffordd orau i wella llesiant Powys mae angen i ni ymchwilio ac archwilio'r cyfleoedd gorau ar gyfer ymateb i ganfyddiadau'r dadansoddiad. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys ymchwil cenedlaethol ond hefyd ymchwilio i sut y gallwn weithio gyda'n gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella'r canlyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r lluniau ar y tudalennau canlynol yn dangos yr hyn a gynhyrchwyd o'r gweithdai dadansoddi ymatebion cychwynnol ar gyfer y meysydd canlynol:

- Cludiant
- Cyflogaeth a sgiliau
- Ymyrraeth gynnar ac Atal
- Adeiladu Cymunedau Cydnerth


POWYS - TRANSPORT RESPONSE
ACCESSIBILITY CHALLENGE
Getting people about to do what they need to do!
NOT KNOWING!
SCHOOL TRANSPORT:- CAN WE UTILISE IT BETWEEN 9AM-3PM
LOTS OF TRANSPORT -
SO HOW DO WE USE IT BETTER?
MULTIPLE IMPACT
IS THERE AN IMAGE PROBLEM AROUND PUBLIC TRANSPORT?
WHO ARE THE CUSTOMERS?
WHAT CAN WE DO?
WHAT CAN'T WE DO?
BREAK DOWN INTO SMALLER AREAS
SAMPLE AREAS - AND FIND MEANINGFUL SOLUTIONS
WHERE ARE WE NOW? WHAT WILL WE DRIVE? WHERE CAN WE MAKE A DIFFERENCE?
IMPROVE AWARENESS - USING TECHNOLOGY TO FIND TRAVEL SOLUTIONS - EDUCATE
CHANGE
WHO HAS DONE THIS BEFORE?
THE DATA IS THERE
GETTING THE RIGHT PEOPLE FOR A COORDINATED RESPONSE - NOT THERE YET
QUICK FIX
INVESTMENT TO MAKE POWYS MORE ATTRACTIVE
BOUNDARY AREAS MIGHT CREATE OPPORTUNITIES FOR GROWTH
LINKING WITH THE RIGHT GROUPS/PEOPLE
IMPROVE TOURIST ROUTES
AMBULANCE SERVICE HANDOVER PROCESS IMPROVEMENTS WOULD HELP



POWYS - EMPLOYMENT & SKILLS
WHERE WE ARE NOW....
WE WORKED COLLABORATIVELY WHERE POSSIBLE
WHAT CAN WE DO?
LOOKED AT POWYS PERFORMANCE DATA
WE TESTED THE RESULTS WITH INTERNAL & EXTERNAL STAKEHOLDERS
WE KNOW THAT YOUNGER PEOPLE AREN'T CHOOSING TO LIVE IN POWYS
SPECIALISM INTERVENTION EXPAND & GROW OUT
WORKING WITH COMMUNITIES - POST 16 EDUCATION
PLANNING COLLABORATIVELY
COMING SOON!
DATA AVAILABLE TO EDUCATION & BUSINESSES WITH ONE CALL
JOBS
POTENTIALLY THERE COULD BE A LACK OF EMPLOYEES TO MEET BUSINESS DEMAND IN THE FUTURE
A FUTURE POTENTIAL SKILLS DEFICIT?
RAISE PROFILE ABOUT WHATS GOING ON IN POWYS
BUSINESS START UP - NOT DIRECTED AT YOUNGER GENERATIONS
INFRASTRUCTURE
TARGET OUR AUDIENCE
CONNECTIVITY
PEOPLE WILL BUILD BUSINESS WITHOUT INTERFERENCE






Powys Well-being Assessment 2016 - Framework






7















































Bydd ein dadansoddiad o'r ymatebion yn parhau er mwyn llywio ein Cynllun Llesiant a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2018.

# Llunio ein hasesiad Llesiant





# Cynnwys


1. Pam a sut yr ydym wedi llunio ein hasesiad Llesiant
2. Profi ein hasesiad
3. Beth fyddem ni'n ei wneud yn wahanol

## 1. Pam a sut yr ydym wedi llunio ein hasesiad Llesiant

Ym mis Ebrill 2015, cafodd cyfraith newydd ei phasio i Gymru, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gofyn i gyrff cyhoeddus led led Cymru i roi cynaliadwyedd tymor hir wrth wraidd eu penderfyniadau, i wella Llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliant eu hardaloedd. Golyga hyn fod rhaid iddynt ystyried yr effaith y gallai eu penderfyniadau ei gael ar bobl yn byw eu bywydau yng Nghymru nawr, ac yn y dyfodol.

Mae'r ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mhob rhanbarth ac yn gosod saith nod Llesiant ar waith i sicrhau fod yr holl BGCau yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi ei amcanion i ddiwallu'r nodau.

Y saith nod Llesiant yw:




Gyda'n gilydd, bwriad y saith nod Llesiant a'r egwyddor datblygiad cynaliadwy (pum ffordd o weithio) a ddarperir gan y Ddeddf yw cefnogi a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym hefyd angen ystyried datblygiad cynaliadwy, gan wella'r ffordd y gallwn gyflawni ein llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Ddeddf yn dechrau trwy roi diffiniad o'r hyn a olygwn gan ddatblygiad cynaliadwy.

***Yn y Ddeddf hon, mae "datblygiad cynaliadwy' yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygiad cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.***

I'n helpu i benderfynu sut orau y gallwn gyfrannu tuag at y nodau, mae'r Ddeddf yn gofyn i ni ddechrau trwy lunio a chyhoeddi'r asesiad Llesiant hwn. Diben yr asesiad yw ein helpu i gael darlun cynhwysfawr o lesiant pobl a chymunedau lleol ym Mhowys, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Mae'n edrych ar sbectrwm eang y ffactorau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sy'n effeithio ar fywydau pobl yn ddyddiol. Mae hyn yn golygu edrych ar bethau megis iechyd pobl, mynediad

at gyflogaeth a chyfleoedd addysg/hyfforddiant, cyflwr tai a mynediad at gludiant. Ei nod yw ennill gwybodaeth am gryfderau ac asedau ein cymunedau ynghyd â nodi'r materion y mae pobl neu gymunedau yn eu hwynebu neu o bosibl yn mynd i'w hwynebu yn y dyfodol.

Bydd y dystiolaeth yn yr asesiad hwn yn caniatáu i ni ddynodi a blaenoriaethu'r materion sydd bwysicaf yn lleol a dechrau archwilio sut y gellir eu trafod. Bydd y canfyddiadau yn cael eu defnyddio i osod amcanion llesiant a llunio cynllun llesiant a fydd yn dweud yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i ddiwallu'r nodau, a gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Powys. Mae ein hasesiad yn cynnwys meysydd lle'r ydym yn gwybod fod rhaid i ni wella ein gwybodaeth a chasglu gwybodaeth nad oes gennym ar hyn o bryd er mwyn deall ein cymunedau yn llwyr. Rhaid cyhoeddi'r asesiad o leiaf blwyddyn cyn y cynllun llesiant lleol (neu o fewn 12 mis cyn etholiad llywodraeth leol cyffredinol).

| Nodau Llesiant | Disgrifiad o'r Nod |
|---|---|
| Cymru Lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru Gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd. |
| Cymru Iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

I’n helpu i benderfynu sut y gallwn orau gyfrannu tuag at y nodau a’r pum ffordd o weithio, mae’r Ddeddf yn gofyn i ni ddechrau trwy lunio a chyhoeddi asesiad Llesiant. Diben yr asesiad yw ein helpu i gael darlun cynhwysfawr o lesiant pobl a chymunedau lleol ym Mhowys, nawr ac ar gyfer y dyfodol. Bydd tystiolaeth yn yr asesiad yn caniatáu i ni ddynodi a blaenoriaethu materion sydd bwysicaf yn lleol gan ddechrau archwilio sut y gellir eu trafod. Bydd y canfyddiadau’n cael eu defnyddio i sefydlu amcanion llesiant a llunio cynllun llesiant lleol.

I gwblhau ein hasesiad llesiant, rydym wedi gweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gan gynnwys ein partneriaid statudol - Cyngor Sir Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rydym hefyd wedi gwahodd partneriaid eraill i gymryd rhan yn yr asesiad sy’n cynnwys Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Heddlu Dyfed Powys, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a’r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fel grŵp, rydym wedi sefydlu tîm prosiect i gwblhau’r asesiad trwy ddull ar y cyd. Dan y tîm prosiect hwn, sefydlwyd pum ffrwd gwaith i adolygu’r data.

Mae’r camau yr ydym wedi’u cymryd i ddatblygu’r asesiad llesiant wedi’u hamlinellu isod.

## 1. Dynodi a chasglu data priodol

Fe wnaethom ddechrau’r broses o asesu llesiant ym Mhowys gyda chasglu bron i 300 o setiau data o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- Data am ddefnyddwyr gwasanaeth presennol
- Setiau data allanol/ eilaidd (e.e. data cyfrifiadau’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)
- Dangosyddion Cenedlaethol ac adroddiad tueddiadau cenedlaethol
- Data ansoddol o arolygon defnyddwyr gwasanaeth a gwaith ymgynghori/ymgysylltu e.e. Holiaduron Panel y Dinasyddion, Arolwg Bodlonrwydd Trigolion, ac adborth o ymgynghoriadau
- Arolygon Cenedlaethol e.e. Arolwg Iechyd Cymru a dangosyddion
- Mynegeion e.e. Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru

Mae nifer o arolygon ac asesiadau statudol wedi cael eu hystyried hefyd fel rhan o lunio’r asesiad hwn, gan gynnwys:

- Addysg feithrin
- Gofal plant
- Cyfleoedd chwarae digonol
- Gofal a chefnogaeth, cefnogaeth i gynhalwyr a gwasanaethau atal – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Gostwng trosedd ac anrhefn – Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998
- Mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau
- Gostwng aildroseddu

Cafodd y data ei grwpio’n pum ystorfa i lunio set ddata gyffredin a sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr asesiad.

## 2. Dadansoddi’r data yn ôl themâu ac ardaloedd cymunedol

Er mwyn dadansoddi’r setiau data yn fanylach, sefydlwyd pum gweithgor oedd yn canolbwyntio ar y themâu canlynol:

- Cymdeithasol (Bywyd Cynnar ac Oedolion Ifanc)
- Cymdeithasol (Bywyd Oedolion a Phobl Hŷn)
- Diwylliant a chymuned (gan gynnwys Cymunedau a Lleol)
- Economi
- Yr Amgylchedd

Roedd pob gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o holl bartneriaid statudol y BGLl a rhai sefydliadau partner anstatudol. Dadansoddodd y gweithgorau’r data o bob ardal ddaearyddol wahanol ym Mhowys, gan asesu am dueddiadau dros amser (tueddiadau hanesyddol a newidiadau a ragwelir), wedi’u meincnodi yn erbyn awdurdodau eraill a bylchau hyder ystadegol ychwanegol i asesu arwyddocâd y canfyddiadau.

Cytunodd BGLl Powys i rannu Powys yn saith cymuned er mwyn deall cyflwr llesiant ar lefel lleol yn well. Mae'r rhain yn adlewyrchu ardaloedd allbwn uwch y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ddefnyddir i ddadansoddi'r data sy'n deillio o'r cyfrifiad a ffynonellau cenedlaethol eraill. Er nad yw 13 o ardaloedd lleol o anghenraid yn cyd-fynd â ffiniau neu derminoleg yr holl sefydliadau partner neu ffiniau'r ardaloedd gwasanaeth, dyma yw'r cyfatebiad gorau gyda dibenion y dadansoddiad.

## 3. Dynodi'r 'prif ganfyddiadau' o'r data

O ganlyniad i'r broses ddadansoddi, cafodd rhai setiau data eu heithrio gan nad oedd y tueddiadau presennol ac ar gyfer y dyfodol i Bowys yn ymddangos i fod o unrhyw bwysigrwydd arwyddocaol. Cafodd y setiau data hynny oedd yn weddill eu hadolygu a'u cyfuno lle'r oedd hynny'n briodol i mewn i nifer o 'brif ganfyddiadau' (cyfanswm o 31 ar draws y 5 thema).

Roedd pob prif ganfyddiad yn disgrifio cyflwr llesiant presennol pobl a'u profiad ohono, gan gynnwys cryfderau ac asedau ynghyd â sialensiau a materion.

Er mwyn deall pob prif ganfyddiad yn fanylach, datblygodd y gweithgorau 'Ddadansoddiad Crynodol' i bob prif ganfyddiad - crynodebau yw'r rhain o'r dystiolaeth, yr hyn a ddywedodd dinasyddion a staff ac unrhyw wahaniaethau sydd wedi'u dynodi ar draws y sir. Mae'r dadansoddiadau hefyd yn llunio darlun am yr angen ac a yw'n cael ei ddiwallu neu beidio ar hyn o bryd, ynghyd â'r hyn y gall ddigwydd yn y tymor canolig a hir.

## 4. Sgorio effaith pob prif ganfyddiad yn erbyn y 7 nod llesiant

Wedi hynny, cafodd pob un o'r prif ganfyddiadau eu hasesu gan swyddog arwain o ran eu heffaith ar y 7 o nodau llesiant cenedlaethol a'r rhesymau a roddwyd. Er mwyn cymharu ac asesu lefel yr effaith ac a oedd y prif ganfyddiad presennol yn cael effaith bositif neu negyddol ar lesiant, datblygwyd a chytunwyd ar fethodoleg sgorio.

Gan ddefnyddio'r fethodoleg sgorio, rhoddodd pob gweithgor sgôr eu hunain am sut yr oeddynt yn teimlo fod pob un o'r prif ganfyddiadau yr oeddynt wedi'u dynodi yn effeithio ar hyn o bryd ar y saith nod llesiant.

Er mwyn cynnwys rhanddeiliaid ehangach yn y broses ac i gael eu barn ar y prif ganfyddiadau sydd wedi'u dynodi, cynhaliwyd dau ddigwyddiad herio ym mis Tachwedd 2017 – un gyda staff mewnol a'r llall gyda sefydliadau partner a chynrychiolwyr cymunedol. Yn ystod y ddau ddigwyddiad, rhoddwyd cyflwyniad byr i'r rhanddeiliaid ar bob dadansoddiad crynodol ac yna rhoddwyd cyfle i sgorio a herio'r prif ganfyddiadau, gan ddefnyddio'r un fethodoleg sgorio â'r gweithgorau.

Mae'r sgorau a roddwyd gan bob un o'r grwpiau gwahanol wedi cael eu triongli a'u cymedroli i gyrraedd sgôr cyffredinol ar gyfer pob un o'r 31 prif ganfyddiad. Mae'r canfyddiadau wedi ein caniatáu i ddynodi'r prif ganfyddiadau y mae'r rhanddeiliaid yn credu sy'n cael yr effaith fwyaf andwyol a'r effaith fwyaf ffafriol ar y saith nod llesiant. Yna defnyddiwyd yr holl sylwadau o'r dadansoddiad crynodol tymor canolig a byr ynghyd â'r sylwadau a gyflwynwyd gan y cyfranogwyr yn y digwyddiadau herio i gynnig tueddiad a ragwelir.

## 5. Dynodi blaenoriaeth posibl ar gyfer dadansoddiad ymateb

Yn y digwyddiadau herio a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016, gofynnwyd i'r cyfranogwyr i roi eu barn ar y cysylltiadau rhwng pob dadansoddiad crynodol ac i ystyried pa feysydd sy'n bwysig. O'r gwaith hwn ac arolwg o'r dadansoddiad a gynhaliwyd gan y gweithgorau, mae meysydd clir o ymatebion posibl wedi cael eu dynodi ac mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cytuno ar bedwar prif faes er mwyn dechrau gwaith ar ddadansoddiad ymateb. Bydd hyn yn cael ei brofi ymhellach hefyd yn ystod mis Chwefror 2017 gyda'r ymgynghorai statudol a'n rhanddeiliaid trwy ddigwyddiadau cymunedol.

## 6. Dadansoddiad ymateb

Dadansoddiad manwl o'r meysydd sydd wedi'u dynodi yw hyn, gan gynnwys gwaith ymyrraeth y gellid ei gynnal i gyflwyno gwelliannau. Mae llyfrgell ymchwil wedi cael ei sefydlu sy'n dal papurau ymchwil a gwybodaeth ar ymatebion posibl i faterion a'u prif ganfyddiadau. Bydd y wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth ddealledig y swyddogion a'r cyfranogwyr a wahoddwyd i'r digwyddiadau gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2017 yn cael ei defnyddio i archwilio'r ymateb posibl i brif feysydd y BGC. Bydd gwaith ymchwil a thystiolaeth bellach yn cael eu defnyddio i archwilio'r ymatebion tymor byr, canolig a hir posibl, a'r ymatebion tymor hir i'r sialensiau llesiant sy'n wynebu Powys ynghyd â sut y gall y BGC ddefnyddio'r pum ffordd o weithio i ymateb yn effeithiol.
Tra mai dim ond pedwar maes fydd yn cael eu cynnwys fel cam cychwynnol o fewn yr asesiad, mae'n hanfodol fod yr holl feysydd yn cael eu dadansoddi i gynnig set gyflawn o wybodaeth i ddynodi llesiant ac amcanion ac i lunio cynllun sydd wedi'i ymchwilio'n dda.

## 2. Profi ein hasesiad

Trwy gydol y broses asesu, rydym wedi comisiynu gwasanaethau Netherwood Sustainable Futures fel barn arbenigol annibynnol. Yn y lle cyntaf, roedd hyn yn cynnig cyngor a chyfarwyddwyd ar y dull i wneud ein hasesiad ac yn ddiweddarach, fel her annibynnol i'n dadansoddiad crynodol a'n dull o ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid yn ein digwyddiadau herio a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2016. Mae swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd wedi cynnig cyngor mewn sesiynau cynghori rheolaidd a thrwy fynychu ein digwyddiadau herio i randdeiliaid fel asesiad annibynnol yn y digwyddiadau herio.

Mae'r cyngor annibynnol wedi bod yn wirioneddol ddefnyddiol wrth wella ein hasesiad a bydd hyn yn parhau trwy'r ymgynghoriad ffurfiol ym mis Chwefror 2017 gyda'n rhanddeiliaid a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan mai dyma'r tro cyntaf y mae asesiad o'r math yma wedi'i gynnal, mae gennym nifer o sialensiau i'w goresgyn gan gynnwys gweithio fel partneriaeth newydd, defnyddio data mewn proses fwy trefnus ac ymgysylltu gyda'n cymunedau o fewn y broses. Mae cymaint yr ydym wedi'i ddysgu o'r broses hon a llawer y byddem yn ei wneud yn wahanol. Mae profi ein hasesiad wedi bod yn wirioneddol ddefnyddiol ond o fewn yr amserlen, ni ellid gweithredu ar bob un o'r arsylwadau. Mae'r adran nesaf yn cynnig ychydig o syniadau i weithio'n wahanol ar gyfer asesiadau yn y dyfodol ac yn ystyried rhai o'r prif negeseuon o'r farn annibynnol y gofynnwyd amdano ac oddi wrth ein rhanddeiliaid.

## 3. Beth fyddem ni wedi'i wneud yn wahanol

Aethpwyd ati i edrych ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd trwy ddefnyddio'r holl wybodaeth yr ydym yn ei gasglu ar hyn o bryd ar draws ein partneriaid o randdeiliaid a phartneriaid, gan ddadansoddi'r data hwn fel rhan o'r data asesu. Gweithiodd y dull hwn yn dda gan osgoi cynnal gormod o ymgynghoriadau. Fodd bynnag, trwy gael amser ychwanegol yn y dyfodol, gellid gwella ar hyn trwy:

1. Greu arolwg llesiant cyffredinol i gynnwys mwy o drigolion a rhanddeiliaid led led Powys.
2. Cynyddu cyhoeddusrwydd am ein Hasesiad Llesiant fel ei fod yn cyrraedd cynulleidfa ehangach.
3. Parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol trwy gydol yr asesiad a'r cylch cynllunio i annog sylwadau cyffredinol ar lesiant ar unrhyw adeg oddi wrth ein rhanddeiliaid.
4. Gwella'r ffordd o gynnwys yr holl bartneriaid Cynnwys ein rhanddeiliaid o fewn awdurdodau sy'n ffinio â Phowys ac annog eu mewnbwn.
5. Cydweithio ar draws y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfuno gwaith ymgynghori fel nad yw ein rhanddeiliaid yn "blino ar ymgynghoriadau" yn y dyfodol a sicrhau ein bod gwirioneddol yn deall beth sydd o bwys i bobl a sefydliadau.

Roedd casglu data meintiol yn cynnwys bron 300 o setiau data a gafodd eu dadansoddi i ddeall llesiant ym Mhowys. O'r dadansoddiad o'r data hwn, cafodd meysydd eu dynodi oedd yn dangos effaith ar lesiant ym Mhowys. Gellid gwella'r dull hwn trwy:

1. Ddileu setiau data sydd ond yn arddangos sialensiau i gyflwyno gwasanaeth ac nad ydynt yn adlewyrchu sialensiau i lesiant.
2. Casglu data a ddynodwyd fel data coll o'n dadansoddiad crynodol.
3. Gwella systemau i gasglu data nad ydym yn ei ddal ar hyn o bryd ac a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol i gyflwyno gwybodaeth ar gyfer yr asesiad.
4. Cydweithio gyda'n partneriaid i gasglu data mewn dull unedig fel y gellir creu haenau o ddata i ddeall darlun cyflawn i Bowys.
5. Mae angen archwilio dull mwy ffurfiol i raddio ein hanghenion tystiolaeth er mwyn deall a ellid bod wedi defnyddio sgorio mwy ffurfiol.
6. Cael gwybodaeth o safbwynt dinasyddion yn hytrach na'r gwasanaeth (mae hyn ychydig yn wahanol i bwynt (i) gan ei fod ynglyn â'r profiad yn hytrach na chyflwyno gwasanaeth)

Mae'r dull hwn ar gyfer dadansoddiad crynodol yn cyfuno data lle dynodwyd materion llesiant o'n gwybodaeth ansoddol a meintiol. Cafodd y rhain eu grwpio gan ddefnyddio gwybodaeth ddealledig a'u gwella trwy'r her gweithgorau ar draws ein partneriaid. Dyluniwyd y templed dadansoddiad crynodol ac roedd yn ymddangos i fod yn gweithio'n effeithiol iawn. Gellid gwella'r broses hon ymhellach o hyd trwy:

1. Wella dadansoddiadau rhagfynegi i ddeall yn glir y sialensiau llesiant y gall Powys fod yn eu hwynebu yn y tymor canolig a hir.
2. Parhau i wneud y newid diwylliannol o asesiad anghenion traddodiadol i asesiad llesiant.
3. Dynodi mwy o gyfleoedd a cryfderau o fewn cymunedau yn hytrach nag ystyried y sialensiau a'r diffygion.
4. Cydweithredu'n fwy effeithiol ar draws y dadansoddiad crynodol gan arwain at welliannau wrth gysylltu gwahanol agweddau ar yr asesiad.
5. Ehangu cyfraniad partneriaid a rhanddeiliaid yn y broses, gallai hyn gynnwys busnesau, prifysgolion, sefydliadau, ac unigolion gyda dealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu Powys.
6. Mae cynorthwyo gyda'r dadansoddiad crynodol yn arwain at ddisgrifio'r prif ganfyddiadau yn hytrach na chanfod yr ateb i'r mater.

Cynhaliwyd y digwyddiadau herio ym mis Tachwedd 2016 dros ddau ddiwrnod lle estynnwyd gwahoddiad i swyddogion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaid, a chynrychiolwyr rhanddeiliaid i adolygu canfyddiadau'r dadansoddiad crynodol a sefydlu'r prif feysydd sy'n cysylltu'r rhain. Cyfanswm y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys o fewn yr asesiad fydd yr her gydag unrhyw ddull er mwyn bod yn gwbl llwyddiannus a gellir addasu'r dull presennol neu ei ail-weithio'n llwyr i'w wella ar gyfer y dyfodol. Gwelsom fod rhai pwyntiau gwirioneddol bwysig wedi cael eu codi a chafodd y prif sialensiau i Bowys eu dynodi.

Mae rhai o'r prif faterion a godwyd gan y sawl oedd yn mynychu yn cynnwys:

- Gormod o wybodaeth wedi'i ddarparu ar y dydd
- Dealltwriaeth fod angen gwella'r nodau llesiant
- Roedd mwy nag un grŵp mewn ystafell yn ei gwneud hi'n anodd i glywed
- Nid oedd cyfanswm yr asesiadau i weithio trwyddynt ar y dydd yn hawdd ei reoli na'i gyflawni
- Roedd gofyn cael hwyluswyr profiadol i'r broses weithio'n effeithiol
- Arhosodd y cyfranogwyr yn eu grwpau dynodedig fel y gallai eu gwahanol wybodaeth, arbenigedd a safbwyntiau herio'r dadansoddiad crynodol.

# Ymgysylltu







# Cynnwys

1. Sut ydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau?
2. Mapio Meddyliau
3. Enghreifftiau o wybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol

# 1. Sut ydym wedi ymgysylltu â'n cymunedau?

Cyn cyhoeddi'r asesiad hwn, rydym wedi ymgynghori â nifer o ymgyngoreion statudol gan gynnwys:

- Y comisiynydd
- Gwahoddedigion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Partneriaid eraill
- Pwyllgor gorolwg a chraffu'r awdurdod lleol
- Mudiadau priodol o'r sector gwirfoddol
- Cynrychiolwyr sy'n byw ac yn gwneud busnes yn yr ardal
- Undebau Llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yr ardal
- Unrhyw un arall a ystyriwyd gan y Bwrdd.

Mae sawl ffordd y gall trigolion a chymunedau leisio barn a cheisio dylanwadu ar wneud penderfyniadau, o drefnu deisebau i gymryd rhan yn eu cynghorau tref a chymuned lleol. Ochr yn ochr â'r dulliau mwy traddodiadol, mae mwy o gyfle hefyd i drigolion leisio barn wrth i'r cyngor drefnu ymgynghoriad cyhoeddus, neu gynnal sesiynau taro heibio neu grŵp ffocws, cynnal cyfarfod cyhoeddus neu lansio arolwg ar-lein.

Mae'r cyfleoedd hyn wedi tyfu dros y bum mlynedd diwethaf wrth i wybodaeth a disgwyliadau trigolion gynyddu ac wrth iddynt graffu mwy ar gyllid gwasanaethau cyhoeddus. Maen nhw hefyd wedi cynyddu o ganlyniad i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru – dogfennau megis 'Gwneud Cysylltiadau', 'Tu hwnt i Beecham', a sefydlu Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu Cyhoeddus yng Nghymru a'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol sy'n llywodraethu gwaith ymgysylltu â phobl ifanc yng Nghymru.

Sylwch: Mae Cyngor Sir Powys a'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol, sef y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cofrestru i'r Egwyddorion Cenedlaethol ac yn gweithio i Safonau Cyfranogi Cenedlaethol gan ystyried yn ofalus pryd a sut i ymgysylltu â thrigolion/pobl ifanc wrth wneud penderfyniadau.

Hefyd, mae nifer o ddulliau sefydledig megis y Fforwm Ieuenctid, y Fforwm Pobl Hŷn, y Panel Tai 100 a phanel y Dinasyddion y gallwn alw arnynt i helpu'r cyngor drin a thrafod barn rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau. Mae grwpiau megis Tros Gynnal yn cefnogi'r Bwrdd Diogelu Plant Lleol ac mae nifer o grwpiau cymunedol sydd â chysylltiadau agos â phartneriaid y sector cyhoeddus sydd yn hwyluso ac yn bwydo sylwadau ar ein rhan.

Ein hagwedd at farn ar lesiant

Ynghyd â dadansoddi setiau data allweddol sydd gan fudiadau partner, mae'r broses o lunio'r asesiad llesiant wedi cynnwys casglu a dadansoddi barn trigolion/rhanddeiliaid a gasglwyd yn dilyn gwaith ymgynghori ac ymgysylltu dros y 18 mis diwethaf.

Mae'r ymgynghoriadau hyn wedi cynnwys amrywiaeth o faterion gan geisio barn gan drigolion, defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr proffesiynol a rhanddeiliaid eraill ar bethau megis:

- gohirio'r cynllun hawl i brynu i denantiaid y cyngor a thai cymdeithasol
- ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd,
- symud i gasglu sbwriel bob tair wythnos
- ailgynllunio gwasanaethau gofal dydd
- sut i wneud arbedion ond cadw gwasanaethau llyfrgelloedd ar draws y sir
- datblygu cynllun teithio llesol i'r prif drefi yn ôl y dyletswyddau deddfwriaethol
- derbyn cymorth a gwybodaeth

Mae'r sylwadau i gyd wedi'u bwydo i'r broses ac wedi rhoi cymysgedd o wybodaeth feintiol ac ansoddol ar baham a sut y mae trigolion wedi ymateb fel y gwnaethant.

Rydym hefyd wedi casglu barn ac adborth gan fudiadau yn y sector cyhoedd a'r trydydd sector trwy ddigwyddiad her deuddydd ym mis Tachwedd 2016. Roedd y wybodaeth ansoddol a gasglwyd yn ddefnyddiol ac wedi helpu i atgyfnerthu a dilysu ein canfyddiadau.

Dyma restr lawn o'r rhanddeiliaid a'r partneriaid a wahoddwyd i ddigwyddiadau ar lesiant a chenedlaethau'r dyfodol ar 15 a 16 Tachwedd 2016.

- Gweithredu dros Blant
- Age Cymru
- Fforwm Cymru gyfan
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Fforwm Gofal Cymru
- Canolfan Dechnoleg Amgen
- Ynni Cymunedol Cymru
- Cynghorwyr Cymuned
- Credu
- CREW Adfywio Cymru
- Cymryd Rhan
- Anabledd Powys
- Heddlu Dyfed Powys
- Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys
- Eco Dyfi
- Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Busnesau lleol annibynnol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Coleg Castell nedd Port Talbot
- Dyfodol Cynaliadwy Netherwood
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys
- Cynghorwyr Sir Powys
- Cyngor Iechyd Cymunedol Powys
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cymdeithas Gwarchod Adar
- Sustranscymru
- Panel Cynghori Tenantiaid Cymru
- Nam ar y Golwg Brycheiniog
- Llywodraeth Cymru
- Ffermwyr Ifanc

Er mwyn casglu barn y cyhoedd, gan gynnwys y rhai nad oes modd eu cyrraedd trwy'r dulliau uchod, rydym wedi cyhoeddi negeseuon rheolaidd ar gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) yn gofyn i bobl roi barn ar rai o'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r dadansoddiad.

Ar gyfer y gwaith ymgysylltu diweddaraf, casglwyd ymatebion pobl i'r asesiad trwy arolwg ar-lein ("Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Chi") a chysylltu â thrigolion ar draws 7 ardal gymunedol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. (Roedd yr olaf yn cynnwys sesiynau taro heibio mewn llyfrgelloedd, neuaddau cymuned a gorsafoedd tân ynghyd â sesiynau mewn grwpiau a chlybiau cymdeithasol cymunedol (e.e. grwpiau rhianta, grwpiau cymdeithasol pobl hŷn, Ffermwyr Ifanc, Sefydliad y Merched, Grŵp Cymorth i Ofalwyr). Fe wnaethom hefyd siarad â phobl mewn stondinau penodol mewn archfarchnadoedd, ysbytai a marchnadoedd lleol. Trwy'r rhain, roedd yn bosibl siarad yn uniongyrchol ag amryw o drigolion a grwpiau lleol). Roedd y cwestiynau'n fodd i gasglu barn trigolion ar beth mae llesiant yn ei olygu iddyn nhw, pa rai o'r 31 o bynciau sy'n flaenoriaeth, a yw'r rhain yn wahanol pe bydden nhw'n ystyried eu cymunedau lleol yn hytrach na'u llesiant unigol nhw, a ph'un ai bod y data am gymunedau penodol yn wir yn eu barn nhw.

# Nodweddion gwarchodedig

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried yr angen i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rhai sydd ddim. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol fel nodweddion gwarchodedig. Mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi ymgysylltu, ac wedi ystyried y 9 nodwedd warchodedig wrth lunio'r asesiad.

| Nodweddion gwarchodedig | Cam cynnar: casglu data a defnyddio arolygon a gynhaliwyd dros y 18 mis diwethaf | Cam ymateb y cyhoedd: Ymgysylltu â thrigolion ar draws 7 ardal gymunedol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
|---|---|---|
| Oed | DO | DO |
| Anabledd | DO | DO |
| Ailbennu rhywedd | DO | DO |
| Priodas a phartneriaeth sifil | DO | DO |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | DO | DO |
| Hil | DO | DO |
| Crefydd a chred | DO | DO |
| Rhyw | DO | DO |
| Cyfeiriadedd rhywiol | DO | DO |

**Oed**
Lle cyfeirir at hyn, mae'n cyfeirio at berson o oed arbennig (er enghraifft 32 oed) neu grŵp o oedran (er enghraifft 18 – 30 oed)

**Anabledd**
Mae person yn anabl os oes ganddo ef neu hi nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar allu'r person hwnnw i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

**Ailbennu rhywedd**
Y broses o drawsnewid o un rhyw i'r llall.

**Priodas a phartneriaeth sifil**
Nid yw priodas bellach wedi'i gyfyngu i undeb rhwng dyn a gwraig, ond mae nawr yn cynnwys priodas rhwng cwpl o'r un rhyw. Gall gyplau o'r un rhyw hefyd gydnabod eu perthynas yn gyfreithiol trwy 'bartneriaeth sifil'. Ni ddylid trin partneriaethau sifil yn llai ffafriol na chyplau priod (heblaw lle caniateir hynny dan Ddeddf Cydraddoldeb, Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013; Deddf Priodas a Phartneriaethau Sifil (Alban) 2014.

**Beichiogrwydd a mamolaeth**
Ystyr beichiogrwydd yw'r cyflwr o fod yn feichiog neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl geni, ac mae'n gysylltiedig â chyfnod mamolaeth yng nghyd-destun cyflogaeth. Yng nghyd-destun heblaw gwaith, mae mesurau diogelwch rhag gwahaniaethu mewn grym am 26 wythnos ar ôl geni, sy'n cynnwys trin gwraig yn anffafriol gan ei bod yn bwydo ar y fron. Gallwch wybod mwy am ein gwaith ar feichiogrwydd a mamolaeth yn y gweithle.

**Hil**
Mae'n cyfeirio at nodweddion gwarchodedig Hil. Mae'n cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir yn ôl hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth, tarddiad ethnig neu genedlaethol.


**Crefydd a chred**
Crefydd yw'r ystyr a roddir iddo, ond mae cred hefyd yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol gan gynnwys diffyg cred (megis anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau mewn bywyd neu'r ffordd rydych yn ei fyw, er mwyn ei gynnwys yn y diffiniad.


**Rhyw**
Dyn neu fenyw.


**Cyfeiriadedd Rhywiol**
P'un ai y mae rhywun wedi'i ddenu'n rhywiol at eu rhyw eu hunain, y rhyw arall neu'r ddau ryw.

# 2. Mapio Meddyliau


Mae'r mapiau meddyliau isod yn dangos y wybodaeth a gasglwyd trwy waith ymgysylltu a wnaed gan bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (mis Tachwedd 2016)






Gwyrdd = Data wedi'i gasglu a'i ddadansoddi Coch = Bwlch yn y Data Oren—Gwaith dadansoddi'n parhau




Gwyrdd = Data wedi'i gasglu a'i ddadansoddi Coch = Bwlch yn y Data Oren—Gwaith dadansoddi'n parhau





## 3. Enghraifft o negeseuon Cyfryngau Cymdeithasol

***Plant a phobl ifanc yw'r dyfodol***

Disgwylir y bydd poblogaeth plant a phobl ifanc ym Mhowys yn disgyn dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn lleihau gweithlu'r sir yn y dyfodol ac yn creu heriau i wasanaethau megis **Ysgolion, Gwasanaethau Ieuenctid** a **Gofal Cymdeithasol i Blant**

Rhagfynegiad o boblogaeth 0 i 17 oed ym Mhowys




Beth yw'r rhwystrau i gadw a denu pobl ifanc a theuluoedd ifanc?




Dyma rai ffeithiau am **dlodi** ym Mhowys:



- mae nifer y bobl ddigartref yn cynyddu
- mae cyfartaledd ein cyflogau wythnosol yn I
- mae 16% o aelwydydd Powys yn wynebu tlodi tanwydd

Mae banciau bwyd Powys yn gwneud gwaith da wrth helpu pobl mewn argyfwng ond sut allwn ni ymyrryd yn well **cyn** aiff hi'n ar-gyfwng?

Beth fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o dorri'r cylch tlodi?


Rydym am weld Powys sy'n iach, yn cynnwys iechyd meddwl da ar gyfer ein dinasyddion.



Beth gellir ei wneud er mwyn atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu i bobl ym Mhowys?

A oes gennych chi ddewis o ran y ffordd rydych chi'n gwresogi'ch cartref? A fydd y penderfyniadau'n cael eu seilio gost,p'un a yw ar gael ai peidio, effeithiau amgylcheddol, ynteu ryw reswm arall?

Sut y mae pobl Powys yn gwresogi eu cartrefi?




"Nid yw dros hanner eiddo Powys wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy"

"Mae 11% o Drigolion Powys yn dweud eu bod yn debyg o wynebu dewis rhwng gallu gwresogi eu tŷ neu brynu bwyd"

"Mae gan aelwydydd gwledig lefelau uwch o dlodi tanwydd nag aelwydydd trefol"



Mae gan **85%** y cant o aelwydydd ym Mhowys fwy nag un car. Mae hyn yn uwch nag unrhyw awdurdod yng Nghymru, a llawer o awdurdodau gwledig yn Lloegr.

Ydych chi'n dibynnu ar gar i fyw neu i weithio ym Mhowys? Ydy hyn yn amharu ar eich lles ac a oes rhwystrau i ddefnyddio cludiant cyhoeddus?

Dyma pump ffaith ynghylch ceir"

http://visual.ons.gov.uk/five-facts-about-cars/

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn i ni feddwl rhagor am y tymor hir. Beth ydych chi'n ei feddwl gallai effeithio ar les cenedlaethau'r dyfodol sydd heb eu geni eto?



Mae nifer y bobl sy'n ymweld â Phowys yn cynyddu

Mae Twristiaeth ym Mhowys yn darparu'r canlynol:

4.55 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn

£720.31 miliwn o incwm

9,141 o weithwyr amser llawn

Yn eich barn chi, sut y mae Twristiaeth yn effeithio ar Lesiant pobl Powys?

Pa hobïau a gweithgareddau cymdeithasol ry'ch chi'n cymryd rhan ynddynt sy'n cyfrannu at eich **lles**? Mae cymunedau'n aml mewn lle da i gyflwyno neu helpu i gyflwyno gwasanaethau lleol sy'n addas i anghenion eu trigolion. Sut allai eich cymuned chi helpu gyda'r gweithgareddau hynny sy'n bwysig i chi?





Rydym wedi bod yn asesu lles pobl a chymunedau ym Mhowys.

Dyma rai o’r pethau a ddaeth i’r amlwg yn ein trafodaethau.

Mae nifer o’r themâu hyn yn gysylltiedig, ac os weithiwn ni ar un, yna bydd meysydd eraill hefyd yn gwella.

Ydych chi’n cytuno â’n canfyddiadau ni? Ydyn ni wedi colli unrhyw beth sy’n gysylltiedig â’r themâu hyn?



Ydy natur wledig Powys yn effeithio ar sut rydych yn gweithio, byw neu wneud busnes?

Mae cefn gwlad Powys yn cynnig cyfleoedd i ni fwynhau natur a bod yn heini yn ein hamgylchiadau hardd. Fodd bynnag, mae byw mewn lle gwledig yn gallu ei gwneud hi'n fwy anodd i ddefnyddio gwasanaethau, cymdeithasu neu fynd i'r gwaith.

Sut mae natur wledig Powys yn effeithio ar eich llesiant chi?

#PowysWellbeing

Rydym wedi bod yn asesu lles pobl a chymunedau ym Mhowys.

Un pwnc trafod yw cludiant. Dyma rai ffeithiau a ddaeth i'r amlwg .......

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'u cerbydau eu hunain i deithio'n rheolaidd

Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn gallu effeithio ar gyfle i gael gwaith a hamdden.

Gall fod yn anodd i ofalwyr cael trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig


Rydym yn cludo **5,577** o ddysgwyr i **94** o sefydliadau addysg

Mae rhai o rwydweithiau ffyrdd Powys mewn cyflwr gwael

Nid yw gwasanaethau trafnidiaeth Powys wedi'u hintegreiddio cystal ag y gallan hw fod

In 2015/16 **1,117,657** passenger journeys were made on PCC supported local bus services

Pa effaith y mae trafnidiaeth yn ei gael ar eich lles chi?




Mae dros 16,000 o ofalwyr di-dâl ym Mhowys. Ydych chi'n gofalu?

Ydy gofalu am eraill yn effeithio ar eich llesiant chi?



Beth rydym yn ei wybod am ofalwyr ym Mhowys?



- Mae mwy o ferched yn gofalu na dynion

- Mae gofalu'n ddi-dâl yn fwy cyffredin ymysg gweithwyr rhan amser na'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser



- Mae llawer o ofalwyr yn dweud bod gofalu'n cael effaith niweidiol ar eu hiechyd, eu cyfleoedd gwaith a'u gweithgareddau cymdeithasol a hamdden



# Canfyddiadau'r asesiad a'r effaith ar y saith nod llesiant





Mae'r effeithiau posibl os nad oes unrhyw ymyrraeth yn y tymor canolig wedi'u huwcholeuo yn

| Allwedd | |
|---|---|
| | Argyfyngus – effaith negyddol uniongyrchol |
| | Argyfyngus – effaith positif uniongyrchol |
| | **Argyfyngus – os nad oes unrhyw ymyrraeth** |

| | **7 Nod Llesiant** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canfyddiadau allweddol hanfodol** | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru Gyfartal | Cymru Gydlynus | Cymru Fywiog | Cymru sy'n gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang |
| Trais yn erbyn merched, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol | | | | | | | |
| Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| Atal | | | | | | | |
| Llai o blant | | | | | | | |
| Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| Digon o ofal plant | | | | | | | |
| Gofalwyr ifanc | | | | | | | |
| Gwaharddiadau – Prydau bwyd ysgol am ddim | | | | | | | |
| Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| Gwarchod y Cyhoedd | | | | | | | |
| Llety addas i bobl hŷn / Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| Seilwaith | | | | | | | |
| Twf Busnes | | | | | | | |
| Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| Tlodi ac Amddifadedd | | | | | | | |
| Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| Ynni mewn Tai | | | | | | | |
| Amgylchedd cadarn | | | | | | | |
| Newid yn yr Hinsawdd | | | | | | | |

# Cymru Lewyrchus

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>**Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy’n cydnabod terfynau’r amgylchedd byd-eang ac felly’n defnyddio adnoddau’n effeithlon ac yn gymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); sy’n datblygu poblogaeth fedrus a hyddysg mewn economi sy’n creu cyfoeth ac yn rhoi cyfle am waith, ac yn galluogi pobl i fanteisio ar y cyfoeth hwnnw trwy waith parchus.** |

| | | **Critigol** Effaith negyddol uniongyrcho | **Sylweddol** effaith negyddol anuniongyrcho | **Cymedrol** Potensial o effaith negyddol | **Dim effaith** | **Cymedrol** Potensial o effaith bositif | **Sylweddol** Effaith bositif anuniongyrch ol | **Critigol** Effaith bositif uniongyrch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a Chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

| | | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | | Cymedrol | Sylweddol | Critigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | | | | | | | |
| | **Cymru Gydnerth**<br>**Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol â bioamrywiaeth gydag ecosystemau iach, gweithgar sy'n cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac yn gallu addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)** | | | | | | | |
| | | Effaith negyddol uniongyrchol | effaith negyddol anuniongyrchol | Potensial o effaith negyddol | **Dim effaith** | Potensial o effaith bositif | Effaith bositif anuniongyrchol | Effaith bositif uniongyrchol |
| | **Cymdeithasol** | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| | **Diwylliant a Chymuned** | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| | **Economi** | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| | **Amgylchedd** | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

4

# Cymru Iachach

| | | Critigol | Sylweddol | Cymedrol | | Cymedrol | Sylweddol | Critigol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | | | | | | | | |
| **Cymru Iachach** Cymdeithas lle gwneir yn fawr o lesiant corfforol a meddyliol pobl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd y dyfodol. | | | | | | | | |
| | | Effaith negyddol uniongyrchol | effaith negyddol anuniongyrchol | Potensial o effaith negyddol | Dim effaith | Potensial o effaith bositif | Effaith bositif anuniongyrchol | Effaith bositif uniongyrchol |
| **Social** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a Chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Cymru fwy cyfartal**
**Cymdeithas sy’n galluogi pobl i wireddu eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau (gan gynnwys cefndir ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol)**

| | | Critigol<br>Effaith negyddol uniongyrchol | Sylweddol<br>effaith negyddol anuniongyrchol | Cymedrol<br>Potensial o effaith negyddol | Dim effaith | Cymedrol<br>Potensial o effaith bositif | Sylweddol<br>Effaith bositif anuniongyrchol | Critigol<br>Effaith bositif uniongyrchol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

# Cymru o gymunedau cydlynus

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Cymru o gymunedau cydlynus**
**Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel â chysylltiadau da**

| | | Critigol<br>Effaith negyddol uniongyrchol | Sylweddol<br>effaith negyddol anuniongyrchol | Cymedrol<br>Potensial o effaith negyddol | Dim effaith | Cymedrol<br>Potensial o effaith bositif | Sylweddol<br>Effaith bositif anuniongyrchol | Critigol<br>Effaith bositif uniongyrchol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

# Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu
**Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Iaith Gymraeg ac yn annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.** recreation

| | | Critigol<br>Effaith negyddol uniongyrchol | Sylweddol<br>effaith negyddol anuniongyrchol | Cymedrol<br>Potensial o effaith negyddol | **Dim effaith** | Cymedrol<br>Potensial o effaith bositif | Sylweddol<br>Effaith bositif anuniongyrchol | Critigol<br>Effaith bositif uniongyrchol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

# Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang

| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | | | | | | | | |
| | | **Critigol** Effaith negyddol uniongyrchol | **Sylweddol** effaith negyddol anuniongyrchol | **Cymedrol** Potensial o effaith negyddol | **Dim effaith** | **Cymedrol** Potensial o effaith bositif | **Sylweddol** Effaith bositif anuniongyrchol | **Critigol** Effaith bositif uniongyrchol |
| **Cymdeithasol** | | | | | | | | |
| 1 | Trais yn erbyn menywod | | | | | | | |
| 2 | Anghydraddoldebau Iechyd | | | | | | | |
| 3 | Atal | | | | | | | |
| 4 | Gofalwyr | | | | | | | |
| 5 | Llai o blant | | | | | | | |
| 6 | Plant ag anableddau | | | | | | | |
| 7 | Lles meddwl yr ifanc | | | | | | | |
| 8 | Digon o ofal plant | | | | | | | |
| 9 | Gofalwyr Ifanc | | | | | | | |
| 10 | Gwahardd - prydau ysgol am ddim | | | | | | | |
| 11 | Plant sy'n agored i niwed | | | | | | | |
| 12 | Gordewdra ymysg plant | | | | | | | |
| 13 | Cyrhaeddiad Addysgol | | | | | | | |
| 14 | Iechyd meddwl | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| 15 | Dementia | Heb orffen y gwaith dadansoddi | | | | | | |
| **Diwylliant a chymuned** | | | | | | | | |
| 16 | Gwarchod y cyhoedd | | | | | | | |
| 17 | Llety addas i bobl hyn | | | | | | | |
| 18 | Byw'n annibynnol | | | | | | | |
| 19 | Cymunedau Cadarn | | | | | | | |
| 20 | Llai o arian cyhoeddus | | | | | | | |
| **Economi** | | | | | | | | |
| 21 | Seilwaith | | | | | | | |
| 22 | Twf Busnes | | | | | | | |
| 23 | Twristiaeth | | | | | | | |
| 24 | Cyflogaeth a Sgiliau | | | | | | | |
| 25 | Tlodi ac amddifadedd | | | | | | | |
| **Amgylchedd** | | | | | | | | |
| 26 | Teithio o gwmpas Powys | | | | | | | |
| 27 | Ynni adnewyddadwy | | | | | | | |
| 28 | Ynni mewn tai | | | | | | | |
| 29 | Eich amgylchedd lleol | | | | | | | |
| 30 | Amgylchedd Gadarn | | | | | | | |
| 31 | Newid yn yr hinsawdd | | | | | | | |
| 32 | Mwynhau'r amgylchedd | | | | | | | |

# Setiau o ddata wedi'u dadansoddi nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad







Mae'r data canlynol wedi cael ei ddadansoddi ac ystyrir un ai:

- Nad yw'n cael effaith negyddol ar lesiant ym Mhowys;
- Ei fod tu hwnt i'n dylanwad;
- Wedi'i ddatrys trwy strategaeth bresennol arall (yn cynnwys asesiad poblogaeth); neu
- Nid yw'n ddigon cadarn

## Cymdeithasol

### Bywyd cynnar ac oedolyn ifanc

- Asesiadau ac ymweliadau cleientiaid
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Gwasanaeth anabledd integredig
- Beichiogrwydd yn eu Harddegau
- Gwaith ieuenctid mewn ysgolion
- Camddefnyddio sylweddau

### Bywyd Oedolyn

- Camddefnyddio sylweddau
- Oedolion yn derbyn gwasanaethau
- Torri cluniau
- Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD)
- Strociau
- Pwl o Isgemia Dros Dro (TIA)
- Mân-anaf Mawr
- Niwrolegol
- Clefyd yr Afu

## Diwylliant a Chymuned

- Trosedd Atgasedd
- Cyfradd gyffredinol troseddau
- Hawlwyr Budd-dal Treth y Cyngor
- Teithio i'r gwaith fesul oedran
- Rhywedd – mae'r data ar gael ar lefel Powys yn unig

## Economi a busnes

- Lleoliad llety twristiaeth
- Lleoliad llety busnes
- Prisiau cyfartalog rhent
- Prisiau cyfartalog tai
- Mudo rhyngwladol tymor hir

# Bylchau yn ein tystiolaeth





Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle'r ydym yn ymwybodol bod yna fylchau yn y data a gasglwyd neu o gwblhau'r asesiad o fewn yr amserlen.

## Blychau ar draws themâu

- Gwybodaeth gan y trydydd sector / sector breifat
- Ymgysylltu â staff

## Gofalwyr

- Gofalwyr nad ydym yn gwybod amdanyn nhw
- Adrodd am ethnigrwydd (er mae hyn wedi gwella).

## Plant Bregus

- Plant sydd ar goll
- Manteisio'n rhywiol ar blant
- Atal radicaleiddio
- Gangiau
- Cyfiawnder Ieuenctid
- Ar goll o'r ysgol
- Creu cysylltiad clir – disgyblion ar goll o'r ysgol a Phlant sy'n Derbyn Gofal
- Iechyd rhywiol / clinigau GUM (dim ar gael yn y sir)
- Adnabod gofalwyr ifanc nad ydym yn ymwybodol ohonynt
- Rhagweld nifer y bobl rhwng 18 - 64 a fydd wedi goroesi cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod
- Mae'r rhan fwyaf o'r data yn canolbwyntio'n benodol ar blant iau, mae diffyg data yn canolbwyntio ar oedolion ifanc yn 16 oed ac yn hŷn.

## Plant sydd ar goll

- Manteisio'n rhywiol ar blant
- Atal radicaleiddio
- Gangiau
- Cyfiawnder Ieuenctid
- Ar goll o'r ysgol
- Creu cysylltiad clir – disgyblion ar goll o'r ysgol a Phlant sy'n Derbyn Gofal
- Iechyd rhywiol / clinigau GUM (dim ar gael yn y sir)
- Adnabod gofalwyr ifanc nad ydym yn ymwybodol ohonynt
- Rhagweld nifer y bobl rhwng 18 - 64 a fydd wedi goroesi cam-drin rhywiol yn ystod eu plentyndod
- Mae'r rhan fwyaf o'r data yn canolbwyntio'n benodol ar blant iau, mae diffyg data yn canolbwyntio ar oedolion ifanc yn 16 oed ac yn hŷn.

## Trais yn erbyn Merched, cam-drin yn y cartref a thrais rhywiol

- Gwahaniaethau o leoliad i leoliad o ran Trais yn erbyn Merched (dim ond wedi'i ddangos ar gyfer y Gogledd a'r De)

## Gwarchod y Cyhoedd

- Ofn troseddau
- Gwahaniaethau o ardal i ardal o ran Gwarchod y Cyhoedd

## Llety sy'n Addas ar gyfer Pobl Hyn

- Gwybodaeth am y rhesymau pam fod pobl yn mynd i mewn i'r ysbyty (a yw'r afiechyd yn cael ei gofnodi yn hytrach na'r achos).
- Pobl sy'n mynd i mewn i'r ysbyty ac yna o ganlyniad angen llety gwahanol ar ôl dod allan o'r ysbyty. Y fantais o gael y data hwn yw y bydd hi'n help i ddeall os mai'r rheswm mae pobl yn

mynd i mewn i'r ysbyty yw oherwydd eu bod yn byw mewn llety peryglus. Mae deall os gallai fod mathau gwahanol o lety ar gyfer pobl sy'n gadael yr ysbyty yn allweddol o ran y modelu sy'n cael ei wneud i atal pobl rhagor gorfod mynd i mewn i ofal preswyl.

## Byw'n Annibynnol

- Pobl hŷn actif
- Anabledd dysgu
- Olrhain a mapio canlyniadau ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ymyrraeth ac atal cynnar - mae angen i ni sicrhau bod CCIS wedi'i gysylltu ag unrhyw fodel ymyrraeth ac atal cynnar er mwyn i ni allu darparu tystiolaeth gadarn o'r ymyraethau sy'n cael eu cymryd a'r costau posibl sy'n cael eu harbed.

## Gwasanaethau Cymunedol

- Amseroedd aros ar gyfer Ysbytai (data oddi wrth y Gwasanaeth Iechyd)
- Amseroedd Teithio i'r Ysbyty Cyffredinol Ardal

## Tlodi ac Amddifadedd

- Data dibynadwy ar y defnydd o Fanciau Bwyd ym Mhowys
- Cyflenwad cyfyngedig o ddata ymgysylltu, nid yw'n ddigon cadarn i ddangos pobl o safbwynt Tlodi ac Amddifadedd.

## Eich Amgylchedd Lleol

- Ar hyn o bryd, ni allwn ddangos y cyfraddau ailgylchu fesul ardal. Rydym am wella hyn.
- Mae pryderon am gywirdeb y wybodaeth am yr achosion a nifer y tunelli o ddeunydd sydd wedi cael ei dipio'n anghyfreithlon. Cyn 2016/17, mae'n debygol bod nifer yr achosion wedi'u tan-adrodd oherwydd problemau gyda'r system adrodd. Dylai'r gwelliannau ar gyfer 2016/17 arwain at fwy o gywirdeb.

## Cenhedlaeth Ynni Adnewyddadwy

- Nid oes unrhyw wybodaeth ar gyfer ardaloedd penodol o osodiadau ynni adnewyddadwy ym Mhowys, mae'r data a ddarparwyd ar gyfer Powys gyfan.
- O ran yr hyn mae ein dinasyddion yn dweud, nid oes llawer o wybodaeth ar gael ac nid ydym yn gallu darparu barn gytbwys a theg trigolion am gynhyrchu Ynni Adnewyddadwy.

## Effeithlonrwydd Ynni

- Mae dal rhaid i ni wybod ymhle mae'r nifer fwyaf o'r eiddo lleiaf effeithlon ar lefel mwy lleol a'r mesurau gwella sydd eu hangen.

## Amddiffyn yr amgylchedd

- Dynodwyd Llifogydd o Ddŵr ar y Wyneb gan y grŵp fel bwlch yn y data.

## Mwynhau'r amgylchedd

- Darparu gwir foddhad y cwsmer trwy ofyn p'un ai os yw hawliau tramwy cyhoeddus yn diwallu anghenion y defnyddiwr. Er bod y ffigwr am ba mor rhwydd yw hi i ddefnyddio'r llwybr yn ddefnyddiol nid yw'n ffigwr da iawn i fesur perfformiad

## Teithio o amgylch Powys

- Diffyg data Cludiant Cyhoeddus cyfredol

## Mudo

- Nid oes gennym unrhyw ddata ansoddol sy'n esbonio pam fod pobl ifanc yn gadael NEU nad ydynt yn cael eu denu i symud i Bowys.

## Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEETs)

- Mae diffyg data yn benodol ar y bobl ifanc hynny rhwng 18 - 24 (mae data ar gael ar lefel Cymru ond nid ar lefel Powys).

- ## Marchnad swyddi

- Mae gan Bowys diweithdra isel (2.9%), fodd bynnag yn ol yr Arolwg Trigolion, dim ond 19% o ymatebwyr sy'n ystyried y sir yn dda/da iawn yn nhermau swyddi (sylwer: mae hwn yn gynnydd o 10% ers arolwg 2013/14.
- Mae'r cyflog cyfartalog ym Mhowys yn eithaf isel o'i gymharu â gweddill y DU.
- Mae cyfran fawr o ferched (53%) yn gweithio rhan amser ac mae 16% o ferched yn hunangyflogedig.

# Ffynonellau gwybodaeth allweddol







## Rhestr termau

| Pwnc | Diffiniad / Cyfarwyddyd |
| --- | --- |
| **Egwyddorion cynaliadwyedd** | **Meddwl i'r tymor hir:**<br>Cydbwyso'r pwysau i gymryd camau yn y tymor byr i fynd i'r afael â phroblemau cyfoes, â'r angen i fynd i'r afael ag anghenion tymor hir Cymru.<br><br>**Cymryd agwedd integredig:**<br>Ystyried pedair agwedd llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) a sut y mae amcanion llesiant yn effeithio ar ei gilydd, ac yn eu tro, ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.<br><br>**Cymryd agwedd ataliol:**<br>Defnyddio adnoddau i gymryd camau nawr er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu.<br><br>**Cydweithio:**<br>Gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill ( neu rannau o'r un cyrff) i geisio cyrraedd yr amcanion.<br><br>**Cynnwys:**<br>Cynnwys y bobl neu gymunedau sy'n destun trafodaeth ar lesiant, a'u cynnwys wrth ddod o hyd i atebion cynaliadwy. |
| **Llesiant** | Ystyr llesiant yw gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cymunedau a phobl yn unol â'r nodau llesiant.<br><br>Cyflwr lle mae pob unigolyn yn gwireddu ei botensial ei hun, yn gallu ymdopi â phwysau arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn llwyddiannus, ac yn gallu gwneud cyfraniad i'w gymuned. |
| **Atal** | Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu, gan gynnwys pobl eraill, cymunedau neu sefydliadau.<br><br>Gweithredu nawr i atal problemau rhag codi neu waethygu. Mae hyn yn cynnwys atal rhag dod i gysylltiad â pheryglon sy'n gallu achosi heintiau neu anaf, newid ymddygiad sy'n gallu arwain at heintiau neu anaf, a chynyddu ymwrthedd i heintiau neu anaf os byddai achos o'r fath yn digwydd. |
| **Ymyrraeth gynnar** | Ymyrryd mor fuan â phosibl er mwyn gwneud gwahaniaethau positif, ac atal neu oedi niwed neu effeithiau difrodol. |
| **Diogelu** | Adnabod y rheiny sy'n fwy tebygol o ddioddef deilliannau gwael ac ymyrryd mor fuan â phosibl er mwyn gwneud gwahaniaeth positif, ac atal neu oedi cyrraedd argyfwng a/neu lefelau angen difrifol. |

**Cydraddoldeb** Mae cymdeithas gyfartal yn diogelu ac yn hybu cyfle cyfartal, rhyddid go iawn a chyfle i fyw bywyd y mae pobl yn ei werthfawrogi a'i ddewis, fel bod pawb yn gallu ffynnu. Mae cymdeithas gyfartal yn cydnabod gwahanol anghenion pobl, canfyddiadau allweddol a nodau, ac yn symud y rhwystrau sy'n cyfyngu ar ddyheadau a gweithgareddau. Mae cymdeithas gyfartal yn cynnig gwasanaethau sydd â'r dwyster a graddfa sy'n briodol i'r angen.

**Cymuned** Grŵp o bobl sy'n byw yn yr un lle neu sydd â nodweddion penodol cyffredin.

## Cyfeiriadau


Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
Gyrfa Cymru, Cyrchfan Blwyddyn 11 yn ystod 2015, 2015
Carers UK, Ffeithiau am ofalwyr, Briff Polisi Hydref 2015, 2015
Carers UK, Mewn Salwch ac Iechyd, 2016
Canolfan Ynni Cynaliadwy, Mapio effeithiolrwydd ynni domestig ym Mhrydain Fawr, 2015
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Llefydd a darparwyr gofal plant, 2015
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Dechrau'n Deg, 2013
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Nifer y bobl gydag ASD ym Mhowys, 2015
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Gofalwyr Ifanc 2015/16, 2016
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Llefydd a darparwyr gofal plant, 2015
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Faint wnaethon ni?, 2016
Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Camddefnyddio Sylweddau ym Mhowys: Adolygiad Byr, 2016
Daffodil, Plant rhwng 0 – 17 oed a ragdybir i fod ag anabledd yn ôl diffiniadau'r DDA , yn ôl oed, hyd at 2035, 2014
Daffodil, Plant a ragdybir i fod ag unrhyw broblem iechyd meddwl, yn ôl oed a rhyw, hyd at 2035, 2015
Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, adroddiad cryno is-genedlaethol, defnydd o drydan a nwy, 2013
Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd DU 2017 Adroddiad Tystiolaeth , 2017
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, data ar ansawdd awyr, 2016
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Ystadegau a Gwastraff y DU, 2016
Adran Drafnidiaeth, maint a chyflwr y rhwydwaith ffyrdd 2015
Heddlu Dyfed Powys , Troseddau meddiangar yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Is 2014-15, 2015
Heddlu Dyfed Powys , Holl droseddau a gofnodwyd yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Is 2014-15, 2015
Heddlu Dyfed Powys , Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Is 2014-15, 2015
Heddlu Dyfed Powys , Cam-drin Domestig yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach is 2014-16, 2016
Heddlu Dyfed Powys , Diweddariad ar y Sefyllfa Ariannol, 2016
Heddlu Dyfed Powys , Adroddiad perfformiad cohort IOM, 2016
Home.co.uk, Crynodeb o eiddo ar werth, 2015
Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Y pwysau sy'n ein hwynebu ni , 2016
Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru, Arolwg Eiddo, 2015
Cyfoeth Naturiol Cymru, Crynodeb o naturiol cyflwr Cyfoeth Cymru, 2016
Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014
Cyfoeth Naturiol Cymru, Data Ansawdd a Maint Dŵr, 2016
GIG Cymru, Mesur Anghydraddoldeb, 2016
OFCOM, Cyflymder Band Eang Sefydlog , 2014
OFCOM, Canran yr ardaloedd heb wasanaeth 3G, 2014
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cyfrifiad 2011
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Poblogaeth Blynyddol, 2014
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwres Canolog, 2011
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gweithgarwch Economaidd yn ôl rhyw ac oedran, 2011

Swyddfa Ystadegau Gwladol, Unedau menter/lleol yn ôl band maint cyflogaeth ac Awdurdodau Lleol Prydain , 2013
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Incwm Gwario Gros Aelwydydd, 2014
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Cenedlaethol Cymru – Celfyddydau, Amgueddfeydd a Mannau Hanesyddol 2015
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Darparu gofal di-dâl yn ôl oed, 2016
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Proffil o'r farchnad lafur ac economaidd rhanbarthol – Canolbarth Cymru, 2014
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Deiliadaeth yn ôl gweithgaredd economaidd yn ôl oedran, 2016
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg blynyddol o oriau ac enillion, 2015
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Galwedigaeth yn ôl gweithgaredd economaidd yn ôl oedran, 2014
Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ystadegau cenedlaethol awdurdodau lleol y DU a rhanbarthol ar garbon deuocsid 2005-14, 2014
Swyddfa Rheoli Rheilffyrdd, Tueddiadau Rheilffyrdd Cenedlaethol - Proffiliau Defnydd Rhanbarthol, 2013
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, Gorolwg o'r banciau bwyd, 2015
Cyngor Sir Powys, Gwasanaethau Plant, Derbyn Gofal - Bröydd, 2015
Cyngor Sir Powys, Gwasanaethau Plant, Plant sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, 2015
Cyngor Sir Powys, Gwasanaeth Ysgolion, Cymhwyster am brydau ysgol am ddim, 2013
Cyngor Sir Powys, Gwasanaeth Ysgolion, canlyniadau pynciau disgyblion 17 oed ym mhob ysgol uwchradd, 2015
Cyngor Sir Powys , Adroddiad ar y Gyllideb a MTFS, 2016
Cyngor Sir Powys , Gwasanaethau Plant, 2015
Cyngor Sir Powys , Prif Ffigurau Cymharu 2015 a 2014, 2015
Cyngor Sir Powys , DRAIG, 2016
Cyngor Sir Powys , Asesiad Anghenion Cyflogaeth, 2015
Cyngor Sir Powys , Cynigion am ffermydd gwynt mawr a datblygiadau cysylltiedig ym Mhowys, 2016
Cyngor Sir Powys , Effaith ar Hamdden, 2016
Cyngor Sir Powys , Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Lleol yn ôl awdurdod unedol, 2012
Cyngor Sir Powys , Arolwg Boddhad Trigolion, 2015
Cyngor Sir Powys , Asesiad Digonolrwydd Chwarae Powys, 2013
Cyngor Sir Powys , Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Powys, 2015
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mesur Anghydraddoldeb, 2016
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Disgwyliad oes iach adeg geni, 2013
Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canran y plant sydd dros bwysau neu'n ordew, 2014
Mewnwelediad Cyhoeddus TNS BMRB, Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr, 2015
Llywodraeth Cymru , Adroddiad dangosydd tlodi tanwydd mewn ardaloedd bychain i Gymru, 2014
Llywodraeth Cymru , Cyfraddau geni a marwolaeth busnesau, 2013
Llywodraeth Cymru , Nifer anafiadau yn ôl awdurdodau lleol a heddluoedd, 2015
Llywodraeth Cymru , Gwasanaethau Maethu yn ôl ardaloedd lleol a mesur, 2015
Llywodraeth Cymru , Lefelau cymwysterau uchaf oedolion mewn gwaith yn ôl gweithgaredd economaidd, rhanbarth ac awdurdod lleol, 2015
Llywodraeth Cymru , Data Dangosyddion yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Is – Mynediad at Wasanaethau, 2014
Llywodraeth Cymru , Arolwg Byw yng Nghymru, 2011
Llywodraeth Cymru , Nifer y genedigaethau, marwolaethau busnes a mentrau gweithgar yn ôl ardal a diwydiant, 2007
Llywodraeth Cymru , Canran y llwybrau troed a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i'w defnyddio, yn ôl awdurdod lleol a blwyddyn, 2011
Llywodraeth Cymru , Powys – Amcangyfrifon Aelwydydd Un Person 2014, 2014
Llywodraeth Cymru , Tebygrwydd o lifogydd yn yr eiddo mewn perygl, yn ôl blwyddyn, 2008
Llywodraeth Cymru , Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon yn ôl awdurdod lleol, 2015
Llywodraeth Cymru , Hyd ffyrdd a dosbarth y ffyrdd yn ôl awdurdod lleol, 2014
Llywodraeth Cymru , Gwastraff a gasglwyd i'w hail-ddefnyddio/ailgylchu/compostio yn ôl deunydd a ffynhonnell , 2015
Llywodraeth Cymru , Arolwg Iechyd Cymru, 2016
Llywodraeth Cymru , Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru, 2014
Llywodraeth Cymru , Gofalwyr ifanc yn ôl awdurdod lleol a mesur, 2014
Llywodraeth Cymru , Pobl ifanc sydd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant , 2015
Llywodraeth Cymru , Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, 2014
Cymorth i Ferched Cymru, achosion o gam-drin domestig, trais rhywiol a math arall o drais yn erbyn menywod, 2016

# Mesurau Cenedlaethol Llesiant





| # | Dangosydd | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cydlynus | Cymraeg | Bydol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g. | | | | | | | |
| 2 | Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus. | | | | | | | |
| 3 | Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmygu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol). | | | | | | | |
| 4 | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer. | | | | | | | |
| 5 | Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmygu, bwyta pum ffrwyth/llysieuyn bob dydd, byth/prin yn yfed a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol). | | | | | | | |
| 6 | Mesur o ddatblygiad plant bach. | | | | | | | |
| 7 | Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.<br>(I'w ddisodli o 2017 gan y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar gyfer disgyblion blwyddyn 11) | | | | | | | |
| 8 | Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. | | | | | | | |
| 9 | Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU). | | | | | | | |
| 10 | Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen. | | | | | | | |
| 11 | Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi. | | | | | | | |
| 12 | Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod. | | | | | | | |
| 13 | Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd. | | | | | | | |
| 14 | Ôl Troed Ecolegol Cymru. | | | | | | | |
| 15 | Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen. 2 | | | | | | | |
| 16 | Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU. | | | | | | | |
| 17 | Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau. | | | | | | | |
| 18 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn. | | | | | | | |
| 19 | Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol. | | | | | | | |
| 20 | Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith. | | | | | | | |
| 21 | Y ganran o bobl mewn cyflogaeth. | | | | | | | |
| 22 | Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. | | | | | | | |
| 23 | Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. | | | | | | | |
| 24 | Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt. | | | | | | | |
| 25 | Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio. | | | | | | | |
| 26 | Y ganran o bobl sy'n fodlon a'u hardal leol fel lle i fyw. | | | | | | | |
| 27 | Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch. | | | | | | | |
| 28 | Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli. | | | | | | | |
| 29 | Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl. | | | | | | | |
| 30 | Y ganran o'r bobl sy'n unig. | | | | | | | |
| 31 | Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon. | | | | | | | |
| 32 | Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr. | | | | | | | |
| 33 | Y ganran o anheddau gyda pherfformiad ynni digonol. | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd. | | | | | | | |
| 35 | Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn. | | | | | | | |
| 36 | Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. | | | | | | | |
| 37 | Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. | | | | | | | |
| 38 | Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos. | | | | | | | |
| 39 | Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU. | | | | | | | |
| 40 | Y ganran o asedau'r amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well. | | | | | | | |
| 41 | Allyriadau o nwyon ty gwydr yng Nghymru. | | | | | | | |
| 42 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru. | | | | | | | |
| 43 | Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru. | | | | | | | |
| 44 | Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. | | | | | | | |
| 45 | Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb a'r cyrff dŵr daear sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan. | | | | | | | |
| 46 | Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. | | | | | | | |